Adolygiad

Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Castell-nedd Port Talbot

Adroddiad Rhychwantu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)

Medi 2023

Ar ran **Cyngor Castell-nedd Port Talbot**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Cyf. Prosiect: 43894 | Diw: E | Dyddiad: Mehefin 2021

Swyddfa Gofrestredig: Buckingham Court Kingsmead Business Park, London Road, High Wycombe, Buckinghamshire, HP11 1JU
Cyfeiriad Swyddfa: 5th Floor, Lomond House, 9 George Square, Glasgow G2 1DY
Ffôn: +44 (0)141 352 2360   E-bost: info.Glasgow@stantec.com

Dalen Rheoli'r Ddogfen

Enw'r Prosiect: **Adolygiad CDLl Castell-nedd Port Talbot**

Cyf. y Prosiect: **43894**

Teitl yr Adroddiad: **Adroddiad Rhychwantu ACI**

Cyf. y Ddogfen: **43894/4501/R001I7**

Dyddiad: **Medi 2023**

	Enw	Swydd	Llofnod	Dyddiad
Paratowyd gan:	Kin Lo	Uwch Ymgynghorydd Amgylcheddol	KL	08.09.2023
Adolygwyd gan:	Cathy O'Conner	Ymgynghorydd Amgylcheddol	CO	08.09.2023
Cymeradwywyd gan:	Steve Callan	Uwch Gynllunydd Cyswllt	SC	08.09.2023

Dros ac ar ran Stantec UK Limited

Diwygiad	Dyddiad	Disgrifiad	Paratowyd	Adolygwyd	Cymeradwywyd

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Stantec UK Limited ('Stantec') ar ran ei gleient, y cyfeirir yr adroddiad hwn ato ('Cleient') mewn cysylltiad â'r prosiect a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, ac mae'n cymryd i ystyriaeth gyfarwyddiadau a gofynion penodol y Cleient. Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â'r penodiad gwasanaethau proffesiynol a roddwyd i Stantec gan ei Gleient. Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti (h.y. partïon heblaw'r Cleient), ac ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu arno. Nid yw Stantec yn derbyn unrhyw ddyletswydd

na chyfrifoldeb (gan gynnwys ar ffurf esgeuluso) i unrhyw barti heblaw'r Cleient ac mae'n ymwadu pob atebolrwydd o unrhyw natur o gwbl i unrhyw barti o'r fath yng nghyswllt yr adroddiad hwn.

Cynnwys

Dalen Rheoli'r Ddogfen ii

Cynnwys 1

1 Cyflwyniad 7

1.1. Cefndir 7

1.2. Pwrpas ac Amcanion 8

1.3. Trosolwg o Adolygiad CDLl CNPT 8

1.4. Asesu'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol 11

1.5. Gofynion Statudol 12

1.6. Proses yr ACI 20

1.7. Strwythur yr Adroddiad 22

2 Cyd-destun Adolygiad CDLl CNPT 25

2.1. Cyflwyniad 25

2.2. Ffeithiau Allweddol Adolygiad CNPT 25

2.3. Ffurf a Chynnwys Arfaethedig CDLlA CNPT 25

3 Penderfyniad Sgrinio Drafft yr AAS 29

3.1. Cyflwyniad 29

3.2. Yr Angen am Sgrinio AAS 29

3.3. Penderfyniad Sgrinio AAS Drafft 30

4 Materion Cynaliadwyedd Allweddol 34

4.1. Cyflwyniad 34

4.2. Materion Cynaliadwyedd Allweddol 34

4.3. Perfformiad Cynaliadwyedd y CDLl a Fabwysiadwyd gan CNPT (2016)... 36

4.4. Y Berthynas rhwng Adolygiad y CDLl a Chynlluniau a Rhaglenni Perthnasol Eraill.. 48

5 Fframwaith ACI Arfaethedig CDLlA CNPT 52

5.1. Cyflwyniad.. 52

5.2. Crynodeb o Fframwaith AC Presennol Adolygiad y CDLl 52

5.3. Adolygu Fframwaith AC CDLl Presennol CNPT.......................... 53

5.4. Cwmpas Arfaethedig yr ACI ac Amcanion ar gyfer Adolygiad y CDLl 69

5.5. Amcanion ACI Arfaethediad Adolygiad CDLl CNPT 77

5.6. Fframwaith ACI Arfaethedig ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT....... 89

6 Methodoleg Arfaethedig yr ACI a Threfniadau Ymgynghori 111

6.1. Cyflwyniad... 111

6.2. Adroddiadau ACI Arfaethedig 111

6.3. Methodoleg Arfaethedig yr ACI 113

6.4. ACI o Strategaethau Gofodol a Pholisïau Arfaethedig 118

6.5. ACI o Ddyraniadau Safleoedd Ymgeisiol 123

6.6. Asesiad o Effeithiau Cronnol ac Effeithiau Synergaidd 125

6.7. ACI o Ddewisiadau Amgen Rhesymol 126

6.8. Cyflwyno Canfyddiadau Allweddol yr ACI 128

6.9. Trefniadau Ymgynghori Arfaethedig yr ACI 128

7. Crynodeb a'r Camau Nesaf 130

7.1. Trosolwg 130

Atodiad A Adolygiad Gwaelodlin 131

A.1. Cyflwyniad 131

A.2. Trosolwg o'r Safleoedd Dynodedig 132

Dynodiadau Treftadaeth Ddiwylliannol 159

A.3. Amodau Gwaelodlin Amgylcheddol a Sosio-economaidd 168

A.4. Esblygiad Amodau Gwaelodlin yn Absenoldeb Adolygiad y CDLl 241

Atodiad B: Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni 245

B.1. Cyflwyniad 245

B.2. Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni Perthnasol 245

B.3. Adolygiad o Ofynion Polisi Cynllunio Cenedlaethol 330

Cymru'r Dyfodol 2040: y Cynllun Cenedlaethol (Chwefror 2021) 330

Goblygiadau Pandemig Covid-19 330

Goblygiadau Brexit 331

Atodiad C Meini Prawf Sgorio ar gyferAsesu Safleoedd Ymgeisiol 419

Tabl 1.1: Thestr o'r Byrfoddau

Thestr o'r Byrfoddau	Thestr o'r Byrfoddau
AMB	Adroddiad Monitro Blynyddol
LlCD/DPM	Llawlyfr Cynlluniau Datblygu
AEG/EqIA	Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb
AEA/EIA	Asesiad Effaith Amgylcheddol
AA/ER	Adroddiad Amgylcheddol
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
AEI/HIA	Asesiad Effaith ar Iechyd
ARhC	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
ACI	Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig
CDLl	Cynllun Datblygu Lleol
ACLl	Awdurdod Cynllunio Lleol
EAD/LSE	Effaith arwyddocaol debygol
ATC/NGA	Ardal Twf Cenedlaethol
GNG	Gwarchodfa Natur Genedlaethol
CBSCNPT	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd

CCNPT	Cyngor Castell-nedd Port Talbot
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
BGCCNPT	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT
PCPA	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol
PCC/PPW	Polisi Cynllunio Cymru
PWA	Deddf Cynllunio (Cymru)
RhEC/REN	Rhwydweithiau ecolegol cydnerth
ATRh/RGA	Ardaloedd Twf Rhanbarthol
CDLlA	Cynllun Datblygu Lleol Amnewid
CR/RR	Cofrestr Risgiau
AC	Arfarniad Cynaliadwyedd
ACA	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
BDdBA/SBCD	Bargen Ddinesig Bae Abertawe
AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol
CDS	Cynllun Datblygu Strategol
SoNaRR	Ail Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol
ADdA/SPA	Ardal Ddiogelu Arbennig

CCA	Canllaw Cynllunio Atodol
AChS	Ardaloedd Chwilio Strategol
SoDdGA	Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
TAN	Nodiadau Cyngor Technegol
DeddfLlCD/WBFGA	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
LlC	Llywodraeth Cymru

1 Cyflwyniad

1.1. Cefndir

1.1.1 Mae Stantec UK wedi cael ei gomisiynu gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot (CCNPT) i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) o Adolygiad Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) CNPT a Chynllun Datblygu Lleol Amnewid CNPT (CDLlA) sy'n dod i'r amlwg ('y CDLlA sy'n dod i'r amlwg').

1.1.2 Mae'r adroddiad hwn yn gam cyntaf mewn proses ACI i nodi, asesu ac ymdrin mewn modd integredig ag unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd (gan gynnwys Safleoedd Ewropeaidd), cynaliadwyedd, iechyd a chydraddoldebau cynnal Adolygiad CDLl CNPT (gan arwain at baratoi'r CDLlA). Mae'r adroddiad yn amlinellu'r dull arfaethedig o gynnal proses yr ACI, gan ymgorffori cyfres o brosesau asesu statudol ac anstatudol:

- **Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)** fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ('Deddf 2004') a Rheoliadau Cynllunio Datblygu (Cymru) 2005 ('Rheoliadau 2005');
- **Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)** fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 ('y Rheoliadau AAS');
- Cefnogi gweithrediad **nodau llesiant ac amcanion llesiant** (a chyflawni dyletswyddau cysylltiedig) fel sy'n ofynnol o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WBFGA)**. Mae angen i baratoi'r CDLlA ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol;
- **Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** (EqIA) o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- **Asesiad Effaith ar Iechyd** (AEI) – anstatudol, ond angenrheidiol i gefnogi prosesau AAS, AEG ac asesu llesiant cadarn; ac,
- **Asesiad effaith ar y Gymraeg** fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a Pholisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 10.

1.2. Pwrpas ac Amcanion

1.1.3 Pwrpas y broses ACI hon yw nodi, asesu a, lle bo hynny'n briodol, rhoi sylw i effeithiau arwyddocaol tebygol Adolygiad CNPT o'r CDLl ('Adolygiad y CDLl') ar yr amgylchedd (gan gynnwys Safleoedd Ewropeaidd), iechyd, materion cydraddoldeb, llesiant a defnydd o'r Gymraeg. Dylid gweld yr ACI fel offeryn allweddol ar gyfer creu cynlluniau, ac fe'i defnyddir ar hyd Adolygiad y CDLl i lywio'r gwaith o baratoi'r CDLlA er mwyn mwyafu ei effeithiolrwydd, yn hytrach nag adrodd yn ôl-weithredol ar yr effeithiau tebygol yn unig.

1.1.4 Mae dau ddiben i'r adroddiad hwn, sef:

- Ceisio barn Cyrff Ymgynghori'r AAS[1] ac ymgyngoreion eraill perthnasol ar y fframwaith asesu a'r fethodoleg arfaethedig ar gyfer cynnal ACI cadarn sy'n cydymffurfio'n gyfreithiol o Adolygiad CDLl CNPT, yn unol â'r gofynion statudol perthnasol; a hefyd
- Ceisio barn Awdurdodau Ymgynghori'r AAS ar benderfyniad sgrinio AAS drafft er mwyn bodloni gofynion gweithdrefnol a chadarnhau bod angen ymgorffori AAS yn yr AC.

1.2.3 Bydd y fersiwn hon o'r Adroddiad Rhychwantu ACI yn cael ei diweddaru ar ôl ymgynghori er mwyn rhoi sylw i'r materion perthnasol a godwyd gan ymgyngoreion.

1.3. Trosolwg o Adolygiad CDLl CNPT

1.1.5 CCNPT yw'r awdurdod unedol sy'n gyfrifol am lywodraeth leol ar draws ardal 442km^2 o Dde Cymru, fel y dangosir yn **Ffigur 1.1**. Mae CCNPT yn rhan o Ranbarth De-orllewin Cymru (fel y nodwyd yn Cymru'r Dyfodol 2040: fframwaith y Cynllun Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol) ac ardal y Cynllun Datblygu Strategol. Mae hynny'n cynnwys ardaloedd ALlau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Abertawe a CNPT. Yr awdurdodau

[1] Diffinnir Cyrff Ymgynghori'r AAS gan y Rheoliadau AAS fel Cadw a Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cael ei thrin fel Corff Ymgynghori AAS at ddibenion yr ACI hwn.

cymdogol yw Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Powys a Sir Gaerfyrddin.

1.1.6 Mae CCNPT hefyd yn rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe, buddsoddiad o £1.3bn a sicrhawyd gan Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe ar gyfer 11 o brosiectau mawr ar draws Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a CNPT. Ers diwedd Mai 2019, CCNPT hefyd yw'r awdurdod lletya ar gyfer y Cydbwyllgor Craffu sy'n hyrwyddo ac yn hwyluso prosiectau rhwng yr awdurdodau sy'n ymwneud â'r Fargen Ddinesig.

Ffigur 1: Ffin Cyngor CNPT

1.1.7 Mae CCNPT wedi cynnal gwaith monitro rheolaidd ers mabwysiadu'r CDLl yn 2016. Rhwng Ionawr a Mawrth 2020 bu'r Cyngor yn ymgynghori ar Adroddiad Adolygiad CDLl Drafft, yn unol â'r gofynion statudol. Nododd yr Adroddiad Adolygiad CDLl Drafft hwn y dylai CDLl cyfredol CNPT fod yn destun 'Adolygiad Llawn', i'w gynnal yn unol â Rheoliadau 2005. Wedi hynny cymeradwywyd Adroddiad Adolygiad y CDLl a'i gyhoeddi gan CCNPT ym mis Gorffennaf 2020.

1.1.8 Mae angen yr adolygiad ('Adolygiad y CDLl') er mwyn i CCNPT fedru paratoi a mabwysiadu CDLlA er mwyn sicrhau bod y cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal CCNPT yn parhau wedi'i ddiweddaru, gan gymryd i ystyriaeth Cymru'r Dyfodol 2040, sydd hefyd yn awr yn rhan o gynllun datblygu statudol yr Awdurdod. Yn arbennig, mae angen CDLlA i gymryd i ystyriaeth ystod o Ddeddfau, fframweithiau polisi, mentrau, tystiolaeth a materion gofodol newydd ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol ers i'r CDLl cyfredol gael ei fabwysiadu.

1.1.9 Wedi i Adroddiad yr Adolygiad gael ei gymeradwyo, paratodd y Cyngor Gytundeb Cyflawni a gymeradwywyd wedi hynny gan LlC. Pan gafodd ei gymeradwyo, cychwynnodd y Cyngor y gwaith o baratoi'r CDLlA ym mis Ionawr 2022, gyda Galwad am Safleoedd rhwng Mawrth a Mai 2022. Dangosodd canfyddiadau cychwynnol yr Alwad am Safleoedd, ochr yn ochr â gwybodaeth a gafwyd o AMB y Cyngor a rhagamcanion twf, fod angen nodi tir ychwanegol ar gyfer tai yn ogystal â'r seilwaith presennol, a bod rhai materion dichonoldeb yr oedd angen amser ychwanegol i'w goresgyn. O ystyried hyn, penderfynodd y Cyngor roi'r gorau i'r gwaith o baratoi'r CDLlA a dechrau eto, gan baratoi Cytundeb Cyflawni newydd. Mae'r CC newydd yn amlinellu'r terfynau amser ar gyfer paratoi'r CDLlA newydd, a fydd yn cwmpasu cyfnod y cynllun, sef 2023-2038, gan ddechrau gyda Galwad am Safleoedd ym mis Tachwedd 2023.

1.1.10 Fel rhan o ailgychwyn y CDLlA, mae'r Cyngor wedi paratoi'r Adroddiad Rhychwantu ACI newydd hwn. Mae'r ddogfen yn cynnwys y Fethodoleg ar gyfer Asesu Safleoedd Ymgeisiol, a bydd ar gael ar gyfer ymgynghori statudol am 5 wythnos.

1.4. Asesu'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol

1.1.11 Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol yw'r cam cyntaf ffurfiol yng nghyfnodau paratoi'r CDLlA ar ôl cytuno ar y CC a'i gyhoeddi. Trwy'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, mae'r Cyngor yn gwahodd datblygwyr, tirfeddianwyr, hyrwyddwyr safleoedd, cyrff cyhoeddus, darparwyr - gwasanaethau ac eraill sydd â diddordeb mewn tir i gyflwyno safleoedd y maent am iddyn gael eu hystyried fel dyraniadau posibl i'w datblygu neu eu diogelu.

1.1.12 Isod rhestrir gwahanol gamau Asesu'r Safleoedd Ymgeisiol:

- Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol
- Paratoi'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol
- Cyhoeddi'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol
- Cyfnod 1 Asesiad Cychwynnol o'r Safleoedd Ymgeisiol
- Cyfnod 2 Asesiad Manwl o'r Safleoedd Ymgeisiol – Cais am Wybodaeth Ychwanegol
- Cyfnod 2 Asesiad Manwl o'r Safleoedd Ymgeisiol
- Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir
- Adolygiad o Wybodaeth ar Ôl Ymgynghori Strategaeth a Ffefrir Cyflwynwyd
- Ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau
- Ymgynghoriad ar y Cynllun Ôl-Adneuo

1.1.13 Er mwyn bod mor effeithiol â phosibl, bydd yr Asesiad o'r Safleoedd Ymgeisiol yn ymgorffori'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol, i osgoi dyblygu'r asesu. Mabwysiadir set a fireiniwyd o ddangosyddion cynaliadwyedd a system sgorio dryloyw fel bod modd i hyrwyddwyr darpar safleoedd ystyried perfformiad tebygol eu safle ymgeisiol yn erbyn y meini prawf asesu (Gweler **Adran 5.4 ac Atodiad C**).

1.1.14 Yn ogystal â'r dangosyddion cynaliadwyedd, bydd angen cymryd nifer o feini prawf addasrwydd eraill i ystyriaeth wrth asesu safleoedd. Rhestrir y rhain isod:

- Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol;
- Cydnawsedd â defnyddiau cymdogol (golau, sŵn);
- Ardaloedd Cadwraeth a'u lleoliadau;
- Seilwaith rheilffordd neu gludo nwyddau nad yw'n cael ei ddefnyddio;
- Defnydd presennol o'r safle;
- Lletem las;
- Halogi tir;
- Ansefydlogrwydd tir;
- Ardaloedd Diogelu Mwynau;
- Ardal a Ragaseswyd ar gyfer Datblygiad Gwynt;
- Ardaloedd tawel;
- Mynediad diogel i'r safle i bob defnyddiwr;
- Dilyniant chwilio safle (gweler PCC, Paragraffau 3.41-3.48);
- Dull gweithredu dilyniannol mewn polisi cenedlaethol (gweler Cymru'r Dyfodol Polisi 6 a PCC Paragraffau 4.3.18-4.3.24) ar gufer manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus;
- SuDS;
- Dŵr (gan gynnwys halogi dŵr daear);
- A fyddai datblygiad yn arwain at golli meysydd chwarae presennol a/neu ardaloedd hamdden;
- A fyddai'r safle yn arwain at ailddatblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol (gweler PCC, tt. 37); a'r
- Arfordir heb ei ddatblygu.

1.4.5 Cynhaliwyd galwad gychwynnol am Safleoedd Ymgeisiol yn 2022 fel rhan o ddechrau gwreiddiol y gwaith ar y CDLlA. Bydd safleoedd a gyflwynwyd bryd hynny yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon hefyd.

1.5. Gofynion Statudol

1.1.15 Mae'r adran hon yn darparu adolygiad cryno o'r ystod o ofynion statudol a fydd yn derbyn sylw trwy gynnal ACI o Adolygiad y CDLl.

Paratoi ac Adolygu'r CDLl

1.1.16 Mae cyhoeddi Adroddiad Drafft Adolygiad y CDLl (CCNPT, 2020) wedi sbarduno proses a fydd yn arwain at baratoi a mabwysiadu CDLlA ar gyfer ardal CCNPT. Mae'r gofynion statudol sy'n ymwneud â pharatoi CDLliau yn awr yn berthnasol, felly, i Adolygiad y CDLl, gan gynnwys mewn perthynas ag AC ac AAS. Cyflwynir y dull gweithredu, y terfynau amser a'r trefniadau ymgynghori arfaethedig ar gyfer Adolygiad y CDLl fel rhan o Gytundeb Cyflawni Drafft CDLl CNPT (2023), sy'n cyd-fynd â'r Adroddiad Rhychwantu hwn yn unol â Rheoliadau CDLl 2005 (fel y'u newidiwyd).

1.1.17 Mae'r Adroddiad Rhychwantu ACI hwn wedi cael ei baratoi yng nghyd-destun yr ymgynghoriad ar yr Adroddiad Adolygiad CDLl Drafft, gan gynnwys cymryd ymatebion ymgynghori perthnasol i ystyriaeth. Er bod pob adroddiad yn cyflawni gofynion statudol gwahanol, o'u darllen gyda'i gilydd maent yn darparu sylfaen gynhwysfawr, wedi'i diweddaru, o dystiolaeth ynghylch y materion allweddol (cynllunio gofodol, cynaliadwyedd, cydraddoldeb, iechyd, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, etc) i mae angen rhoi sylw i bob un ohonynt yn Adolygiad y CDLl a'r prosesau asesu effaith cysylltiedig.

Arfarniad Cynaliadwyedd

1.1.18 O dan Adran 62(6) o Ddeddf 2004, mae angen i CDLliau sy'n dod i'r amlwg fod yn destun AC, sy'n statudol ofynnol er mwyn arwain y broses o ddethol a datblygu polisïau a chynigion i'w cynnwys mewn CDLliau o ran eu heffeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd posibl. Bydd angen i'r AC sy'n ofynnol ar hyn o bryd ar gyfer Adolygiad y CDLl adeiladu ar yr AC, gan ymgorffori AAS, a baratowyd ar gyfer y CDLl 2011-2026 CNPT (a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2016). Gan mai gweithdrefn 'Adolygiad Llawn' sy'n cael ei defnyddio, bydd Adolygiad y CDLl yn adlewyrchu'r broses o baratoi'r CDLl gwreiddiol, i bob pwrpas, ac yn arwain at baratoi a mabwysiadu CDLlA (yn hytrach na bod y CDLl presennol yn destun newidiadau unigol yn unig).

1.1.19 Wrth gynnal AC, mae LlC yn gofyn i ACLl ystyried gwerth a chyfleoedd i ddefnyddio dull asesu integredig wrth baratoi CDLl. Mae Paragraff 4.5 o Argraffiad 3 o'r LlCD (2020) yn barnu "*Bydd integreiddio elfennau statudol ac allweddol megis gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac Asesiad Effaith ar Iechyd (AEI) (lle bo hynny'n berthnasol) i greu un Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) yn golygu bod modd cynnal asesiad mwy tryloyw, cyfannol a chyflawn o oblygiadau cynaliadwyedd opsiynau twf, amcanion, polisïau a chynigion*". O ganlyniad, er mwyn cyflawni'r manteision hyn ochr yn ochr â bodloni gofynion statudol perthnasol, mae ACI i gael ei gynnal ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT. Mae'r Adroddiad Rhychwantu ACI hwn yn cynrychioli cam cyntaf y broses hon.

<u>Asesiad Amgylcheddol Strategol</u>

1.1.20 Mae Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 fel y'u newidiwyd ('y Rheoliadau AAS') yn gofyn bod Awdurdodau Cyfrifol, gan gynnwys awdurdodau lleol fel CCNPT, yn asesu effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol rhoi cynlluniau a rhaglenni perthnasol ar waith, fel y diffiniwyd yn y rheoliadau. Mae'r Rheoliadau AAS hefyd yn gofyn bod Awdurdodau Cyfrifol yn archwilio effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol dewisiadau amgen rhesymol yn lle'r cynllun neu'r rhaglen sydd dan sylw. Lle bo gofyn, mae'r asesiad i gael ei baratoi yn dilyn proses o gyfnodau adrodd a elwir yn Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS).

1.1.21 Yn unol â gofynion y Rheoliadau AAS, defnyddir y termau canlynol ar hyd yr adroddiad hwn:

- Mae 'effeithiau amgylcheddol' yn cyfeirio at yr effeithiau ar bob ffactor amgylcheddol a ragnodwyd yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau AAS, gan gynnwys "*poblogaeth*", "*iechyd*" ac "*asedau materol*" yn yr ystyr ehangaf, sydd felly'n cynnwys rhoi sylw i faterion cymdeithasol, economaidd a chysylltiedig â seilwaith. Mae materion diwylliannol, gan gynnwys y Gymraeg, hefyd yn derbyn sylw o dan bwnc AAS treftadaeth ddiwylliannol. Mae'r dull gweithredu hwn yn helpu i sicrhau cyfrannedd

yr asesu a'r integreiddio rhwng yr AAS a phrosesau asesu statudol eraill a gyflawnir fel rhan o'r ACI hwn; ac,

- Mae'r term 'effeithiau arwyddocaol tebygol' yn cyfeirio at yr holl effeithiau tebygol y bernir, o'u hasesu ar sail wrthrychol, eu bod yn arwyddocaol (mewn cyferbyniad â rhai heb fod yn arwyddocaol), ac felly bod angen adrodd amdanynt yng nghyd-destun y Rheoliadau AAS. Gall fod angen adrodd am effeithiau o'r fath hefyd yn unol â gofynion statudol perthnasol eraill (gweler isod).

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.1.22 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) yn ceisio rhoi Cymru'n uniongyrchol ar lwybr cynaliadwy at wella llesiant. Mae Deddf LlCD yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yn cyflawni datblygu cynaliadwy, a ddiffinnir[2] fel a ganlyn:

1.1.23 Ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy gymryd camau, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r bwriad o gyflawni'r nodau llesiant."

1.1.24 Mae Deddf LlCD yn rhagnodi saith Nod Llesiant cenedlaethol sydd i'w cyflawni trwy'r Pum Ffordd o Weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi'u cyflawni wrth ymgymryd â'u dyletswydd datblygu cynaliadwy (gweler adran 5 o'r adroddiad hwn). Ymhellach, mae'n gofyn bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (sy'n cynnwys awdurdodau lleol ac asiantaethau partner) yn diffinio amcanion llesiant lleol.

1.1.25 Mewn ymateb i'r ddyletswydd hon, mae Y CNPT a Garem (Cynllun Llesiant 2018-2023) yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT ar gyfer yr ardal, yn ogystal â blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn ystod cyfnod y cynllun. Mae'n nodi chwe amcan llesiant sydd i'w defnyddio i arwain a chyflawni gwelliannau llesiant ar gyfer pobl leol yn yr ardal. Manylir ar y rhain yn adran 5 o'r adroddiad hwn.

---

[2] Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 Adran 2 yn cyflwyno'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ar gyfer y system gynllunio ac yn cyfeirio'n uniongyrchol at y diffiniad yn Neddf LlCD

1.1.26 O ganlyniad, er nad oes gofyniad statudol penodol i gyhoeddi Asesiad LlCD mewn perthynas ag Adolygiad y CDLl, mae angen i CCNPT ddangos ar hyd Adolygiad y CDLl sut mae eu CDLlA sy'n dod i'r amlwg yn cydymffurfio â dyletswydd Adran 3 (dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy). Yn ymarferol, mae hynny'n golygu y dylai'r ACI adrodd yn benodol ar effeithiau tebygol y CDLlA sy'n dod i'r amlwg ar lesiant, y nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant lleol.

1.1.27 Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 2020 (3ydd Argraffiad) yn gofyn bod CDLliau yn arddangos sut maent yn cyfrannu at gyflawni'r nodau a'r amcanion llesiant a'r pum ffordd o weithio, gan nodi y dylai'r bwriadau hynny fod yn rhan annatod o baratoi'r Adroddiad Rhychwantu a datblygu fframwaith terfynol yr AC wedi hynny i asesu opsiynau twf, amcanionm polisïau a chynigion y Cynllun (Para 4.10 a 4.12). Rhaid i bob un o'r cyrff sy'n gwneud penderfyniadau arddangos cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

1.1.28 Cyflwynir y gofynion statudol i osgoi camwahaniaethu ac asesu'r effeithiau tebygol ar gydraddoldeb yn sgîl polisïau, rhaglenni a phrosiectau sy'n dod i'r amlwg yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Daeth Senedd y Deyrnas Unedig â'r ddeddfwriaeth hon i rym er mwyn cyfuno deddfwriaeth flaenorol yn erbyn camwahaniaethu a gweithredu pedair prif Gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar Driniaeth Gyfartal[3].

1.1.29 I'r graddau y mae polisïau a chynigion y CDLl yn effeithio ar fynediad at wasanaethau, amwynderau, cyfleoedd economaidd a gweithgareddau cymdeithasol, mae gweithredu Adolygiad y CDLl (fydd yn arwain at fabwysiadu CDLlA) yn debygol o gael gwahanol effeithiau ar wahanol grwpiau demograffig, pobl â nodweddion gwarchodedig a'r rhai sy'n wynebu anfantais sosio-economaidd. Gallai helpu hefyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng gwahanol adrannau o'r gymdeithas ac effeithio ar gyflawni polisïau

---

[3] Cyfarwyddebau UE 2000/78/EC, 2000/43/EC, 2006/54/EC (i gyd wedi dod i rym) a Chyfarwyddeb arfaethedig COM/2008/0426 terfynol - CNS 2008/0140

eraill a sefydliadau sy'n gweithio i ymdrin ag anghydraddoldeb cymdeithasol. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Sosio-economaidd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i Adolygiad y CDLl, sy'n golygu y bydd yr ACI yn ymgorffori asesiad effaith cymesur ar gydraddoldeb (EqIA) er mwyn rhoi sylw i ofynion y ddwy ddyletswydd.

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

1.1.30 Mae Adran 149 o'r Ddeddf yn cyflwyno 'dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus' sy'n gofyn bod awdurdodau cyhoeddus, wrth ymarfer eu swyddogaethau, yn *"rhoi sylw dyledus i'r angen am y canlynol:*

a. *dileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf hon;*

b. *hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;*

c. *meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu."*

1.1.31 Nodir y nodweddion gwarchodedig y cyfeirir atynt yn y ddyletswydd hon yn Adran 4 o'r Ddeddf, sef: Oedran; Anabledd; Ailbennu rhywedd; Priodas a Phartneriaeth sifil; Beichiogrwydd a mamolaeth; Hil; Crefydd neu gred; Rhyw; a Chyfeiriadedd rhywiol.

Y Ddyletswydd Sosio-economaidd

1.1.32 Ym mis Mawrth 2021 cychwynnodd LlC ar y Ddyletswydd Sosio-economaidd o dan Adrannau 1-3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddyletswydd Sosio-economaidd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried yn weithredol sut y gallant, trwy eu penderfyniadau strategol, leihau canlyniadau anghyfartal a achosir gan anfantais sosio-economaidd. Mae hyn yn wahanol i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sy'n ystyried lleihau anghydraddoldeb cyfle yn unig. Fodd bynnag, mae'r Ddyletswydd Sosio-economaidd yn nodi bod angen ystyried 'cymunedau lle' a 'chymunedau budd' o ran pobl sy'n rannu profiad ac y mae anfantais sosio-economaidd yn effeithio'n arbennig arnynt.

1.1.33 Gellir ystyried grwpiau demograffig sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a restrir yn Adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn 'cymunedau budd', sy'n golygu bod cysylltiad uniongyrchol rhwng y Ddyletswydd Sosio-economaidd a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

1.1.34 Mae'r Ddyletswydd Sosio-economaidd yn berthnasol i Adolygiad y CDLl oherwydd bod awdurdodau lleol yn gyrff rhagnodedig ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac mae paratoi CDLlA yn aml yn enghraifft o CCNPT yn gwneud penderfyniadau strategol eu natur ynghylch ei swyddogaethau statudol.

Asesiad Effaith ar Iechyd

1.1.35 Er nad oes gofynion statudol o ran cynnal AEI ar gyfer cynlluniau neu raglenni sy'n dod i'r amlwg, mae'r Rheoliadau AAS yn gofyn bod unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar iechyd dynol yn cael eu hasesu fel rhan o asesiad amgylcheddol ehangach. Dylid rhoi sylw hefyd i unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol tebygol a nodwyd ar yr amgylchedd, gan gynnwys mewn perthynas â iechyd dynol, trwy weithredu mesurau lliniaru addas lle bo hynny'n briodol. Mae asesu'r effeithiau tebygol ar iechyd hefyd yn uniongyrchol berthnasol i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a gyflwynwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010, gan fod anghydraddoldeb sosio-economaidd yn cael ei gydnabod fel un o benderfynyddion allweddol iechyd.

1.1.36 Mae Paragraff 4.16-4.17 yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 2020 (3ydd Argraffiad) yn amlygu'r gofyniad yn Neddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 am gynnal AEI gan gyrff cyhoeddus. Er nad oes gofyniad statudol yn nodi pryd dylid cyflawni HIA, mae'n amlinellu rôl yr AEI yng Nghymru i gynorthwyo llunwyr polisi i fwyafu'r buddion posibl a nodi/lliniaru effeithiau negyddol posibl ar iechyd a llesiant. Wrth greu cynlluniau yn y dyfodol, mae'n rhaid i ACLlau roi sylw i'r gofyniad am HIA a'i gynnwys, fel y nodwyd mewn deddfwriaeth a chanllawiau pellach, ar ôl ei gyhoeddi.

1.1.37 O ganlyniad, bydd yr ACI hwn yn ymgorffori AEI er mwyn dangos cydymffurfiaeth â gofynion AAS ac AEG sy'n gysylltiedig ag asesu effeithiau tebygol ar iechyd yn sgîl Adolygiad y CDLl sy'n dod i'r amlwg.

Asesiad Effaith ar y Gymraeg

1.1.38 Mae Mesur a Safonau'r Gymraeg (Cymru) 2011 yn gofyn bod yr effeithiau canlynol yn cael eu hystyried:

- Pa effaith, os o gwbl, byddai'r CDLl yn ei chael ar y cyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r iaith Gymraeg, neu drin y Gymraeg mewn modd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg;
- Sut gallai'r CDLl gael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar y cyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu drin y Gymraeg mewn modd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg; a
- Sut gellid datblygu'r CDLl i sicrhau nad oes ganddo neu ei fod yn lleihau unrhyw effeithiau niweidiol a gâi'r penderfyniad polisi ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu drin y Gymraeg mewn modd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg.

1.1.39 Yn unol â gofynion statudol, PCC a disgwyliadau Llywodraeth Cymru, mae'r ACI yn ymgorffori asesiad cymesur o'r effeithiau tebygol ar ddefnydd o'r Gymraeg.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.1.40 Mae Rheoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ('y Rheoliadau ARhC') yn gofyn bod rhaid cynnal ARhC i ddangos cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau statudol a gyflwynir yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Rheoliadau Cynefinoedd, lle bernir bod cynllun neu brosiect yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar Safleoedd Ewropeaidd ac nid yw'n uniongyrchol gysylltiedig â rheoli'r safle nac yn angenrheidiol ar gyfer hynny. Mae cyfraith achosion wedi cadarnhau bod gofynion ARhC yn berthnasol i baratoi cynlluniau lleol at ddibenion cynllunio gwlad a thref, gan gynnwys CDLliau, sy'n golygu bod rhaid cynnal proses ARhC ar gyfer Adolygiad y CDLl.

1.1.41 Er bod cysylltiadau rhwng AAS ac ARhC, yng ngoleuni'r gofynion asesu penodol a ragnodwyd gan y Rheoliadau ARhC a deddfwriaeth a chyfraith achosion Ewropeaidd cysylltiedig, adroddir ARhC Adolygiad CDLl CNPT ar wahân i'r ACI. Fodd bynnag, yn y cyfnod cychwynnol hwn, ac yn absenoldeb unrhyw ofynion Rhychwantu ARhC ffurfiol, bernir ei fod yn briodol i'r Adroddiad Rhychwantu ACI hwn nodi'r holl Safleoedd Ewropeaidd perthnasol i'w hystyried ym mhrosesau dilynol yr ACI a'r ARhC.

1.1.42 Er mwyn gwahaniaethu rhwng yr effeithiau a aseswyd yng nghyd-destun Rheoliadau'r AAS a'r ARhC, defnyddir y term "*Effeithiau Arwyddocaol Tebygol*" (gyda phriflythrennau) ar hyd yr adroddiad hwn i gyfeirio at yr effeithiau hynny y bernir eu bod yn arwyddocaol yn unig yng nghyd-destun Rheoliad 63 o'r Rheoliadau ARhC.

1.6. Proses yr ACI

1.1.43 Trwy gadw at y gofynion statudol uchod ar ffurf dull gweithredu cyfannol, mae Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn un o'r dulliau allweddol o sicrhau bod creu cynlluniau yn gallu cyflawni datblygu cynaliadwy. O'i ddefnyddio yn y modd hwn o gychwyn proses y CDLl, mae Rhychwantu ACI yn offeryn ar gyfer creu cynlluniau, yn hytrach na mecanwaith adrodd yn unig, a gellir ei ystyried ar ffurf 3 phrif gam;

- **Sgrinio a Rhychwantu:**
    - Tra bod Rheoliad 5(3) yn dyfarnu bod AAS yn ofynnol mewn perthynas â pharatoi CDLl, mae Rheoliadau 5(6) a 9(1) yn gofyn bod "mân addasiadau" i gynllun neu raglen sydd eisoes yn bodoli yn cael eu sgrinio yn gyntaf i benderfynu a yw'r addasiadau'n debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd, ac felly a oes angen cynnal AAS llawn. Mae'r LlCD yn parhau i nodi'n eglur bod sgrinio AAS yn ofynnol ar gyfer pob Adolygiad CDLl gan fod y CDLl sydd eisoes yn bodoli, mewn termau cyfreithiol, yn cael ei adolygu'n unig, a gallai hynny olygu "mân addasiadau", er nad yw'r Rheoliadau AAS yn diffinio cwmpas y term hwnnw. Mae'r Adroddiad Rhychwantu ACI

hwn yn nodi Penderfyniad Sgrinio AAS drafft i Gyrff Ymgynghori'r AAS ei ystyried (Adran 3).

- O ran Rhychwantu mae rhaid i Awdurdodau Cyfrifol ddarparu gwybodaeth ddigonol i Gyrff Ymgynghori'r AAS i'w galluogi i ystyried cwmpas arfaethedig, lefel manylder a chyfnod ymgynghori 'Adroddiad Amgylcheddol' (AA) i gyd-fynd â'r cynllun neu'r rhaglen sy'n dod i'r amlwg. Lle caiff AAS ei ymgorffori mewn AC mae modd cyfnewid y term AA am Adroddiad AC, gan fod yr olaf o reidrwydd yn cynnwys yr holl wybodaeth a fyddai'n ofynnol mewn AA annibynnol. Er nad oes gofyniad statudol penodol i ymgymryd â Rhychwantu mewn perthynas ag AEG, AEI, Asesiad Deddf LlCD ac Asesiad o safbwynt yr Iaith Gymraeg, mae proses Rhychwantu'r AC yn codi angen tebyg am 'fframio asesiad' er mwyn cynnal asesiad cymesur o'r rhain. O ganlyniad, mae angen cadarnhau cwmpas yr ACI ym mhob agwedd, gan sicrhau cadernid a chymesuredd ar hyd y broses.

- **Asesu**: Fel y nodwyd uchod, o ran AC, mae Adran 62(6) o Ddeddf 2004 yn gofyn bod Awdurdodau Cyfrifol sy'n paratoi CDLl yng Nghymru yn "*cynnal arfarniad cynaliadwyedd o'r cynigion*" oddi mewn iddo ac yn "*paratoi adroddiad ar ganfyddiadau'r arfarniad*". Gan y bydd Adolygiad y CDLl yn broses iterus ac yn adolygiad o'r CDLl presennol mewn termau cyfreithiol, bydd angen i Adroddiad ACI gyd-fynd â phob elfen sylweddol o'r CDLlA wrth iddo ddod i'r amlwg, yn arbennig wrth baratoi dogfennau'r CDLl Cyn-Adnau ac wedi hynny'r CDLl Adnau. Rhaid ymgynghori ar bob Adroddiad ACI ochr yn ochr â'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg, gydag Adroddiad ACI y Ddogfen CDLl Adnau derfynol yn cael ei gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru i gefnogi archwiliad annibynnol o'r CDLlA. Yn yr un modd, mae Rheoliad 12 o'r Rheoliadau AAS yn gofyn bod Awdurdodau Cyfrifol yn paratoi ac yn ymgynghori ar AA er mwyn "*nodi, disgrifio a gwerthuso'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd yn sgîl gweithredu*" pob iteriad o gynllun perthnasol a chymwys, yn ogystal ag effeithiau'r dewisiadau amgen rhesymol. Fel uchod, dylid diffinio cwmpas, lefel manylder a chyfnod ymgynghori'r ACI, gan ymgorffori'n llawn holl ofynion

yr AAS, trwy sgrinio a rhychwantu yn gyntaf. **Yn unol** ag arfer gorau a sefydlwyd yn y LlCD, mae'r ACI yn cyfuno'r gofynion statudol mewn un broses gydlynus. Mae hynny'n cynnig cyfle i asesu pob cam o'r CDLl sy'n dod i'r amlwg yn iterus o ran AEG, AEI, Asesiad Deddf LlCD (yn ogystal ag Asesiad Effaith ar y Gymraeg, y mae'n gyfreithiol ofynnol ei ymgorffori yn yr AC); a hefyd

- **Ar ôl Mabwysiadu:** Erbyn diwedd proses Adolygiad y CDLl, bydd CDLlA wedi cael ei fabwysiadu ar gyfer holl ardal CCNPT. O ran AC, unwaith mae CDLlA wedi cael ei fabwysiadu, mae'n rhaid i CCNPT baratoi datganiad yn nodi, ymhlith pethau eraill, sut mae ystyriaethau amgylcheddol yr AAS wedi cael eu cymryd i ystyriaeth yn y CDLl a fabwysiadwyd, a sut bydd effeithiau arwyddocaol tebygol y CDLl ar yr amgylchedd (fel y'u rhagfynegwyd trwy'r AC/AAS) yn cael eu monitro. Er nad yw'n statudol ofynnol paratoi Datganiad Ôl-fabwysiadu ar gyfer yr AC (o gymharu â'r AAS), yn ymarferol mae ymgorffori'r AAS mewn AC yn golygu bod hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod holl ganfyddiadau ac ymatebion ymgynghori'r AAS o gyfnodau blaenorol y broses yn derbyn sylw. Gan ddilyn arfer gorau AC, bydd y broses ôl-fabwysiadu yn cael ei hestyn, gan ymgorffori gofynion ôl-fabwysiadu'r AAS ochr yn ochr â dangos sut mae'r ACI (sy'n cwmpasu'r holl asesu a wnaed) wedi llywio'r gwaith o baratoi CDLlA CNPT, fel offeryn creu cynlluniau.

1.7. Strwythur yr Adroddiad

1.1.44 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Adran 2 – Mae Cyd-destun Adolygiad y CDLl a'r Cynnwys Arfaethedig yn disgrifio ym mha gyd-destun mae Adolygiad y CDLl yn cael ei gynnal ac yn amlinellu ffurf arfaethedig y CDLlA a greir o ganlyniad, ac mae angen i hynny i gyd gael ei asesu trwy'r ACI hwn;
- Adran 3 – Yng nghyd-destun AC/AAS yn unig, mae'r adran hon yn ystyried yr angen am AAS (oddi mewn i'r ACI) ac yn darparu penderfyniad drafft i egluro pam mae CBSCNPT yn barnu bod angen cynnal AAS fel rhan o ACI Adolygu'r CDLl. Mae'r adran hefyd yn darparu gwybodaeth

berthnasol i alluogi Awdurdodau Ymgynghori'r AAS i gynghori ynghylch a yw'r CDLlA, ar yr adeg hon, yn debygol o greu effeithiau arwyddocaol. Nid yw Adran 3 yn ofynnol ar gyfer yr asesiadau cyfansoddol eraill sydd i'w cynnal trwy broses yr ACI;

- Adran 4 – Mae'r Wybodaeth Amgylcheddol a'r Materion Cynaliadwyedd Allweddol yn crynhoi'r materion a'r amodau amgylcheddol, cydraddoldeb a iechyd y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt oddi mewn i Adolygiad y CDLl sy'n dod i'r amlwg, ac o ganlyniad yn yr ACI hwn. Mae'n ystyried esblygiad y gwaelodlin yn absenoldeb Adolygiad y CDLl ac yn nodi'r berthynas rhwng CDLl CNPT a chynlluniau a rhaglenni eraill perthnasol. Ceir manylion perthnasol pellach yn **Atodiadau A a B**;
- Adran 5 – Mae Fframwaith Arfaethedig yr ACI yn disgrifio'r fframwaith asesu a ddefnyddir i nodi ac asesu effeithiau arwyddocaol tebygol Adolygiad y CDLl (h.y. paratoi CDLlA) yn amgylcheddol (gan ymgorffori effeithiau sosio-economaidd a diwylliannol), ac o ran iechyd, llesiant, effaith ar y Gymraeg, a chydraddoldeb. Mae'r adran hon yn cyflwyno Fframwaith ACI arfaethedig i asesu'r rhain wrth iddynt ddod i'r amlwg, gan gynnwys Amcanion arfaethedig yr ACI a chwestiynau i roi arweiniad;
- Adran 6 – Mae Methodoleg Arfaethedig yr ACI a'r Trefniadau Ymgynghori yn adeiladu ar Adran 5 trwy fanylu ar y dull arfaethedig o asesu'r effeithiau arwyddocaol tebygol amgylcheddol (sy'n ymgorffori rhai economaidd, cymdeithasol a diwylliannol), ac o ran iechyd, llesiant, effaith ar y Gymraeg ac ar gydraddoldeb (a thrwy hynny effeithiau cynaliadwyedd ehangach) pob cydran sylweddol sy'n dod i'r amlwg fel rhan o GDLlA. Mae'r adran hefyd yn amlinellu'r trefniadau ymgynghori arfaethedig ar gyfer adroddiadau'r AC a gyhoeddir ochr yn ochr â phob cynnig sylweddol ar gyfer y CDLlA sy'n dod i'r amlwg, sef Dogfen y CDLl Cyn-Adnau a Dogfen y CDLl Adnau; ac,
- Adran 7 – Mae'r Camau Nesaf yn amlinellu'r camau nesaf sydd i'w cymryd ym mhroses yr ACI ac yn cadarnhau sut dylid cyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r Adroddiad Rhychwantu ACI hwn.

1.1.45 Cefnogir yr Adroddiad Rhychwantu gan ddau atodiad:

- **Atodiad A – Dadansoddiad Gwaelodlin**, sy’n cefnogi Adran 4 trwy ddarparu adolygiad o’r nodweddion gwaelodlin amgylcheddol perthnasol (gan gynnwys rhai cymdeithasol, economaidd a diwylliannol). Gan gyfeirio at yr holl bynciau amgylcheddol a ragnodwyd yn Atodlen 2 i Reoliadau’r AAS (gan gynnwys poblogaeth, iechyd ac asedau materol), mae Atodiad A yn disgrifio agweddau ar yr amgylchedd mae Adolygiad y CDLl yn debygol o effeithio’n sylweddol arnynt, ac yn nodi materion amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol perthnasol, problemau ac amcanion diogelu’r amgylchedd y dylid eu cymryd i ystyriaeth yn Adolygiad y CDLl a’r broses AC hon; ac,
- **Atodiad B – Adolygu Cynlluniau a Rhaglenni**, sy’n cefnogi Adran 4 trwy ddarparu adolygiad o’r holl gynlluniau a rhaglenni eraill sy’n berthnasol i Adolygiad y CDLl. Mae Atodiad B yn nodi’r berthynas rhwng y dogfennau eraill hyn, CDLl presennol CNPT ac Adolygiad y CDLl, er mwyn nodi materion polisi allweddol y dylid eu hystyried yn Adolygiad y CDLl ei hun a’r broses AC hwn.

2 Cyd-destun Adolygiad CDLl CNPT

2.1. Cyflwyniad

2.1.1 Mae'r adran hon yn darparu amlinelliad byr o Adolygiad y CDLl, gan gynnwys y ffeithiau allweddol, ffurf arfaethedig a chynnwys disgwyliedig y CDLlA. Diben hynny yw caniatáu i Gyrff Ymgynghori'r AAS ddeall cwmpas a phwrpas y CDLlA sy'n destun ACI.

2.2. Ffeithiau Allweddol Adolygiad CNPT

2.1.2 Mae deddfwriaeth gynllunio yn gofyn bod pob awdurdod cynllunio lleol yn cychwyn adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) nid llai na 4 blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu, ac yn ystyried yr angen am adolygiad ar ôl cyhoeddi Cymru'r Dyfodol.

2.1.3 Mae'r Adolygiad hwn o'r CDLl yn cael ei gynnal i ddisodli CDLl CCNPT (2011-2026), a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2016. I gynnal Adolygiad y CDLl, mae Stantec UK yn gweithredu fel Aseswr AAS ar ran yr Awdurdod Cyfrifol. Pwrpas yr Adolygiad yw llywio datblygiad y CDLl newydd ar gyfer CNPT a diweddaru Cyrff Ymgynghori'r AAS ynghylch cwmpas a chynnydd y Cynllun newydd wrth iddo symud ymlaen.

2.1.4 Bydd Adolygiad CDLl CNPT yn arwain at baratoi a mabwysiadu CDLl amnewid ar gyfer ardal CCNPT. Bydd hwn yn nodi polisïau cynllunio manwl a chynigion ar gyfer datblygu yn y dyfodol a defnyddio'r holl dir. Bydd y CDLlA yn pennu fframwaith cynllunio strategol tymor hir, gan helpu i fynd i'r afael â'r materion cynaliadwyedd ac adfywio allweddol, a gwireddu'r prif gyfleoedd datblygu ar draws CNPT. Bydd yn cwmpasu ystod eang o bynciau, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i dir ar gyfer tai, datblygiad economaidd, adfywio, dylunio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, canol trefi, twristiaeth, darparu seilwaith a thrafnidiaeth.

2.1.5 Dyddiad mabwysiadu disgwyliedig y Cynllun Amnewid yw mis Ebrill 2027. Bydd y Cynllun yn cwmpasu cyfnod o 15 mlynedd (2023 – 2038).

2.3. Ffurf a Chynnwys Arfaethedig CDLlA CNPT

2.1.6 Mae Deddf 2004 yn pennu'r broses y mae'n rhaid ei dilyn wrth Adolygu'r CDLl, yn arbennig y gwaith o baratoi Dogfennau CDLl Cyn-Adnau ac Adnau gan yr ACLl, gydag archwiliad annibynnol yn dilyn.

2.1.7 Mae Deddf 2004 a Rheoliadau 2005 yn rhagnodi'r lleiafswm o ran yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn unrhyw CDLl, sef:

- Enw ardal yr ACLl y paratowyd y CDLl ar ei chyfer;
- Dyddiad mabwysiadu'r CDLl a'r dyddiad pan ddaw i ben;
- Amcanion yr ACLl mewn perthynas â datblygiad a defnydd tir yn eu hardal;
- Polisïau cyffredinol yr ACLl ar gyfer gweithredu'r amcanion hynny;
- Map cynigion o ardal yr ACLl, yn dangos y cynigion ar gyfer datblygu a defnyddio tir; a,
- Chyfiawnhad rhesymedig o'r polisïau a geir yn y CDLl.

2.1.8 Ar ben hynny, mae CDLliau yn nodweddiadol yn cynnwys gweledigaeth drosfwaol, cyfres o amcanion a strategaeth ofodol, er nad yw'r un o'r rhain yn benodol ofynnol o dan Ddeddf 2004 neu Reoliadau 2005.

2.1.9 Yn unol â'r gofynion statudol, ymgynghorir ar ddau iteriad o'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg gan CCNPT, sef Strategaeth a Ffafrir – Dogfen Cyn-Adnau y CDLlA ac yna Cynllun Adnau llawn y CDLlA (Dogfen Adnau). Bydd y Cynllun Adnau hwn ar gyfer y CDLlA wedyn yn destun archwiliad annibynnol, ac ar ôl hynny caiff ei ystyried ar gyfer ei fabwysiadu'n ffurfiol fel CDLlA CNPT. Bydd methodoleg yr ACI yn cael ei chymhwyso ac adroddir ar y canfyddiadau mewn Adroddiadau ACI iterus a fydd yn cyd-fynd â dogfennau'r Strategaeth a Ffafrir (CDLlA Cyn-Adnau) ac Adnau, gydag Adroddiad yr ACI yn cael ei ddiweddaru rhwng y cyfnodau hyn i adlewyrchu newidiadau i'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg:

- Bydd Adroddiad yr ACI ar gyfer y Strategaeth a Ffafrir yn canolbwyntio ar asesu effeithiau arwyddocaol tebygol (LSE) o'r opsiynau CDLlA a gynigiwyd, y strategaeth ofodol a pholisïau strategol; a,

- Bydd Adroddiad yr ACI ar gyfer Dogfen Adnau'r CDLlA yn nodi ac asesu'r holl LSE o bob elfen sylweddol yn Nogfen Adnau'r CDLlA, gan gynnwys yr holl ddyraniadau safle a pholisïau a gynigir.

2.1.10 Ar ôl cwblhau archwiliad annibynnol o Ddogfen Adnau'r CDLlA, bydd yr holl argymhellion rhwymol a wnaed gan yr Arolygydd a benodwyd yn destun sgrinio ACI (gan ymgorffori'r AAS) i bennu a fyddent yn arwain at unrhyw LSE newydd neu wahanol nad adroddwyd amdanynt yn flaenorol yn Adroddiad yr ACI ar gyfer Dogfen Adnau'r CDLlA. Bydd y Sgrinio AAS hwn yn cael ei ddogfennu'n benodol mewn Adendwm i'r ACI. Ar yr adeg hon rhagwelir y bydd CDLlA CNPT yn cynnwys yr elfennau sylweddol a ganlyn:

- Gweledigaeth arfaethedig ac amcanion y CDLlA;
- Strategaeth ofodol (a strategaethau posibl ar gyfer is-ardaloedd) er mwyn gweithredu gweledigaeth ac amcanion y CDLlA;
- Polisïau strategol i roi'r strategaeth ofodol ac amcanion y CDLlA ar waith ac ymateb i faterion cynaliadwyedd allweddol (Adran 4.2 ac Atodiad A) a'r gofynion deddfwriaethol (Adran 4.3 ac Atodiad B). Yn benodol, bydd angen i bolisïau strategol weithredu gofynion penodol o Ddeddf 2004, Rheoliadau CDLl 2005, PCC, y CNPT a Garem (Cynllun Llesiant 2018 – 2023) a Deddf LlCD (Cymru) 2015;
- Polisïau anstrategol i weithredu'r strategaeth ofodol a pholisïau strategol trwy'r broses rheoli datblygu. Mae hyn yn debygol o gynnwys polisïau ardal a thematig; a,
- Dyraniadau safleoedd.

2.1.11 Nid yw'r rhestr uchod o'r elfennau y bwriedir eu cynnwys yn y CDLlA yn hollgynhwysol, a gallai newid trwy Adolygiad y CDLl. Bydd angen i bob elfen sylweddol sy'n dod i'r amlwg mewn CDLlA i CNPT fod yn destun ACI, sy'n ymgorffori AAS, yn unol â'r dull gweithredu a nodwyd yn yr Adroddiad Rhychwantu hwn.

2.1.12 Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol ac o ran cyfraith achosion, bydd angen i'r CDLlA gynnwys cyfiawnhad rhesymedig dros gynnwys pob elfen sylweddol a chael ei gefnogi gan gyfres o ddogfennau sy'n darparu sylfaen o

dystiolaeth. Bydd y rhain yn llywio proses yr ACI yn ogystal â bod yn ofynnol at ddibenion paratoi'r cynllun.

3 Penderfyniad Sgrinio Drafft yr AAS

3.1. Cyflwyniad

3.1.1 Fel y disgrifiwyd yn Adran 1, mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth berthnasol sy'n benodol i AAS yn unig. Mae Adran 3 yn ofynnol i alluogi Awdurdodau Ymgynghori'r AAS i gynghori CCNPT ynghylch a fernir, ar hyn o bryd, bod effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd yn debygol o godi o'r CDLlA a fydd yn deillio o Adolygiad y CDLl, ac os felly, bydd angen AAS ffurfiol.

3.2. Yr Angen am Sgrinio AAS

3.1.2 Roedd y CDLl a fabwysiadwyd gan CNPT (Ionawr 2016) yn destun AAS llawn fel rhan o'r AC oherwydd ei fod yn bodloni'r meini prawf AAS gorfodol o dan Reoliad 5(2) o'r Rheoliadau AAS o ran cael ei baratoi at ddibenion cynllunio gwlad a thref a defnydd tir a bod yn debygol o osod y fframwaith ar gyfer cydsyniad yn y dyfodol i ddatblygiadau a restrir yn Anecs I neu II o Gyfarwyddeb Cynghorau 85/337/EEC fel y'i newidiwyd. Fodd bynnag, o dan y Rheoliadau AAS, mae unrhyw "fân addasiadau" a gynigir i gynlluniau presennol yn gofyn bod yr Awdurdod Cyfrifol yn penderfynu'n gyntaf, mewn ymgynghoriad ag Awdurdodau Ymgynghori'r AAS, a oes gofyn cynnal AAS oherwydd bod yr addasiad yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd. Mae'r LlCD yn cynghori, gan nad oes diffiniad statudol o'r term "mân addasiad", y dylai unrhyw adolygiad o CDLl sydd eisoes yn bodoli (ac felly unrhyw ddiwygiadau iddo neu ei amnewid) fod yn destun sgrinio AAS i benderfynu a oes angen AAS llawn.

3.1.3 Hyd yn oed yn y cyfnod cynnar hwn, oherwydd natur gynhwysfawr arfaethedig Adolygiad y CDLl, mae'r CDLlA yn debygol o gynnwys cyfres o bolisïau a dyraniadau safle sy'n sylweddol wahanol i'r rhai yn y CDLl presennol ac a allai arwain at Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar yr amgylchedd. Er bod cyngor i ddod gan Gyrff Ymgynghori'r AAS, mae CCNPT o'r farn, felly, y dylid cynnal AAS ffurfiol fel rhan o'r AC ar gyfer Adolygiad y CDLl.

3.1.4 Mae'n werth nodi, hyd yn oed petai penderfyniad nad oes angen AAS ffurfiol, na fyddai hynny'n gwneud llawer o wahaniaeth, gan y bydd angen o hyd i'r effeithiau tebygol mewn perthynas â'r pynciau amgylcheddol a ragnodwyd yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau AAS (gan gynnwys poblogaeth a iechyd dynol) gael eu hasesu o hyd er mwyn cyflwyno asesiad cadarn o gynaliadwyedd y CDLIA sy'n dod i'r amlwg, fel sy'n ofynnol ar wahân o dan Ddeddf 2004. Mae'r cwestiwn ynghylch a oes gofyn cynnal AAS ffurfiol fel rhan o'r AC, felly, i bob pwrpas yn ffurfioldeb cyfreithiol.

3.3. Penderfyniad Sgrinio AAS Drafft

3.1.5 Gan roi ystyriaeth i'r meini prawf Sgrinio a bennwyd yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau AAS, mae CCNPT o'r farn, ar hyn o bryd, y gallai Adolygiad y CDLl (a fydd yn arwain at fabwysiadu CDLIA) gynhyrchu effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd sydd heb eu nodi eisoes trwy AAS y CDLl presennol na chynlluniau a rhaglenni eraill. Mae'r rhesymau am hynny fel a ganlyn:

- Cwmpas Daearyddol: Gan fod y weithdrefn 'Adolygiad Llawn' yn cael ei mabwysiadu ar gyfer Adolygiad y CDLl, bydd yn berthnasol i CNPT gyfan yn hytrach na safleoedd arwahanol neu is-ardaloedd yn unig. O ganlyniad, bydd angen i Adolygiad y CDLl ystyried cynigion ar gyfer rheoli ardaloedd amgylcheddol sensitif, gan gynnwys safleoedd a ddynodwyd ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol am resymau cadwraeth bioamrywiaeth, pwysigrwydd daearegol neu arwyddocâd pensaernïol. O ganlyniad, mae datblygu'r CDLIA yn debygol o arwain at ystod o effeithiau mewn perthynas â'r ardaloedd sensitif hyn;
- Gofynion Statudol: Gan fod adran 38(6) o Ddeddf 2004 yn gofyn bod pob cais cynllunio'n cael ei benderfynu yn unol â'r Cynllun Datblygu perthnasol a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall, bydd gan y CDLIA sy'n deillio o Adolygiad y CDLl lefel uchel o ddylanwad wrth bennu fframwaith cydsynio ar gyfer yr holl weithgareddau datblygu yn CNPT. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw brosiectau o fath a restrir yn Anecs I neu II i Gyfarwyddeb Cynghorau

85/337/EEC (Cyfarwyddeb gwreiddiol Asesiadau Effaith ar yr Amgylchedd) fel y'i newidiwyd. Ar ben hynny, bydd y CDLlA yn arbennig o bwysig wrth benderfynu ar ba mor dderbyniol, gan gynnwys yn amgylcheddol, yw lleoliad arfaethedig, natur, maint ac amodau gweithredu pob cynnig datblygu. Mae'n debygol y bydd y dull a ddefnyddir mewn CDLlA o gynllunio ar gyfer y ffactorau hyn mewn perthynas ag o leiaf rai mathau o ddatblygiad yn sylweddol wahanol i'r dull a gyflwynwyd yn y CDLl presennol, i adlewyrchu newidiadau yn yr amodau gwaelodlin a fframweithiau deddfwriaeth a pholisi perthnasol ar lefel uwch. Gallai unrhyw newidiadau polisi o'r fath mewn CDLlA effeithio ar ddosbarthiad neu nodweddion allweddol (dylunio, ffisegol, adeiladwaith, nodweddion gweithredu, etc.) cynigion datblygu, gan arwain at effeithiau arwyddocaol tebygol newydd neu wahanol i'r rhai y rhagfynegwyd yn flaenorol eu bod yn codi o bolisïau presennol y CDLl;

- Materion Gofodol a Dyraniadau Safle Newydd: Dylai paratoi CDLlA roi sylw uniongyrchol i faterion sosio-economaidd ac amgylcheddol presennol sy'n effeithio ar CNPT, fel y nodir yn **Atodiad A**, trwy ddatblygu dulliau gweithredu polisi a dyraniadau safle newydd. Trwy roi sylw i faterion a phroblemau perthnasol, mae Adolygiad y CDLl yn debygol o greu effeithiau arwyddocaol tebygol. Er enghraifft, mae Adroddiad Adolygiad CDLl CNPT (CCNPT, 2020) yn nodi y gallai fod angen gwneud dyraniadau newydd yn y Cymoedd ac ar hyd Coridor yr Arfordir i helpu i alluogi twf, gan gynnwys datblygiad preswyl, diogelu cyflogaeth, treftadaeth ddiwylliannol a chyfleoedd adfywio, a gallai fod angen diwygio polisi i ailystyried strategaeth twf gofodol y CDLl. Gallai fod angen gwneud dyraniadau tir eraill ac ymyriadau ffisegol yn y CDLlA i sicrhau bod modd iddo ymateb yn briodol i'r holl anghenion a nodwyd o ran y boblogaeth. Er bod rhai Safleoedd Ymgeisiol o bosib wedi bod yn destun AC mewn perthynas â CDLl cyntaf CNPT, mae cymaint o amser wedi mynd heibio nes ei fod yn debygol iawn y bydd ystod o Safleoedd Ymgeisiol newydd yn cael eu cynnig, a gallai pob un ohonynt greu ystod o effeithiau amgylcheddol sylweddol sydd heb eu hasesu'n flaenorol;

- Hierarchaeth y Cynllun: Fel yn achos y CDLl presennol, dylai'r CDLlA geisio cyfeirio mathau penodol o gynigion datblygu i leoliadau penodol, a gallai hynny olygu bod angen paratoi cynlluniau lefel is, er enghraifft Briffiau Datblygu, Prif Gynlluniau, Strategaethau Adfywio neu Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i roi arweiniad penodol yn fwy lleol i gydymffurfio â'r CDLl. Mae Adolygiad y CDLl, felly, yn debygol o gael lefel uchel o ddylanwad ar gynlluniau eraill yn hierarchaeth polisi cynllunio Cymru, a gallai hynny ei hun arwain at amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol sy'n wahanol i'r rhai sy'n codi o dan y CDLl presennol; a'r,
- Potensial ar gyfer Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar Safleoedd Ewropeaidd: Fel y manylir yn **Atodiad A**, mae CNPT yn gartref i dri Safle Ewropeaidd (Cynffig (AGA), Coedydd Nedd a Mellte (AGA) a Chors Crymlyn (sydd hefyd yn Safle Ramsar, AGA, SoDdGA a GNG), a nodwyd tri Safle Ewropeaidd arall naill ai o fewn 15km neu â chysylltedd posibl â CNPT. Nid yw hynny'n golygu y byddai effeithiau arwyddocaol tebygol yn nhermau ARhC o reidrwydd yn codi yn sgîl Adolygiad y CDLl ar y Safleoedd Ewropeaidd hyn; yn wir, gan nad oes unrhyw gynigion neu bolisïau cadarn wedi'u datblygu, nid oes tystiolaeth i awgrymu hynny ar gael eto. Fodd bynnag, ni ellir dweud yn bendant nad oes posibilrwydd i'r Safleoedd Ewropeaidd a nodwyd brofi effeithiau arwyddocaol tebygol yn sgîl Adolygiad y CDLl (h.y. o CDLlA sy'n dod i'r amlwg) ar hyn o bryd, ac felly mae angen archwilio hyn ymhellach trwy gynnal proses ARhC ar wahân. Yn unol â'r LlCD mae Asesiad Priodol ARhC yn debygol o fod yn ofynnol yng nghyswllt Cynllun Adnau'r CDLlA yn y man. O dan Reoliad 5(3) o'r Rheoliadau AAS, mae hynny ynddo'i hun yn sbarduno'r angen am gynnal AAS statudol llawn.

3.1.6 Yn amodol ar y safbwyntiau a geir gan Gyrff Ymgynghori'r AAS, felly, mae CCNPT yn bwriadu gwneud penderfyniad o dan Reoliad 9(1) o'r Rheoliadau AAS y bydd AAS ffurfiol yn cael ei gynnal fel rhan o'r ACI ar gyfer Adolygiad y CDLl. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull gweithredu a argymhellir yn y LlCD.

3.1.7 Yn unol â Rheoliad 9(2), gwahoddir Cyrff Ymgynghori'r AAS i ddarparu eu barn a'r rhesymau cysylltiedig ynghylch y posibilrwydd y bydd LSE yn codi a'r angen (neu fel arall) am gynnal AAS. Byddai angen i unrhyw gyngor sy'n nodi nad oes gofyn cynnal AAS ffurfiol gael ei gefnogi gan dystiolaeth fanwl, gan y gallai unrhyw benderfyniad i beidio â chynnal AAS ffurfiol fod yn destun her gyfreithiol, a gallai hynny yn ei dro effeithio ar ddilysrwydd Adolygiad y CDLl.

4 Materion Cynaliadwyedd Allweddol

4.1. Cyflwyniad

4.1.1 Mae Adran 4.2 isod yn darparu crynodeb o'r amodau gwaelodlin amgylcheddol a sosio-economaidd er mwyn nodi cyfres o faterion cynaliadwyedd allweddol sy'n berthnasol i Adolygiad y CDLl. Yna mae Adran 4.3 yn crynhoi'r berthynas rhwng CDLl CNPT a chynlluniau a rhaglenni eraill perthnasol. Cefnogir y ddwy adran gan adolygiadau gwaelodlin a pholisi manwl a geir yn **Atodiadau A** a **B** yn eu tro.

4.2. Materion Cynaliadwyedd Allweddol

4.1.2 Gan gyfeirio at y pynciau a ragnodwyd yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau AAS, ceir crynodeb o'r materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd yn **Atodiad A** y mae angen ymdrin â nhw yn Adolygiad y CDLl (gan gynnwys amcanion sy'n gysylltiedig â Deddf LlCD 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010) yn **Nhabl 4.1** isod, ac fe'u cymerir i ystyriaeth yn y fframwaith ACI cysylltiedig. Mae'r crynodeb hwn wedi cael ei lywio hefyd gan ystyriaeth i esblygiad tebygol amodau gwaelodlin yn absenoldeb Adolygiad y CDLl, fel y manylir yn **Atodiad A**. I grynhoi, mae hyn yn dod i'r casgliad bod absenoldeb Adolygiad y CDLl yn debygol o greu bwlch polisi cynllunio yn CNPT a allai arwain at ddatblygiadau'n cael eu cynnig mewn lleoliadau anghynaliadwy ac yn groes i'r strategaeth ofodol a ffafrir gan CCNPT dim ond er mwyn diwallu anghenion a nodwyd, yn bennaf ar gyfer tai newydd.

4.1.3 Yn y rhan fwyaf o achosion, argymhellir bod y materion cynaliadwyedd a nodwyd yn derbyn sylw yn yr ACI trwy gynnwys amcanion perthnasol mewn fframwaith ('Fframwaith yr ACI') a ddefnyddir i asesu cynaliadwyedd tebygol ac effeithiau amgylcheddol y CDLlA. Ceir manylion llawn ynghylch y Fframwaith ACI a gynigir a'r Amcanion AC sy'n rhan ohono yn Adran 5.

4.1.4 Bydd angen i'r CDLlA roi sylw i ystod o Ddeddfau, fframweithiau polisi, mentrau, tystiolaeth a materion gofodol newydd ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol ers i'r CDLl cyfredol gael ei fabwysiadu. Mae modd crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- **Newidiadau Cyd-destunol**: Newidiadau sy'n deillio o oblygiadau economaidd a chymdeithasol pandemig Covid-19 ac effeithiau parhaus proses Brexit. Newidiadau i'r sylfaen o dystiolaeth sy'n gysylltiedig â rhagamcanion Poblogaeth ac Aelwydydd LIC; newidiadau polisi sy'n dod i'r amlwg trwy Cymru'r Dyfodol 2040; y gwaith rhanbarthol sy'n gysylltiedig â Bargen Ddinesig Bae Abertawe (BDdBA); a dynodi Parth Menter Glannau Port Talbot, dynodi Porthladd Rhydd Celtaidd er mwyn cyflwyno llwybr carlam at economi sero net Cymru, a gwaith Tasglu'r Cymoedd. Yn gyffredinol, dylai gweithredu'r strategaethau hyn ar gyfer datblygiad economaidd sbarduno cyfraddau twf uwch;
- **Lefel a Dosbarthiad Gofodol Twf**: Mewn cyd-destun o anhawster diweddar o ran cyflawni targedau datblygu tai a chyflogaeth, mae angen ailystyried lefel a dosbarthiad gofodol twf er mwyn sefydlu'r dull strategol mwyaf priodol o ymdrin â defnydd tir. Bydd hynny'n golygu datblygu strategaeth ofodol newydd neu wedi'i diweddaru yn sylfaen ar gyfer y CDLlA;
- **Cyflenwad Tir ar gyfer Tai**. Mae diffyg yn y cyflenwad tir ar gyfer tai wedi dod i'r amlwg, er bod hynny yng nghyd-destun galw is na'r disgwyl gan ddatblygwyr am adeiladu tai. Ar ben hynny, mae'r Adolygiad wedi nodi mai diffyg yn y tai a ddarparwyd yw un o'r prif faterion sydd i dderbyn sylw yn y CDLlA; ac,
- **Ardaloedd Adfywio Strategol**: Yn gysylltiedig â materion sy'n ymwneud â'r galw am dir ar gyfer tai a datblygiad economaidd, a mwy o ffocws polisi ar ddichonoldeb oddi mewn i PCC, bydd angen ailystyried safleoedd presennol a dyrannu safleoedd newydd effeithiol. Mae Cymru'r Dyfodol 2040 yn nodi CNPT, Abertawe a Llanelli fel prif ganolfannau presennol poblogaeth, cyflogaeth a gwasanaethau Ardal Twf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli (NGA), gan gydnabod potensial y rhanbarth o ran dadgarboneiddio ac arallgyfeirio seiliedig ar dwristiaeth.

4.1.5 **Ardaloedd Polisi Newydd**: Mae PCC – 11eg Argraffiad yn parhau â nifer o newidiadau a gychwynnwyd gan PCC – 10fed Argraffiad, gan gynnwys egwyddorion a fydd yn angenrheidiol i sicrhau bod creu lleoedd a sbarduno

ffyniant lleoedd yn ganolog i ddatblygiadau newydd. Mae nifer o newidiadau polisi cenedlaethol eraill wedi dod i'r amlwg hefyd, a bydd angen eu gweithredu trwy'r CDLlA. Rhaid i'r CDLlA hefyd gymryd i ystyriaeth yr amcanion llesiant a gyflwynwyd ar gyfer CNPT yn 'Y CNPT a Garem' (Cynllun Llesiant 2018-2023) yn unol â gofynion Deddf LlCD 2015, sef:

I. Gwella llesiant plant a phobl ifanc;

II. Gwella llesiant pob oedolyn; a,

III. Datblygu'r economi leol a'r amgylchedd.

4.1.6 Ar ben hynny, mae LlC wedi cychwyn y Ddyletswydd Sosio-economaidd (Mawrth 2021) o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, tra bod CCNPT wedi cyhoeddi eu hail Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2020-2024) sy'n canolbwyntio ar wella iechyd, llesiant, diogelwch cymunedol ac ansawdd bywyd i bawb. Mae'r cynllun hefyd yn ceisio gwella hyfforddiant staff a mynd ati i fonitro data a gwybodaeth er mwyn canfod anfanteision mae trigolion CNPT yn eu profi. At ei gilydd, mae'n ceisio gwella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth i bawb.

4.3. Perfformiad Cynaliadwyedd y CDLl a Fabwysiadwyd gan CNPT (2016)

4.1.7 Mae Adroddiad Adolygu'r CDLl (CCNPT, 2020) yn nodi nifer o brif faterion sy'n perthyn i bynciau'r AC.

- **Poblogaeth**: Mae'r Adroddiad Adolygu yn nodi bod y 'Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai' diweddaraf yn 2019 wedi nodi bod cyflenwad tir ar gyfer tai o 4.5 blynedd, sy'n is na'r 5 mlynedd gofynnol am y tro cyntaf ers mabwysiadu'r cynllun. Ar ben hynny, mae'r ffaith bod gwerthoedd gweddilliol wedi gostwng a chostau adeiladu wedi cynyddu dros gyfnod y Cynllun wedi cael effaith ar ddichonoldeb tai ac yn sgîl hynny ar gyflawni tai fforddiadwy a rhwymedigaethau cynllunio eraill. Wedi i TAN1 gael ei ddiddymu ym mis Mawrth 2020, nid yw'r Cyngor bellach yn asesu ei sefyllfa o ran cyflenwad pum mlynedd o dai. Yn hytrach, yn unol â PCC a'r LlCD, mae'r Cyngor yn cyhoeddi taflwybr tai

fel rhan o'r AMB. Mae'r AMB diweddaraf (2022) yn dangos bod cyflwyno tai ar draws CNPT yn dal ar ei hôl hi o gymharu â'r targedau a nodwyd yn y CDLl cyfredol. Ers dyddiad gwaelodlin y CDLl (2011), cyfanswm nifer y tai a gwblhawyd yw 2,457 o anheddau, o gymharu â'r targed cronnol blynyddol o 5,603. Mae hyn yn dangos mai 44% yn unig o'r targed blynyddol cronnol sydd wedi'i gyflawni hyd yma. O ran cyflogaeth, mae fframwaith monitro'r CDLl cyfredol yn gosod targed o ddatblygu o leiaf 32 hectar o dir ar safleoedd a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth hyd at 2026, gyda'r nod o gyflwyno 2.5ha o dir at ddibenion cyflogaeth yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o 5ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o ddwy flynedd. Dengys yr AMB diweddaraf (2022) i'r dangosydd gael ei sbarduno yn 2019, ac na fu ceisiadau cynllunio ar safleoedd a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn fonitro flaenorol. Mae cynnydd cyfyngedig o ran yr Ardaloedd Adfywio Strategol hefyd wedi cyfrannu at y diffyg. Mae dangosyddion hefyd wedi amlygu bod diffyg o ran darparu datblygiadau manwerthu bach lleol;

- **Newid yn yr Hinsawdd:** Mae'r dangosyddion o ran amcanion newid hinsawdd yr AC yn awgrymu nad yw'r CDLl yn cyflawni dyheadau'n llwyr o ran addasu i'r newid yn yr hinsawdd neu ei liniaru. Yn arbennig, ers mabwysiadu'r Cynllun, bu achosion lle cymeradwywyd cynigion oddi mewn i ardaloedd a amddiffynnir a rhai lle mae perygl llifogydd, yn groes i'r polisi; yn aml nid yw gofynion dwysedd y CDLl yn cael eu bodloni; ac mae nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy/carbon isel wedi bod yn is na'r disgwyl;
- **Adnoddau Naturiol:** O ran amcanion adnoddau naturiol yr AC, mae CNPT wedi mynegi pryderon bod datblygiad dwysedd isel yn cael effaith diangen o fawr fesul uned ar adnoddau naturiol yn gyffredinol;
- **Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth:** Nid yw'r targedau ar gyfer atal colled net mewn bioamrywiaeth yn cael eu cyrraedd, yn rhannol oherwydd bod datblygiadau'n cael effeithiau niweidiol ar ardaloedd a amddiffynnir a rhai a ddynodwyd yn lleol, ac yn rhannol oherwydd diffyg

gwella bioamrywiaeth ar safleoedd datblygu neu wedi'i ariannu trwy gyfraniadau datblygwyr;

- **Tirlun, Treflun a Chymeriad Hanesyddol:** Mae nifer bach o ddatblygiadau wedi cael eu caniatáu yn groes i bolisi'r CDLl ar y tirlun a lletemau glas, gan beri pryder ynghylch cyflawni amcan yr AC, sef diogelu a gwella tirlun a threflun yr ardal;
- **Cydlyniant Cymunedol:** Mae'r dangosyddion sy'n amlygu colli cyfleusterau cymunedol, cymeradwyo 'defnyddiau canol tref' newydd mewn lleoliadau y tu allan i'r canol, a diffygion yn y tai newydd a'r tai fforddiadwy a ddarparwyd, mannau agored, arwynebedd llawr cyflogaeth a manwerthu lleol ar raddfa fach yn awgrymu rhai effeithiau cymysg o ran amcan cydlyniant cymdeithasol yr AC;
- **Iechyd a Llesiant:** Mae'r dangosyddion sy'n amlygu colli cyfleusterau cymunedol, diffyg o ran y ddarpariaeth mannau agored a lefelau gostyngol o gyflogaeth yn y gweithle a gweithgarwch economaidd yn awgrymu rhai effeithiau cymysg neu negyddol o ran amcanion yr AC sy'n ymwneud â iechyd a thlodi; ac
- **Asedau Materol:** Mae'r dangosyddion yn amlygu anhawster wrth adfywio safleoedd tir llwyd pwysig, ac amodau'r farchnad yn ffafrio cyfleoedd tir haws eu datblygu, ar raddfa fach.

4.1.8 I grynhoi, mae'r materion hyn yn codi nifer o Faterion Cynaliadwyedd allweddol sydd wedi cael eu hasesu ochr yn ochr ag adolygiad o'r wybodaeth amgylcheddol sylfaenol a nodwyd yn **Atodiad A.** Cyflwynir y rhain yn unol â meini prawf Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 ('Rheoliadau'r AAS').

Tabl 4.1: Materion Cynaliadwyedd Allweddol sy'n ymwneud ag Adolygiad CDLl CNPT

Pwnc AAS	Materion Cynaliadwyedd Allweddol
Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna	Yr angen am gadw, diogelu a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau pwysig a safleoedd a ddynodwyd am resymau cadwraeth bioamrywiaeth neu bwysigrwydd ecolegol. Mae hyn yn ymwneud â diogelu safleoedd dynodedig sydd wedi'u lleoli yn CNPT, yn ogystal â safleoedd dynodedig mewn awdurdodau cymdogol, y mae potensial i bob un ohonynt deimlo effaith Adolygiad y CDLl a gweithgaredd datblygu yn CNPT. Yr angen am nodi ardaloedd a/neu gyfleoedd i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei gynnal a'i wella, a chyflawni budd net ochr yn ochr â sicrhau bod effeithiau niweidiol ar ardaloedd a ddiogelir ac a ddynodwyd yn lleol yn cael eu hosgoi. Yr angen am ddiogelu a gwella'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd a chynnal a gwella cysylltiadau tirwedd a bioamrywiaeth rhwng safleoedd a chynefinoedd dynodedig, a hynny'n lleol ac ar raddfa tirlun (h.y. oddi mewn i CNPT a'r rhai mewn awdurdodau cymdogol). Yr angen am ddiogelu a gwella gwydnwch ecosystemau a diogelu rhwydweithiau ecolegol gadarn.

Pwnc AAS	Materion Cynaliadwyedd Allweddol
	Wrth roi sylw i'r materion allweddol uchod, mae angen penodol hefyd am fodloni'r ddyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, fel y rhagnodwyd yn adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
Poblogaeth (gan gynnwys materion sosio-economaidd perthnasol)	Yr angen am fwyafu manteision sosio-economaidd yn sgîl y cyfleoedd a nodwyd yn Ardal Twf Cenedlaethol Bae Abertawe a Llanelli ac wrth weithredu Bargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, yn arbennig er mwyn hybu technolegau ynni a gweithgynhyrchu a chyfleoedd cyflogaeth cysylltiedig yn CNPT. Yr angen am alinio hyn â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol (CDS) posibl ar gyfer De-orllewin Cymru, yn unol â disgwyliadau LlC. Yr angen am annog cydweithrediad rhwng awdurdodau cymdogol wrth lunio'r Cynllun er mwyn hwyluso twf ar draws ffiniau a gweithio mewn partneriaeth. Yr angen am gynllunio er mwyn diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio. Yr angen am gefnogi cyflawniad Amcanion Llesiant Lleol CNPT fel rhan o gyflawni'r gofynion datblygu cynaliadwy (fel y nodwyd yn Adran 3 o Ddeddf LlCD 2015). Yr angen am gyflawni cwantwm digonol o dai newydd o safon dda ac wedi'u lleoli'n dda, er mwyn ymateb i ystod o anghenion a nodwyd.

Pwnc AAS	Materion Cynaliadwyedd Allweddol
	Yr angen am gyflawni twf economaidd a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys ar gyfer trigolion lleol. Yr angen am fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Yr angen am fynd i'r afael ag amddifadedd, gan gynnwys ardaloedd sydd ag amddifadedd presennol cysylltiedig â mynediad gwael at wasanaethau allweddol, cyfleusterau a chyfleoedd economaidd. Yr angen am sicrhau bod cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn briodol ac yn hygyrch i ddefnyddwyr, er mwyn diwallu anghenion amrywiol preswylwyr a gweithwyr. Yr angen am wella hygyrchedd cyrchfannau allweddol yn CNPT ac mewn lleoliadau allweddol eraill trwy wella'r rhwydwaith trafnidiaeth.
Iechyd Dynol	Yr angen am wella pob agwedd ar iechyd a llesiant y boblogaeth, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, llesiant cymdeithasol, diogelwch a diogeledd. Yr angen am ddiogelu a gwella mynediad at gyfleusterau cymunedol, cyfleusterau gofal iechyd, darpariaeth mannau agored o safon uchel a llwybrau teithio llesol i'r holl drigolion.

Pwnc AAS	Materion Cynaliadwyedd Allweddol
	Yr angen am greu amgylcheddau trefol diogel, iach, y gellir byw ynddynt. Yr angen am gefnogi cyflawni Amcanion Llesiant Lleol CNPT er mwyn gwella iechyd holl drigolion CCNPT. Yr angen am gefnogi nodau Datganiad Ardal De-orllewin Cymru mewn perthynas â thema ‘Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd’. Yr angen am roi gofynion ychwanegol yn eu lle er mwyn ymdrin â’r aflonyddu a’r camwahaniaethu mae rhai trigolion yn eu profi. Yr angen am fonitro data a gwybodaeth ynghylch y gwelliant yn iechyd yr holl drigolion.
Pridd	Yr angen am annog a/neu hwyluso datblygiad ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Yr angen am ddiogelu’r tir amaeth gorau a mwyaf aml-ddefnydd rhag datblygu. Yr angen am fwyafu defnydd effeithlon o’r tir sydd ar gael a rhoi blaenoriaeth i ailddatblygu tir llwyd. Yr angen am ddiogelu geoamrywiaeth, adnoddau pridd pwysig, ac adfer ardaloedd lle mae halogiad yn hysbys, yn arbennig ar safleoedd ôl-ddiwydiannol. Yr angen am leihau allyriadau a llygredd nitradau o fyd amaeth.

Pwnc AAS	Materion Cynaliadwyedd Allweddol
	Yr angen am leiafu erydiad pridd a cholli priddoedd i arwynebau anhydraidd. Yr angen am ddiogelu, gwella ac adfer adnoddau pridd pwysig, gan gynnwys mawndir. Yr angen am gefnogi nodau Datganiad Ardal De-orllewin Cymru o ran diogelu, gwella ac adfer adnoddau pridd pwysig mewn perthynas â 'thema Sicrhau Rheolaeth Gynaliadwy ar Dir'.
Dŵr	Yr angen am ddiogelu a gwella ansawdd adnoddau dŵr a'r amgylchedd dŵr. Mae hyn yn estyn i amddiffyn y cyrsiau dŵr trawsffiniol sy'n llifo trwy CNPT, ac Afon Nedd ac Afon Afan, sy'n llifo i Fae Abertawe. Mae hefyd yn galw am ddiogelu, cynnal a gwella'r seilwaith draenio. Mae hyn yn cynnwys ystyried cyfleoedd ar gyfer rheoli dalgylchoedd dŵr integredig fel y nodwyd yn 'Nalgylchoedd Cyfle' Bae Abertawe a ddisgrifiwyd yn nhrydydd cylch Cynlluniau Rheoli Basn Afonydd (2021-2027). Yr angen am roi sylw i'r effeithiau ar ansawdd dŵr ar draws y fwrdeistref a achosir gan lygredd yn y ffynhonnell o ganlyniad i broffil diwydiannol CNPT. Yr angen am leoli datblygiad newydd ymhell o ardaloedd lle mae perygl llifogydd, lliniaru risg llifogydd posibl yn llawn o bob ffynhonnell, ac atgyfnerthu amddiffynfeydd rhag llifogydd i'r dyfodol.

Pwnc AAS	Materion Cynaliadwyedd Allweddol
Aer	Yr angen am leiafu allyriadau llygrwyr aer. Yr angen am ddiogelu a gwella ansawdd aer, gan gynnwys trwy roi sylw i ardaloedd sydd ag ansawdd aer gwael. Yr angen am fynd i'r afael â'r ansawdd aer gwael a arweiniodd at gyhoeddi argyfwng iechyd cyhoeddus gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn enwedig yng nghyswllt amonia.
Ffactorau Hinsoddol	Yr angen am sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig a'r seilwaith yn gadarn ac yn gallu addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, gan gymryd lleoliad arfordirol CNPT i ystyriaeth. Yr angen am sicrhau bod ecosystemau a'r amgylchedd naturiol yn gadarn ac yn gallu addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Yr angen am liniaru'r newid yn yr hinsawdd gan gynnwys trwy ddadgarboneiddio sectorau economaidd allweddol. Yr angen am sicrhau bod y CDLlA yn cyflawni'n uchelgais o ran addasu neu liniaru'r newid yn yr hinsawdd. Yn arbennig, ni ddylid cymeradwyo cynigion sy'n groes i'r polisi mewn ardaloedd a amddiffynnir a rhai lle mae perygl llifogydd, na'r rhai sy'n methu â bodloni'r gofynion dwysedd.

Pwnc AAS	Materion Cynaliadwyedd Allweddol
	Yr angen am annog datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy/carbon isel yn CNPT. Yr angen am liniaru effeithiau ar ansawdd aer a dŵr a achosir gan ddefnyddiau diwydiannol yn y fwrdeistref. Yr angen am liniaru a rhoi sylw i'r argyfwng hinsawdd a gyhoeddwyd gan LIC ym mis Ebrill 2019. Yr angen am gefnogi nodau Datganiad Ardal De-orllewin Cymru o ran lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo mewn perthynas â thema 'Lliniaru ac Addasu i Hinsawdd sy'n Newid'. Yr angen am liniaru a rhoi sylw i'r argyfwng natur a gyhoeddwyd gan LIC ym Mehefin 2021. Yr angen am gefnogi nodau'r Cynlluniau Rheoli Traethlin (CRhT) sy'n rhoi sylw i erydu arfordirol.
Asedau Materol	Yr angen am fwyafu defnydd effeithlon o dir, adnoddau naturiol a seilwaith presennol. Mae hynny'n cynnwys yr angen am flaenoriaethu ailddatblygu tir llwyd, ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau, a lleiafu'r gwastraff sy'n cael ei anfon i'w dirlenwi.

Pwnc AAS	Materion Cynaliadwyedd Allweddol
	Yr angen am roi sylw i effeithiau sosio-economaidd mewn ardaloedd sy’n profi dirywiad ôl-ddiwydiannol trwy ddatblygiad newydd. Yr angen am ddeall effeithiau ôl-troed datblygu ar adnoddau naturiol. Yr angen am nodi cyfleoedd i greu mannau iach i bobl fel y nodwyd yn fframwaith DISRUPT yn yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR 2020).
Treftadaeth Ddiwylliannol	Yr angen am ddiogelu, amddiffyn a gwella asedau hanesyddol a’u cyd-destunau yn CNPT. Yr angen am ddiogelu a chefnogi twf yn y defnydd o’r Gymraeg.
Tirlun	Yr angen am ddiogelu a gwella cymeriad y tirlun, cymeriad y treflun, golygfeydd allweddol ac amwynder gweledol. Mae hyn yn cwmpasu diogelu tirweddau yn y rhannau o CNPT sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mewn awdurdodau cymdogol eraill. Yr angen am ddiogelu llonyddwch a rhoi sylw i faterion llygredd golau a nodwyd yn fersiwn ddrafft TAN 11: Sŵn a TAN 12: Dylunio.
Effeithiau rhyng-gysylltiedig	Yr angen am gyflawni gwelliannau cyfannol i lesiant a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ar draws CNPT, yn arbennig yng nghyswllt hybu cydlyniant cymdeithasol.

Pwnc AAS	Materion Cynaliadwyedd Allweddol
	Yr angen am hybu mynediad at wasanaethau a gwybodaeth i bawb er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i drigolion sydd ag anghenion ychwanegol.

4.4. Y Berthynas rhwng Adolygiad y CDLl a Chynlluniau a Rhaglenni Perthnasol Eraill

4.1.9 Archwiliwyd y mathau canlynol o gynlluniau a rhaglenni i weld eu perthnasedd i Adolygiad y CDLl a'r ACI hwn:

- Confensiynau a chytuniadau rhyngwladol;
- Cyfarwyddebau Ewropeaidd a deddfwriaeth gysylltiedig;
- Deddfwriaeth y daethpwyd â hi i rym gan Senedd y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cymru; a,
- Dogfennau polisi a strategaethau a gyhoeddwyd ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, gan gynnwys gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, LlC (a'i hasiantaethau), CCNPT a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT (BGCCNPT).

Goblygiadau Newidiadau Diweddar i Bolisi Cynllunio Cenedlaethol Cymru

4.1.10 Ar 24 Chwefror 2021, cafodd PCC, Argraffiad 11, a Cymru'r Dyfodol 2040 eu cyhoeddi gan LlC. Mae cyhoeddi Cymru'r Dyfodol 2040, ynghyd â'r CDLl, yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu statudol ar gyfer Cymru. Mae 10fed Argraffiad PCC, TAN 1, TAN 8 a Chynllun Gofodol Cymru yn awr wedi'u diddymu. Amlinellir prif oblygiadau cyhoeddi'r dogfennau hyn isod:

- **Cymru'r Dyfodol 2040**
    - Rhoi dull gweithredu pedwar rhanbarth ar waith, yn cynnwys tair Ardal Twf Cenedlaethol ac 11 Ardal Twf Rhanbarthol;
    - Cyflwyno targedau penodol o ran y newid yn yr hinsawdd, sef bod 70% o'r trydan a ddefnyddir i gael ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy erbyn 2030, bod un gigawatt o'r capasiti ynni adnewyddadwy i fod mewn perchnogaeth leol erbyn 2030, a bod prosiectau ynni adnewyddadwy newydd i gynnwys elfen o leiaf o berchnogaeth leol o 2020 ymlaen;
    - Dileu TAN8 ac Ardaloedd Chwilio Strategol, a ddisodlwyd gan Ardaloedd wedi'u Rhagasesu ar gyfer Ynni Gwynt, yn cwmpasu c.

281,000 hectar (o gymharu â 77,000 hectar yn flaenorol ar gyfer AChSoedd) a cyflwyno Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol;

  - Yr angen am baratoi CDSiau sy'n cydymffurfio â Cymru'r Dyfodol 2040 (lle bydd CNPT yn rhan o CDS De-orllewin Cymru). Dylai'r CDSiau ystyried materion rhanbarthol strategol gan gynnwys ardaloedd twf i'r dyfodol, y galw am dai, datblygiad economaidd, trafnidiaeth a seilwaith gwyrdd, gan ymateb i Ddeilliannau Cymru'r Dyfodol ym Mhennod 3 o Cymru'r Dyfodol; a
  - Nodir CNPT fel rhan o Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol Ardal Twf Cenedlaethol Bae Abertawe a Llanelli (Polisi 28), a dylai'r CDLl gydnabod yr Ardal hon fel ffocws ar gyfer twf strategol yn economaidd ac o ran tai; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu lefel uwch; trafnidiaeth a seilwaith digidol.

- **PCC, Argraffiad 11**
  - Rhaid arddangos y gallu i gyflawni gofynion tai yn awr trwy daflwybr tai, a baratoir fel rhan o broses y cynllun datblygu, ac a fydd yn rhan o'r cynllun. Bydd y taflwybr tai yn rhan o'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer AMBiau y cynllun datblygu, gan ddisodli'r Cyflenwad Tir ar gyfer Tai ac arwain at ddiddymu TAN 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai.

4.1.11 Ymrwymiad cryfach i fathau adnewyddadwy o ynni er mwyn rhoi sylw i Argyfwng yr Hinsawdd, gan gefnogi'r targedau a gyhoeddwyd gan Cymru'r Dyfodol 2040. Ceir adolygiad manwl o'r cynlluniau a'r rhaglenni eraill y nodwyd eu bod yn berthnasol i Adolygiad y CDLl yn **Atodiad B**. Ar sail yr adolygiad hwn, mae'n eglur y dylai'r CDLIA wneud y canlynol:

- Ceisio manteisio ar y cyfleoedd sosio-economaidd a gyflwynir gan Brosiect Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac Ardal Twf Cenedlaethol Bae Abertawe a Llanelli;
- Alinio â Cymru'r Dyfodol a'r galw am baratoi CDS ar gyfer De-orllewin Cymru;

- Ceisio gwella pob agwedd ar iechyd a llesiant ar gyfer poblogaeth CNPT, gan gynnwys trwy ddarparu seilwaith iechyd o safon uchel, gwella iechyd corfforol a meddyliol, a darparu cyfleoedd i wella llesiant cymdeithasol. Yn unol ag Adran 3 o Ddeddf LlCD, dylai Adolygiad y CDLl (fydd yn arwain at fabwysiadu CDLlA) gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, a chefnogi cyflawni amcanion llesiant a ddiffiniwyd yn lleol, fel y nodwyd yn Y CNPT a Garem (Cynllun Llesiant 2018 – 2023);
- Diogelu twf economaidd cynaliadwy a mewnfuddsoddi ar draws CNPT trwy ddyrannu safleoedd addas ar gyfer datblygu a thrwy gyflwyno'r seilwaith angenrheidiol i wella cysylltedd, gwella seilwaith cymunedol a chymdeithasol, a chynyddu mynediad at gyflogaeth o safon uchel a chyfleoedd economaidd. Bydd hefyd yn bwysig i'r CDLlA gyflwyno strategaeth ofodol sy'n mwyafu cystadleurwydd CNPT ac yn gwella llesiant cymdeithasol, gan gymryd i ystyriaeth ei lleoliad ar gyrion Dinas-Ranbarth Abertawe a'r amgylchiadau sosio-economaidd presennol;
- Nodi a chynllunio ar gyfer diwallu anghenion holl drigolion a gweithwyr CNPT, yn arbennig o ran darparu seilwaith cymunedol digonol;
- Cyflwyno cartrefi fforddiadwy, a ddyluniwyd yn dda i ymateb i'r anghenion tai a nodwyd, gan gynnwys darparu amrywiaeth maint a deiliadaeth;
- Lleihau'r ddibyniaeth ar y car a gwella'r seilwaith teithio llesol;
- Cyflwyno cysylltiadau trafnidiaeth gwell ac ehangach, cludiant cyhoeddus a seilwaith cyfathrebu gwell, i gymunedau yn CNPT ac i gyrchfannau allweddol mewn awdurdodau cymdogol;
- Diogelu a gwella mynediad i gyfleusterau chwaraeon awyr agored o safon uchel, parciau a mannau agored;
- Cadw, diogelu, amddiffyn a gwella safleoedd a ddynodwyd ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol am resymau cadwraeth bioamrywiaeth, pwysigrwydd ecolegol, pwysigrwydd daearegol neu arwyddocâd treftadaeth, mewn ffyrdd sy'n briodol i'w statws;
- Datblygu technegau effeithiol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned i ymateb i farn cymunedau ehangach a hwyluso cydlyniant cymunedol effeithiol;

- Hybu defnydd effeithlon o adnoddau, gan gynnwys symud tuag at economi carbon isel, defnyddio gwastraff yn adnodd, adeiladau ynni effeithlon, ac ynni priodol adnewyddadwy a charbon isel;
- Cymryd camau i ddiogelu lefelau ansawdd aer a cheisio lliniaru unrhyw weithgaredd a allai effeithio ar lefelau ansawdd aer ar draws CNPT;
- Sicrhau nad oes effeithiau negyddol sylweddol i safleoedd natur a ddynodwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol (gweler Adroddiad Sgrinio Cychwynnol yr ARhC ar wahân i gael rhagor o fanylion);
- Rhoi ystyriaeth lawn i'r effeithiau posibl ar ddŵr, gan gynnwys ansawdd dŵr, ecosystemau, defnydd cynaliadwy o ddŵr, capasiti carthffosiaeth, perygl llifogydd a'r cyfleoedd i wella'r rheolaeth ar berygl llifogydd;
- Chwilio am ffyrdd o fwyafu'r seilwaith gwyrdd amlswyddogaeth a ddefnyddir, gan sicrhau eu bod yn darparu rhwydwaith o goridorau bywyd gwyllt cysylltiedig (ar draws ystod eang o raddfeydd) ac yn cynyddu gwasanaethau ecosystemau, gan gynnwys bioamrywiaeth;
- Chwilio am ffyrdd i fwyafu manteision iechyd seilwaith gwyrdd;
- Defnyddio tir yn effeithlon trwy flaenoriaethu defnydd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol;
- Ystyried ansawdd y pridd a dosbarthiad tir amaeth wrth asesu safleoedd datblygu posibl;
- Adnabod y gwahanol dirweddau yn ardal CCNPT a'u gallu i addasu i newid; a
- Hybu datblygiad sy'n lleiafu'r effeithiau ar y tirlun ac yn diogelu tirweddau mewn modd priodol i'w harwyddocâd.

4.1.12 Er mwyn sicrhau bod Adolygiad y CDLl yn rhoi sylw i'r prif faterion polisi a restrwyd uchod, bydd angen iddynt gael eu hystyried ar hyd yr ACI. Fel yn achos y materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd (Adran 4.2 uchod), gwneir hyn trwy gymhwyso Fframwaith ACI cyfannol, gan gynnwys Amcanion ACI oddi mewn iddo, fel elfen greiddiol o broses yr ACI. Manylir ar y Fframwaith ACI arfaethedig i gefnogi Adolygiad CDLl CNPT yn Adran 5.

5 Fframwaith ACI Arfaethedig CDLlA CNPT

5.1. Cyflwyniad

5.1.1 Mae'r adran hon yn nodi ac yn ceisio barn Cyrff Ymgynghori yr AAS ac ymgyngoreion eraill perthnasol ynghylch fframwaith asesu arfaethedig ('Fframwaith yr ACI') a fydd yn sylfaen ar gyfer ACI o Adolygiad y CDLl. Ar ôl ei lunio'n derfynol, bydd y Fframwaith ACI hwn yn cael ei gymhwyso'n unol â'r fethodoleg asesu a amlinellwyd yn Adran 6 i asesu effeithiau arwyddocaol tebygol o ran yr amgylchedd, iechyd, cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac effeithiau cynaliadwyedd ehangach o'r holl elfennau sylfaenol sy'n dod i'r amlwg mewn CDLlA (ac unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol a nodwyd) ar hyd Adolygiad y CDLl.

5.1.2 Mae sefydlu Fframwaith ACI priodol yn ganolog ar gyfer canfod effeithiau arwyddocaol tebygol (LSE) gan fod hynny'n caniatáu i'r ACI ganolbwyntio ar faterion cynaliadwyedd allweddol ac asesu'n gymesur bob elfen sylfaenol wrth iddi ddod i'r amlwg. Yn gyffredinol, dylai'r Fframwaith ACI gynnwys cyfres o amcanion cysylltiedig a ddylai, o'u cymhwyso ar y cyd, ddiffinio'n wrthrychol gyfeiriad y teithio a'r deilliannau gofodol sy'n ofynnol er mwyn i'r cynllun neu'r rhaglen gyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni datblygu cynaliadwy ochr yn ochr â bodloni gofynion statudol, a chanllawiau, mewn perthynas â llesiant, cydraddoldeb, diogelu'r Iaith Gymraeg, a iechyd. Mae'r Amcanion ACI hyn, felly, yn wahanol i'r amcanion polisi a ddiffinnir ar lefelau gofodol lluosog, gan gynnwys yn y cynllun sy'n dod i'r amlwg sy'n destun ACI, ond dylai fod perthynas rhyngddynt.

5.1.3 Er mwyn bod yn offer effeithiol ar gyfer asesu, mae'n rhaid i Amcanion yr ACI a Fframwaith cyffredinol yr ACI fod wedi'u seilio ar ddealltwriaeth fanwl o'r cyd-destunau sosio-economaidd, amgylcheddol a pholisi y bydd CDLlA yn gweithredu oddi mewn iddynt. Mae angen hefyd i Amcanion yr ACI gael eu targedu tuag at roi sylw i faterion cynaliadwyedd allweddol sy'n berthnasol i gyd-destun gofodol CNPT a chynnwys arfaethedig y CDLlA sy'n dod i'r amlwg.

5.2. Crynodeb o Fframwaith AC Presennol Adolygiad y CDLl

5.1.4 Mae **Tabl 5.1** isod yn rhestru Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd (Amcanion yr AC) oddi mewn i Fframwaith AC CDLl presennol CNPT (2016) ac yn ystyried eu dilysrwydd parhaus. Gwnaed hyn gyda golwg ar ymgorffori fframwaith yr AC oddi mewn i fframwaith ACI ehangach er mwyn llywio Adolygiad y CDLl.

5.1.5 Mae'r adolygiad o Fframwaith AC presennol CDLl CNPT, a geir yn **Nhabl 5.1**, yn dangos, er bod yr holl elfennau'n dal yn ddilys, bod angen Fframwaith ACI newydd er mwyn:

- Sicrhau bod yr ACI, ac ar lefel ehangach, y gwaith o baratoi CDLlA yn ymateb i'r materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd (**Tabl 4.1**);
- Rhoi cyfrif am newidiadau polisi ar bob graddfa ofodol;
- Adlewyrchu cynhwysiad pynciau asesu ehangach trwy newid o 'AC' i 'ACI';
- Ymateb i bwyntiau a allai wella cymhwysiad y fframwaith; ac,
- Ymateb i faterion nad yw'r fframwaith wedi eu cwmpasu.

5.3. Adolygu Fframwaith AC CDLl Presennol CNPT

5.1.6 Man cychwyn proses yr ACI hwn yw ystyried a yw'r Fframwaith AC a luniwyd ar gyfer AC (oedd yn ymgorffori AAS) CDLl cyntaf CNPT yn dal yn ddilys, neu a oes angen fframwaith diwygiedig er mwyn i ACI Adolygiad y CDLl fedru ymateb yn gymesur ac yn effeithiol i faterion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd yn Adran 4. Os rhown o'r neilltu dros dro y newid cwmpas rhwng yr AC yr adroddwyd arno'n flaenorol a'r ACI sydd ar waith yn awr, mae **Tabl 5.1** yn darparu adolygiad o'r Fframwaith AC presennol ar gyfer CDLl CNPT a fabwysiadwyd (2011-2026). Mae hyn yn ystyried dilysrwydd parhaus Amcanion yr AC presennol, gan gynnwys yng nghyd-destun y ffaith bod Adolygiad y CDLl bellach yn destun proses ACI ehangach.

Tabl 5.1: Adolygiad o Fframwaith AC CDLl presennol CCNPT

Amcan 1 AC CDLl CNPT: Newid yn yr Hinsawdd

Nod:

Cymuned sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd a lleiafu'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir

Amcan AC CDLl CNPT	Asesiad o Ddilysrwydd Parhaus
1A: Sicrhau bod pob datblygiad yn cymryd i ystyriaeth newidiadau tebygol yn y dyfodol yn sgîl y newid yn yr hinsawdd (Addasu)	Mae'r amcan AC yn ymdrin yn uniongyrchol â'r blaenoriaethau wrth addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn dal yn ddilys.
1B: Cyflawni targedau'r llywodraeth ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (Lliniaru).	Roedd yn ymdrin yn uniongyrchol â'r angen am gyflawni targedau'r llywodraeth. Mae hyn yn dal yn ddilys. Bellach mae'r targedau yn fwy uchelgeisiol nag yn flaenorol.
1C: Gwneud cyfraniad priodol yr ardal i gynhyrchu ynni ar lefel genedlaethol (Lliniaru).	Mae'r Amcan hwn yn yr AC yn canolbwyntio'n ddefnyddiol ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy, ac mae'n fframwaith polisi priodol o gefnogol ar gyfer datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn parhau'n ddilys.

Asesiad cyffredinol o ddilysrwydd parhaus:

Mae Amcan AC cyffredinol y Newid yn yr Hinsawdd yn amlwg yn dal yn ddilys. Mae effeithiau a goblygiadau'r newid yn yr hinsawdd wedi dod yn fwy i'r amlwg yn ystod y CDLI, ac mae targedau'r Llywodraeth wedi cael eu cynyddu'n unol â hynny. Mae'r adrannau blaenorol wedi dangos nad yw'r CDLI wedi cyflawni ei ddyheadau'n llawn o ran addasu i'r newid yn yr hinsawdd neu ei liniaru. Ond mae hyn yn ymwneud â chymhwyso polisi'r CDLI, yn hytrach nag Amcan yr AC ei hun. Yn 2019 pennodd LlC darged newydd, sef gostyngiad o 95% ar lefelau 1990 erbyn 2050, a chyhoeddodd argyfwng yr hinsawdd hefyd yn 2019.

Fodd bynnag, yn eu ffurf bresennol mae perygl i'r tri amcan 1a-1c ynysu agweddau penodol ar y newid yn yr hinsawdd, ac yng nghyd-destun ymgymryd ag ACI ehangach yn awr, danseilio cymesuredd yr asesu. O ganlyniad, dylid mabwysiadu dull mwy cyfannol o gyflawni addasiadau i'r newid yn yr hinsawdd a'i liniaru, mewn Fframwaith ACI newydd. Dylai hynny ymgorffori Amcanion 1a-1c sydd eisoes yn gweithredu fel meini prawf neu gwestiynau sy'n sbarduno nodi effeithiau. Dylid eu cyfuno â meini prawf/cwestiynau eraill er mwyn darparu amcan AC mwy cyfannol ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Argymhellir bod un Amcan ACI ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cael ei ddatblygu â diben penodol, a dylid cefnogi hynny â chyfres o feini prawf neu gwestiynau i lywio datblygu'r CDLI ac ychwanegu at 1a-1c.

Amcan 2 AC CDLl CNPT: Adnoddau Naturiol a Gwastraff

Nod:

Cymuned sy'n diogelu ac yn gwella adnoddau naturiol, ac yn lleiafu'r gwastraff a gynhyrchir.

Amcan AC CDLl CNPT	Asesiad o Ddilysrwydd Parhaus
2A: Lleiafu'r adnoddau naturiol sy'n cael eu colli neu eu diraddio, ochr yn ochr â sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy yn unig.	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o ymdrin â swm yr adnoddau naturiol.
2B: Cynnal a gwella ansawdd cemegol/ecolegol adnoddau naturiol.	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o ymdrin ag ansawdd adnoddau naturiol.
2C: Lleiafu gwastraff a lleihau faint o wastraff sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi.	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o fynd ati i leihau gwastraff a thirlenwi.

Asesiad cyffredinol o ddilysrwydd parhaus:

Mae amcan cyffredinol yr AC ar Adnoddau Naturiol a Gwastraff yn dal yn ddilys, ac mae rhesymeg gref o hyd o blaid ymgorffori'r rhain mewn un amcan.

Yn y ffurf bresennol, mae perygl i'r tri amcan 2a-2c ynysu agweddau penodol ar fater adnoddau naturiol a gwastraff.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Pholisi Cenedlaethol Adnoddau Naturiol (NNRP) (2017) yn cynnwys goblygiadau polisi – megis egwyddorion Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol – y gellid eu hadlewyrchu ym meini prawf Amcan yr AC. Mae TAN 21 a PCC wedi cael eu diweddaru, a dau ddeilliant pwysig yw ffocws ar yr economi gylchol ac ataliaeth trwy'r hierarchaeth wastraff.

Argymhellir bod un Amcan ACI adnoddau naturiol a gwastraff yn cael ei ddatblygu, gyda diben penodol, ac y dylai hynny gael ei gefnogi gan gyfres o feini prawf neu gwestiynau i lywio datblygiad y CDLl, gan ymgorffori ac ychwanegu at 2a-2c.

Amcan 3 AC CDLl CNPT: Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

Nod:

Cymuned lle mae bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ecosystem naturiol iach ac amrywiaeth yn cael ei meithrin, ei chynnal a'i gwella.

Amcan AC CDLl CNPT	Asesiad o Ddilysrwydd Parhaus
3A: Atal unrhyw golled net bellach o ran bioamrywiaeth	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o ddiogelu bioamrywiaeth, yn arbennig o ran darparu ymrwymiad penodol.
3B: Ecsbloetio pob cyfle rhesymol i sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth.	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o wella bioamrywiaeth.
3C: Lleiafu'r effeithiau niweidiol ar safleoedd geoamrywiaeth dynodedig.	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o ddiogelu geoamrywiaeth, a gellid ymdrin yn benodol hefyd â safleoedd bioamrywiaeth.

Asesiad cyffredinol o ddilysrwydd parhaus:

Mae'r amcan AC cyffredinol ar Fioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yn dal yn ddilys, ac mae rhesymeg gref yn parhau i ymgorffori'r rhain mewn un amcan.

Mae newidiadau i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a PCC wedi rhoi mwy o bwys ar Amcan yr AC, sydd bellach yn galw am wella bioamrywiaeth, a dylid cydnabod hyn. Ychwanegwyd hefyd at rôl Seilwaith Gwyrdd. Rhaid i'r ddyletswydd Adran 6 a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd a'r nodau llesiant a gyflwynwyd yn Neddf LlCD – pwysigrwydd bioamrywiaeth o ran 'gwydnwch' – fod yn ystyriaethau allweddol sy'n torri ar draws amcanion yr AAS.

Yn y ffurf bresennol, mae perygl i'r tri amcan 3a-3c ynysu agweddau penodol ar fioamrywiaeth a geoamrywiaeth, a dylid mabwysiadu agwedd fwy cyfannol atynt. Dylai hynny ymgorffori Amcanion 3a-3c sydd eisoes yn gweithredu fel meini prawf neu gwestiynau sy'n sbarduno nodi effeithiau. Dylid cyfuno'r rhain â meini prawf/cwestiynau eraill i ddarparu amcan bioamrywiaeth a geoamrywiaeth mwy cyfannol. Ymhlith y ffactorau eraill mae seilwaith gwyrdd a'r berthynas rhwng bodau dynol a'r amgylchedd, e.e. dylid rhoi sylw hefyd i ddarparu mynediad at fyd natur ar gyfer pob cymuned.

Nid yw diogelu ansawdd pridd yn rhan o'r fframwaith a dylid ei gynnwys mewn Amcan newydd.

Argymhellir bod un Amcan ACI Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth a Phridd yn cael ei ddatblygu â diben penodol, a dylid cefnogi hynny â chyfres o feini prawf neu gwestiynau i lywio datblygiad y CDLl, gan ymgorffori ac ychwanegu at 3a-3c.

Amcan 4 AC CDLl CNPT: Tirlun, treflun a chymeriad hanesyddol

Nod:

Cymuned lle mae tirluniau, trefluniau a chymeriad hanesyddol unigryw ac amrywiol y Fwrdeistref Sirol yn cael eu gwerthfawrogi, eu cadw a'u gwella.

Amcan AC CDLl CNPT	Asesiad o Ddilysrwydd Parhaus
4A: Diogelu a/neu wella tirlun a threflun yr ardal.	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o ymdrin â'r tirlun a'r treflun. Fodd bynnag, nid yw'n sôn yn benodol am dirluniau neu asedau hanesyddol.
4B: Diogelu a/neu wella amgylchedd hanesyddol yr ardal, gan gynnwys adnoddau pensaernïol ac archaeolegol.	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o ddiogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol.

Asesiad cyffredinol o ddilysrwydd parhaus:

Mae'r Amcan AC hwn yn nodi'n gryno rai elfennau allweddol o ddiogelu tirlun sy'n berthnasol i'r ardal, ond nad yw'n cynnwys tirluniau hanesyddol. O ganlyniad, mae'n colli cyfle i arddangos cydymffurfiaeth ag Atodlen 2 o'r Rheoliadau AAS yng nghyswllt asesu effeithiau arwyddocaol tebygol ar "dreftadaeth ddiwylliannol". Mae hyn yn bwysig, gan nad yw treftadaeth ddiwylliannol yn derbyn sylw penodol rywle arall yn Fframwaith yr AC presennol.

Mae newidiadau yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a PCC wedi cefnogi ymhellach ddilysrwydd pob elfen (tirlun, treflun, cymeriad hanesyddol) yn Amcan yr AC. Mae goblygiadau i egwyddorion Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol. Yn gysylltiedig â bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, dylid ystyried cyfleoedd i gysylltu rhywogaethau a chynefinoedd ar raddfa tirlun. Mae thema creu lleoedd a gyflwynwyd gan PCC10 ac a barhaodd yn PCC11, ynghyd â TAN12 (Dylunio), a newidiwyd yn 2016, yn golygu y gellid sicrhau cysylltiad agosach rhwng treftadaeth a chreu lleoedd trwy feini prawf newydd – gallai'r meini prawf ganolbwyntio ar ddiogelu a chynnal unigrywiaeth.

Mae'r adran flaenorol wedi dangos nad yw'r CDLl wedi cyflawni dyheadau'n llawn o ran diogelu dynodiadau tirlun. Er bod hyn yn broblem wrth gymhwyso polisi'r CDLl yn hytrach nag Amcan yr ACI ei hun, gallai meini prawf neu gwestiynau Amcan yr ACI gynnwys cyfeiriadau penodol at ddynodiadau tirlun.

Amcan 5 AC CDLl CNPT: Llygredd (Ansawdd aer, sŵn a golau)

Nod:

Cymuned heb lygredd sylweddol o ran aer, sŵn na golau.

Amcan AC CDLl CNPT	Asesiad o Ddilysrwydd Parhaus
5A: Cyflawni lefelau derbyniol (bodloni safonau cenedlaethol/Ewropeaidd) o ansawdd aer ar draws y Fwrdeistref Sirol.	Mae hyn yn parhau’n ddilys. Nodwyd Ansawdd Aer fel Mater Allweddol i Adolygiad y CDLl roi sylw iddo.
5B: Cyflawni lefelau sŵn derbyniol, a diogelu ardaloedd tawel ar draws y Fwrdeistref Sirol.	Mae hyn yn parhau’n ddilys.
5C: Lleihau llygredd golau.	Mae hyn yn parhau’n ddilys.

Asesiad cyffredinol o ddilysrwydd parhaus:

O ystyried goblygiadau defnydd tir penodol lleihau a lliniaru llygredd aer, a nodi hynny’n benodol yn Atodlen 2 o’r Rheoliadau AAS, argymhellir bod Amcan ACI ar wahân yn cael ei greu ar gyfer Llygredd Aer. Mae’n fwy priodol rhoi sylw i lygredd Golau a Sŵn o dan amcan Iechyd a Llesiant cyfannol. Dylid cefnogi’r Amcanion ACI perthnasol â chyfres o feini prawf neu gwestiynau i lywio datblygiad

y CDLl, ac ychwanegu at 5a-5c. Bydd angen rhoi cyfrif am newidiadau i PCC. Mae PCC bellach yn cyfeirio at yr angen am hyrwyddo seinluniau priodol, yn dibynnu ar y cyd-destun.

Amcan 6 AC CDLl CNPT: Cydlyniant Cymunedol

Nod:

Cymuned y mae ei diwylliant a'i chymeriad yn cael eu gwella, a lle na chyfyngir ar unigolion gan eithrio cymdeithasol.

Amcan AC CDLl CNPT	Asesiad o Ddilysrwydd Parhaus
6A: Gwella cydlyniant cymdeithasol a lleiafu'r achosion o eithrio cymdeithasol trwy roi sylw i'w achosion.	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o leihau eithrio cymdeithasol a hybu cydraddoldeb sosio-economaidd o ran cyfleoedd a deilliannau.
6B: Diogelu a gwella diwylliant a chymeriad cymunedau, gan gynnwys adnoddau diwylliannol a'r iaith Gymraeg.	Mae hyn yn parhau'n ddilys. Cadarnhawyd pwysigrwydd asesu effeithiau ar yr iaith Gymraeg yn PCC argraffiad 11, TAN20, Deddf Cynllunio Cymru 2015 a'r Llawlyfr Cynllunio (3^{ydd} Argraffiad) (2020).

Asesiad cyffredinol o ddilysrwydd parhaus:

Mae'r ddau faen prawf yn parhau'n ddilys, ond argymhellir bod y rhain yn cael eu gwahanu'n amcan ar agwedd sosio-economaidd cyfleoedd cynhwysiad cymdeithasol, gydag un arall ar dreftadaeth ddiwylliannol a'i diogelu, gan gynnwys diogelu'r Gymraeg. Mae

PCC 11 yn ystyried diogelu'r Gymraeg o fewn 'ystyriaethau diwylliannol', ochr yn ochr â'r amgylchedd hanesyddol a diwylliannol, a hyrwyddo gwerth a phrofiad diwylliannol.

Amcan 7 AC CDLl CNPT: Iechyd a llesiant (gan gynnwys tlodi/amddifadedd)

Nod:

Cymuned lle mae unigolion yn cael cyfle i wireddu eu potensial heb eu llesteirio gan salwch na thlodi

Amcan AC CDLl CNPT	Asesiad o Ddilysrwydd Parhaus
7A: Gwella'r deilliannau iechyd corff a meddwl i bawb.	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o fynd ati i wella iechyd a llesiant trwy gydnabod cysylltiadau â thlodi ac amddifadedd.
7B: Lleihau/lleiafu achosion ac effeithiau afiechyd trwy roi sylw i achosion a chanlyniadau afiechyd, anghydraddoldeb iechyd a llesiant gwael.	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o fynd ati i wella iechyd a llesiant trwy gydnabod cysylltiadau â thlodi ac amddifadedd.
7C: Lleihau/lleiafu achosion ac effeithiau tlodi trwy roi sylw i achosion a chanlyniadau tlodi.	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o fynd ati i wella iechyd a llesiant trwy gydnabod cysylltiadau â thlodi ac amddifadedd.

Asesiad cyffredinol o ddilysrwydd parhaus:

Mae'r amcan AC cyffredinol ar Iechyd a Llesiant yn dal yn ddilys ac mae rhesymeg gref yn parhau i ymgorffori'r rhain mewn un amcan AC.

Mae'r adran flaenorol wedi dangos nad yw'r CDLI wedi cyflawni'n llawn ddyheadau ar gyfer gwell canlyniadau economaidd – gyda chysylltiad cryf â iechyd. Nid yw hon yn broblem gyda fframwaith yr AC a dilysrwydd yr Amcan AC cyffredinol, sy'n ymdrin yn gyfannol â iechyd a llesiant mewn modd sy'n parhau'n gadarn yn gyffredinol.

Er mwyn sicrhau bod yr ACI yn cydymffurfio ag Atodlen 2 o'r Rheoliadau AAS, yn rhoi sylw i Ddeddf LlCD 2015 ac yn ymgorffori'n llawn ofynion Asesiad Llesiant gyda'r ACI, dylai Amcan ACI newydd ymgorffori 7a) i 7c) a chael ei estyn i gynnwys meini prawf eraill er mwyn hyrwyddo dehongliad cyfannol o iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, llesiant cymdeithasol, diogelwch a sicrwydd. O ganlyniad, dylai'r meini prawf grisialu'n benodol faterion sy'n cynnwys iechyd meddwl, cyrhaeddiad addysgol, atal troseddu, amwynder preswyl ac amddifadedd lluosog.

Amcan 8 AC CDLl CNPT: Yr Economi

Nod:

Cymuned lle mae'r economi leol yn gydnerth yn wyneb newid economaidd, cymdeithasol a hinsoddol byd-eang, ac yn creu/cynnal ansawdd bywyd da i'r holl drigolion yn y gymuned.

Amcan AC CDLl CNPT	Asesiad o Ddilysrwydd Parhaus
8A: Datblygu a chefnogi seilwaith economaidd lleol sy'n ddeniadol i fusnes ac yn diwallu anghenion newidiol y gymuned leol a chenedlaethol.	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o wella'r economi leol.
8B: Datblygu a chefnogi economi sy'n diogelu ochr yn ochr ag ategu, hybu a gwella buddsoddiad mewn adnoddau lleol ac asedau amgylcheddol, a'r defnydd ohonynt.	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o wella'r economi leol.
8C: Datblygu a chefnogi economi sy'n ategu, yn defnyddio ac yn gwella sgiliau a gwybodaeth y gymuned leol.	Mae hon yn parhau'n elfen ddilys o ddull cyffredinol o wella'r economi leol.

Asesiad cyffredinol o ddilysrwydd parhaus:

Mae amcan cyffredinol yr AC ar yr Economi yn parhau'n ddilys ac mae rhesymeg gref yn parhau i ymgorffori'r rhain mewn un amcan.

Mae'r adran flaenorol wedi dangos nad yw'r CDLl wedi cyflawni dyheadau yn llawn o ran twf economaidd, yn arbennig yng nghyswllt ffocws gofodol. Er bod hyn yn broblem ar gyfer cymhwyso polisi'r CDLl yn hytrach nag Amcan yr AC ei hun, gallai meini prawf neu gwestiynau Amcan yr AC gynnwys cyfeiriadau penodol at sicrhau bod twf economaidd yn cyflawni nodau adfywio.

Yn y ffurf bresennol mae perygl i'r tri amcan 8a-8c ynysu agweddau penodol ar yr Economi. Dylid ymdrin yn fwy cyfannol â thwf economaidd a gwydnwch. Dylai hyn ymgorffori Amcanion 8a-8c yr ACI fel meini prawf yn hytrach nag ar wahân. Gellid ymdrin â blaenoriaethau strategol adfywio hefyd trwy Amcanion AC eraill ynghylch defnydd tir, lleihau anghydraddoldeb, creu lleoedd a llesiant cymdeithasol.

Er mwyn bod yn fwy effeithiol, dylai cyfres newydd o Amcanion ACI mwy integredig sy'n canolbwyntio ar dwf economaidd, adfywio, buddsoddi a chyflogaeth gymryd y cyd-destun diweddaraf i ystyriaeth, gan gynnwys y goblygiadau i CNPT yn sgîl Bargen Ddinesig Bae Abertawe, y Parth Menter ym Mhort Talbot, y Porthladd Rhydd Celtaidd, potensial ar gyfer Metro Bae Abertawe a Chymru'r Dyfodol. Mae cyfle hefyd i ystyried y cysylltiad rhwng Deddf LlCD, a allai ddarparu ffocws ychwanegol ar sgiliau a chynhwysiad fel ffactorau allweddol ar gyfer twf economaidd cynaliadwy.

5.4. Cwmpas Arfaethedig yr ACI ac Amcanion ar gyfer Adolygiad y CDLl

5.4.1. Mae'r is-adran hon yn darparu trosolwg o'r pynciau y mae angen eu hystyried trwy'r ACI hwn ac felly oddi mewn i Fframwaith yr ACI. Mae'n rhaid i gwmpas Fframwaith yr ACI fod yn ddigon eang fel bod modd canfod effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol ac effeithiau cydraddoldeb a iechyd tebygol yr Adolygiad CDLl sydd ar waith, a rhoi sylw iddynt yn unol â'r gofynion statudol (Adran 1 ac uchod ym mharagraff 5.3.3). Mae Adran 4.3 hefyd yn egluro y dylai Fframwaith yr ACI fod yn ehangach na'r hyn a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer CDLl CNPT. Yn benodol, mae angen ymgorffori Amcanion ACI sy'n ymateb i'r gofynion cyfreithiol canlynol yn y fframwaith:

- AC fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynllunio Datblygu (Cymru) ('Rheoliadau 2005');
- AAS fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 ('y Rheoliadau AAS');
- Cefnogi gweithrediad nodau llesiant ac amcanion llesiant (a chyflawni dyletswyddau cysylltiedig) fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf LlCD 2015. Wrth baratoi'r CDLlA mae angen ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol;
- Asesiad effaith ar gydraddoldeb (EqIA) o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- Asesiad effaith ar iechyd (HIA) – mae hyn yn anstatudol, ond mae angen amdano i gefnogi prosesau asesu llesiant, AAS ac EqIA cadarn; ac,
- Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a Pholisi Cynllunio Cymru (PPW) – 11eg argraffiad.

AAS/AC

5.4.2. Bydd angen i Fframwaith yr ACI roi sylw i'r holl bynciau amgylcheddol a ragnodwyd yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau AAS (gweler Adran 1.5), gan fod potensial iddyn nhw gael effaith sylweddol ar bopeth nad oes modd ei

rychwantu ar hyn o bryd, ac felly y bydd angen ei archwilio ymhellach trwy'r broses ACI. Mae cynnwys 'poblogaeth', 'iechyd dynol' ac 'asedau materol' fel pynciau AAS yn darparu sylfaen ar gyfer asesu effeithiau tebygol ar gydraddoldeb a iechyd gan ddefnyddio'r un Fframwaith ACI, fel y manylir isod. Yn unol â'r Rheoliadau AAS, bydd yr ACI hefyd yn asesu rhyngberthynas effeithiau sy'n codi yng nghyswllt y materion amgylcheddol hyn.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

5.4.3. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cyflwyno'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru, gan adlewyrchu'r diffiniad yn **Neddf LlCD 2015**.

Ystyr datblygu cynaliadwy yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r bwriad o gyflawni'r nodau llesiant.

5.4.4. Mae Deddf LlCD yn ganolog i'r system gynllunio. Mae PCC (2021) yn awr yn cael ei yrru gan yr angen am ddull gweithredu creu lle sy'n ganolog i gynllunio, ac sy'n gyfrifol am gyflawni'r weledigaeth o Gymru a gyflwynwyd yn Neddf LlCD.

5.4.5. I gyflawni hyn, rhaid i Gwmpas yr ACI a Fframwaith yr ACI, felly, ddangos sut bydd y CDLlA yn mwyafu ei gyfraniad i gyflawni saith nod llesiant Deddf LlCD. Yn y lle cyntaf, mae'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yn darparu egwyddor cynaliadwyedd glir sy'n ganolog i'r ACI, ac y bydd angen rhoi sylw cyson iddi oddi mewn i fframwaith yr ACI. Rhaid i fframwaith yr ACI ymgorffori'r saith nod llesiant y mae'n ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn eu cyflawni; sef:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a,

- Chymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

5.4.6. Bydd y nodau llesiant hyn yn cael eu hymgorffori yn Fframwaith yr ACI, a byddant yn croesdorri Amcanion yr ACI. Maent yn atgyfnerthu llawer o agweddau ar bynciau Atodlen 2 yr AAS, gyda ffocws arbennig ar asesu effeithiau hirdymor y CDLIA ar iechyd dynol a’r boblogaeth. Bydd angen i gwmpas yr ACI a Fframwaith yr ACI ystyried ffyniant economaidd yn hytrach na thwf tymor byr, ac mae hynny’n debygol o olygu ffocws ar bontio i garbon isel a chyflawni economi fwy cynhyrchiol a chynhwysol. Bydd angen ystyried sut mae modd cyflawni gwydnwch wrth ymdrin â’r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, a rôl bioamrywiaeth a’r buddion o’r ddeutu wrth wella canlyniadau iechyd dynol. Bydd angen ystyried iechyd o ran llesiant corff a meddwl, gydag goblygiadau defnydd tir hyn yn ddealledig. Bydd angen asesu’r cysylltiad rhwng iechyd da a chyfleoedd sosio-economaidd er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer twf da yn cael eu lledaenu mor gyfartal â phosibl. O ganlyniad, bydd angen asesu a deall sut mae cyflawni cydlyniant cymdeithasol trwy wneud penderfyniadau ynghylch defnydd tir, er enghraifft trwy fuddsoddi mewn seilwaith ffisegol. Mae’n rhaid adnabod ac ystyried pwysigrwydd cynnal unigrywiaeth yn ardal CCNPT a’r ffyrdd lluosog y gall penderfyniadau defnydd tir effeithio ar y rhain, o ran effeithiau diwylliannol, ffisegol, ieithyddol a chymdeithasol. Yn olaf, pan gaiff y ffactorau hyn eu hystyried ar y cyd, mae’n rhaid i Fframwaith yr ACI helpu CCNPT i nodi sut bydd yn cyfrannu at ei gyfrifoldebau cynaliadwyedd byd-eang

5.4.7. Mae Deddf LlCD 2015 yn nodi pum ffordd o weithio y mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi’u cyflawni wrth ymgymryd â’u dyletswydd i gyflawni datblygu cynaliadwy:

- Edrych ar y tymor hir er mwyn peidio â pheryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau;
- Deall achosion gwaelodol materion i’w hatal rhag digwydd neu waethygu;
- Defnyddio dull gweithredu integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;

- Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw; a
- Gweithio gydag eraill mewn modd cydweithredol i gael hyd i atebion cynaliadwy a rennir.

5.4.8. Bydd fframwaith yr ACI, trwy ymdrin ag arfarniad y CDLlA, a'r Nodau Llesiant sy'n rhan ohono, mewn modd cyfannol, yn helpu i wreiddio'r pum ffordd o weithio yn y broses o greu'r cynllun.

5.4.9. Er mwyn rhoi Deddf LlCD ar waith yn lleol, mae CCNPT wedi cynhyrchu Cynllun Llesiant, sy'n statudol ofynnol, sy'n ffurfio'r dull o ymdrin â pholisïau, rhaglenni a strategaethau perthnasol y Cyngor. Mae CDLlA CCNPT yn rhan o'r cylch gwaith hwn, ac mae goblygiadau clir ar gyfer Cwmpas yr ACI a chynnwys Fframwaith yr ACI. Mae'r CNPT a Garem (Cynllun Llesiant 2018-2025) yn nodi chwe amcan llesiant lleol y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu mynd ar eu hôl i wella llesiant y bobl sy'n byw yn ardal CNPT:

- Amcan 1: Cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn arbennig plant sydd mewn perygl o ddioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod;
- Amcan 2: Creu cymunedau diogel, hyderus a chydnerth, gyda ffocws ar bobl agored i niwed;
- Amcan 3: Bywiogi diwedd oes – Heneiddio'n Dda;
- Amcan 4: Hybu llesiant trwy waith ac yn y gweithle
- Amcan 5: Gosod gwerth ar ein seilwaith gwyrdd a chyfraniad hynny i'n Llesiant; ac,
- Amcan 6: Mynd i'r afael ag eithrio digidol.

5.4.10. Bydd yr amcanion llesiant hyn yn cael eu hymgorffori yn Fframwaith yr ACI ac yn croesdorri Amcanion yr ACI. Maent yn ategu ac yn darparu mecanwaith gweithredu penodol i'r ardal leol ar gyfer Deddf LlCD yn ardal CCNPT. Ar hyn o bryd mae 30% o blant CNPT yn byw mewn tlodi. Bydd angen i Fframwaith yr ACI dargedu'r CDLlA gyda golwg ar wella'r cyfleoedd a'r canlyniadau hirdymor i blant. Bydd tai, yn arbennig sicrhau tai diogel ar

gyfer pobl ag anghenion penodol, yn ffocws allweddol ar gyfer y CDLlA. Un mater allweddol a nodwyd sydd heb dderbyn sylw o dan y fframwaith AC presennol yw Tai. O ystyried y materion allweddol a nodwyd yn Adran 4 a materion a godwyd yng Nghynllun Llesiant CNPT (2018-2025), argymhellir bod amcan tai annibynnol yn cael ei nodi hefyd yn fframwaith yr ACI.

5.4.11. Mae tai yn fater sy'n croesdorri ac yn sbarduno llesiant. Mae'n hanfodol i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, ac mae llawer o oblygiadau i hynny, yn arbennig o ran tai a mynediad at wasanaethau, nid yn unig i wella hyd oes ddisgwyliedig ond hefyd y blynyddoedd iach disgwyliedig. Ar draws y cenedlaethau, bydd angen i Fframwaith yr ACI gael ei gyfeirio at sicrhau gwell rhagolygon cyflogaeth yn CNPT, gan roi sylw nid i gyfraddau cyflogaeth yn unig, ond hefyd i safon y gyflogaeth a mynediad at gyfleoedd. Bydd Fframwaith yr ACI yn cynnwys meini prawf bioamrywiaeth, ond mae'n bwysig sicrhau bod y rhain yn cadarnhau manteision seilwaith gwyrdd i bobl. Bydd angen i Fframwaith yr ACI gydnabod y cysylltiad rhwng twf economaidd cynaliadwy a chysylltedd digidol. Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi'i seilio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r rhyngrwyd i dyfu cyfleoedd cyflogaeth o safon ar draws y rhanbarth. Bwriad dynodi'r Porthladd Rhydd Celtaidd yw cyflwyno llwybr cyflymach ar gyfer economi sero net Cymru, ac felly bydd angen i Fframwaith yr ACI ddangos sut cefnogir hynny.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

5.4.12. Bydd yr AEG yn cael ei gynnal trwy asesu perfformiad yr Adolygiad CDLl sydd ar waith yn erbyn amcanion o Fframwaith yr ACI sy'n ymwneud â mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hybu cydraddoldeb a chynhwysiad cymdeithasol. Bydd yr AEG yn gweithredu Dyletswyddau Cydraddoldeb a Sosio-economaidd y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

5.4.13. Amcanion proses yr AEG yw integreiddio ystyried materion ac effeithiau cydraddoldeb perthnasol wrth datblygu'r Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol o'r cychwyn, ac wrth wneud hynny, arddangos cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Sosio-economaidd. Defnyddir y dyletswyddau hyn yn offer i lywio a gwreiddio materion cydraddoldeb allweddol yn Adolygiad y CDLl o'r cychwyn cyntaf. Ar y cyd â'r

holl asesiadau statudol eraill sy'n rhan o'r ACI, mae'r dull gweithredu integredig hwn yn golygu bod modd i oblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd holl elfennau'r strategaeth gael eu profi ar y cyfle cynharaf, ac i unrhyw ansicrwydd neu faterion a godwyd yn ystod prosesau asesu effaith dderbyn sylw wrth baratoi'r CDLlA.

5.4.14. I'r graddau y mae'r cynllun datblygu yn effeithio ar fynediad at wasanaethau, amwynderau, cyfleoedd economaidd a gweithgareddau cymdeithasol, mae Adolygiad y CDLl (sy'n arwain at fabwysiadu CDLlA) yn debygol o arwain at wahanol effeithiau ar wahanol grwpiau demograffig, personau â nodweddion gwarchodedig, a'r rhai sy'n wynebu anfantais sosio-economaidd. Bydd elfen AEG yr ACI yn asesu'n gyfannol yr effeithiau tebygol ar briodweddau cydraddoldeb, cynhwysiad cymdeithasol a phoblogaeth, ac felly fe'u hadlewyrchir yn yr amcanion ACI yn Fframwaith yr ACI (**Tabl 5.2** isod) Yn y fan hon, oherwydd natur Adolygiad y CDLl, mae nodi effeithiau penodol ar briodas, partneriaeth sifil ac ailbennu rhywedd heb eu cynnwys wrth gymhwyso Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan nad oes modd yn ymarferol i Adolygiad y CDLl sicrhau amcanion mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig hynny.

5.4.15. I osgoi dyblygu neu fylchau yn yr asesiad (gan gynnwys mewn cyfuniad â Deddf LlCD), mabwysiadir y dull gweithredu integredig a amlinellwyd yng nghanllawiau anstatudol 'Cymru Fwy Cyfartal – Mapio'r Dyletswyddau' (2021) yn yr ACI hwn. O ganlyniad, defnyddir tystiolaeth berthnasol a gynhyrchir trwy gymhwyso Fframwaith yr ACI i holl elfennau'r cynllun terfynol sy'n ymffurfio i gefnogi adroddiadau penodol yn erbyn gofynion neilltuol pob dyletswydd.

Asesiad Effaith ar Iechyd (AEI)

5.4.16. Pwrpas AEI yw ystyried sut bydd cynllun, rhaglen neu gynnig yn effeithio ar y ffactorau allweddol sy'n gallu dylanwadu ar iechyd a llesiant pobl. Mae'r dull AEI yn ymwneud yn arbennig â dosbarthu effeithiau mewn poblogaeth, gan fod yr effaith ar wahanol grwpiau yn debygol o fod yn wahanol, ac felly gallai cynigion arbennig leihau neu ehangu anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol. Ar lefel ehangach dylid cydnabod bod nodweddion a etifeddir

gan unigolion yn rhyngweithio â ffordd o fyw, cymuned, a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, yn ogystal ag ystod lawer ehangach o faterion i ddylanwadu ar eu hiechyd.

5.4.17. Nod Deddf LlCD yw cyflawni 'Cymru iachach', ac mae'r system gynllunio yn allweddol i sicrhau bod lleoedd yn cefnogi iechyd a llesiant pobl a chymunedau. Mae Cynllun Llesiant CNPT (2018-2025) wedi nodi gwella iechyd fel blaenoriaeth allweddol. Yn amlwg, oddi mewn i bolisi cenedlaethol a lleol, mae ymwybyddiaeth gynyddol o'r cysylltiadau rhwng cymeriad ac ansawdd y lleoedd lle mae pobl yn byw ac yn gweithio a'u hiechyd a'u llesiant. Yn nodweddiadol ffactorau cymdeithasol ac economaidd yw prif benderfynyddion iechyd, er bod darparu gwasanaethau iechyd a ffactorau amgylcheddol megis rheoli llygredd a dylunio gwell yn gallu gwneud cyfraniad pwysig. Dylai'r cyd-destun cyfreithiol a pholisi gyfeirio'r CDLlA tuag at ganlyniadau iechyd gwell. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) wedi gosod targedau cryfach ar gyfer lleihau carbon, a dylai'r AEI a'r ACI helpu i sicrhau bod lleoedd a ffyrdd o fyw sy'n fwy gwyrdd ac yn fwy iach yn cael eu cyflawni.

5.4.18. Mae proses yr AEI yn darparu fframwaith systematig, ond hyblyg ac ymarferol, y gellir ei ddefnyddio i ystyried effeithiau ehangach polisïau neu fentrau lleol a chenedlaethol a sut maent hwythau, yn eu tro, yn gallu effeithio ar iechyd pobl. Mae'r Rheoliadau AAS yn gofyn bod iechyd dynol yn cael ei ystyried fel rhan o asesu effeithiau amgylcheddol. Mae modd ehangu elfen iechyd AAS i gynnwys amcanion iechyd corfforol a meddyliol AEI.

5.4.19. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi 'Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol' (2018) sy'n canolbwyntio ar chwe maes blaenoriaeth:

- Y seilwaith cerdded a beicio;
- Mannau gwyrdd/glas agored a seilwaith gwyrdd;
- Cymuned yr amgylchedd tyfu a manwerthu bwyd;
- Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cael eu darparu o gyfleusterau lleol;
- Lefelau isel o lygredd aer; a,

- Dyluniad adeiladau.

5.4.20. Ymgymerir ag elfen AEI yr ACI hwn yn gyntaf trwy asesu perfformiad y CDLlA sydd ar waith yn erbyn amcanion o Fframwaith yr ACI sy'n ymwneud â iechyd a llesiant. Gan adeiladu ar hyn, bydd ail lefel asesu yn ystyried effeithiau tebygol y CDLlA sy'n dod i'r amlwg yn ei gyfanrwydd, yn benodol ar benderfynyddion allweddol iechyd yn CNPT, gan gymryd i ystyriaeth y chwe maes blaenoriaeth a nodwyd.

Yr Iaith Gymraeg

5.4.21. Mae cynnal yr Iaith Gymraeg yn rhan annatod o hybu diwylliant ac unigrywiaeth cenedlaethol a lleol. Mae Iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn un o'r nodau llesiant (Deddf LlCD), ac mae rôl creu lleoedd wrth hyrwyddo'r Gymraeg i'w gweld yn PCC11. O ganlyniad, mae rôl glir i'r CDLlA, ac oddi mewn i hynny i'r ACI, i sicrhau bod hynny'n cael ei gyflawni. Mae bellach yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth bod yr ACI yn cynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r iaith Gymraeg (adran 62(6A) PCPA 2004 fel y cynhwyswyd gan adran 11, PWA 2015). Gwneir hynny'n gyntaf trwy gynnwys Cwestiynau Tywys ar yr iaith Gymraeg a meini prawf asesu safleoedd yn Fframwaith yr ACI, gan ganiatáu lefel sylfaenol o asesu. I adeiladu ar hynny, bydd ail lefel o asesu yn archwilio'r effeithiau tebygol ar y defnydd o'r Gymraeg ar draws CNPT o roi cynllun y CDLlA yn ei grynswth ar waith.

Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

5.4.22. Fel y nodwyd yn Adran 1, cynhelir ARhC ar wahân i asesu effeithiau tebygol y CDLlA sy'n dod i'r amlwg ar safleoedd Natura 2000 ('Safleoedd Ewropeaidd'). Mae tair Safle Ewropeaidd yn CNPT, a thair Safle Ewropeaidd arall o fewn 15km i CNPT, y gallai cynigion y CDLlA sy'n dod i'r amlwg effeithio arnynt. Ceir manylion llawn am yr holl ddynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol neu leol yn Atodiad A. Y safleoedd Ewropeaidd fydd yn cael eu hasesu yw:

- Oddi mewn i CNPT: Cynffig (ACA), Cors Crymlyn (ACA a Safle Ramsar) a Choedydd Nedd a Mellte (ACA); a hefyd,

- Tu allan i ardal CCNPT: Glaswelltir Cefn Cribwr (ACA), Blaen Cynon (ACA) a Chwm Calan (ACA).

5.5. Amcanion ACI Arfaethediad Adolygiad CDLl CNPT

5.5.1. Gan gymryd i ystyriaeth y raddfa ofodol arfaethedig, ffurf a chynnwys y CDLlA (Adran 2), nodweddion gwaelodlin perthnasol a materion cynaliadwyedd allweddol (Adran 4.2 ac **Atodiad A**), amcanion a gofynion cynlluniau a rhaglenni eraill perthnasol (Adran 4.3 ac **Atodiad B**) a'r angen am gymesuredd wrth asesu, ceir manylion y gyfres arfaethedig o Amcanion ACI sydd i'w cynnwys mewn Fframwaith ACI newydd ar gyfer Adolygiad y CDLl yn **Nhabl 5.2** isod. Bwriad y pwyslais ar ddefnyddio dull gweithredu cyfannol ar gyfer gwella llesiant ar draws llawer o Amcanion yr AC yw arddangos cydymffurfiaeth â Deddf LICD 2015 ac alinio â PCC – Argraffiad 11 (2021) a Chymru'r Dyfodol 2040.

5.5.2. Bwriad y pwyslais ar ddefnyddio dull integredig i ymdrin â gwella llesiant ar draws llawer o amcanion yr ACI yw adlewyrchu natur drosfwaol materion amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, cydraddoldeb a iechyd perthnasol, a darparu ffocws sengl yn sylfaen ar gyfer yr ACI hwn, yn hytrach nag asesu materion amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, cydraddoldeb a iechyd ar wahân.

Tabl 5.2: Amcanion ACI Arfaethedig ar gyfer Adolygiad y CDLI

Rhif	Pwnc yr Amcan ACI Arfaethedig	Amcan ACI Arfaethedig
1	Iechyd a Llesiant	Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth, gan gynnwys yng nghyswllt iechyd corff a meddwl, llesiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol.
2	Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cymdeithasol	Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, hybu cyfle cyfartal, lleihau anfantais sosio-economaidd, taclo eithrio cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol.
3	Trafnidiaeth a Chyfathrebu	Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd trwy wella seilwaith a chreu rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy, ochr yn ochr â sicrhau mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau o safon uchel.
4	Twf Economaidd Cynhwysol	Cynyddu nifer a safon y cyfleoedd cyflogaeth, a gwella lefelau addysg a sgiliau, ochr yn ochr â mwyafu cyfraniad economaidd ardal CCNPT i Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe, gan gynnwys trwy amrywio a chryfhau'r sylfaen economaidd leol
5	Tai	Darparu nifer ac ystod digonol o dai fforddiadwy o safon uchel mewn lleoliadau cynaliadwy er mwyn ymateb i anghenion lleol a nodwyd.

Rhif	Pwnc yr Amcan ACI Arfaethedig	Amcan ACI Arfaethedig
6	Ansawdd Aer	Atal a lleihau allyriadau a chrynodiadau o lygryddion atmosfferig niweidiol a lleiafu profiad o ansawdd aer gwael.
7	Newid yn yr Hinsawdd	Mabwysiadu mesurau lliniaru ac addasu priodol i leihau ac ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
8	Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd	Cadw, diogelu a gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, gan gynnwys trwy ddiogelu safleoedd a rhywogaethau pwysig, gwella'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd a diogelu adnoddau pridd pwysig.
9	Perygl Dŵr a Llifogydd	Cadw, diogelu a gwella amgylcheddau arfordirol a dŵr, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, ochr yn ochr â lleihau risg llifogydd.
10	Deunyddiau a Gwastraff	Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gyda'r effeithiau lleiaf posibl ar yr amgylchedd, a sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau adeiladu.

Rhif	Pwnc yr Amcan ACI Arfaethedig	Amcan ACI Arfaethedig
11	Creu Lleoedd Cynaliadwy	Mwyafu defnydd effeithlon o dir a gwella ansawdd dylunio i greu lleoedd gwych i bobl.
12	Treftadaeth Ddiwylliannol (gan gynnwys yr iaith Gymraeg)	Cadw, diogelu a gwella’r amgylchedd hanesyddol ac asedau diwylliannol, gan gynnwys defnyddio’r Gymraeg.
13	Tirlun	Diogelu a gwella cymeriad y tirlun, amwynder gweledol, ymdeimlad unigryw o le ac eglurder aneddiadau yn CNPT.

5.5.3. Lluniwyd yr Amcanion ACI arfaethedig hyn i gydweddu â'i gilydd, i osgoi dyblygu asesu ac i ymwneud â chynnwys penodol Adolygiad y CDLl, er mwyn darparu sylfaen ar gyfer ACI cymesur ac effeithiol. Mae **Tabl 5.3** isod yn dangos yr holl ofynion asesu statudol a gwmpaswyd trwy'r Amcanion ACI arfaethedig.

Tabl 5.3: Y berthynas rhwng Amcanion Arfaethedig yr ACI a Rheoliadau'r AAS

Amcan ACI Arfaethedig	Pwnc/Pynciau AC/AAS yn unol â'r Rheoliadau AAS – Atodlen 2	Yn ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswyddau Cydraddoldeb a Sosio-economaidd y Sector Cyhoeddus	Yn ymwneud â Deddf LICD 2015	Yn ymwneud â'r AEI	Yn ymwneud â Deddf yr Iaith Gymraeg (Cynllunio Cymru) 2015)
5.5.3.1.1.1.1. Iechyd a Llesiant: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth, gan gynnwys o ran iechyd corff a meddwl, llesiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol.	B, C	Ydy	Ydy	Ydy	
5.5.3.1.1.1.2. Cydraddoldeb a Chynhwysiad Cymdeithasol: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, hybu cyfle cyfartal, lleihau anfantais sosio-economaidd, taclo eithrio	B, J	Ydy – yn uniongyrchol	Ydy	Ydy	Ydy

Amcan ACI Arfaethedig	Pwnc/Pynciau AC/AAS yn unol â'r Rheoliadau AAS – Atodlen 2	Yn ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswyddau Cydraddoldeb a Sosio-economaidd y Sector Cyhoeddus	Yn ymwneud â Deddf LICD 2015	Yn ymwneud â'r AEI	Yn ymwneud â Deddf yr Iaith Gymraeg (Cynllunio Cymru) 2015)
cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol.					
5.5.3.1.1.1.3. Trafnidiaeth a Chyfathrebu: Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd trwy wella seilwaith a chreu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy, ochr yn ochr â sicrhau mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau o safon uchel.	B, I, J	Ydy	Ydy		
5.5.3.1.1.1.4. Twf Economaidd Cynhwysol: cynyddu nifer a safon y cyfleoedd cyflogaeth a gwella lefelau	B, J	Ydy	Ydy		Ydy?

Amcan ACI Arfaethedig	Pwnc/Pynciau AC/AAS yn unol â'r Rheoliadau AAS – Atodlen 2	Yn ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswyddau Cydraddoldeb a Sosio-economaidd y Sector Cyhoeddus	Yn ymwneud â Deddf LICD 2015	Yn ymwneud â'r AEI	Yn ymwneud â Deddf yr Iaith Gymraeg (Cynllunio Cymru) 2015)
addysg a sgiliau ynghyd â mwyafu cyfraniad economaidd CNPT i Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe, gan gynnwys trwy amrywio a chryfhau'r sylfaen economaidd leol					
5.5.3.1.1.1.5. Tai: Darparu nifer ac ystod digonol o dai fforddiadwy ac o safon uchel mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion lleol a nodwyd.	B, J, C	Ydy	Ydy	Ydy	Ydy?
5.5.3.1.1.1.6. Ansawdd Aer: Atal a lleihau allyriadau a chrynodiadau o lygryddion atmosfferig niweidiol a	H, C	Ydy	Ydy	Ydy	

Amcan ACI Arfaethedig	Pwnc/Pynciau AC/AAS yn unol â'r Rheoliadau AAS – Atodlen 2	Yn ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswyddau Cydraddoldeb a Sosio-economaidd y Sector Cyhoeddus	Yn ymwneud â Deddf LICD 2015	Yn ymwneud â'r AEI	Yn ymwneud â Deddf yr Iaith Gymraeg (Cynllunio Cymru) 2015)
lleiafu cysylltiad ag aer o ansawdd gwael.					
5.5.3.1.1.1.7. Newid yn yr Hinsawdd: Mabwysiadu mesurau lliniaru ac addasu priodol i leihau ac ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.	I		Ydy		
5.5.3.1.1.1.8. Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd: Cadw, diogelu a gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, gan gynnwys trwy ddiogelu safleoedd a rhywogaethau pwysig,	A, D, E, F		Ydy		

Amcan ACI Arfaethedig	Pwnc/Pynciau AC/AAS yn unol â'r Rheoliadau AAS – Atodlen 2	Yn ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswyddau Cydraddoldeb a Sosio-economaidd y Sector Cyhoeddus	Yn ymwneud â Deddf LICD 2015	Yn ymwneud â'r AEI	Yn ymwneud â Deddf yr Iaith Gymraeg (Cynllunio Cymru) 2015)
gwella darpariaeth seilwaith gwyrdd a diogelu adnoddau pridd pwysig.					
5.5.3.1.1.1.9. Dŵr a Pherygl Llifogydd: Cadw, diogelu a gwella amgylcheddau dŵr ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, ochr yn ochr â lleihau perygl llifogydd.	G		Ydy	Ydy	
5.5.3.1.1.1.10. Asedau materol a Gwastraff: Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gyda'r effaith leiaf bosibl ar yr amgylchedd, a sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan	F, J		Ydy		

Amcan ACI Arfaethedig	Pwnc/Pynciau AC/AAS yn unol â'r Rheoliadau AAS – Atodlen 2	Yn ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswyddau Cydraddoldeb a Sosio-economaidd y Sector Cyhoeddus	Yn ymwneud â Deddf LICD 2015	Yn ymwneud â'r AEI	Yn ymwneud â Deddf yr Iaith Gymraeg (Cynllunio Cymru) 2015)
gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu.					
5.5.3.1.1.1.11. Creu Lleoedd Cynaliadwy: Mwyafu defnydd effeithlon o dir a gwella safon dylunio i greu lleoedd gwych i bobl.	B, J, L	Ydy	Ydy	Ydy	
5.5.3.1.1.1.12. Treftadaeth Ddiwylliannol a'r Iaith Gymraeg: Cadw, diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol ac asedau	B, K		Ydy		Ydy

Amcan ACI Arfaethedig	Pwnc/Pynciau AC/AAS yn unol â'r Rheoliadau AAS – Atodlen 2	Yn ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswyddau Cydraddoldeb a Sosio-economaidd y Sector Cyhoeddus	Yn ymwneud â Deddf LlCD 2015	Yn ymwneud â'r AEI	Yn ymwneud â Deddf yr Iaith Gymraeg (Cynllunio Cymru) 2015)
diwylliannol, gan gynnwys defnydd o'r Gymraeg.					
5.5.3.1.1.1.13. Diogelu a gwella cymeriad y tirlun, amwynder gweledol, ymdeimlad unigryw o le ac eglurder aneddiadau yn CNPT.	B, L				

5.5.4. Mae **Tabl 5.3** yn dangos bod sylw da yn cael ei roi i'r holl ofynion statudol perthnasol oddi mewn i'r gyfres arfaethedig o Amcanion ACI, ac y byddant yn caniatáu i faterion cysylltiedig dderbyn sylw ochr yn ochr. Dylai hyn sicrhau bod modd defnyddio proses yr ACI i adnabod a datrys unrhyw wrthdaro sy'n codi naill ai rhwng Amcanion yr ACI neu elfennau'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg.

5.6. Fframwaith ACI Arfaethedig ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT

5.6.1. Er mwyn i'r ACI hwn fedru digwydd mewn modd cymesur, wedi'i dargedu, defnyddir Fframwaith ACI, fydd yn cynnwys:

- Amcanion arfaethedig yr ACI (gweler **Tabl 5.2**);
- Cyfres o Gwestiynau Tywys perthnasol yn ymwneud â phob Amcan ACI. Yn amodol ar y farn a fynegir gan y Cyrff Ymgynghori perthnasol, defnyddir hyn mewn asesiad ansoddol o bob elfen bwysig sy'n dod i'r amlwg yn y CDLlA, ac unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol a nodwyd, i adnabod eu Heffeithiau Arwyddocaol Tebygol (LSE) yn gymesur; a
- Chyfres o ddangosyddion cynaliadwyedd y bwriedir eu hystyried wrth i CCNPT fynd ati i asesu safleoedd ymgeisiol. Lluniwyd y dangosyddion hyn i dywys CCNPT yn y broses o asesu safleoedd. Bydd y dangosyddion yn cefnogi ACI sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ac yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer asesu effeithiau. Bydd proses integredig o ddethol safleoedd ac asesu safleoedd ACI yn bosibl trwy'r fframwaith er mwyn osgoi dyblygu asesiadau. Manylir ar y rhain yn **Nhabl 5.4 ac Atodiad C.**

5.6.2. Ceir manylion y Fframwaith ACI arfaethedig yn **Nhabl 5.4** isod. Yn ystod cyfnod asesu'r ACI, yn unol â'r Rheoliadau AAS, bydd cyfres bellach o ddangosyddion yn cael eu datblygu i ddarparu fframwaith ar gyfer monitro effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd (gan gynnwys ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol), yr iaith Gymraeg, iechyd, llesiant, wrth roi CDLlA ar waith ar ôl ei fabwysiadu. Bydd CCNPT hefyd yn defnyddio'r fframwaith monitro hwn i fonitro effeithiolrwydd y CDLlA ac i asesu a yw targedau allweddol y CDLlA yn cael eu cyflawni.

Tabl 5.4: Y berthynas rhwng Amcanion Arfaethedig yr ACI a Rheoliadau'r AAS

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
1. Iechyd a Llesiant: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth, gan gynnwys o ran iechyd corff a meddwl, llesiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol.	▪ Diogelu a gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gofal iechyd? ▪ Lleihau anghydraddoldeb iechyd a gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol cymunedau? ▪ Gwella hygyrchedd llwybrau teithio llesol gwyrdd, mannau agored a chyfleusterau chwaraeon hygyrch o safon uchel, yn arbennig ar gyfer y rhai sy'n wynebu anghydraddoldeb strwythurol a/neu anfantais sosio-economaidd? ▪ Hwyluso neu annog teithio llesol i bob cymuned?	▪ Agosrwydd at rwydweithiau teithio llesol sydd eisoes yn bodoli ▪ Agosrwydd at Gyfleusterau Iechyd ▪ Agosrwydd Cyfleusterau Iechyd Newydd a/neu Lwybrau Teithio Llesol

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
	▪ Cynyddu mynediad at fyd natur? ▪ Darparu aer glân a thraethau ymdrochi ac afonydd o safon uchel? ▪ Diogelu rhag llygredd sŵn, gan gyflwyno sainluniau priodol i'r cyd-destun? ▪ Amddiffyn cymunedau rhag risgiau amgylcheddol megis llifogydd gan ddefnyddio atebion o fyd natur? ▪ Diogelu rhag llygredd golau? ▪ Creu cymunedau trefol sy'n cynnwys rhwydwaith seilwaith gwyrdd o safon uchel, â chysylltiadau da?	
2. Cydraddoldeb a Chynhwysiad	▪ Lleihau tlodi ac eithrio cymdeithasol?	▪ Agosrwydd at Gyfleusterau Cymunedol/Wasanaethau Cyhoeddus

Amcanion Arfaethedig yr AC	**Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…***	**Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol**
Cymdeithasol: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, hybu cyfle cyfartal, lleihau anfantais sosio-economaidd, taclo eithrio cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol.	▪ Arwain at effeithiau gwahaniaethol (llesol neu niweidiol) ar wahanol grwpiau demograffig neu bersonau â nodweddion gwarchodedig? ▪ Arwain at effeithiau gwahaniaethol (llesol neu niweidiol) ar gymunedau (lle neu fudd) sy'n wynebu canlyniadau anghyfartal oherwydd anfantais sosio-economaidd? ▪ Arwain at effeithiau gwahaniaethol (llesol neu niweidiol) ar unigolion sy'n agored i eithrio cymdeithasol neu dlodi? ▪ Darparu gwarchodaeth deg a diduedd rhag peryglon amgylcheddol (fel ansawdd aer, llifogydd)?	▪ Darparu Cyfleusterau/Gwasanaethau Cyhoeddus newydd

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
	▪ Diogelu a gwella mynediad at gyfleusterau cymunedol o safon uchel, gwasanaethau cyhoeddus ac amwynderau allweddol, er mwyn ymateb i anghenion amrywiol y gwahanol grwpiau demograffig, aelodau bregus o'r gymuned, a'r rhai sy'n wynebu anfantais sosio-economaidd? ▪ Diogelu a gwella mynediad at adnoddau naturiol, gan gynnwys mannau cyhoeddus glas a gwyrdd o safon uchel? ▪ Helpu i leihau lefelau tlodi incwm absoliwt a chymharol, anghydraddoldeb yn nosbarthiad cyfoeth aelwydydd, a lefelau amddifadedd lluosog sy'n effeithio ar gymunedau? ▪ Hybu cydlyniant cymdeithasol ac integreiddio?	

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
	▪ Lleihau tlodi tanwydd?	
3. Trafnidiaeth a Chyfathrebu: Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd trwy wella seilwaith a chreu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy, ochr yn ochr â sicrhau mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau o safon uchel.	▪ Cynyddu hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd? ▪ Gwella cysylltedd yn ardal CCNPT a hefyd ag ardaloedd eraill? ▪ Lleihau dibyniaeth ar geir ac annog newid i ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio, gan gynnwys ar gyfer pobl a nwyddau? ▪ Cefnogi mwy o bobl i fanteisio ar deithio llesol trwy ddarparu llwybrau teithio llesol integredig? ▪ Gwella hygyrchedd, capasiti a diogelwch y rhwydwaith trafnidiaeth?	▪ Agosrwydd at y rhwydwaith trafnidiaeth cyhoeddus (arosfannau bws a gorsafoedd trenau); ▪ Agosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd strategol (traffyrdd a chefnffyrdd); ▪ Agosrwydd at rwydweithiau teithio llesol sydd eisoes yn bodoli; ▪ Agosrwydd at fannau trafferthus o ran tagfeydd; ▪ Argaeledd a chapasiti seilwaith Trafnidiaeth a Chyfleustodau (Dŵr a Charthffosiaeth); ▪ Rheoli Draenio a Chapasiti'r Safle; a

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
	▪ Lleihau llif traffig a thagfeydd? ▪ Gwella safon ac integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus? ▪ Gwella'r ddarpariaeth o ran seilwaith cyfathrebu o safon uchel? ▪ Gwella seilwaith cyfleustodau i gefnogi twf economaidd a diwallu anghenion y boblogaeth	▪ Darparu Seilwaith Trafnidiaeth neu Gyfathrebu Newydd/Wedi'i Uwchraddio
4. Twf Economaidd Cynhwysol: cynyddu nifer a safon y cyfleoedd cyflogaeth a gwella lefelau addysg a sgiliau ynghyd â mwyafu cyfraniad economaidd CNPT i	▪ Gwella mynediad at gyflogaeth a'i hamrywio, yn arbennig ar gyfer pobl leol? ▪ Darparu mynediad cyfartal i gyfleoedd cyflogaeth o safon uchel, gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ac amwynderau i bawb?	▪ Capasiti Cyflogaeth; ▪ Addasrwydd at ddefnydd cymysg; ▪ Agosrwydd at safleoedd cyflogaeth allweddol; ▪ Agosrwydd at Seilwaith Addysg Gynradd;

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe, gan gynnwys trwy amrywio a chryfhau'r sylfaen economaidd leol	▪ Gwella mynediad at gyflogaeth i bob grŵp demograffig a chymuned, yn arbennig y rhai sy'n wynebu anghydraddoldeb strwythurol a/neu anfantais sosio-economaidd? ▪ Gwella cyfleoedd ar gyfer addysg, dysgu gydol oes a chadw sgiliau yn yr economi leol? ▪ Cefnogi twf sefydliadau addysg bellach ac uwch? ▪ Cyflwyno'r math cywir o ddatblygiad a gweithgareddau economaidd yn y lleoliadau hygyrch i fwyafu cystadleurwydd economaidd? ▪ Helpu i amrywio ac adfywio'r economi leol? ▪ Annog mewnfuddsoddi ac arloesedd?	▪ Agosrwydd at Seilwaith Addysg Uwchradd; ▪ Capasiti'r Seilwaith Addysg; ▪ Darparu Seilwaith Addysg Newydd; ▪ Addasrwydd at Ddefnydd Diwydiannol/Economaidd; ▪ Defnyddiau Cymdogol ac Effeithiau Cyfuno Posibl; ac ▪ Agosrwydd at y Rhwydwaith Ffyrdd a Rheilffyrdd Strategol.

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
	▪ Hybu cydleoliad gweithgareddau economaidd, diwydiannau a defnyddiau tir synergaidd? ▪ Cefnogi llesiant cymdeithasol ac amgylcheddol yn CNPT a'r tu hwnt? ▪ Darparu'r seilwaith a'r lle gwaith sy'n ofynnol ar gyfer busnesau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli? ▪ Hyrwyddo egwyddorion adferiad gwyrdd? ▪ Cefnogi nodau Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, gan gynnwys gwell cysylltedd digidol? ▪ Hyrwyddo defnydd a threuliant cynaliadwy o adnoddau naturiol (e.e. defnyddio Fframwaith DISRUPT)?	

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
5. Tai: Darparu nifer ac ystod digonol o dai fforddiadwy ac o safon uchel mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion lleol a nodwyd.	▪ Helpu i hwyluso darparu mwy o dai i ddiwallu ystod o anghenion a nodwyd? ▪ Gwella safon y stoc tai? ▪ Darparu stoc tai effeithlon sy’n rhyddhau yn agos at ddim allyriadau? ▪ Lleihau digartrefedd a gorlenwi? ▪ Cynyddu cymysgedd, ystod a fforddiadwyedd tai? ▪ Darparu tai sy’n annog ymdeimlad o gymuned? ▪ Cyflwyno lleiniau a safleoedd digonol sy’n ofynnol ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol? ▪ Mwyafu manteision datblygiad newydd trwy ddefnyddio lleoliadau tai priodol a dylunio da?	▪ Capasiti’r safle o ran tai; ▪ Cyflawnadwyedd tai fforddiadwy ; ▪ Addasrwydd ar gyfer defnydd cymysg; ▪ Defnyddiau cyfagos; ▪ Agosrwydd at safleoedd COMAH (rheoli peryglon damweiniau mawr); ac ▪ Agosrwydd at Safleoedd a Ddynodwyd yn y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (agored i bwysau adloniant).

Amcanion Arfaethedig yr AC	**Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…***	**Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol**
6. Ansawdd Aer: Atal a lleihau allyriadau a chrynodiadau o lygryddion atmosfferig niweidiol a lleiafu cysylltiad ag aer o ansawdd gwael.	■ Cynnal neu wella ansawdd aer? ■ Lleihau'r ansawdd aer gwael a brofir? ■ Atal a lleihau allyriadau llygryddion niweidiol? ■ Atal a lleihau ansawdd aer gwael sy'n agos at y lefelau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol am resymau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, cadwraeth, pwysigrwydd ecolegol neu ddaearegol?	■ Agosrwydd at Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA); ■ Agosrwydd at safleoedd trafferthus o ran tagfeydd; ac ■ Allyriadau gweithredol posibl.
7. Newid yn yr Hinsawdd: Mabwysiadu mesurau lliniaru ac addasu priodol i leihau ac ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.	■ Helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) o sectorau economaidd allweddol? ■ Cefnogi lleiafu'r defnydd o ynni?	■ Darparu ynni carbon isel/di-garbon ar y safle; ■ Agosrwydd at y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus; ac

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
	▪ Cefnogi cyflwyno ynni adnewyddadwy a charbon isel a lleihau dibyniaeth ar ffynonellau nad ydynt yn adnewyddadwy? ▪ Hwyluso buddsoddi mewn seilwaith carbon isel a chynaliadwy a hybu defnydd o hynny? ▪ Rhoi mesurau addasu ar waith i ymdrin ag effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys risg uwch o lifogydd? ▪ Hybu dylunio cynaliadwy sy'n lleiafu allyriadau GHG ac yn gallu cael ei addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd? ▪ Adfer neu greu rhwydwaith o amgylcheddau naturiol i ddal carbon, gan	▪ Ymgorffori Mesurau Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd.

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
	gynnwys mewndiroedd, glaswelltiroedd, coetiroedd a sinciau 'carbon glas'?	
8. Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd: Cadw, diogelu a gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, gan gynnwys trwy ddiogelu safleoedd a rhywogaethau pwysig, gwella darpariaeth seilwaith gwyrdd a diogelu adnoddau pridd pwysig.	▪ Sicrhau mesurau diogelu priodol ar gyfer amcanion cadwraeth ac integriti safleoedd a ddynodwyd ar lefel ryngwladol, cenedlaethol neu leol am resymau gwerth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth neu i amddiffyn rhywogaethau? ▪ Amddiffyn ac atgyfnerthu rhywogaethau a chynefinoedd gwerthfawr? ▪ Diogelu Rhwydweithiau Ecolegol Gadarn? ▪ Diogelu rhag colli neu ddarnio cynefinoedd?	▪ Agosrwydd at Safleoedd sy'n rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (ACA/AAA) ▪ Agosrwydd at SoDdGA; ▪ Agosrwydd at goetir hynafol; ▪ Agosrwydd at GNG; ▪ Agosrwydd at RIGS; ▪ Agosrwydd at LWS/SINC/LNR; ▪ Effeithiau Posibl ar Safleoedd Dynodedig; ▪ Presenoldeb Coed neu Berthi Pwysig neu Orchmynion Amddiffyn Coed (TPOs)?

Amcanion Arfaethedig yr AC	**Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…***	**Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol**
	▪ Cynnal a gwella seilwaith gwyrdd trefol? ▪ Amddiffyn neu wella coed a amddiffynnir neu ardaloedd coetir pwysig? ▪ Gwella mynediad at fyd natur? ▪ Adfer achosion hysbys o halogi tir a dŵr daear? ▪ Diogelu'r tir amaethyddol o'r safon orau ac sy'n bwysig yn lleol? ▪ Diogelu a gwella adnoddau pridd pwysig? ▪ Amlinellu ystyriaeth fwy uniongyrchol o gyflwr safleoedd dynodedig neu gyfeiriad mwy uniongyrchol atynt?	▪ Presenoldeb Cynefinoedd a Rhywogaethau Gwerthfawr; ▪ Crynodeb Ecolegol Safonol (yn ymgorffori sgoriau CNC a gwybodaeth arall); a ▪ Dosbarthiad tir amaethyddol.

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
	▪ Darparu diffiniad cliriach o gynefinoedd a rhywogaethau 'gwerthfawr'? ▪ Darparu modd i asesu seilwaith gwyrdd?	
9. Dŵr a Pherygl Llifogydd: Cadw, diogelu a gwella amgylcheddau dŵr ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, ochr yn ochr â lleihau perygl llifogydd.	▪ Gwella ansawdd cyrff dŵr, gan helpu i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr? ▪ Cynnal neu wella statws ecolegol a chemegol yr amgylchedd dŵr? ▪ Effeithio ar swm y dŵr arwyneb sy'n llifo i mewn i gyrff dŵr neu sy'n cael ei dynnu ohonynt? ▪ Darparu modd i asesu cyflwr cyrff dŵr a graddau'r addasu ffisegol (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr)?	▪ Agosrwydd at Barthau Perygl Llifogydd; ▪ Agosrwydd at Brif Afonydd a Llynnoedd, a ▪ Chapasiti Cyfleustodau (Pŵer, Cyflenwad Dŵr a Draenio).

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
	▪ Amddiffyn ac asesu nifer yr eiddo sy'n wynebu perygl llifogydd (gan gymryd i ystyriaeth y sefyllfaoedd newid hinsawdd a amlinellwyd ym Map Llifogydd newydd Cymru)? ▪ Cefnogi gwelliannau i seilwaith dŵr (cyflenwad dŵr a charthffosiaeth)? ▪ Lleiafu perygl llifogydd o'r holl ffynonellau llifogydd i bob person, eiddo, seilwaith ac ased amgylcheddol? ▪ Rheoli risgiau llifogydd gweddilliol yn briodol ac osgoi risgiau llifogydd newydd? ▪ Adolygu defnydd dŵr cyfartalog fesul aelwyd?	

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
	▪ Osgoi datblygiad newydd mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd yn debygol neu liniaru posibiliadau risg o'r fath? ▪ Hybu defnydd o systemau draenio trefol cynaliadwy (SUDS) a hyrwyddo atebion seiliedig ar fyd natur er mwyn rheoli dŵr arwyneb yn well? ▪ Cynnal ac adfer prosesau afon naturiol i ddiogelu cynefinoedd afonydd a helpu i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys llifogydd a sychder? ▪ Cadw adnoddau dŵr a hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr?	

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
10. Asedau materol a Gwastraff: Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gyda'r effaith leiaf bosibl ar yr amgylchedd, a sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu.	▪ Lleiafu'r gwastraff a gynhyrchir? ▪ Hybu egwyddorion yr economi gylchol? ▪ Trin a phrosesu gwastraff â'r effaith leiaf ar yr amgylchedd? ▪ Lleiafu'r galw am ddeunyddiau crai a'r angen am echdynnu mwynau? ▪ Hybu'r defnydd o adnoddau lleol a lleiafu mewnforio mwynau?	▪ Agosrwydd at Ganolfannau Ailgylchu Cymunedol, a'r ▪ Angen lleoliadol am fwynau.
11. Creu Lleoedd Cynaliadwy: Mwyafu defnydd effeithlon	▪ Hybu pensaernïaeth a dylunio o safon uchel sy'n cryfhau unigrywiaeth leol, wedi'i	▪ Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol neu Dir Glas, ac

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
o dir a gwella safon dylunio i greu lleoedd gwych i bobl.	gysylltu ag amddiffyn elfennau hanesyddol a diwylliannol, ac yn meithrin ymdeimlad o le? ▪ Creu a chynnal parth cyhoeddus diogel a deniadol sy'n annog pobl i gerdded a beicio? ▪ Sicrhau lleoliad, graddfa, crynswth a dwysedd priodol wrth ddatblygu? ▪ Gwneud y defnydd gorau o dir, gan gynnwys trwy flaenoriaethu ailddatblygu safleoedd tir llwyd a lleoli defnyddiau mae llawer o bobl yn dod drwyddynt yn agos at y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus?	▪ Agosrwydd at rwydweithiau teithio llesol sydd eisoes yn bodoli.

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
	▪ Lleihau cyfleoedd ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy leoliad a dyluniad datblygu newydd? ▪ Darparu parth cyhoeddus sy'n teimlo'n ddiogel i bob defnyddiwr ar hyd yr amser? ▪ Ystyried atebion sy'n seiliedig ar fyd natur wrth greu lleoedd cynaliadwy? ▪ Creu lle ar gyfer seilwaith gwyrdd a'i integreiddio yn rhan o ddyluniad a swyddogaeth lleoedd newydd? ▪ Hwyluso mannau â chysylltiadau da ar gyfer pobl a natur?	

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLIA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
12. Treftadaeth Ddiwylliannol a'r Iaith Gymraeg: Cadw, diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol ac asedau diwylliannol, gan gynnwys defnydd o'r Gymraeg.	▪ Cynyddu argaeledd a hygyrchedd gweithgareddau/lleoliadau diwylliant, hamdden ac adloniant? ▪ Cadw, diogelu a gwella integriti, cymeriad a chyd-destun asedau hanesyddol? ▪ Diogelu a gwella priodweddau ardaloedd sydd ag arwyddocâd hanesyddol neu ddiwylliannol? ▪ Hybu ailddefnyddio sensitif ar adeiladau sy'n bwysig yn hanesyddol neu'n ddiwylliannol? ▪ Cadw adnoddau archaeolegol pwysig a'u gwella, lle bo hynny'n briodol?	▪ Agosrwydd at Henebion Cofrestredig; ▪ Agosrwydd at Adeiladau Rhestredig; ▪ Effeithiau ar Safle Archaeolegol Pwysig; ▪ Effaith ar Safleoedd Dynodedig; ▪ Ailddefnyddio Adeiladau sy'n bwysig yn Hanesyddol neu'n Ddiwylliannol; a'r ▪ Effaith ar yr Iaith Gymraeg.

Amcanion Arfaethedig yr AC	Cwestiynau Tywys Arfaethedig yr AC – *A fydd y CDLlA yn…*	Dangosyddion Cynaliadwyedd Arfaethedig ar gyfer Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol
	▪ Diogelu'r iaith Gymraeg a chynyddu defnydd ohoni?	
13. Diogelu a gwella cymeriad y tirlun, amwynder gweledol, ymdeimlad unigryw o le ac eglurder aneddiadau yn CNPT.	▪ Amddiffyn a gwella cymeriad y tirlun, nodweddion unigryw lleol ac ymdeimlad o le? ▪ Diogelu nodweddion pwysig yn y tirlun a'r treflun? ▪ Amddiffyn amwynder gweledol a golygfeydd gwerthfawr? ▪ Atal blerdwf trefol?	▪ Agosrwydd at SLA neu Arfordir Treftadaeth; ▪ Agosrwydd at Ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog/Ardal Wybren Dywyll; ▪ Effeithiau ar Amwynder Gweledol; ▪ Effaith Integreiddio/Cyfuno/Gwahanu Safleoedd Unigol; ac ▪ Effaith Datblygu Gofodol (gan gynnwys effaith gronnol).

6 Methodoleg Arfaethedig yr ACI a Threfniadau Ymgynghori

6.1. Cyflwyniad

6.1.1 Gan adeiladu ar y Fframwaith ACI arfaethedig y manylwyd arno yn Adran 5, mae'r adran hon yn amlinellu ac yn ceisio barn y Cyrff Ymgynghori perthnasol (ar gyfer pob asesiad yn yr ACI) ynghylch y fethodoleg arfaethedig a'r trefniadau ymgynghori sydd i'w mabwysiadu ar gyfer ACI Adolygiad y CDLl.

6.1.2 Bydd yr ACI yn nodi effeithiau a allai fod yn llesol yn ogystal â rhai niweidiol ar yr ystod lawn o amcanion (gan gwmpasu materion amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, iechyd a chydraddoldeb). Bydd yr ACI yn helpu i nodi ffyrdd o liniaru neu osgoi effeithiau niweidiol polisïau a chynlluniau arfaethedig y CDLl. Fe allai effeithiau niweidiol gweddilliol barhau yn erbyn rhai o amcanion yr ACI, ac mae'n rhaid pwyso hynny yn erbyn yr angen am gyflawni datblygu y mae angen mawr amdano yn CNPT.

6.2. Adroddiadau ACI Arfaethedig

Trosolwg

6.2.1. Ar sail y ffurf a fwriadir ar gyfer Adolygiad y CDLl (Adran 2), rhagwelir y bydd Fframwaith yr ACI, a gyflwynir yn **Nhabl 5.4**, yn cael ei ddefnyddio i asesu'r holl elfennau sylweddol arfaethedig o'r CDLlA wrth iddo ddod i'r amlwg, yn ogystal ag unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol i'r cynigion hynny. Yn gyffredinol, felly, bydd angen i'r ACI gynnwys arfarniadau o weledigaeth CDLlA arfaethedig, amcanion y CDLlA, strategaeth ofodol (a strategaethau posibl ar gyfer is-ardaloedd), polisïau strategol, polisïau rheoli datblygu a dyraniadau safle. Cyflwynir y dull a gynigir o lunio ACI cymesur ar gyfer pob un o'r elfennau hyn yn yr adran hon.

6.2.2. Fel y disgrifir yn Adran 5.4, mae'r fethodoleg arfaethedig yn ddull gweithredu dau gam yng nghyfnodau Cyn-Adnau ac Adnau'r CDLl. Bydd y Fframwaith yn cael ei gymhwyso fel prif asesiad, lefel sylfaenol, sy'n rhoi sylw i'r holl effeithiau tebygol mewn modd thematig er mwyn darparu asesiad cyfannol o

oblygiadau cynaliadwyedd y CDLlA sy'n dod i'r amlwg. Ail lefel yr asesu fydd adrodd yn erbyn gofynion penodol dyletswyddau a gofynion perthnasol (e.e. Dyletswyddau Cydraddoldeb a Sosio-economaidd y Sector Cyhoeddus yn achos AEG). Bydd hynny'n tynnu ar ganfyddiadau asesiad Fframwaith yr ACI. Bydd y lefel asesu eilaidd yn digwydd ar ffurf cyfres o adroddiadau yn cyflwyno casgliadau yn ôl gofynion Deddf LlCD 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010, yr iaith Gymraeg sylwadau ar y Cynllun, pob un ohonynt yn cwmpasu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, y Ddeddf Cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, ac Asesiad Effaith ar Iechyd yn eu tro.

6.2.3. Bydd methodoleg yr ACI yn cael ei chymhwyso, ac adroddir ar y canfyddiadau mewn Adroddiadau ACI iterus a baratoir yn unol â'r gofynion statudol perthnasol i gyd-fynd â'r Strategaeth a Ffafrir (Dogfen Cyn-Adnau'r CDLlA) a Chynllun Adnau'r CDLIA (Dogfen Adnau). Bydd Adroddiad yr ACI yn cael ei ddiweddaru a'i helaethu rhwng y cyfnodau hyn i adlewyrchu newidiadau i'r CDLl sy'n dod i'r amlwg:

1. Bydd Adroddiad yr ACI ar gyfer y Strategaeth a Ffafrir yn canolbwyntio ar asesu effeithiau'r opsiynau CDLlA a gynigiwyd (gan gynnwys lefelau twf), y strategaeth ofodol (gan gynnwys safleoedd allweddol sy'n darparu sylfaen ar gyfer y strategaeth) a pholisïau strategol; a,
2. Bydd Adroddiad yr ACI ar gyfer Cynllun Adnau'r CDLIA yn nodi ac yn asesu effeithiau o holl elfennau pwysig Cynllun Adnau'r CDLIA, gan gynnwys yr holl ddyraniadau safle a pholisïau arfaethedig.

6.2.4. Bydd yr holl asesiadau manwl seiliedig ar fatrics o elfennau unigol o'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg yn cael eu cynnwys mewn atodiadau i adroddiad yr ACI, gyda'r canfyddiadau allweddol yn cael eu cyflwyno yng nghorff yr adroddiad. Yn unol â'r Rheoliadau AAS, ac arfer gorau perthnasol arall, bydd dogfen Crynodeb Annhechnegol (NTS) ar wahân yn cael ei pharatoi i ddarparu'r wybodaeth a ragnodwyd yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau AAS a chyflwyno canfyddiadau allweddol yr ACI, gan ymgorffori AAS, mewn iaith nad yw'n dechnegol.

6.2.5. Ar ôl cwblhau archwiliad annibynnol o Gynllun Adnau'r CDLlA, bydd yr holl argymhellion rhwymol a wnaed gan yr arolygydd a benodwyd yn destun sgrinio ACI er mwyn penderfynu a fyddent yn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol (gan gynnwys ar yr amgylchedd) nad adroddwyd amdanynt yn flaenorol yn Adroddiad yr ACI ar gyfer Cynllun Adnau'r CDLlA. Bydd y Sgrinio ACI hwn yn cael ei gofnodi mewn Adendwm i Adroddiad yr ACI.

6.3. Methodoleg Arfaethedig yr ACI

ACI o Weledigaeth ac Amcanion

6.3.1. Mae'n bwysig bod gweledigaeth ac amcanion y CDLlA yn cyfateb i Fframwaith yr ACI ac yn adlewyrchu'r materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd, gan y bydd holl elfennau eraill y CDLl yn llifo ohonynt. Bydd prif nodweddion gweledigaeth ac amcanion y CDLlA, felly, yn cael eu hasesu i weld a ydynt yn cydweddu â phob Amcan ACI yn Fframwaith yr ACI.

6.3.2. Oherwydd natur lefel uchel gweledigaeth ac amcanion strategol y CDLl, nid yw'n debygol o fod yn bosibl canfod arwyddocâd (yng nghyd-destun Rheoliadau'r AAS) effeithiau a ragwelir yn sgîl eu gweithredu, nac asesu effeithiau gwahaniaethol posibl ar wahanol grwpiau demograffig na phersonau â nodweddion gwarchodedig (yng nghyd-destun Deddf Cydraddoldeb 2010). Fodd bynnag, bydd yr asesiad yn ceisio rhoi syniad o unrhyw effeithiau amgylcheddol pwysig sy'n debygol a'r effeithiau ar wahanol grwpiau demograffig, gan nodi unrhyw elfennau ansicr yn ogystal. Os bernir bod y weledigaeth neu'r amcanion a gynigir ar gyfer y CDLlA yn anghydnaws ag Amcanion yr ACI, argymhellir mesurau lliniaru addas ar ffurf geiriad diwygiedig.

6.3.3. Defnyddir matrics cydnawsedd tebyg i'r enghraifft a gyflwynir yn **Nhabl 6.1** i gofnodi'r asesiad lefel gyntaf o weledigaeth ac amcanion y CDLl yn adroddiadau'r ACI ar gyfer Dogfennau Cyn-Adnau ac Adnau'r CDLlA. I gadw'r fformat yn hwylus ac yn gryno, nid oes bwriad i atgynhyrchu Cwestiynau Canllaw'r ACI sy'n gysylltiedig â phob un o Amcanion yr ACI (gweler **Tabl 5.4**) yn y fersiwn derfynol o'r matricsau arfarnu ym mhob adroddiad ACI, ond fe'u

defnyddir lle bo hynny'n berthnasol er mwyn ymgymryd â'r ACI. Gan adeiladu ar y matrics, bydd asesiad ail lefel yn ffurfio sylwadau cryno i arddangos y sylw a roddwyd i faterion allweddol (i ddarparu fframwaith strategol ar gyfer gweithredu) sy'n berthnasol i ofynion Deddf LlCD 2010, Deddf Cydraddoldeb 2010, yr Iaith Gymraeg, ac AEI yn eu tro.

Tabl 6.1: Matrics Cydnawsedd Arfaethedig i Asesu Gweledigaeth ac Amcanion y CDLIA

Amcan yr ACI	Gweledigaeth y CDLl	CDLlA – Amcan 1	CDLlA – Amcan 2	Etc.
1. Iechyd a Llesiant: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth, gan gynnwys o ran iechyd corff a meddwl, llesiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol.				
2. Cydraddoldeb a Chynhwysiad Cymdeithasol: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, hybu cyfle cyfartal, lleihau anfantais sosio-economaidd, taclo eithrio cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol.				
3. Trafnidiaeth a Chyfathrebu: Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd trwy wella seilwaith a chreu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy, ochr yn ochr â sicrhau mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau o safon uchel.				

Amcan yr ACI	Gweledigaeth y CDLl	CDLlA – Amcan 1	CDLlA – Amcan 2	Etc.
4. Twf Economaidd Cynhwysol: cynyddu nifer a safon y cyfleoedd cyflogaeth a gwella lefelau addysg a sgiliau ynghyd â mwyafu cyfraniad economaidd CNPT i Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe, gan gynnwys trwy amrywio a chryfhau’r sylfaen economaidd leol				
5. Tai: Darparu nifer ac ystod digonol o dai fforddiadwy ac o safon uchel mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion lleol a nodwyd.				

Ffigur 2: Allwedd

Gweledigaeth y CDLlA	CDLlA – Amcan 1	CDLlA – Amcan 2	Etc.
+	Cydnaws		
0	Niwtral		
?	Ansicr		
-	Anghydnaws		
~	Dim perthynas glir		

6.4. ACI o Strategaethau Gofodol a Pholisïau Arfaethedig

6.4.1. Yng Nghyfnod Cyn-Adnau'r CDLlA mae'n debygol y bydd CCNPT yn nodi cyfres o opsiynau polisi a gofodol lefel uchel a ffafrir i ddiwallu'r anghenion (e.e. cyflwyno tai) a'r heriau (e.e. cyflawni amcanion llesiant a ddiffiniwyd yn lleol) a nodwyd, ynghyd â dewisiadau amgen rhesymol posibl i'r opsiynau hyn. Mae'r opsiynau gofodol yn debygol o gynnwys 'opsiynau twf' posibl, a gallent gwmpasu nodi dyraniadau a ffafrir ar gyfer safleoedd strategol (gweler isod ynghylch yr ACI o ddyraniadau safleoedd ymgeisiol), tra bod yr opsiynau polisi yn debygol o gynnwys ystod o ddulliau polisi thematig o ymdrin â materion allweddol.

6.4.2. Oherwydd natur lefel uchel yr opsiynau gofodol, twf a pholisi sy'n debygol o gael eu cynnwys yn Nogfen Cyn-Adnau'r CDLlA, gallai fod angen mewn rhai achosion fabwysiadu'r un dull gweithredu ag ar gyfer gweledigaeth ac amcanion y CDLlA (**Tabl 6.1**) o ran canolbwyntio ar eu cydnawsedd â Fframwaith yr ACI. Fodd bynnag, bydd yr ACI hefyd yn ceisio nodi materion cynaliadwyedd perthnasol, effeithiau anghymesur ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig neu'r rhai sy'n agored i eithrio cymdeithasol neu dlodi, a mesurau lliniaru neu wella y dylid eu hymgorffori yn yr opsiynau gofodol a pholisi wrth iddynt gael eu datblygu ymhellach ar gyfer Dogfen Adnau'r CDLlA. Lle bo modd, bydd ACI yr opsiynau gofodol a pholisi arfaethedig yn penderfynu a ydynt yn debygol o greu unrhyw effeithiau arwyddocaol.

6.4.3. Bydd yr opsiynau gofodol a pholisi a ffafrir yn cael eu mireinio i roi sylw i sylwadau a ddaeth i law ynghylch Dogfen Cyn-Adnau'r CDLlA, fel bod strategaeth ofodol a ddatblygwyd yn llawn (o bosib gyda chefnogaeth strategaethau is-ardaloedd) a chyfres o bolisïau strategol a rheoli datblygu yn cael eu cynnwys yn Nogfen Adnau'r CDLlA. Ar yr adeg hon, bydd yr elfennau hyn yn cael eu hasesu'n fanwl yn erbyn Fframwaith yr ACI gan ddefnyddio matrics safonol a system sgorio sy'n debyg i'r hyn a welir yn **Nhablau 6.2** a **6.3** isod. Am resymau cymesuredd bydd pob grŵp o bolisïau yn Nogfen Adnau'r CDLlA yn cael eu hasesu gyda'i gilydd mewn cyfres o fatricsau thematig

Tabl 6.2: System Sgorio Arfaethedig – Strategaethau Gofodol a Pholisïau

Sgôr	Disgrifiad	Symbol
Effaith Gadarnhaol Sylweddol (Fawr)	Mae'r polisi arfaethedig yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni Amcan yr ACI.	++
Effaith Gadarnhaol Fach	Mae'r polisi arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni Amcan yr ACI, ond nid yn sylweddol.	+
Effaith Niwtral	Mae'r polisi arfaethedig yn gysylltiedig â chyflawni Amcan yr ACI, ond nid yw'n cael unrhyw effaith arno.	0
Effaith Negyddol Fach	Mae'r polisi arfaethedig yn tynnu oddi wrth gyflawni Amcan yr ACI, ond nid yn sylweddol.	-
Effaith Negyddol Sylweddol (Fawr)	Mae'r polisi arfaethedig yn tynnu'n sylweddol oddi wrth gyflawni Amcan yr ACI. O ganlyniad, mae gofyn lliniaru.	--
Effaith Ansicr	Mae perthynas ansicr rhwng y polisi arfaethedig ac Amcan yr ACI, neu mae'r berthynas yn dibynnu ar sut rheolir yr agwedd hon. Ar ben hynny, efallai nad oes digon o wybodaeth ar gael i ganiatáu asesu.	?
Dim Perthynas Glir	Nid oes perthynas glir rhwng y polisi arfaethedig a chyflawni Amcan yr ACI, neu gellir diystyru'r berthynas.	~

6.4.4. Cyflwynir canfyddiadau'r asesiad yn Adroddiad yr ACI gan ddefnyddio matricsau tebyg i'r hyn a geir yn **Nhabl 6.3** (mae'r teitlau a'r grwpiau polisi yn ddangosol, a gallant newid). Yn unol â'r gofynion statudol, bydd pob matrics yn cynnwys sylwebaeth i wneud y canlynol:

- Cyfiawnhau sgôr asesu pob polisi a aseswyd;
- Nodi unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol neu eraill sy'n debygol oddi mewn i gyd-destun Rheoliadau'r AAS a gofynion statudol eraill perthnasol;
- Nodi unrhyw effeithiau eraill gwahanol neu anghymesur sy'n debygol ar grwpiau demograffig sydd â nodweddion gwarchodedig neu'r rhai sy'n agored i eithrio cymdeithasol neu dlodi; a,
- Nodi unrhyw fesurau lliniaru neu wella y bernir eu bod yn angenrheidiol naill ai er mwyn osgoi effeithiau niweidiol sylweddol ar yr amgylchedd ac effeithiau eraill (y byddai disgwyl iddynt ddigwydd fel arall) neu i wella perfformiad y polisïau arfaethedig.

6.4.5. I gadw'r fformat yn hwylus ac yn gryno, nid oes bwriad i atgynhyrchu'r Cwestiynau Canllaw sy'n gysylltiedig â phob un o Amcanion yr ACI (gweler **Tabl 5.4**) yn y fersiwn derfynol o'r matricsau hyn yn adroddiad yr ACI. Fodd bynnag, defnyddir y cwestiynau i gynnal yr asesiad hwn, a bydd Fframwaith yr ACI yn cael ei atodi'n llawn i Adroddiad ACI y CDLIA.

6.4.6. Gan adeiladu ar fatricsau Fframwaith yr ACI (asesiad lefel 1), bydd asesiad lefel 2 yn cynnwys sylwadau cryno sy'n dangos perthnasedd a phriodoldeb y strategaeth ofodol arfaethedig a'r fframwaith polisi o ran ymdrin â gofynion Deddf LlCD 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010, yr iaith Gymraeg, ac AEI yn eu tro.

Grŵp Polisi Enghreifftiol: Creu Lleoedd

Tabl 6.3: Matrics Asesu ar gyfer Strategaethau Gofodol a Pholisïau Arfaethedig y CDLI

Amcan yr ACI	Sgôr Polisi 1	Sgôr Polisi 2	Sgôr Polisi 3	Sylwadau
1. Iechyd a Llesiant: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth, gan gynnwys o ran iechyd corff a meddwl, llesiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol.	++	+	++	Asesu'r Effeithiau a Ragwelir Lliniaru a Gwella Rhagdybiaethau Elfennau Ansicr
2. Cydraddoldeb a Chynhwysiad Cymdeithasol: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, hybu cyfle cyfartal, lleihau anfantais sosio-economaidd, taclo eithrio cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol.	+	-	--	Asesu'r Effeithiau a Ragwelir Lliniaru a Gwella Rhagdybiaethau Elfennau Ansicr

Amcan yr ACI	Sgôr Polisi 1	Sgôr Polisi 2	Sgôr Polisi 3	Sylwadau
3. Trafnidiaeth a Chyfathrebu: Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd trwy wella seilwaith a chreu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy, ochr yn ochr â sicrhau mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau o safon uchel.	-	~	?	Asesu'r Effeithiau a Ragwelir Lliniaru a Gwella Rhagdybiaethau Elfennau Ansicr
Etc.				

6.5. ACI o Ddyraniadau Safleoedd Ymgeisiol

6.5.1. Fel y nodwyd yn Adran 5, bydd CCNPT yn cynnal proses integredig o asesu safleoedd er mwyn bodloni gofynion yr ACI (gan gynnwys AAS) ac i ddewis dyraniadau safle i'w cynnwys yn y CDLlA. Bydd hyn yn nodi'r safleoedd strategol fydd yn angenrheidiol i gyflawni'r Strategaeth a Ffafrir ar gyfer y CDLlA.

6.5.2. Oherwydd lefel strategol a natur dyraniadau'r safleoedd ymgeisiol sy'n debygol o gael eu cynnwys yn Nogfen Cyn-Adnau'r CDLl, gallai fod angen, mewn rhai achosion, mabwysiadu'r un dull gweithredu ag ar gyfer strategaethau gofodol a pholisïau arfaethedig y CDLl (**Tabl 6.3**) o ran canolbwyntio ar eu cydnawsedd â Fframwaith yr ACI. Fodd bynnag, bydd yr ACI yn ceisio nodi materion cynaliadwyedd perthnasol a safle-benodol, effeithiau anghymesur ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig neu'r rhai sy'n agored i eithrio cymdeithasol neu dlodi, a'r rhai sy'n wynebu anfantais sosio-economaidd, a mesurau lliniaru neu wella priodol y dylid eu hymgorffori yn nyraniadau safleoedd strategol ymgeisiol wrth iddynt gael eu datblygu ymhellach ar gyfer Dogfen Adnau'r CDLlA. Lle bo modd, bydd ACI dyraniadau'r safleoedd strategol ymgeisiol yn pennu a ydynt yn debygol o greu unrhyw effeithiau sylweddol.

6.5.3. Bydd y meini prawf asesu a ddefnyddir gan CCNPT yn cyfeirio at y dangosyddion cynaliadwyedd a restrwyd yn nhrydedd golofn **Tabl 5.4** ac felly yn ymwneud â phob un o Amcanion yr ACI yn Fframwaith yr ACI. Bydd yr Adroddiadau ACI sy'n cyd-fynd â Dogfennau Cyn-Adnau ac Adnau'r CDLl yn dangos bod y meini prawf asesu safleoedd a'r broses a fabwysiadwyd gan CCNPT yn bodloni'r gofynion ACI statudol ac yn cyfeirio'n ddigonol at yr Amcanion ACI a nodwyd yn Fframwaith ACI Adolygiad y CDLl.

6.5.4. Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol yw'r cam cyntaf ffurfiol yng nghyfnodau paratoi'r CDLlA, wedi i'r CC gael ei gytuno a'i gyhoeddi. Trwy'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, bydd y Cyngor yn gwahodd datblygwyr, tirfeddianwyr, hyrwyddwyr safleoedd, cyrff cyhoeddus, darparwyr gwasanaethau ac eraill

sydd â diddordeb mewn tir i gyflwyno safleoedd y maent am iddyn nhw gael eu hystyried fel dyraniadau posibl i'w datblygu neu eu diogelu[4].

6.5.5. Wedi cyflwyno'r safleoedd a chau'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, bydd y Cyngor yn paratoi Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol.

6.5.6. Yna bydd y Cyngor yn cynnal Asesiad Cychwynnol Cam 1 o'r Safleoedd Ymgeisiol, gyda'r asesiad pen desg canlynol tri cham o'r holl safleoedd a gyflwynwyd: (1) Hidlo Maint Safleoedd; (2) Hidlo Cyfyngiadau Sylfaenol a (3) Hidlo o ran Cyflawnadwyedd. Defnyddir meddalwedd GIS i hidlo safleoedd yn ôl a oes unrhyw rai o'r cyfyngiadau sylfaenol yn berthnasol. Os yw'r cyfyngiad yn ffurfio rhan o ffin y safle, rhoddir ystyriaeth bellach i weld a ellid lliniaru effaith y datblygiad. Adroddir crynodeb o'r canfyddiadau yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad Strategaeth a Ffafrir.

6.5.7. Cynhelir Asesiad Safleoedd Ymgeisiol Cam 2 o'r holl safleoedd a hidlwyd. Bydd Asesiad Cam 2 y Safleoedd Ymgeisiol yn cynnwys (1) Arfarniad dichonoldeb; (2) Asesiad ACI (meintiol ac ansoddol) ac asesiad o Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol; a (3) Ymgysylltu â darparwyr seilwaith. Bydd y Cyngor yn adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd ac yn y lle cyntaf yn cwblhau adolygiad lefel uchel o briodoldeb yr wybodaeth a gyflwynwyd, gan ddefnyddio'r Adolygiad Lefel Uchel a gytunwyd yn rhanbarthol, sef Arfarniad o Ddichonoldeb Ariannol Safleoedd Ymgeisiol. Wedyn, bydd y Cyngor yn cynnal Asesiad ACI manwl ac Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol o'r holl safleoedd a hidlwyd. Yn olaf, bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r darparwyr seilwaith i nodi cyfyngiadau seilwaith. Adroddir am grynodeb o'r canfyddiadau yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol a gyhoeddir fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir.

---

[4] Gan fod y Cyngor eisoes wedi cynnal Galwad am Safleoedd, mae'r Cyngor eisoes wedi cael nifer o safleoedd i'w hyrwyddo. Ni fydd angen ailgyflwyno'r safleoedd hyn. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei darparu ar adeg yr Alwad ac yn y Fethodoleg Asesu ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol a gyhoeddwyd cyn yr Alwad.

6.5.8. Yn dilyn yr ymgynghori ar y Strategaeth a Ffafrir, bydd y Cyngor yn:

- Ystyried sylwadau a ddaeth i law (gan gynnwys y rhai sy'n hyrwyddo safleoedd newydd a'r rhai sy'n gwneud sylwadau ar y Profion Cadernid);
- Adolygu asesiadau Cam 1 a Cham 2 o safleoedd newydd eu cyflwyno a safleoedd y derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol yn eu cylch;
- Diweddaru ac ailgyhoeddi'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol i fanylu ar y safleoedd ychwanegol a gyflwynwyd a'r wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd;
- Cynnal gwaith pellach ACI ac Asesu Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol yn ôl y galw;
- Nodi safleoedd i'w dyrannu yn y Cynllun Adnau;
- Paratoi dyraniadau safle terfynol; a
- Pharatoi'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol, a fydd yn cynnwys atodlen o sylwadau ynghylch safleoedd unigol ac awgrymiadau ar gyfer safleoedd newydd i'w dyrannu.

6.5.9. Yng nghyfnodau Cyn-Adnau ac Adnau'r CDLl cynhelir asesiad ansoddol ail lefel yn ogystal i brofi gallu'r holl safleoedd amgen rhesymol a nodwyd ym mhob cyfnod, a hefyd, yn y cyfnod Adnau, y gyfres gyfunedig o ddyraniadau safleoedd a gynigiwyd, er mwyn ymdrin â gofynion Deddf LlCD 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010, yr iaith Gymraeg a'r AEI.

6.6. Asesiad o Effeithiau Cronnol ac Effeithiau Synergaidd

Effeithiau Cronnol a Synergaidd

6.6.1. Yn dilyn ymlaen o arfarnu'r holl elfennau unigol sylweddol sy'n rhan o Ddogfennau Cyn-Adnau ac Adnau'r CDLl, cynhelir cylch ACI pellach i ganfod unrhyw effeithiau cronnol neu synergaidd sy'n debygol o ganlyniad i'r rhyngweithio ymhlith elfennau'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg. Bydd hyn yn ceisio arddangos cydymffurfiaeth â'r gofynion asesu cronnol yn y Rheoliadau AAS, a hynny mewn modd cymesur.

6.7. ACI o Ddewisiadau Amgen Rhesymol

Canfod Dewisiadau Amgen Rhesymol

6.7.1. Mae'r Rheoliadau AAS yn gofyn bod effeithiau arwyddocaol tebygol gweithredu cynllun neu raglen (h.y. y CDLlA sy'n dod i'r amlwg) a dewisiadau amgen rhesymol yn cael eu harchwilio, yn ogystal â disgrifio'r rhesymeg ar gyfer canfod dewisiadau amgen rhesymol. Mae'r Rheoliadau AAS yn nodi ymhellach bod rhaid i opsiynau (e.e. meini prawf polisi neu ddyraniadau safle amgen), os ydynt i gael eu hystyried yn ddewisiadau amgen rhesymol, ymwneud ag amcanion cyfatebol y rhaglen neu'r cynllun a'r cwmpas daearyddol. I fod yn gymwys i'w hystyried yn y broses ACI hon, mae'n rhaid felly bod dewisiadau amgen rhesymol yn:

- Realistig, yn yr ystyr eu bod yn ddewisiadau amgen ymarferol y gellid eu rhoi ar waith yn lle cynigion yn y CDLlA sy'n dod i'r amlwg, a'u bod yn cyd-fynd â fframweithiau polisi cenedlaethol perthnasol ac eraill;
- Gysylltiedig ag amcanion y CDLlA sy'n dod i'r amlwg; ac,
- Oddi mewn i gwmpas daearyddol y CDLlA sy'n dod i'r amlwg, h.y. byddai angen i unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol ymwneud â dosbarthiad neu nodweddion datblygu yn y dyfodol yn CNPT.

6.7.2. Gan fod rhaid i ddewisiadau amgen rhesymol ymwneud ag amcanion y cynllun sy'n cael ei ystyried, nid yw'n debygol y bydd modd canfod unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol clir i weledigaeth ac amcan y CDLl, gan y byddai unrhyw ddewisiadau amgen yn newid cyfeiriad strategol y CDLlA sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, nodir y mathau canlynol o ddewisiadau amgen rhesymol lle bo modd, a byddant yn destun asesu yn yr un modd â'r opsiwn cyfatebol a ffafrir neu'r elfen arfaethedig o'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg:

- Opsiynau polisi, meini prawf a phrofion amgen a ystyriwyd wrth baratoi Dogfennau Cyn-Adnau ac Adnau'r CDLl, e.e. pennu gofynion uwch neu is o ran tir ar gyfer tai (i lywio dyraniadau safle) neu gymhwyso gofynion uwch neu is o ran darpariaeth tai fforddiadwy (i asesu ceisiadau cynllunio);

- Opsiynau gofodol amgen a ystyriwyd wrth baratoi Dogfennau Cyn-Adnau ac Adnau'r CDLl, e.e. cyfeirio twf tai neu gyflogaeth i rai lleoliadau penodol yn hytrach nag eraill; a,
- Dyraniadau safle amgen – fel y nodwyd uchod, bydd angen i bob safle ymgeisiol a gyflwynwyd i CCNPT yn ystod cyfnod Galwad y CDLlA am Safleoedd, ac sydd heb ei ddiystyru am resymau naill ai cyflawnadwyedd neu anghydnawsedd â'r Strategaeth a Ffafrir yn y CDLlA, fod yn destun yr un lefel o ACI, p'un a fydd CCNPT wedi hynny yn penderfynu dyrannu'r safle yn y CDLlA sy'n dod i'r amlwg neu beidio. I ddangos cydymffurfiaeth â chyfraith achosion yr AAS, bydd Adroddiadau'r ACI ar gyfer Dogfennau Cyn-Adnau ac Adnau'r CDLlA hefyd yn darparu cyfiawnhad byr i egluro statws pob safle ymgeisiol (e.e. a ffafrir, dewis amgen rhesymol, a wrthodwyd, etc.) ym mhob cyfnod o Adolygiad y CDLl.

Y Dull o ganfod Elfennau Ansicr, Rhagdybiaethau a Mesurau Lliniaru

6.7.3. Mae nodi unrhyw ragdybiaethau ac elfennau ansicr yn elfen bwysig o broses yr ACI, gan y bydd angen i'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg fod yn ddiamwys er mwyn sicrhau bod modd rhoi'r cynllun ar waith yn unol â'r bwriad.

6.7.4. Lluniwyd matricsau adrodd arfaethedig yr ACI (**Tablau 6.1** a **6.3** uchod) fel bod modd canfod elfennau ansicr, anghysondebau a materion eraill a allai danseilio gweithrediad y CDLlA sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â gweledigaeth arfaethedig y CDLl, ei amcanion, y strategaeth ofodol a pholisïau. Bydd natur iterus proses yr ACI yn golygu bod modd llunio argymhellion cyfatebol a'u hymgorffori yn y CDLlA sy'n dod i'r amlwg er mwyn rhoi sylw i unrhyw faterion a nodwyd, yn arbennig er mwyn atal effeithiau niweidiol sylweddol tebygol rhag digwydd.

6.7.5. Mae nodi mesurau lliniaru i osgoi effeithiau niweidiol sylweddol sy'n debygol yn sgîl dyrannu safleoedd arfaethedig hefyd yn hanfodol bwysig. Mae mesurau lliniaru o'r fath fel arfer ar ffurf gofynion polisi i ymgymryd ag asesiadau technegol ynghylch effeithiau posibl ar yr amgylchedd yn sgîl cynigion datblygu, ac yn dibynnu ar ganlyniad yr asesiadau hynny, i roi

mesurau lliniaru, gwneud iawn a/neu wrthweithio ar waith wrth weithredu unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer y cynnig. Bydd y meini prawf arfaethedig ar gyfer asesu safleoedd a restrir yn nhrydedd colofn **Tabl 5.4** yn golygu bod modd nodi unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol sy'n debygol yn sgîl y posibilrwydd o ddyrannu pob safle ymgeisiol. Petai'r safle ymgeisiol dan sylw yn cael ei gynnig i'w ddyrannu, byddai angen wedyn i fesurau lliniaru priodol i'r safle gael eu cynnwys yn y CDLlA sy'n dod i'r amlwg, fel bod modd i Adroddiad ACI Cynllun Adnau'r CDLl ddod i'r casgliad na fyddai'r dyraniadau safle a gynigir yn creu unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol tebygol sydd heb eu lliniaru.

6.8. Cyflwyno Canfyddiadau Allweddol yr ACI

6.8.1. Bydd yr holl asesiadau manwl seiliedig ar fatricsau o elfennau unigol o'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg yn cael eu cynnwys mewn atodiadau i'r adroddiad ACI, gyda'r prif ganfyddiadau'n cael eu nodi yng nghorff yr adroddiad. Yn unol â'r Rheoliadau AAS, bydd dogfen Crynodeb Annhechnegol (NTS) yn cael ei pharatoi ar wahân i ddarparu'r wybodaeth a ragnodwyd yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau AAS, er mwyn cyflwyno prif ganfyddiadau'r ACI mewn iaith nad yw'n dechnegol.

6.9. Trefniadau Ymgynghori Arfaethedig yr ACI

6.9.1. Cyhoeddir fersiynau iterus o'r adroddiad ACI i gyd-fynd â'r Strategaeth a Ffafrir ar gyfer CDLlA CNPT (Dogfen Cyn-Adnau) a Chynllun Adnau CNPT (Dogfen Adnau). Er y bydd yr amserlen ar gyfer ymgynghori ar y CDLlA sy'n dod i'r amlwg yn cael ei chadarnhau yn y CC terfynol sydd i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2023, mae'r CC drafft yn amlinellu y bydd ymgynghori ar y Strategaeth a Ffafrir yn digwydd o fis Tachwedd i fis Rhagfyr 2024, ac o fis Tachwedd i fis Rhagfyr 2025 yn achos y Cynllun Adnau, pob un ohonynt am gyfnod heb fod yn llai na 6 wythnos o hyd (ac yn debygol o fod yn hwy). Bydd yr Adroddiadau ACI, a fydd yn adlewyrchu cwmpas eang yr ACI hwn, yn cael eu cyflwyno i randdeiliaid perthnasol dros ben Awdurdodau Ymgynghori'r AAS, a byddant ar gael i'r cyhoedd ar wefan CCNPT. Mae modd cyflwyno cynrychiolaethau a sylwadau ar y CDLlA sy'n dod i'r amlwg a'r Adroddiadau

ACI cysylltiedig trwy wefan y Cyngor, ar e-bost neu drwy ddefnyddio cyfeiriadau postio a fydd yn cael eu cadarnhau cyn i'r cyfnod ymgynghori ar y Strategaeth a Ffafrir ar gyfer y CDLlA gychwyn.

7. Crynodeb a'r Camau Nesaf

7.1. Trosolwg

7.1.1. Mae CCNPT wedi cydnabod gwerth a chyfleoedd defnyddio dull asesu integredig i baratoi Adolygiad CDLl CNPT. Bydd integreiddio'r AC (AAS) ynghyd ag elfennau statudol a rhai allweddol anstatudol o greu'r cynllun, gan gynnwys gofynion Deddf LlCD 2015, y Ddeddf Cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, a'r AEI i greu un ACI yn golygu bod modd cynnal asesiad mwy tryloyw, cyfannol a chyflawn o oblygiadau cynaliadwyedd opsiynau twf, amcanion, polisïau a chynigion.

7.1.2. Bydd yr ACI yn cael ei ddefnyddio'n offeryn creu cynllun iterus ym mhob cam o broses Adolygu'r CDLl. Bydd y dull gweithredu hwn yn allweddol i sicrhau bod y materion cynaliadwyedd a nodwyd yn yr Adroddiad Rhychwantu ACI hwn yn derbyn sylw. Mae'r materion hynny'n cynnwys: newidiadau cyd-destunol a fwriadwyd i sbarduno twf ychwanegol yn CNPT ac yn ehangach yn Ne Cymru; ailystyried y dull strategol priodol o ymdrin â defnydd tir er mwyn darparu tai a thwf economaidd; canolbwyntio o'r newydd ar gyfleoedd newydd wrth adfywio, a rhoi sylw i broblemau gyda'r CDLl presennol; ac ymateb i newidiadau polisi, gan gynnwys PCC11, sy'n cyflwyno egwyddorion cadarn ar gyfer creu lleoedd, ac yn canolbwyntio ar ffyniant lleoedd.

7.1.3. I gyflawni hyn, mae'r Adroddiad Rhychwantu ACI hwn wedi diffinio Fframwaith ACI arfaethedig (Adran 5) a methodoleg asesu (Adran 6) i'w defnyddio wrth ymgymryd â'r ACI yng nghyswllt y CDLlA.

7.1.4. Yn amodol ar unrhyw sylwadau a ddaw i law gan Gyrff Ymgynghori'r AAS ac ymgyngoreion eraill perthnasol, defnyddir y Fframwaith ACI hwn a'r fethodoleg i asesu'r effeithiau amgylcheddol, iechyd, cydraddoldeb a chynaliadwyedd ehangach sylweddol sy'n debygol yn sgîl Adolygiad y CDLl (h.y. trwy baratoi CDLlA). Bydd yr asesiad yn broses iterus a fydd yn cynnwys datblygu a mireinio opsiynau polisi a safle trwy brofi cryfderau, gwendidau, ac effeithiau tebygol yr holl elfennau pwysig sy'n dod i'r amlwg yn y CDLl.

Atodiad A Adolygiad Gwaelodlin

A.1. Cyflwyniad

A.1.1. Mae'r Atodiad hwn yn cefnogi Adran 4 o Adroddiad Rhychwantu ACI Adolygiad CDLl CNPT. Mae'n darparu adolygiad o'r amodau amgylcheddol a sosio-economaidd cyfredol yn yr ardal y mae Adolygiad y CDLl yn debygol o effeithio arni, yn arbennig (ond nid yn ddieithriad) ardal weinyddol CCNPT.

A.1.2. Wrth wneud hynny mae'r adolygiad hwn yn:

- Nodi priodweddau gwaelodlin perthnasol, gan gynnwys y rhai y mae canlyniad Adolygiad y CDLl yn debygol o effeithio'n sylweddol arnynt (h.y. CDLlA CNPT). Mae hynny'n cynnwys nodi safleoedd a ddynodwyd ar lefel ryngwladol neu leol am resymau pwysigrwydd ecolegol/daearegol neu werth treftadaeth/tirlun y gallai Adolygiad y CDLl effeithio arnynt;
- Nodi tueddiadau sosio-economaidd perthnasol ac amodau gwaelodlin, eto gan ganolbwyntio ar faterion y mae canlyniad Adolygiad y CDLl (h.y. CDLlA CNPT) yn debygol o gael effaith sylweddol arnynt; ac,
- Amlinellu sut dylid ymdrin â'r priodweddau amgylcheddol a sosio-economaidd a'r amodau gwaelodlin yn CDLlA CNPT a rhoi sylw iddynt yn yr ACI hwn.

A.1.3. Yna defnyddir y dystiolaeth hon i:

- Amlinellu esblygiad disgwyliedig amodau cynaliadwyedd gwaelodlin (gan gynnwys rhai amgylcheddol) yn absenoldeb Adolygiad y CDLl; a,
- Diffinio cyfres o faterion cynaliadwyedd allweddol y bydd angen ymdrin â hwy yn Adolygiad y CDLl ac y dylid eu hystyried ar hyd proses yr ACI hwn (sy'n ymgorffori AAS).

A.1.4. Pwrpas yr adolygiad gwaelodlin hwn, felly, yw llywio'r cynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Adolygiad y CDLl, a hefyd gynnwys Fframwaith ACI a ddefnyddir i asesu holl elfennau sylweddol Adolygiad y CDLl (h.y. yr holl

opsiynau polisi a safle sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys dewisiadau amgen rhesymol i'r rhai a ffafrir gan CCNPT).

A.2. Trosolwg o'r Safleoedd Dynodedig

A.2.1. Mae **Tabl A.1** yn nodi'r safleoedd a ddynodwyd ar lefel ryngwladol, genedlaethol neu leol am resymau cadwraeth bioamrywiaeth, pwysigrwydd daearegol, neu werth treftadaeth neu dirlun y bernir y gallai Adolygiad y CDLl effeithio arnynt. Mae angen ystyried cyd-destun safle-benodol y safleoedd dynodedig hyn wrth nodweddu'r sefyllfa waelodlin o ran cynaliadwyedd a nodi perthnasedd materion a phroblemau sydd eisoes yn bodoli i Adolygiad y CDLl, fel y manylir yn Adran A.3.

Table A. 1: Safleoedd Dynodedig sy'n Berthnasol i Adolygiad CDLl CNPT

Dynodiadau Bioamrywiaeth:

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
Rhyngwladol/ Ewropeaidd	AAA	O fewn CNPT	Dim	Amherthanasol	Amherthanasol	Amherthanasol
Rhyngwladol/ Ewropeaidd	AAA	Tu allan i CNPT	Dim	Amherthanasol	Amherthanasol	Amherthanasol
Rhyngwladol/ Ewropeaidd	ACA	O fewn CNPT	Cynffig	Twyni tywod arfordirol, traethau tywod, gwastatir glaswelltog (*machair*), afonydd llanw, aberoedd.	Rhaid i unrhyw CDLlA fydd yn deillio o Adolygiad y CDLl gefnogi rheolaeth ar yr holl safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol (gan	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI roi amddiffyniad digonol i ddynodiadau rhyngwladol, gan gymryd i ystyriaeth eu

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
					gynnwys Safleoedd Ewropeaidd newydd posibl neu a gynigir) i geisio cyflawni eu hamcanion cadwraeth a ddiffiniwyd.	nodweddion safle-benodol a'u priodweddau cymwys.
Rhyngwladol/ Ewropeaidd	ACA	O fewn CNPT	Cors Crymlyn	Gwernydd, Corsydd, Ffeniau, Coetir collddail llydanddail.	Rhaid i unrhyw CDLlA fydd yn deillio o Adolygiad y CDLl gefnogi rheolaeth ar yr holl safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol (gan gynnwys Safleoedd Ewropeaidd newydd posibl neu a gynigir) i	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI roi amddiffyniad digonol i ddynodiadau rhyngwladol, gan gymryd i ystyriaeth eu nodweddion safle-benodol a'u priodweddau cymwys.

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
					geisio cyflawni eu hamcanion cadwraeth a ddiffiniwyd.	
Rhyngwladol/ Ewropeaidd	ACA	O fewn CNPT	Coedydd Nedd a Mellte	Coetir collddail llydanddail, rhos a phrysg.	Rhaid i unrhyw CDLlA fydd yn deillio o Adolygiad y CDLl gefnogi rheolaeth ar yr holl safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol (gan gynnwys Safleoedd Ewropeaidd newydd posibl neu a gynigir) i geisio cyflawni eu hamcanion cadwraeth a ddiffiniwyd.	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI roi amddiffyniad digonol i ddynodiadau rhyngwladol, gan gymryd i ystyriaeth eu nodweddion safle-benodol a'u priodweddau cymwys.

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
Rhyngwladol/ Ewropeaidd	ACA	Tu allan i CNPT (o fewn 15km i CNPT)	Cefn Cribwr	Glaswelltir: Gwernydd, corsydd, glaswelltir llaith, rhos, prysg, coetir collddail llydanddail.	Rhaid i unrhyw CDLlA sy'n deillio o Adolygiad y CDLl gefnogi rheolaeth ar yr holl safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol y gallai datblygu yn ardal CNPT effeithio arnynt (gan gynnwys rhai sy'n agos at ffin CNPT mewn awdurdodau cymdogol a hefyd gan gynnwys Safleoedd Ewropeaidd newydd posibl neu a gynigir) i geisio cyflawni	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI roi amddiffyniad digonol i ddynodiadau rhyngwladol, gan gymryd i ystyriaeth eu nodweddion safle-benodol a'u priodweddau cymwys.

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLI CNPT	Goblygiadau o ran ACI
					eu hamcanion cadwraeth a ddiffiniwyd.	
Rhyngwladol/ Ewropeaidd	ACA	Tu allan i CNPT (o fewn 15km i CNPT)	Blaen Cynon	Glaswelltir llaith, Gwernydd, Corsydd, llystyfiant a amgylchynir â dŵr, rhos, prysg, glaswelltir a wellwyd, glaswelltir sych, stepdiroedd.	Rhaid i unrhyw CDLlA sy’n deillio o Adolygiad y CDLl gefnogi rheolaeth ar yr holl safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol y gallai datblygu yn CNPT effeithio arnynt (gan gynnwys rhai sy’n agos at ffin CNPT mewn awdurdodau cymdogol a hefyd gan gynnwys Safleoedd Ewropeaidd	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI roi amddiffyniad digonol i ddynodiadau rhyngwladol, gan gymryd i ystyriaeth eu nodweddion safle-benodol a’u priodweddau cymwys.

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
					newydd posibl neu a gynigir) i geisio cyflawni eu hamcanion cadwraeth a ddiffiniwyd.	
Rhyngwladol/ Ewropeaidd	ACA	Tu allan i CNPT (o fewn 15km i CNPT)	Cwm Calan	Glaswelltir llaith, gwernydd, corsydd, llystyfiant a amgylchynir â dŵr, glaswelltir a wellwyd, coetir collddail llydanddail.	Rhaid i unrhyw CDLlA sy'n deillio o Adolygiad y CDLl gefnogi rheolaeth ar yr holl safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol y gallai datblygu yn ardal CNPT effeithio arnynt (gan gynnwys rhai sy'n agos at ffin CNPT mewn awdurdodau cymdogol a	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI roi amddiffyniad digonol i ddynodiadau rhyngwladol, gan gymryd i ystyriaeth eu nodweddion safle-benodol a'u priodweddau cymwys.

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
					hefyd gan gynnwys Safleoedd Ewropeaidd newydd posibl neu a gynigir) i geisio cyflawni eu hamcanion cadwraeth a ddiffiniwyd.	
Rhyngwladol/ Ewropeaidd	Ramsar	O fewn CNPT	Cors Crymlyn	Mae'n cynnwys cyforgors mewn dyffryn gorlifdir sy'n rhan o gyd-destun iseldir arfordirol. Dyma'r gwlyptir helaethaf o'i fath yng Nghymru. Mae	Rhaid i unrhyw CDLlA sy'n deillio o Adolygiad y CDLl gefnogi rheolaeth ar yr holl safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol y gallai datblygu yn ardal CNPT effeithio arnynt (gan gynnwys rhai sy'n agos at	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI roi amddiffyniad digonol i ddynodiadau rhyngwladol, gan gymryd i ystyriaeth eu nodweddion safle-benodol a'u priodweddau cymwys.

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
				hefyd yn ACA, SoDdGA a GNG.	ffin CNPT mewn awdurdodau cymdogol a hefyd gan gynnwys Safleoedd Ewropeaidd newydd posibl neu a gynigir) i geisio cyflawni eu hamcanion cadwraeth a ddiffiniwyd.	
Cenedlaethol	SoDdGA	O fewn CNPT	• Caeau Ton-y-Fildre • Cefn Gwrhyd • Rhydyfro	Dynodwyd y SoDdGAoedd oherwydd presenoldeb mathau prin o gynefinoedd neu rai sydd â phwysigrwydd	Rhaid i unrhyw CDLlA sy’n deillio o’r Adolygiad hwn o’r CDLl gefnogi rheolaeth ar yr holl safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol er mwyn cyflawni’r amcanion	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI sicrhau lefel briodol o amddiffyniad i ddynodiadau cenedlaethol a ddynodwyd, gan

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
			• Cilybebyll, Coed Cwm Du • Cilmaengwyn • Cors Crymlyn • Cors Crymlyn • Craig-y-Llyn • Twyni Crymlyn	cenedlaethol ym mhob un ohonynt.	cadwraeth a ddiffiniwyd ar eu cyfer.	gymryd i ystyriaeth eu nodweddion safle-benodol a'u priodweddau cymwys.

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
			• Nentydd Cwm Gwrelych a Nant Llyn Fach • Cynffig • Dyffrynnoedd Nedd a Mellte a Moel Penderyn, • Toriad Earlswood Road a chwareli			

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
			Ferryboat Inn, • Cronfa Ddŵr Eglwys Nunydd • Cors Fforest Goch • Frondeg • Gorsllwyn • Onllwyn • Dolydd y Gwrhyd			

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
			• Glaswelltir Hafod Wennol • Mynydd Ty-Isaf, • Rhondda • Pant-y-sais • Tai'r gwaith			
Cenedlaethol	GNG	O fewn CNPT	Pwll a Thwyni Cynffig; Cors Crymlyn a Phant y Sais	Mae GNG Pwll Cynffig yn cynnwys llyn mwyaf Morgannwg, tra bod Cors Crymlyn a Phant y Sais yn	Rhaid i unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gefnogi'r rheolaeth ar bob safle a ddynodwyd yn genedlaethol, er mwyn	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI roi amddiffyniad digonol i ddynodiadau cenedlaethol, gan gymryd i ystyriaeth

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
				rhan o'r ffen iseldir mwyaf yng Nghymru.	cyflawni'r amcanion cadwraeth a ddiffiniwyd ar eu cyfer.	eu nodweddion safle-benodol a'u priodweddau cymwys.
Lleol	SINCs	O fewn CNPT	Gwlyptir Catwg, Hawthorn Close, Dôl ddwyreiniol Coedydd Hafodheulog, Camlas Tenant, Dolydd Gorsllwyn, Melin Rolio Cwmafan, Cwm Blaenpelenna, Llysoedd Glannau'r Harbwr, Tomen Khartoum, Bae	Mae'r SINCiau a nodwyd yn gartref i ystod eang o fathau o gynefinoedd sydd â phwysigrwydd lleol, ac fe welwyd yno, neu mae potensial iddynt gynnal ystod eang o rywogaethau fflora a ffawna, gan	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu lefel briodol o gyfleoedd gwarchod a gwella ar gyfer safleoedd bioamrywiaeth a ddynodwyd ar y lefel leol.	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI sicrhau lefel briodol o amddiffyniad i'r holl safleoedd a ddynodwyd, yn gymesur â'u statws a'u diben.

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
			Baglan, Mynwent Dewi Sant, Safle Gwastraff Llansawel, Ardal Earlswood, Aber Gwaelod Afon Afan, Byndiau Maes Parcio'r Ceiau, Coedydd Jersey Marine, Parc Gwledig Margam, y Pwll Sgwâr, Glaswelltir Earlswood, Tyle'r Waun, Comin GCG, Fferm y Pandy, Camlas Abertawe, Camlas Nedd,	gynnwys rhywogaethau sy'n ddangosyddion. Mae nifer o'r SINCiau yn gorgyffwrdd â dynodiadau statudol lefel uwch.		

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
			Eglwys Nunydd, Stryd Caroline, Gwlyptir Cyffordd 38, Ynysdawle, Cwm du Glen & Phlanhigfa Glanrhyd, Tir y tu ôl i Marigold Place, Coed y Dyffryn, Tiroedd Comin Cwm Aman Uchaf, Coedydd Amazon, Llac Tir Llwyd Baglan, Lamb & Flag, Nant y Cafn, Heol Heddwch, Baglan Panhandle, Sarn Helen, Perthi			

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
			Heol y Bwlch, Rhodfa Derwydd, Perllan White Lady's Farm, Selar Ffynnon Dawel, Dolydd Fferm Aberbaiden, Bedd y Cawr, Glaswelltir Doc Brunel, Dôl Cilffriw, Mynydd y Garth, Mynydd Gellionnen, Maes Chwarae Heol Abernant, Tir Jaffa Baglan, Gelli Dochlithe, Dyffryn Cellwen, Comin Rhos, Heol Rhwng y			

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
			Cymoedd Banwen, Glaswelltir Corsiog Blaendulais, Glaswelltir Pydewau Rheola, Fferm Ynys Corrwg, Llwybr Beicio Bryn Goetre, Tomen y Cymer, Treforgan, Unedau Trin Dŵr Mwyngloddio Resolfen, Stryd Gwynfi, Glaswelltir Iseldir Rheola, Ystâd Ddiwydiannol Glan yr Afon, Dôl Ogleddol Coed Hafodheulog,			

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLI CNPT	Goblygiadau o ran ACI
			Dôl Molinia Ynysmeudwy, Gwlyptir Coed Hirwaun, Rhyslyn, Aber Afon Nedd, Mynwent Sant Ioan, Nant y Wern, Dyffryn Melincwrt Uchaf, Pwll y Banwen, Cors Plygion Rhos, Glan-yr-Afon, Parc Gwledig y Gnoll, Gwely Cyrs Doc Brunel, Coedydd Shelone, Heol Ysgol Pen yr Alltwen, Creunant, Dan-y-			

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
			Coed, Little Warren, Preswylfa Dingle, Dôl Fach Fferm Aberbaiden, Caeau y tu ôl i Heol y Coedcau, Scotch Street, Meadow Row, Bryn, Parc Croeserw, Tomen y Bryn, Tomenni Glo Cwmafan, Pentreffynnon, Pant-y-Brwyn, Garth Mor, Ymyl Blodau Gwyllt Ffordd Fabian, Y Waun, Cimla, Fferm			

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLI CNPT	Goblygiadau o ran ACI
			Bryncoch, Coed Bach a'r Cwm, Ymyl Coedwigaeth Blodeuog Amrywiol, Maes Betony, y Pwll Trionglog, Twyni Crymlyn, Caeau Ynysgeinon, Carn Llechart, Ardal Gcn Coed Darcy, Bryn Gwyn, Ffen y Siaced Goch, Gerllaw Gors Llwyn, Parc Marden Baglan, Maes Pentref Llandarcy, Coridor Gwyrdd Cwmafan,			

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLI CNPT	Goblygiadau o ran ACI
			Gwlyptir Mynachlog Nedd, Dolydd Llifwaddodol Resolfen, Panasonic, Tir y tu ôl i Pen y Bryn, Meysydd Chwarae Maerdy, Parc Rhiwfawr, Glofa Abernant, Golchfa Glo Onllwyn, Waun Sterw, Morfa Glas, Trin Dŵr Mwyngloddio Tonmawr a'r Cynefinoedd o Amgylch, Rheilffordd			

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
			Mwynau Afan, Fferm Alltwenganol, Gwely Cyrs y Ffordd Rufeinig, Aberhenwaun Uchaf, Penrhys Fawr, OMH ardal trin dŵr mwyngloddio Resolfen.			
Lleol	GNLl	O fewn CNPT	Pant-y-Sais, Dyffryn Eaglesbush, Cwm Du Glen a Phlanhigfa Glanrhyd, Tomen y Bryn, Camlas Abertawe	Mae Gwarchodfeydd Natur Lleol yn safleoedd sydd â bywyd gwyllt neu ddaeareg diddorol	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu lefel briodol o gyfleoedd gwarchod a gwella ar gyfer gwarchodfeydd	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI sicrhau lefel briodol o amddiffyniad i'r holl safleoedd a ddynodwyd, yn

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLI CNPT	Goblygiadau o ran ACI
				ond sydd hefyd yn bwysig ar gyfer preswylwyr lleol, ysgolion, ac yn fannau lle gall pobl sydd heb unrhyw ddiddordeb penodol o reidrwydd mewn hanes naturiol fwynhau mynediad i fyd natur. Nod tîm cefn gwlad CCNPT yw gwneud y GNLl yn esiamplau o reoli safleoedd dynodedig a	natur a ddynodwyd ar y lefel leol.	gymesur â'u statws a'u diben.

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau o ran Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau o ran ACI
				mannau gwyrdd, gyda'r nodau o ddiogelu byd natur, darparu cyfleoedd i astudio neu wneud gwaith ymchwil a chaniatáu mynediad a hamdden.		

Dynodiadau Daearegol:

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn / Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
Cenedlaethol	SoDdGA	O fewn CNPT	Cwmgwrelych Nentydd Nant Llyn Fach	Dynodir SoDdGA Daearegol yn sgîl presenoldeb nodweddion daearegol sydd â phwysigrwydd cenedlaethol neu sy'n brin.	Rhaid i unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gefnogi rheolaeth ar yr holl safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol er mwyn cynnal neu wella eu cyflwr presennol.	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI roi amddiffyniad digonol i ddynodiadau cenedlaethol, gan gymryd i ystyriaeth eu nodweddion safle-benodol a'u diddordebau cymwys.
Lleol	RIGS	O fewn CNPT	Rhaeadrau Aberdulais Nant Melincwrt		Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu lefel briodol o amddiffyniad ar gyfer safleoedd	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI roi lefel ddigonol o amddiffyniad i'r holl

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn / Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys / Diddordebau	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
					geoamrywiaeth a ddynodwyd yn lleol fel rhai â phwysigrwydd rhanbarthol.	safleoedd dynodedig, yn gymesur â'u statws a'u diben. Mae angen hefyd am asesu'r effeithiau tebygol ar nodweddion daearegol pwysig o dan bwnc amgylcheddol 'pridd' fel y rhagnodwyd yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau.

Dynodiadau Treftadaeth Ddiwylliannol:

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn / Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys/ Diddordebau	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
Cenedlaethol	Heneb	O fewn CNPT	97 o Henebion Cofrestredig ar draws CNPT	O’r 97 Heneb Gofrestredig a nodwyd mae 5 yn dyddio o’r cyfnod Canoloesol Cynnar, 14 o’r cyfnod Canoloesol, 27 o’r cyfnod ôl-Ganoloesol/	Rhaid i unrhyw CDLlA sy’n deillio o’r Adolygiad hwn o’r CDLl gefnogi gwarchod a gwella’r holl asedau hanesyddol a ddynodwyd yn genedlaethol, gan gynnwys eu cyd-destun. Mae’r asedau hanesyddol a nodwyd yn elwa o amddiffyniad statudol y mae’n rhaid ei gymryd i ystyriaeth mewn polisïau,	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI roi amddiffyniad digonol i asedau hanesyddol a ddynodwyd yn genedlaethol, gan gymryd nodweddion safle-benodol i ystyriaeth a hefyd berthnasedd asedau

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn / Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys/ Diddordebau	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
				Modern, 45 o'r cyfnod Cynhanesyddol, a 6 o'r cyfnod Rhufeinig. Mae'r mwyafrif ohonynt ym Margam (15). Dynodwyd ystod eang o strwythurau hanesyddol, gan	cynigion a chanllawiau oddi mewn i'r CDLlA.	hanesyddol i ardal CCNPT.

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn / Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys/ Diddordebau	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
				gynnwys bryngaerau, capeli, meini hir, gweithfeydd haearn, cestyll a sarnau, y mae pob un ohonynt yn nodweddion tirlun pwysig ac iddynt arwyddocâd hanesyddol.		

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn / Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys/ Diddordebau	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
Cenedlaethol	Adeiladau Rhestredig	O fewn CNPT	395 o Adeiladau Rhestredig ar draws ardal CCNPT	Rhestrwyd ystod eang o strwythurau ac adeiladau oherwydd eu nodweddion pensaernïol pwysig.	Rhaid i unrhyw CDLlA sy’n deillio o’r Adolygiad hwn o’r CDLl gefnogi gwarchod a gwella’r holl asedau hanesyddol a ddynodwyd yn genedlaethol, gan gynnwys eu cyd-destun. Mae’r asedau hanesyddol a nodwyd yn elwa o amddiffyniad statudol y mae’n rhaid ei gymryd i ystyriaeth mewn polisïau, cynigion a chanllawiau oddi mewn i’r CDLlA.	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI roi amddiffyniad digonol i asedau hanesyddol a ddynodwyd yn genedlaethol, gan gymryd nodweddion safle-benodol i ystyriaeth a hefyd berthnasedd asedau hanesyddol i ardal CCNPT.

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn / Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys/ Diddordebau	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
Cenedlaethol	Ardaloedd Cadwraeth	O fewn CNPT	Mae 6 Ardal Gadwraeth yn ardal CCNPT: Cilybebyll, Canol Tref Castell-nedd, Pentref Llandarcy, Depo Camlas Tonna, Melin Wlân Glyn-nedd, Parc Margam	Mae'r Ardaloedd Cadwraeth dynodedig yn troi o gwmpas clystyrau o Adeiladau Rhestredig neu strwythurau eraill â phwysigrwydd pensaernïol.	Rhaid i unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gefnogi gwarchod a gwella'r holl asedau hanesyddol a ddynodwyd yn genedlaethol, gan gynnwys eu cyd-destun. Mae'r asedau hanesyddol a nodwyd yn elwa o amddiffyniad statudol y mae'n rhaid ei gymryd i ystyriaeth mewn polisïau, cynigion a chanllawiau oddi mewn i'r CDLlA.	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI roi amddiffyniad digonol i asedau hanesyddol a ddynodwyd yn genedlaethol, gan gymryd nodweddion safle-benodol i ystyriaeth a hefyd berthnasedd asedau hanesyddol i ardal CCNPT.

Dynodiadau Tirlun:

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys/ Diddordebau	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLI CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
Cenedlaethol	AoHNE		Nid oes AoHNE wedi'u dynodi yn CNPT. Fodd bynnag, mae AoHNE Gŵyr ryw 20 milltir o'r ffin â CNPT. Mae'r ardal hon yn cwmpasu llawer o'r penrhyn ac yn enwog am ei golygfeydd, yn arbennig yr arfordir, y mae llawer ohono'n Arfordir Treftadaeth.	Amherthanasol	Amherthanasol	Amherthanasol
Cenedlaethol	Parc Cenedlaethol	O fewn CNPT	1 Parc Cenedlaethol o fewn ffiniau CNPT: Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Mae Parciau Cenedlaethol yn ardaloedd o harddwch naturiol	Dylai unrhyw CDLIA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLI	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI roi amddiffyniad

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys/ Diddordebau	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
				eithriadol a ddynodwyd i gadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y parciau, diogelu llesiant cymdeithasol ac economaidd eu cymunedau a hyrwyddo mwynhad a dealltwriaeth y	ddarparu lefel briodol o gyfleoedd gwarchod a gwella ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r ddyletswydd sy'n ymwneud â dibenion y Parc Cenedlaethol hefyd yn berthnasol y tu	digonol i ddynodiadau cenedlaethol, gan gymryd i ystyriaeth eu nodweddion safle-benodol a'u priodweddau cymwys.

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys/ Diddordebau	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
				cyhoedd o'u nodweddion arbennig.	allan i'r parc a'i leoliad.	
Lleol	ATA/SLA	O fewn CNPT	Dynodwyd yr Ardaloedd Tirlun Arbennig canlynol ar lefel leol yn CNPT: Mynydd y Garth, Cwm Dulais, Bro Nedd, Margam, Mynydd y Gelli, a Foel Trawsnant	Mae Polisi ENV2 yn CDLl CNPT yn nodi'r 6 ATA hyn fel rhai unigryw, eithriadol neu neilltuol i CNPT.	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu lefel briodol o gyfleoedd gwarchod a gwella ar gyfer tirluniau a	Rhaid i amcanion perthnasol yr ACI sicrhau lefel briodol o amddiffyniad i'r holl safleoedd a ddynodwyd, yn gymesur â'u statws a'u diben.

Graddfa	Math o Ddynodiad	O fewn/Tu allan i CNPT	Enw	Nodweddion Cymwys/ Diddordebau	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
					ddynodwyd ar y lefel leol.	

A.3. Amodau Gwaelodlin Amgylcheddol a Sosio-economaidd

A.3.1. Wedi'i lywio gan **Dabl A.1**, mae **Tabl A.2** isod yn amlinellu'r amodau amgylcheddol a sosio-economaidd presennol yn yr ardal y mae Adolygiad y CDLl yn debygol o effeithio arnynt, yn arbennig (ond heb ei gyfyngu i) ardal weinyddol CCNPT. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn nodi problemau amgylcheddol a sosio-economaidd cysylltiedig presennol, a materion y dylai Adolygiad y CDLl roi sylw iddynt, ac y dylid eu hystyried ar hyd y broses ACI hon.

Table A. 2: Adolygiad o Agweddau, Materion a Phroblemau Amgylcheddol Perthnasol

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
(1).Bioamrywiaeth, Ffawna a Fflora	**Safleoedd dynodedig**: Fel y manylir yn **Nhabl A.1**, mae CNPT yn gartref i nifer o safleoedd dynodedig ar lefel Ewropeaidd, genedlaethol a lleol am resymau cadwraeth a gwerth bioamrywiaeth, tra gallai Adolygiad y CDLl effeithio hefyd ar safleoedd dynodedig eraill y tu allan i ardal CCNPT. Ar lefel Ewropeaidd, mae ardal CCNPT yn gartref i 3 ACA ac 1 safle Ramsar. Ar lefel genedlaethol mae ardal	Mae'r holl safleoedd a nodwyd wedi'u dynodi am resymau pwysigrwydd ecolegol neu gadwraeth bioamrywiaeth penodol, ac mae ganddynt amcanion cadwraeth cysylltiedig â'r rhain, e.e. amddiffyn nodweddion cymhwyso perthnasol. Mae **Tabl A.1** uchod yn nodi nodweddion cymhwyso safleoedd Ewropeaidd	Gallai unrhyw gynigion datblygu yn ardal CCNPT gael effaith niweidiol ar safleoedd dynodedig a bioamrywiaeth trwy ystod o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol, a allai gynnwys colli mannau clwydo, fforio a chynefinoedd eraill, aflonyddu ffisegol neu sŵn, echdynnu dŵr afonydd, gollwng elifion, halogiad a llygru'r aer. O ganlyniad, mae rhaid i bob cynnig a pholisi yn y CDLlA sy'n dod	Rhaid i Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chadwraeth priodol, gwarchod a gwella safleoedd dynodedig statudol ac anstatuol.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	CCNPT yn gartref i 21 SoDdGA a 2 GNG. Ar lefel leol, mae CCNPT wedi dynodi 129 SINC, 2 RIG a 5 GNL.	perthnasol (ACA a safleoedd Ramsar). Mae angen diogelu'r nodweddion cymhwyso hyn rhag effeithiau niweidiol, gwarchod integriti safleoedd dynodedig a gweithio tuag at gyflawni amcanion cadwraeth a ddiffiniwyd.	i'r amlwg, yn deillio o Adolygiad y CDLl, gymryd sensitifrwydd ecolegol perthnasol i ystyriaeth. Mae hynny'n cynnwys yr angen am gynnal rheolaeth ar bob safle dynodedig mewn perthynas â'u statws, gan geisio cyflawni'r amcanion cadwraeth a ddiffiniwyd ar eu cyfer. Rhaid i unrhyw CDLlA hefyd ddarparu lefel briodol o amddiffyniad ar gyfer rhywogaethau a warchodir a buddiannau ecolegol sydd heb eu dynodi.	

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
(1).Bioamrywiaeth, Ffawna a Fflora	**Cynefinoedd blaenoriaeth a chynefinoedd eraill nodedig:** Mae cynefinoedd CCNPT yn cynnwys coetir hynafol, glaswelltir gwlyb sydd heb ei wella, glaswelltir sialc, dyffrynnoedd afonydd a cheunentydd creigiog, twyni tywod arfordirol a morfa heli. Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnal amrywiol fflora a ffawna, gan gynnwys llawer o rywogaethau prin, sy'n colli tir, neu sy'n cael eu gwarchod.	Mae'r holl safleoedd a nodwyd wedi'u dynodi am resymau pwysigrwydd ecolegol neu gadwraeth bioamrywiaeth penodol, ac mae ganddynt amcanion cadwraeth cysylltiedig â'r rhain, e.e. amddiffyn nodweddion cymhwyso perthnasol. Mae **Tabl A.1** uchod yn nodi nodweddion cymhwyso safleoedd Ewropeaidd perthnasol (ACA a safleoedd Ramsar).	Gallai unrhyw gynigion datblygu yn ardal CCNPT gael effaith niweidiol ar safleoedd dynodedig a bioamrywiaeth trwy ystod o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol, a allai gynnwys colli mannau clwydo, fforio a chynefinoedd eraill, aflonyddu ffisegol neu sŵn, echdynnu dŵr afonydd, gollwng elifion, halogiad a llygru'r aer. O ganlyniad, mae rhaid i bob cynnig a pholisi yn y CDLlA sy'n dod i'r amlwg, yn deillio o Adolygiad y CDLl, gymryd	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion priodol i asesu effeithiau posibl cynigion (gan gynnwys datblygu cronnol) a pholisïau yn y CDLlA sy'n dod i'r amlwg ar gynefinoedd a rhywogaethau. Dylai hyn gynnwys ystyried effeithiau megis colli cynefinoedd, effeithiau hamdden, echdynnu dŵr, llygredd ac effeithiau aflonyddu.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		Mae angen diogelu'r nodweddion cymhwyso hyn rhag effeithiau niweidiol, gwarchod integriti safleoedd dynodedig a gweithio tuag at gyflawni amcanion cadwraeth a ddiffiniwyd	sensitifrwydd ecolegol perthnasol i ystyriaeth. Mae hynny'n cynnwys yr angen am gynnal rheolaeth ar bob safle dynodedig mewn perthynas â'u statws, gan geisio cyflawni'r amcanion cadwraeth a ddiffiniwyd ar eu cyfer. Rhaid i unrhyw CDLlA hefyd ddarparu lefel briodol o amddiffyniad ar gyfer rhywogaethau a warchodir a buddiannau ecolegol sydd heb eu dynodi.	
(2).Poblogaeth (gan gynnwys	**Unedau Daearyddol Llywodraethu ac**	AMHERTHANASOL	Bydd angen sicrhau, wrth baratoi unrhyw CDLlA, ei fod	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
amodau sosio-economaidd perthnasol)	**Ystadegol**: CCNPT yw'r awdurdod unedol sy'n gyfrifol am lywodraeth leol ar draws ardal 442km^2 yn Ne Cymru. Mae'r awdurdod yn cwmpasu pum Cyngor Tref lefel is ac 14 o Gynghorau Cymuned. Mae'r awdurdod unedol yn cynnwys dwy etholaeth gyfan: Aberafan a Chastell-nedd. Y prif drefi yn CNPT yw Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe. Mae CNPT yn ymestyn o'r arfordir i ffiniau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Nodweddir		yn cyfateb yn fanwl i'r gwaith o baratoi'r CDS, er mwyn sicrhau bod y ddwy ddogfen, ar ôl eu mabwysiadu, yn darparu fframwaith cydlynus ar gyfer ymdrin yn effeithiol ac yn effeithlon â materion cynllunio perthnasol.	amcanion priodol i asesu gallu'r CDLl amnewid sy'n dod i'r amlwg i ddiwallu anghenion poblogaeth y dyfodol, yn awr ac o ran rhagfynegiadau, yn arbennig yng nghyswllt hygyrchedd a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Dylai Fframwaith yr ACI y cynigir ei ddefnyddio yn ACI Adolygiad y CDLl (**Adran 5**) gael ei

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	cyfran fawr o CNPT gan ucheldir/led-ucheldir a choedwigaeth. Nodweddir yr ardaloedd ucheldir gan bum cwm: Bro Nedd, Cwm Dulais, Cwm Afan, Cwm Tawe a Dyffryn Aman Uchaf. Fel awdurdod unedol, CCNPT hefyd yw'r ACLl unigol ar gyfer yr ardal. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi CDSiau ar lefel ranbarthol (gweler **Atodiad B** am fanylion pellach). Mae disgwyl paratoi CDS yn y			adolygu'n barhaus, a dylid profi ei gydnawsedd â Fframwaith AS y CDS, unwaith mae hwnnw wedi'i gynhyrchu.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	man ar gyfer Rhanbarth De-orllewin Cymru, sy'n ymgorffori ardal CCNPT. Mae CCNPT hefyd yn rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe, buddsoddiad gwerth £1.3m a sicrhawyd gan Ddinas-Ranbarth Bae Abertawe ar gyfer 11 o brosiectau pwysig ar draws Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a CNPT. Yn CNPT, bydd hyn yn arwain at greu Canolfan Ragoriaeth Gwasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf ar gyfer busnesau sy'n cychwyn,			

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Ffatri'r Dyfodol ASTUTE ar gyfer technolegau clyfar, a Chanolfan Arloesedd Dur newydd Genedlaethol ar gyfer ymchwil, profi a rhannu gwybodaeth.			
(2).Poblogaeth (gan gynnwys amodau sosio-economaidd perthnasol)	**Demograffeg**: Amcangyfrifir bod gan CCNPT boblogaeth o 141,900 (2021[5]), sef tua 4.6% o gyfanswm poblogaeth Cymru (3,105,400).	Mae'r heneiddio a ragwelir yn y boblogaeth yn debygol o greu anawsterau o ran amnewid y gweithlu yn y tymor hir a chynyddu'r pwysau ar	Rhaid i Adolygiad y CDLl gymryd i ystyriaeth briodweddau poblogaethau preswyl a gweithio ardal CCNPT, yn arbennig o ran sgiliau llafur a ragwelir yn awr ac yn y dyfodol, anghenion cyflogaeth, lefelau	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion priodol i asesu gallu'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn awr a'r hyn a ragfynegir i'r

[5] NOMIS: https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157394/report.aspx

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Mae rhagamcanion seiliedig ar 2018[6] yn awgrymu y bydd y boblogaeth yn cynyddu o 142,906 yn 2018 i 143,621 erbyn 2021, ac yn codi i 144,238 erbyn 2028, sy'n cyfateb i gynnydd o 1% ar draws y cyfnod o 10 mlynedd. Ar ben hynny, rhwng 2018 a 2028, mae disgwyl gostyngiad o 4.46% yn nifer y rhai 15 oed a than hynny, tra bod disgwyl i nifer y rhai 16-64 oed ostwng	ystod o wasanaethau cyhoeddus.	sgiliau a ffactorau sosio-economaidd (fel y manylir isod). Bydd yn bwysig bod y CDLlA yn cyflwyno strategaethau cydlynus o ran tir ar gyfer tai a darparu seilwaith cymunedol i ddiwallu anghenion cyfredol a'r rhai a ddisgwylir yn y dyfodol. O ganlyniad, dylai tystiolaeth gadarn ar gyfer nodi'r anghenion hynny gael ei choladu a'i diweddaru'n	dyfodol, yn arbennig o ran hygyrchedd a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

[6] StatsWales: https://statswasles.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based/populationprojections-by-localauthority-year

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	1.7%. Mewn cyferbyniad, rhagwelir y bydd cyfran y rhai sy'n 65+ yn codi 13.3% rhwng 2018 a 2028. O ran unedau ystadegol, mae 91 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yn ardal CCNPT, sy'n cynrychioli 4.8% o'r cyfanswm o 1909 o LSOAs yng Nghymru.		gyson ar hyd Adolygiad y CDLl.	
(2).Poblogaeth (gan gynnwys amodau sosio-economaidd perthnasol)	**Tai:** Mae AMB 2022 yn asesu'r tai a gyflwynwyd hyd yma yn ystod cyfnod Cynllun y CDLl (2011-2026). Dengys yr AMB fod y tai a	Mae nodi diffyg yn y tir ar gyfer tai ar hyn o bryd yn golygu bod tai annigonol yn debygol o gael eu darparu trwy'r	Bydd Adolygiad y CDLl yn asesu'r angen am dai yn CNPT dros gyfnod arfaethedig y CDLlA, ac yn pennu gofynion newydd o	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion yn ymwneud â'r ddarpariaeth dai i

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	gyflwynwyd yn is na'r targedau, yn benodol, ers dyddiad sylfaen y CDLl (2011), cyfanswm nifer y tai a gwblhawyd yw 2,457 o anheddau, o gymharu â'r targed cronnol blynyddol o 5,603 yn y fframwaith monitro (cyflwynwyd 44% o'r targed blynyddol cronnol hyd yma). Rhennir CNPT yn wardiau tai lluosog. Ceir y 5 nifer uchaf o aelwydydd yn y Wardiau canlynol- Margam a Thai-bach (7,790), Baglan (6,724), Gorllewin Sandfields (6,679), Dwyrain Sandfields	system gynllunio i ddiwallu'r anghenion a nodwyd. Fodd bynnag, mae'n rhaid seilio CDLlA ar gyfrifiadau wedi'u diweddaru o'r angen am dai, a all fod yn wahanol i'r gofynion o ran tir ar gyfer tai a bennwyd o dan wahanol amodau economaidd ar gyfer y CDLl presennol. Ochr yn ochr â'r boblogaeth sy'n	ran tir ar gyfer tai yn unol â hynny. Yna bydd angen i unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gael ei seilio ar strategaeth glir o ran tir ar gyfer tai, a bydd angen iddo ddyrannu cwantwm digonol ac amrywiaeth priodol o safleoedd tai i fodloni'r gofynion a nodwyd o ran tir ar gyfer tai.	ddiwallu anghenion a nodwyd, a hynny o ran argaeledd a safon y stoc tai.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	(6,654), a Bryn a Chwmafan (6,571)[7]. Amcangyfrifir bod cyfanswm o 66,402[8] o breswylfeydd ar draws CNPT, tua 67% ohonynt ym meddiant y perchnogion, a 33% yn cael eu rhentu[9]. Cododd prisiau tai yn CNPT 12% ar gyfartaledd rhwng Mawrth 2022 (£150,516) a Mawrth 2023 (£168,305), ac	heneiddio, rhagwelir y bydd y galw am dai yn cynyddu gyda'r cynnydd a ragwelir yn nifer yr aelwydydd un person/rhiant unigol. Ar hyn o bryd nid yw lefel gyffredinol y galw		

7 Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

8 Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

9 Nomis - Official Census and Labour Market Statistics - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	mae'r pris hwnnw £46,455 yn is na phrisiau cyfartalog eiddo yng Nghymru, sef £214,760 (Mawrth 2023)[10]. Dros gyfnod y CDLl presennol, nodwyd bod angen rhyw 8,000 o breswylfeydd hyd at y flwyddyn 2026. Mae angen rhyw 4,100 o'r rhain yn is-ardal Castell-nedd, mewn cyferbyniad â Dyffryn Aman, lle mae angen tua 1% (neu 100 o gartrefi).	am dai fforddiadwy yn cael ei diwallu ar draws CNPT.		

[10] Mynegai Prisiau Tai y Deyrnas Unedig - Cymru (Mawrth 2023)

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	O ran tai fforddiadwy, ers dyddiad sylfaen y CDLl, cyfanswm nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd ac a gyflwynwyd trwy a.106 yw 72 o breswylfeydd, sy’n sylweddol is na’r targed cronnol o 833 o breswylfeydd. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng cyflwyno tai fforddiadwy a chyflwyno tai yn fwy cyffredinol, ac mae’r sefyllfa’n adlewyrchu’r ffaith nad yw safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl yn dod trwy’r system gynllunio fel y rhagwelwyd yn			

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	wreiddiol. Cyflwynwyd nifer o safleoedd a ddyrannwyd gan LCCiaid, ond dim ond gyda chefnogaeth Grant Tai Cymdeithasol y mae'r safleoedd yn dod yn ddichonadwy.			
(2).Poblogaeth (gan gynnwys amodau sosio-economaidd perthnasol)	**Cyrhaeddiad/Cymwysterau Addysgol[11]:** Yn 2018, roedd 11% o'r boblogaeth oedran gwaith (16-64 oed) yn ardal CCNPT heb gymwysterau o gwbl, ac mae hynny'n uwch na	Mae'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael yn amlygu bod y boblogaeth oedran gwaith yn ardal CCNPT, ar y cyfan, yn meddu ar lai o	Dylai Adolygiad y CDLl nodi darpariaeth ddigonol o ran seilwaith cymunedol i ddiwallu anghenion y boblogaeth bresennol a'r rhai a ragwelir i'r dyfodol, gan	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion priodol i asesu gallu'r CDLIA sy'n dod i'r amlwg i ddiwallu anghenion y boblogaeth bresennol

[11] Daw'r ystadegau cyrhaeddiad addysgol o NOMIS: Proffil o'r Farchnad Lafur – Castell-nedd Port Talbot

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	chanran y boblogaeth heb gymwysterau ledled Cymru (8%). Sylwyd ar y duedd hon hefyd bob blwyddyn rhwng 2011 a 2017, er bod cyfran poblogaeth CCNPT sydd heb gymwysterau yn lleihau. (gostyngiad o 5% o gymharu â 4%). Mae'r lefel cyrhaeddiad a gyflawnir gan y boblogaeth oedran gwaith sydd â chymwysterau yn is yn CNPT nag ar draws Cymru: mae 32% yn CNPT wedi	gymwysterau a llai o gymwysterau uwch nag ar draws Cymru, er bod cyrhaeddiad addysgol cyfredol pobl oed ysgol yn debyg ar draws y ddwy ddaearyddiaeth. Gwelwyd bod cyfran uchel o'r boblogaeth oedran gwaith heb gymwysterau o gwbl. Mae hyn yn destun pryder gan ei fod yn cyfyngu ar allu grŵp demograffig sylweddol i fod yn weithredol yn economaidd ac yn	gynnwys o ran seilwaith addysg, capasiti a dewis.	a'r rhai a ragwelir i'r dyfodol, gan gynnwys o ran digonolrwydd, ansawdd a dosbarthiad gofodol darpariaeth y seilwaith addysg.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	cymhwyso i lefel NVQ3 neu'n uwch, o gymharu â 36% ledled Cymru.	cyfyngu mynediad cyflogwyr at lafurwyr medrus yn lleol.		
(2).Poblogaeth (gan gynnwys amodau sosio-economaidd perthnasol)	**Seilwaith Cymunedol:** Rhennir CNPT yn wardiau niferus: Aberafan, Aberdulais, Alltwen, Baglan, Blaengwrach a Gorllewin Glyn-nedd, Dwyrain Llansawel, Gorllewin Llansawel, Bryn a Chwmafan, Gogledd Bryn-coch, De Bryn-coch, Llangatwg, Cimla a Phelena, Canol Coedffranc, Gogledd Coedffranc, Gorllewin	Mae Asesiad Llesiant Castell-nedd Port Talbot (2017) yn dangos bod ardal CCNPT yn cael ei gwasanaethu ar hyn o bryd gan ystod o seilwaith cymunedol a mannau agored o safon uchel. Fodd bynnag, gallai diffyg arian ar gyfer cyfleusterau diwylliannol effeithio ar	Dylai Adolygiad y CDLl nodi darpariaeth ddigonol o ran seilwaith cymunedol i ddiwallu anghenion y boblogaeth bresennol a'r rhai a ragwelir i'r dyfodol, gan gynnwys o ran darparu chwaraeon yn yr awyr agored, lleoedd chwarae i blant, neuaddau cymuned, mannau agored naturiol hygyrch, a darparu rhandiroedd.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion priodol i asesu gallu'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg i ddiwallu anghenion y boblogaeth bresennol a'r rhai a ragwelir i'r dyfodol, gan gynnwys o ran darparu seilwaith cymunedol a'i safon.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Coedffranc, y Creunant, Onllwyn a Blaendulais, Cwmllynfell ac Ystalyfera, Cymer a Glyncorrwg, Dyffryn, Canol a Dwyrain Glyn-nedd, Godre'r Graig, Gwaun-Cae-Gurwen a Brynaman Isaf, Gwynfi a Chroeserw, Margam a Thai-bach, Dwyrain Castell-nedd, Gogledd Castell-nedd, De Castell-nedd, Pontardawe, Port Talbot, Resolfen a Thonna, Rhos, Dwyrain Sandfields, Gorllewin Sandfields, a Threbannws.	eu hargaeledd. Bydd yn bwysig diogelu'r rhain, a'u gwella lle bo modd, a bod y seilwaith yn gallu diwallu anghenion newidiol y boblogaeth. Ar ben hynny, bydd angen mwy o seilwaith cymunedol a darpariaeth o ran mannau agored i gynnal y twf a ragwelir ym mhoblogaeth CNPT.		

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Cyfleusterau Addysgol CCNPT sy'n gweithredu fel awdurdod addysg yn yr ardal ac yn rhedeg yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Sir. Mae'r awdurdod yn rhedeg 6 ysgol Gymraeg, 1 ysgol fabanod, 1 ysgol iau, 3 ysgol ganol, 51 o ysgolion cynradd, 5 ysgol uwchradd a 3 ysgol arbennig. Mae'r sefydliadau addysg bellach yn cynnwys Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth St Joseph ac Ysgol Gyfun			

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Ystalyfera sy’n darparu cyfleoedd chweched dosbarth. Mae Coleg CNPT yn gweithredu ar draws y Fwrdeistref Sirol, gyda’r prif weithgareddau’n troi o gwmpas dau gampws, ym Mhort Talbot a Chastell-nedd. Mae sefydliadau addysg uwch yr ardal yn cynnwys Prifysgol Abertawe, sydd â champws gwyddoniaeth ac arloesedd yn Nhwyni Crymlyn, a Phrifysgol De Cymru, sydd â phresenoldeb			

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	ar Barc Ynni Baglan ym Mhort Talbot. <u>Cyfleusterau cymunedol</u> Rheolir 8 llyfrgell gan Lyfrgelloedd CNPT, ac mae 7 llyfrgell a reolir gan y gymuned yn ardal CCNPT. Dyfarnwyd statws Baner Werth i bedair ardal yn CNPT yn 2023[12]: Parc Gwledig Ystâd y Gnoll, Parc Gwledig Margam, Parc Coffa Talbot a Gerddi Victoria yng Nghastell-nedd.			

12 Baneri Gwyrdd yn Cyhwfan uwchben Parciau CNPT – Newyddion CNPT

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Mae Parc Gwledig Margam yn un o saith safle yn unig yng Nghymru i gael eu hachredu'n Safleoedd Treftadaeth Werdd. Rhoddwyd Gwobr Gymunedol y Faner Werdd hefyd i Glwb Trotian Dyffryn Aman, Tyfwyr Cymunedol Cilybebyll, Perllannoedd Cymunedol Cwmafan, Parc Glan Afon Glantawe (Pontardawe), Cyfeillion Cwmni Haearn Mynachlog Nedd, Gwarchodfa Natur			

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Parc Vivian, a Gardd Gymunedol Y Lôn.			
(2).Poblogaeth (gan gynnwys amodau sosio-economaidd perthnasol)	**Cyflogaeth[13]:** Yn 2022, roedd cyfradd cyflogaeth CNPT yn 70%, sydd fymryn yn is nag ar draws Cymru (73%). Yn CNPT, mae canran y boblogaeth oedran gwaith sy'n economaidd weithredol hefyd yn is (73%) nag ar draws Cymru (76%).	Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae ardal CCNPT wedi profi cyfradd ddiweithdra uwch yn gyson na chyfartaleddau cenedlaethol Cymru a Phrydain Fawr. Mae hyn yn arwydd bod y cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael i	Dylai Adolygiad y CDLl ddatblygu strategaeth tir cyflogaeth a datblygu economaidd briodol ar gyfer y CDLlA. Bydd yn bwysig bod polisïau, cynigion a chanllawiau sy'n dod i'r amlwg yn cefnogi creu ystod eang o gyfleoedd cyflogaeth newydd sy'n cyfateb i lefelau sgiliau y farchnad lafur bresennol, a hefyd yn ceisio	Dylai'r ACI asesu a fydd y CDLlA yn effeithiol o ran darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth mewn lleoliadau priodol ac arallgyfeirio sectorol priodol i mewn i ddiwydiannau gwerth uchel. O ganlyniad, dylai Fframwaith yr ACI gynnwys

[13] Daw'r holl ddata o NOMIS: Proffil o'r Farchnad Lafur – Castell-nedd Port Talbot

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Yn 2019 roedd cyfradd diweithdra CNPT yn 4.3%, oedd yn uwch na'r gyfradd diweithdra ledled Cymru (3.0%). Yn gysylltiedig a hyn, dengys y data diweddaraf fod gan CNPT yn 2021 ddwysedd swyddi o 0.64 (cymhareb y swydd a'r boblogaeth breswyl oedran gwaith) o gymharu â 0.77 ar draws Cymru. Mae CNPT yn gartref i nifer o gyfleusterau gweithgynhyrchu megis dur,	breswylwyr ardal CCNPT naill ai'n annigonol neu'n anaddas, gan gymryd i ystyriaeth lefelau addysg a sgiliau (sydd, fel y manylir isod, hefyd yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol).	denu sectorau gwerth uchel, megis ynni, gweithgynhyrchu uwch, logisteg a phorthladdoedd.	amcanion sy'n ymwneud â chyflogaeth o safon uchel, twf economaidd, arallgyfeirio sectorol a mewnfuddsoddi.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	petrogemegion, peirianneg moduron a dillad; yn fwyaf nodedig Gwaith Dur Port Talbot, sy'n gallu cynhyrchu bron 5 miliwn o dunelli o slabiau dur bob blwyddyn, ac sy'n gyflogwr allweddol yn CNPT. Sectorau cyflogaeth mwyaf CNPT yw gweithgynhyrchu (18%) a gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol (16%). Masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau a beiciau modur (12%) a Gweinyddiaeth ac			

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	amddiffyn y cyhoedd; nawdd cymdeithasol gorfodol (12%). Mae hyn ar lefel gymaradwy â Chymru yn gyffredinol, lle mae 16% o'r boblogaeth yn ymgymryd â gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol a masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau a beiciau modur yn 14%. Mae'r ystod o alwedigaethau yn CNPT yn dangos bod y rhai a gyflogir fel rheolwyr a chyfarwyddwyr, mewn			

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	galwedigaethau proffesiynol, proffesiynol cysylltiol a thechnegol yn is na chyfartaledd Cymru, tra bod cyfran y gweithwyr prosesu a pheiriannau yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae data Arolwg Poblogaeth Blynyddol ONS yn dangos, yn ystod y cyfnod ers 2015, bod newid bach wedi digwydd yn niwydiant cyflogaeth preswylwyr CNPT, gan fod cyfran y rhai sy'n gweithio mewn manwerthu ac addysg wedi gostwng, tra bod y gyfran			

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	sy'n gweithio mewn iechyd, gwestai, trafnidiaeth a chyfathrebu wedi codi. Yn 2022, cyfartaledd tâl wythnosol gweithwyr amser llawn yn CNPT oedd £611.00, sydd £7.50 yn uwch na lefel Cymru. Roedd benywod yn CNPT yn derbyn £61.70 yn llai yn eu pae wythnosol gros na'r cyfanswm cyfartalog			
(2).Poblogaeth (gan gynnwys amodau sosio-	**Anghydraddoldeb, Eithrio Cymdeithasol ac Amddifadedd**: Mae Mynegai Amddifadedd	Mae rhai rhannau o CNPT, yn arbennig yng nghymunedau'r Cymoedd, ymhlith	Mae angen strategaeth gyfannol i ymdrin ag amddifadedd lluosog mewn rhannau o CNPT, gan	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion priodol sy'n ymwneud â

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
economaidd perthnasol)	Lluosog Cymru (2019) yn nodi cilfachau o amddifadedd ar draws Cymru. Yn 2019, o'r 91 LSOA yn ardal CCNPT, roedd 14 ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru; roedd 30 ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig; roedd 41 ymhlith y 30% mwyaf difreintiedig, ac roedd 63 ymhlith y 50% o LSOAs mwyaf difreintiedig[14].	ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, gyda lefelau isel o weithgarwch economaidd a mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau, yn arbennig yn achos poblogaethau plant, pobl ifanc a'r henoed.	gynnwys, ond heb ei gyfyngu i greu cyfleoedd cyflogaeth newydd o safon uchel. Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r CDLl hwn gyflwyno strategaeth glir ar gyfer tir cyflogaeth i gefnogi darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd mewn lleoliadau priodol a hygyrch. Dylai'r CDLlA hefyd gynnwys strategaeth adfywio a pholisïau a chynigion cysylltiedig i gataleiddio ystod o welliannau ffisegol, amgylcheddol, iechyd a	chydraddoldeb, cynhwysiant cymdeithasol, mynediad at wasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd cyflogaeth, mynediad at ofal iechyd, mynediad i fannau agored a dod i gysylltiad â llygredd (aer, dŵr, pridd, etc).

[14] StatWales NPT Lleol Authority Analysis (2019)

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Canran yr aelwydydd sydd heb waith yn CNPT yw 20%, sy'n uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru, sef 17%. Mae cyfradd y rhai di-waith wedi gostwng yn sylweddol, o 29% yn 2011. Mae'r gostyngiad hwn o 31% yn cymharu â gostyngiad o 24% yn ystod yr un cyfnod ar draws Cymru. Canran y boblogaeth oedran gwaith sy'n hawlio credyd cynhwysol yn CNPT yw 3.1%, sy'n is na chyfartaledd Cymru (3.3%). Mae canran y boblogaeth oedran gwaith		sosio-economaidd oddi mewn i gymunedau difreintiedig a nodwyd.	

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	wedi gostwng 3.7% yn CNPT a Chymru ers 2011. Adlewyrchir lefel y rhai sydd heb waith yn yr incwm aelwyd gwariadwy gros (GDHI) y pen, sy'n is (£14,971) na chyfartaledd Cymru (£15,754). Yn 2014, GDHI CCNPT oedd £14,746.00.			
(3).Iechyd Dynol	**Hyd oes disgwyliedig[15]:** Ar sail ffigurau diweddaraf CNPT (2017-2019), hyd oes disgwyliedig gwrywod adeg	Mae'n amlwg bod bylchau mawr rhwng hyd oes disgwyliedig a hyd oes iach	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gymryd i ystyriaeth hyd oes disgwyliedig is ac	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag

[15] ONS, Life expectancy of females/males 2017-2019 figures

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	eu geni yw 77.1, ac 81.3 i fenywod. Ar draws Cymru, hyd oes disgwyliedig gwrywod adeg eu geni yw 78.5, ac 82.3 i fenywod.	disgwyliedig gwrywod a benywod yn ardal CCNPT a chyfartaledd Cymru. Mae angen rhoi mesurau ar waith, yn gyntaf i fynd i'r afael ag amddifadedd, a ddylai wedyn gael effaith gadarnhaol ar hyd oes disgwyliedig gwrywod a benywod.	anghydraddoldebau iechyd nodedig poblogaeth breswyl CNPT, o gymharu â'r cyfartaledd rhanbarthol a chenedlaethol. Dylai gyflwyno cynigion, polisïau a chanllawiau i ddiogelu a gwella amwynder, ansawdd bywyd a chanlyniadau iechyd (corfforol a meddyliol) pawb yn CNPT, h.y. y gweithlu a'r preswylwyr.	amwynder, ansawdd bywyd, canlyniadau iechyd, iechyd corfforol, iechyd meddwl, llesiant, diogelwch a diogeledd. Dylid ystyried y materion hyn yn gyfannol wrth asesu'r elfennau arfaethedig a fydd yn rhan o'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg.
(3).Iechyd Dynol	**Iechyd Corfforol/Dewisiadau Ffordd o Fyw:** Yn ôl Arolwg	Mae dewisiadau iechyd corfforol a ffordd o fyw yn CNPT yn cyfateb i	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gymryd i ystyriaeth hyd	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Cenedlaethol diweddaraf Cymru, roedd 31% o oedolion CNPT wedi gwneud llai na 30 munud o weithgarwch corfforol yn ystod y flwyddyn flaenorol, roedd 14% yn actif am 30-149 o funudau bob wythnos, ac roedd 56% wedi bod yn actif am o leiaf 150 o funudau yn yr wythnos flaenorol. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd Cymru. Canran yr oedolion yn CNPT a ddywedodd eu bod wedi bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau y diwrnod	gyfartaledd Cymru. Byddai mwy o addysg ac ymwybyddiaeth yn llesol i boblogaeth y Fwrdeistref Sirol.	oes disgwyliedig is ac anghydraddoldebau iechyd nodedig poblogaeth breswyl CNPT, o gymharu â'r cyfartaledd rhanbarthol a chenedlaethol. Dylai gyflwyno cynigion, polisïau a chanllawiau i ddiogelu a gwella amwynder, ansawdd bywyd a chanlyniadau iechyd (corfforol a meddyliol) pawb yn CNPT, h.y. y gweithlu a'r preswylwyr.	ymwneud ag amwynder, ansawdd bywyd, canlyniadau iechyd, iechyd corfforol, iechyd meddwl, llesiant, diogelwch a diogeledd. Dylid ystyried y materion hyn yn gyfannol wrth asesu'r elfennau arfaethedig a fydd yn rhan o'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	blaenorol oedd 29%, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (22%). Mae gordewdra plant yn broblem sylweddol yn CNPT, gan fod data diweddaraf 2020-21 yn nodi bod 20.3% o'r plant 4-5 oed yn CNPT yn ordew[16]. Mae arolwg Now Patient 2023 yn nodi bod 63.8% o oedolion CNPT dros bwysau neu'n ordew; dyma'r awdurdod lleol yn y seithfed			

- phw.nhs.wales/services-and-teams/child-measurement-programme/cmp-2020-21/child-measurement-programme-report-2020-2021/

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	safle uchaf ar draws Cymru[17]. Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2023, mae 12.8% o oedolion CNPT yn dweud eu bod yn smygu. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 16.9%.			
(3).Iechyd Dynol	**Iechyd Meddwl a Llesiant:** Cofnododd bwrdd iechyd Castell-nedd Port Talbot (Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg) 136.1 o farwolaethau fesul	Yn unol â dogfen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT, Y CNPT a Garem (Cynllun Llesiant 2018 – 2023) mae angen	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gymryd i ystyriaeth hyd oes disgwyliedig is ac anghydraddoldebau iechyd nodedig poblogaeth breswyl	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag amwynder, ansawdd bywyd, canlyniadau

17 Obesity levels in these Welsh areas are amongst the highest in the country | West Wales Chronicle : News for Llanelli, Carmarthenshire, Pembrokeshire, Ceredigion, Swansea and Beyond

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	100,000 o breswylwyr yn 2016 a achoswyd gan faterion iechyd meddwl ac ymddygiad. Rhagwelir y bydd nifer y preswylwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot sydd ag o leiaf un anhwylder meddyliol yn gostwng o 26,864 (2015) i 25,758 (2035). [18]	gwella pob agwedd ar iechyd a llesiant poblogaeth breswyl ardal CCNPT, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, a llesiant cymdeithasol.	CNPT, o gymharu â'r cyfartaledd rhanbarthol a chenedlaethol. Dylai gyflwyno cynigion, polisïau a chanllawiau i ddiogelu a gwella amwynder, ansawdd bywyd a chanlyniadau iechyd (corfforol a meddyliol) pawb yn CNPT, h.y. y gweithlu a'r preswylwyr.	iechyd, iechyd corfforol, iechyd meddwl, llesiant, diogelwch a diogeledd. Dylid ystyried y materion hyn yn gyfannol wrth asesu'r elfennau arfaethedig a fydd yn rhan o'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg.
(3).Iechyd Dynol	**Seilwaith Iechyd:** Rheolir cyfleusterau gofal iechyd yn CNPT gan Fwrdd Iechyd	Mae angen lleoli seilwaith iechyd digonol mewn mannau hygyrch	Dylai Adolygiad y CDLl nodi darpariaeth ddigonol o ran seilwaith cymunedol i	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion priodol i

[18] Asesiad Poblogaeth Bae'r Gorllewin

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae gan y Bwrdd Iechyd dri ysbyty aciwt: Ysbytai Singleton a Threforys yn Abertawe, ac Ysbyty CNPT ym Mhort Talbot Mae hefyd nifer o ysbytai cymunedol llai a chanolfannau adnoddau gofal sylfaenol. Mae dros 300 o Ymarferwyr Cyffredinol, rhyw 275 o ddeintyddion, 125 o Fferyllfeydd Cymunedol, a 60 o safleoedd Optometreg ar draws y Bwrdd Iechyd.	i ddiwallu anghenion poblogaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae angen ystod o gyfleusterau iechyd corff a meddwl o safon uchel i roi sylw i anghenion iechyd newidiol y boblogaeth, yn arbennig o ystyried yr heneiddio a ragwelir yn y boblogaeth.	ddiwallu anghenion y boblogaeth bresennol a'r rhai a ragwelir i'r dyfodol, gan gynnwys o ran cyfleusterau a gwasanaethau gofal iechyd.	asesu gallu'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg i ddiwallu anghenion y boblogaeth bresennol a'r rhai a ragwelir i'r dyfodol, gan gynnwys o ran digonolrwydd, safon a dosbarthiad gofodol cyfleusterau a gwasanaethau gofal iechyd.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Mae'r Bwrdd hefyd yn darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yng Ngharchar Ei Fawrhydi, Abertawe[19].			
(4).Pridd	**Nodweddion Daearegol a Chyflwr y Tir:** Mae nodweddion daearegol a phridd amrywiol yn CNPT. Yn hanesyddol, mae CNPT wedi bod yn ardal lle bu diwydiant trwm, yn arbennig diwydiannau metel, cemegol a seiliedig ar olew.	Rhaid lleoli datblygiadau newydd yn briodol a'u dylunio i adlewyrchu nodweddion daearegol a phridd CNPT.	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r CDLl hwn gyflwyno cynigion a pholisïau priodol i ddiogelu nodweddion daearegol pwysig ac adnoddau pridd yn CNPT, yn ogystal â fframwaith ar gyfer adfer tir a halogwyd.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag adfer tir halogedig, ansawdd y pridd a llygru derbynyddion daear. Dylid rhoi sylw hefyd i'r risgiau o ganlyniad i

19 Swansea Bay (optometrywales.org.uk)

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Cyhoeddodd CCNPT eu Strategaeth Tir Halogedig ddiwethaf yn 2015, yn nodi sut byddan nhw'n adfer tir a halogwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol[20]. Ymchwiliwyd i gyfanswm o 34 o safleoedd, a chadarnhawyd bod dau ohonynt wedi'u halogi: Safle Gwerthu Ceir Pinetree a Gwaith Nwy Llansawel gynt.			iechyd dynol ac ecoleg, a hynny mewn modd cyfannol.

[20] NPTC Contaminated Land Strategy (2015): https://democracy.NPTCBC.gov.uk/documents/s14150/Contaminated%20Land%20Strategy%202015%20-%20Review%20and%20Updated%20from%20Consultation.pdf

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
(5).Dŵr	**Cyrff Dŵr**: Mae gan ardal CCNPT un corff dŵr daear sy'n syrthio i'r categori gwael o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD); Pelena. Mae nifer o gyrff dŵr yn CNPT mewn perygl o fod ag ansawdd dŵr gwael oherwydd 'llygredd yn y ffynhonnell'. Eglurwyd problemau gydag ansawdd dŵr yn y Fwrdeistref Sirol yn nhermau gweithfeydd mwyngloddio a adawyd a'r dŵr asidig, llawn haearn	Mae cyrff dŵr ar draws ardal CCNPT yn amrywio o ran safon, gwerth ecolegol a chyflwr presennol. Mae rheoli ansawdd dŵr yn hanfodol i wella iechyd hirdymor poblogaethau a'r amgylchedd.	Dylai unrhyw CDLIA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gyflwyno polisïau, cynigion a chanllawiau i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, gan gynnwys swm ac ansawdd y dŵr arwyneb a'r dŵr daear. Dylai hyn gynnwys mesurau i ddileu ffynonellau llygredd sy'n niweidio'r amgylchedd dŵr ac i reoleiddio'r hyn a ollyngir i'r cyrsiau dŵr sy'n ei dderbyn o ddatblygiadau newydd.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion yn ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, yn ogystal â rheoli risg llifogydd.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	cysylltiedig sy'n llifo ohonynt. Nodwyd hyn fel problem ar draws Cymru ac mewn rhannau o CNPT[21][1]			
(5).Dwr	**Perygl Llifogydd**: Y pedwar prif gwrs dŵr yn CNPT yw afonydd Afan, Dulais, Nedd a Thawe, sydd fel ei gilydd yn llifo o'r G-Dd i'r De-Orlll i gyfeiriad Bae Abertawe. Mae tair camlas yn rhedeg trwy'r Fwrdeistref Sirol:	Mae perygl llifogydd yn broblem barhaus yn CNPT oherwydd lleoliad yr awdurdod lleol. Dylid atal datblygiadau tai rhag datblygu ar orlifdiroedd lle bo modd.	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl geisio rheoli perygl llifogydd mewn modd cynaliadwy, gan gynnwys trwy gyfeirio datblygiad i ffwrdd oddi wrth ardaloedd	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion yn ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, yn ogystal â rheoli risg llifogydd.

21 NPTC Contaminated Land Strategy (2015): https://democracy.NPTCBC.gov.uk/documents/s14150/Contaminated%20Land%20Strategy%202015%20-%20Review%20and%20Updated%20from%20Consultation.pdf

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Camlas Nedd, Camlas Tawe a Chamlas Tenant. Nodwyd bod ardaloedd sylweddol ar hyd pob un o'r prif afonydd, cyrsiau dŵr ac arfordir y Fwrdeistref Sirol mewn perygl o wynebu llifogydd.		lle mae perygl llifogydd hysbys.	
(6).Aer	**Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAAoedd) ac Ansawdd Aer Gwael:** Mae un ARhAA wedi'i nodi (Taibach/Margam) yn CNPT, ac mae'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r tir a'r eiddo rhwng	Mae parhau i fonitro ansawdd aer yn CCNPT yn ofynnol, gan roi sylw arbennig i goridor yr M4 wrth i ddatblygu a diwydiant gynyddu o fewn y Fwrdeistref Sirol. .	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gyflwyno polisïau, cynigion a chanllawiau i fynd i'r afael ag ardaloedd lle gwyddys bod ansawdd aer gwael ac effeithiau tebygol datblygiadau newydd ar	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion yn ymwneud ag ansawdd aer lleol a'r effeithiau cysylltiedig ar iechyd. Dylai'r ACI gydnabod hefyd bod newidiadau

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Gwaith Dur Tata a Thraffordd yr M4.		ansawdd aer, gan gynnwys yn sgîl traffig. Dylai unrhyw CDLlA geisio lleihau llygredd aer lleol trwy gyflwyno polisïau a chynigion i hybu dulliau cynaliadwy a llesol o deithio.	i ansawdd aer yn gallu cael effaith ar wasanaethau ecosystem sy'n effeithio ar fioamrywiaeth ac asedau amgylcheddol eraill.
(7.)Ffactorau Hinsoddol	**Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydrs Emissions**: dengys ystadegau 2020 InfoBase Cymru[1]22 fod cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr CNPT (46.1) yn arddangos	Mae parhau i fonitro allyriadau nwyon tŷ gwydr yn CNPT yn ofynnol i gyrraedd targedau o ran y newid yn yr hinsawdd, ochr yn	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gyflwyno polisïau, cynigion a chanllawiau i gefnogi'r pontio i economi garbon isel. Dylai hynny	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion yn ymwneud â defnydd o ynni, effeithlonrwydd adnoddau, allyriadau

22 [1] InfoBase Cymru http://www.infobasecymru.net/IAS/themes/environmentandsustainability/environment/tabular?viewId=518&geoId=1&subsetId=

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	lefelau CO_2 fesul preswylydd (tunelli) sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (6.6). Wrth fesur cilodunelli o CO_2 diwydiannol a masnachol, mae CNPT yn sylweddol uwch na holl awdurdodau eraill Cymru, ac yn allyrru 6228.3 o gilodunelli. Mae hyn yn cyfrif am 58% o gyfanswm yr holl allyriadau CO_2 diwydiannol a masnachol yng Nghymru. Yn 2021, cyhoeddodd LlC yr Adroddiad Cynhyrchu Ynni	ochr ag osgoi neu liniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i ddatblygu yn y Fwrdeistref Sirol lle bo modd.	gynnwys darparu fframwaith polisi cefnogol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel mewn lleoliadau priodol. Dylai'r CDLlA hefyd gynnwys polisïau i annog dylunio carbon isel a dylai gyflwyno strategaeth trafnidiaeth gynaliadwy sy'n gwneud yn fawr o seilwaith rheilffordd a phorthladd presennol ardal CCNPT er mwyn cyfrannu at ddadgarboneiddio'r sector trafnidiaeth.	nwyon tŷ gwydr a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	yng Nghymru[23][2], oedd yn nodi CNPT fel yr ardal sy'n cynhyrchu mwy o drydan adnewyddadwy na holl awdurdodau lleol eraill Cymru. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi CNPT fel yr ail ddefnyddiwr uchaf o drydan yng Nghymru, ac felly mae'n cynhyrchu trydan sy'n cyfateb i 75% yn unig o'r hyn a ddefnyddir. Nodir CNPT fel yr awdurdod sydd â'r gyfran			

23 [2] Energy Generation in Wales in 2021 energy-generation-in-wales-2021.pdf (gov.wales) https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/energy-generation-in-wales-2018.pdf

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	uchaf o gapasiti trydan, 330MW, gyda Sir Gaerfyrddin yn dilyn (264MW), ac yna Powys (255MW). Daw'r rhan fwyaf o'r capasiti yma o wynt ar y lan, sef 70%, 55%, a 83% yn eu tro.			
(7).Ffactorau Hinsoddol	**Effeithiau o ran y Newid yn yr Hinsawdd:** Mae ymchwil ar y newid yn yr hinsawdd yn rhagfynegi cynnydd yn nifrifoldeb ac amlder digwyddiadau glawiad. O ganlyniad, mae llifogydd o afonydd, carthffosydd a dŵr	Bydd yr effeithiau a ragfynegir yn sgîl y newid yn yr hinsawdd hyd at 2050 yn rhoi straen sylweddol ar y seilwaith a'r adnoddau sydd ar gael ar draws y Deyrnas Unedig, gan	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gyflwyno polisïau, cynigion a chanllawiau sy'n ymateb i'r effeithiau newid hinsawdd a ragwelir ac yn caniatáu i gymunedau a busnesau yn CNPT addasu	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag addasu i'r newid yn yr hinsawdd a gwydnwch asedau amgylcheddol yn CNPT.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	arwyneb yn debygol o gynyddu ledled CCNPT yn y dyfodol. Mae disgwyl hefyd i CCNPT ddod yn fwyfwy agored i lifogydd llanw wrth i lefelau'r môr godi. Bydd erydiad arfordirol yn cynyddu ac yn effeithio ar seilwaith yr arfordir. Bydd digwyddiadau tywydd eithafol yn digwydd yn amlach ac yn fwy dwys. Bydd hyn yn cael effaith uniongyrchol ar iechyd dynol ac ar fioamrywiaeth a systemau cynhyrchu bwyd.	gynnwys CNPT. Yn arbennig, yr effeithiau sy'n gysylltiedig â pherygl llifogydd.	i'r newidiadau yn yr hinsawdd.	

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
(8).Asedau Pwysig	**Defnydd Tir:** Mae **Castell-nedd Port Talbot a Phontardawe** yn ganolfannau allweddol ar gyfer gwasanaethau, cyflogaeth, tai a datblygiadau manwerthu i'r cymunedau o'u hamgylch. Mae'r trefi hyn ar frig hierarchaeth fasnachol a manwerthu'r Fwrdeistref Sirol. Mae rôl strategol i Lansawel, Sgiwen, Tai-bach a Glyn-nedd yn y Fwrdeistref Sirol fel canolfannau	Mae angen parhaus am adfywio cymunedau yn CNPT sydd wedi profi dirywiad ôl-ddiwydiannol ac sydd â lefelau uchel o amddifadedd lluosog. Mae angen hefyd am ddarparu defnyddiau tir addas i ddiwallu'r anghenion a nodwyd, gan gynnwys darparu mwy o dai a chyflogaeth, ochr yn ochr â diogelu defnyddiau tir sensitif fel amaeth.	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl helpu i gynnal a hybu defnydd effeithlon a phriodol o asedau pwysig. Dylai gyflwyno strategaeth ofodol, cynigion a chanllawiau ar gyfer optimeiddio defnydd tir, adnoddau naturiol a seilwaith. Yn arbennig, dylai'r CDLlA gyflwyno strategaeth ofodol, cynigion a pholisïau sy'n optimeiddio defnydd o'r seilwaith presennol yn CNPT ac yn ei ddiogelu.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau, defnydd tir, rheoli gwastraff, ynni, adnoddau naturiol, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, cysylltedd a hygyrchedd.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	gwasanaethau, trafnidiaeth a gweithgarwch cymunedol. Mae gan CNPT nifer o asedau hanesyddol, pensaernïol ac archaeolegol, yn arbennig Parc Gwledig Margam, sy'n cyflawni rôl bwysig fel cyrchfan hamdden a thwristiaeth. Mae strategaeth ofodol y CDLl presennol wedi ceisio diogelu asedau pwysig sy'n gysylltiedig â defnydd tir yn gyffredinol trwy ganolbwyntio datblygiadau		Dylid cynllunio ar gyfer unrhyw ofynion o ran uwchraddio neu greu seilwaith newydd i roi sylw i gyfyngiadau capasiti presennol, dadgarboneiddio sectorau economaidd allweddol neu i gynnal twf poblogaeth, cyflogaeth ac economaidd, gael eu cynllunio trwy Adolygiad y CDLl a rhaid iddynt gymryd ystyriaethau amgylcheddol perthnasol i ystyriaeth. Mae hynny'n golygu y dylai'r CDLlA gynnwys fframwaith	

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	ar hyd coridor yr arfordir ac yn ardaloedd trefol CNPT, ochr yn ochr â bod yn hyblyg ynghylch datblygu yn y Cymoedd.		polisi i gefnogi lleoli technolegau ynni adnewyddadwy a rhwydweithiau gwres mewn lleoliadau priodol.	
(8).Asedau Pwysig	**Seilwaith Trafnidiaeth:** <u>Y Rhwydwaith Ffyrdd</u> Mae'r Rhwydwaith Ffyrdd Craidd yn cysylltu CNPT â rhanbarthau cyfagos. Y ffyrdd canlynol yw'r Rhwydwaith Ffyrdd Craidd yn CNPT: yr M4, a'r A465. Mae'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn CNPT yn	Ar hyn o bryd, mae rhannau o'r rhwydwaith priffyrdd yn profi tagfeydd, yn enwedig yn yr oriau brig. Mae Metro Bae Abertawe yn nghyfnod cynnar ei ddatblygiad, a'i nod yw cysylltu cymunedau'n well ar	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl helpu i gynnal a hybu defnydd effeithlon a phriodol o asedau pwysig. Dylai gyflwyno strategaeth ofodol, cynigion a chanllawiau ar gyfer optimeiddio defnydd tir, adnoddau naturiol a seilwaith. Yn arbennig, dylai'r CDLlA gyflwyno	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau, defnydd tir, rheoli gwastraff, ynni, adnoddau naturiol, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, cysylltedd a hygyrchedd.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	cysylltu'r prif aneddiadau a chanolfannau poblogaeth yn y Fwrdeistref Sirol ac yn cynnwys y ffyrdd-A yn bennaf (gan gynnwys y Rhwydwaith Ffyrdd Craidd). Mae'r rhwydwaith priffyrdd lleol yn cysylltu ardaloedd poblogaeth lleol â'r prif aneddiadau ac yn cynnwys y rhwydweithiau ffyrdd-B yn bennaf, yn ogystal â'r holl lwybrau heb rifau a ddosbarthwyd yn CNPT. <u>Trafnidiaeth Gyhoeddus</u>	draws Dinas-Ranbarth Bae Abertawe trwy drafnidiaeth gyhoeddus, ochr yn ochr â datblygu gwell cysylltiadau bws a rheilffordd gyda rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.	strategaeth ofodol, cynigion a pholisïau sy'n optimeiddio defnydd o'r seilwaith presennol yn ardal CCNPT ac yn ei ddiogelu. Dylid cynllunio ar gyfer unrhyw ofynion o ran uwchraddio neu greu seilwaith newydd i roi sylw i gyfyngiadau capasiti presennol, dadgarboneiddio sectorau economaidd allweddol neu i gynnal twf poblogaeth, cyflogaeth ac economaidd, gael eu	

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Mae Gorsaf Castell-nedd a Pharcffordd Port Talbot yn orsafoedd ar y brif lein a wasanaethir gan drenau Great Western o Lundain (Paddington) i Abertawe (gyda chysylltiadau i Orllewin Cymru) a gwasanaethau rhanbarthol Trafnidiaeth Cymru. Darperir gwasanaethau rheilffordd ychwanegol i deithwyr o Orsaf Reilffordd Baglan, Gorsaf Reilffordd Llansawel, a Gorsaf Reilffordd Sgiwen.		cynllunio trwy Adolygiad y CDLl a rhaid iddynt gymryd ystyriaethau amgylcheddol perthnasol i ystyriaeth. Mae hynny'n golygu y dylai'r CDLl A gynnwys fframwaith polisi i gefnogi lleoli technolegau ynni adnewyddadwy a rhwydweithiau gwres mewn lleoliadau priodol.	

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Hefyd mae nifer o leiniau i nwydda yn unig - (1) Bro Nedd – i Gwmgwrach; (2) Cwm Dulais – i Onllwyn; a (3) Dyffryn Aman – Rhydaman i Dai'r gwaith. Mae gorsafoedd bysiau Castell-nedd a Phort Talbot yn darparu gwasanaethau bws cynhwysfawr yn lleol ac ar gyfer teithiau byr a chanolig, gan gynnwys gwasanaethau uniongyrchol i Gaerdydd ac Abertawe. <u>Awyr a Môr</u>			

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Mae Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd daith 40 munud o Bort Talbot ac mae'n caniatáu i deithwyr a nwyddau gyrraedd cyrchfannau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae Harbwr Port Talbot yn un o'r ychydig borthladdoedd yn y Deyrnas Unedig sy'n gallu derbyn y llongau cargo mwyaf ('cape-size') hyd at 170,000dwt. Teithio Llesol			

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Mae amrywiol lwybrau teithio yn ardal CCNPT[24] . Cymeradwywyd Map Teithio Llesol y Cyngor gan LlC yn Rhagfyr 2022. Mae rhyw 55 o lwybrau i gerddwyr, sy'n gyfanswm o 47.140km a 25 o lwybrau beicio sy'n gyfanswm o 36.400km. Mae rhan o lwybrau teithio llesol CCNPT yn cynnwys Llwybr Arfordirol Cymru Gyfan, sy'n darparu llwybr cerdded di-dor o amgylch			

- [Teithio Llesol (npt.gov.uk)](https://www.npt.gov.uk)

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Cymru gyfan, cyfanswm o 870 o filltiroedd.			
(8).Asedau Pwysig	**Seilwaith Cyfleustodau**: Biomas Dechreuodd Gwaith Ynni Gwyrdd Margam, CNPT, weithredu'n fasnachol yn 2019, gan gynhyrchu trydan adnewyddadwy trwy'r grid ar gyfer cartrefi a busnesau. Fe gostiodd £160m, ac mae'n trosi ynni a gynhyrchwyd trwy losgi pren gwastraff cyn ei allforio i'r grid. Ynni Solar	Mae angen parhau i ddadgarboneiddio'r sector cynhyrchu ynni ledled Cymru i gefnogi'r pontio i economi garbon isel ac i helpu i liniaru'r newid yn yr hinsawdd. Ar yr un pryd, mae angen cyfuniad o ffynonellau cynhyrchu ynni i sicrhau bod y cyflenwad yn dal yn sicr ac i oresgyn problemau a gysylltir â chyflenwad	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl helpu i gynnal a hybu defnydd effeithlon a phriodol o asedau pwysig. Dylai gyflwyno strategaeth ofodol, cynigion a chanllawiau ar gyfer optimeiddio defnydd tir, adnoddau naturiol a seilwaith. Yn arbennig, dylai'r CDLlA gyflwyno strategaeth ofodol, cynigion a pholisïau sy'n optimeiddio defnydd o'r seilwaith	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau, defnydd tir, rheoli gwastraff, ynni, adnoddau naturiol, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, cysylltedd a hygyrchedd.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Yn 2021/22 rhoddwyd caniatâd ar gyfer dau arae solar – P2022/0643 a P2022/0934. Cafodd CCNPT hefyd farn sgrinio ar gyfer P2022/1050, cais ymgynghori DNS ar gyfer P2023/0003, a Barn Rychwantu DNS yn achos RFI P2023/0181. <u>Ffermydd Gwynt</u> CNPT sydd â'r capasiti gwynt uchaf ar y tir o blith holl awdurdodau lleol Cymru, gan ei fod yn cynhyrchu 330MW. Mae	bylchog technolegau ynni'r gwynt a'r haul.	presennol yn ardal CCNPT ac yn ei ddiogelu. Dylid cynllunio ar gyfer unrhyw ofynion o ran uwchraddio neu greu seilwaith newydd i roi sylw i gyfyngiadau capasiti presennol, dadgarboneiddio sectorau economaidd allweddol neu i gynnal twf poblogaeth, cyflogaeth ac economaidd, gael eu cynllunio trwy Adolygiad y CDLl a rhaid iddynt gymryd materion amgylcheddol perthnasol i ystyriaeth. Mae hynny'n golygu y dylai'r	

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	sawl fferm wynt yn gweithredu yn ardal CNPT, gan gynnwys fferm wynt Pen y Cymoedd, a agorodd yn 2017 ac sy'n cynnwys 76 o dyrbinau gyda chapasiti o 228 MW[25].		CDLlA gynnwys fframwaith polisi i gefnogi lleoli technolegau ynni adnewyddadwy a rhwydweithiau gwres mewn lleoliadau priodol.	
(8).Asedau Pwysig	**Rheoli Gwastraff**: Yn CNPT o 2018-19, o'r cyfanswm o 69,990 tunnell o wastraff trefol a gynhyrchwyd, cafodd 42,560 o dunelli eu hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu compostio, cafodd 17,881	Mae angen parhau i gyrraedd y targedau statudol ar gyfer gwaredu gwastraff yn gynaliadwy yn CNPT.	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl helpu i gynnal a hybu defnydd effeithlon a phriodol o asedau pwysig. Dylai gyflwyno strategaeth ofodol, cynigion a chanllawiau ar gyfer optimeiddio defnydd	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau, defnydd tir, rheoli gwastraff, ynni, adnoddau naturiol,

25 energy-generation-in-wales-2021.pdf (gov.wales)

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	tunnell eu hylosgi, ac anfonwyd 3,312 tunnell i'w hadennill mewn ffyrdd eraill. Roedd hynny'n gadael 5,883 tunnell yn unig a anfonwyd i safleoedd tirlenwi. At ei gilydd, cafodd 60.8% o wastraff ei ailddefnyddio/ailgylchu neu ei gompostio. Mae gan CCNPT gytundeb partneriaeth gydag awdurdodau lleol gerllaw i brosesu gwastraff yn y Ganolfan Adennill Deunyddiau ac Ynni		tir, adnoddau naturiol a seilwaith. Yn arbennig, dylai'r CDLlA gyflwyno strategaeth ofodol, cynigion a pholisïau sy'n optimeiddio defnydd o'r seilwaith presennol yn ardal CCNPT ac yn ei ddiogelu. Dylid cynllunio ar gyfer unrhyw ofynion o ran uwchraddio neu greu seilwaith newydd i roi sylw i gyfyngiadau capasiti presennol, dadgarboneiddio sectorau economaidd allweddol neu i gynnal twf poblogaeth, cyflogaeth ac	lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, cysylltedd a hygyrchedd.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	(MREC) a leolir yn Nhwyni Crymlyn yn CNPT. Yn 2020/21, rhagorodd CNPT ar y gyfradd ailddefnyddio/ailgylchu/ compostio gwastraff trefol nad oedd wedi rhagori arni yn y cyfnod monitro blaenorol (2019/20)[26].		economaidd, gael eu cynllunio trwy Adolygiad y CDLl a rhaid iddynt gymryd materion amgylcheddol perthnasol i ystyriaeth. Mae hynny'n golygu y dylai'r CDLlA gynnwys fframwaith polisi i gefnogi lleoli technolegau ynni adnewyddadwy a rhwydweithiau gwres mewn lleoliadau priodol.	
(8).Asedau Pwysig	**Adnoddau Naturiol:** Mae CNPT yn cynnwys symiau	Mae angen gwarchod ac adfer tirluniau y gallai	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys

26 Rheoli Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol, 2020-21 (llyw.cymru)

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	sylweddol o adnoddau mwynau; yn lo ac yn agregau. Roedd y CDLl presennol yn disgrifio'r Fwrdeistref Sirol '*gyfan*' fel ardal sy'n gorwedd ar ben adnoddau glo. Mae'r glo o'r safon uchaf, y glo carreg, yn y gogledd, gyda chilfachau o lo rhydd yn y de-ddwyrain. Bu cloddio helaeth am lo yn CNPT ers cannoedd o flynyddoedd ac mae'n cael ei gydnabod am ei gyfraniad economaidd cadarnhaol i greu a chynnal nifer o gymunedau'r cymoedd. Mae	echdynnu mwynau effeithio arnynt.	CDLl helpu i gynnal a hybu defnydd effeithlon a phriodol o asedau pwysig. Dylai gyflwyno strategaeth ofodol, cynigion a chanllawiau ar gyfer optimeiddio defnydd tir, adnoddau naturiol a seilwaith. Yn arbennig, dylai'r CDLlA gyflwyno strategaeth ofodol, cynigion a pholisïau sy'n optimeiddio defnydd o'r seilwaith presennol yn ardal CCNPT ac yn ei ddiogelu. Dylid cynllunio ar gyfer unrhyw ofynion o ran uwchraddio neu greu	amcanion sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau, defnydd tir, rheoli gwastraff, ynni, adnoddau naturiol, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, cysylltedd a hygyrchedd.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Argraffiad 11 o PCC yn datgan na fydd cynigion newydd i echdynnu glo yn cael eu cefnogi. Rhaid i unrhyw gynigion o'r fath ddangos yn glir pam mae angen amdanynt yng nghyd-destun targedau lleihau allyriadau y newid yn yr hinsawdd, ac am resymau diogelwch ynni cenedlaethol. Mae dwy chwarel bwysig ar gyfer creigiau caled yn CNPT, yn y Gilfach (Castell-nedd) a Chwm Nant Lleici (Pontardawe), sy'n cyflenwi agregau i'r farchnad		seilwaith newydd i roi sylw i gyfyngiadau capasiti presennol, dadgarboneiddio sectorau economaidd allweddol neu i gynnal twf poblogaeth, cyflogaeth ac economaidd, gael eu cynllunio trwy Adolygiad y CDLl a rhaid iddynt gymryd materion amgylcheddol perthnasol i ystyriaeth. Mae hynny'n golygu y dylai'r CDLlA gynnwys fframwaith polisi i gefnogi lleoli technolegau ynni adnewyddadwy a	

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	ranbarthol a marchnad y Deyrnas Unedig.		rhwydweithiau gwres mewn lleoliadau priodol.	
(9).Treftadaeth Ddiwylliannol	**Asedau hanesyddol**: Fel y manylir yn **Nhabl A.1** uchod, mae 97 o Henebion Cofrestredig wedi'u nodi yn CNPT. O'r rhain, mae 5 yn dyddio o'r cyfnod Canoloesol Cynnar, 14 o'r cyfnod Canoloesol, 27 o'r cyfnod Ôl-ganoloesol /Modern, 45 o'r cyfnod Cynhanes a 6 o'r cyfnod Rhufeinig. Mae'r mwyafrif ohonynt ym Margam (15).	Mae CNPT yn gartref i amrywiaeth o asedau hanesyddol dynodedig, y mae angen i bob un ohonynt gael eu gwarchod yn briodol rhag effeithiau ar eu hintegriti a'u cyd-destun.	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gyflwyno polisïau a chynigion i warchod, cadw a gwella asedau hanesyddol ar draws CNPT, gan gynnwys o ran effeithiau ar leoliad asedau o'r fath ac adnoddau archaeolegol anhysbys.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu, cadw, gwarchod a gwella yr amgylchedd hanesyddol.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Mae hefyd 395 o adeiladau rhestredig ar draws ardal CCNPT, yn amrywio o bontydd i gestyll (e.e. y Castell yng Nghastell-nedd). Ar hyn o bryd mae 260 o Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol (BLIs) a Strwythurau Camlas Dynodedig yn CNPT.			
(9).Treftadaeth Ddiwylliannol	**Yr Iaith Gymraeg:** Lansiodd CCNPT Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg ym mis Gorffennaf 2023, er mwyn sicrhau bod y	Mae angen diogelu a chefnogi defnydd cynyddol o'r iaith Gymraeg ymhlith poblogaeth breswyl CNPT.	Dylai unrhyw CDLIA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gynnwys darpariaethau polisi i gefnogi twf yn y defnydd o'r iaith Gymraeg.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion yn ymwneud â diogelu'r iaith Gymraeg.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Gymraeg yn llawer mwy clywadwy a gweladwy mewn cymunedau lleol erbyn 2028, a bod defnydd ohoni gan fwy o bobl yn eu bywydau beunyddiol. Mae'r camau gweithredu yn cynnwys hyrwyddo manteision dwyieithrwydd/ymwybyddiaeth o iaith ymhlith teuluoedd ifanc a'r holl newydd-ddyfodiaid i CNPT; darparu cefnogaeth gyda gwaith cartref i ddisgyblion o deuluoedd di-Gymraeg sy'n mynychu ysgolion Cymraeg; archwilio'r rhesymau dros			

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	niferoedd cyfyngedig yn manteisio ar gyrsiau Cymraeg/addysg Gymraeg neu'n cael mynediad iddyn nhw o blith cymunedau penodol; darparu ymwybyddiaeth iaith a chyrsiau hyfforddi ar gyfer athrawon a staff eraill, gan gefnogi a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol ac yn y gweithle; a gweithio gyda phartneriaid i wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy ar draws lleoliadau, gweithgareddau a			

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	digwyddiadau hamdden, busnes a diwylliannol. Yn ôl Cyfrifiad 2021, gall tua 13.5% o'r bobl dros 3 oed yn CNPT siarad Cymraeg – gostyngiad ers Cyfrifiad 2011, pan oedd y ganran yn 15.3% (darlun a adlewyrchir ar draws y rhan fwyaf o Gymru).			
(10).Tirlun	**Ardaloedd Dynodedig:** Fel y manylir yn **Nhabl A.1** uchod, nid oes AoHNE yn CNPT, ond dynodwyd hefyd 2 GNG a 6 Ardal Tirlun Arbennig ar lefel leol.	Mae angen darparu amddiffyniad priodol ar gyfer tirluniau dynodedig, nodweddion tirlun pwysig ac ardaloedd lle mae	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gyflwyno strategaeth ofodol, polisïau a chynigion sy'n gwarchod ac yn gwella nodweddion allweddol y	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â nodweddion tirlun, cymeriad y tirlun ac

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		cymeriad sensitif i'r tirlun. Mae angen hefyd am ddiogelu golygfeydd allweddol ac amwynder gweledol.	tirlun, yn gwella safon cymeriad y tirlun lleol, yn sensitif i dderbynyddion gweledol perthnasol, ac yn annog unigrywiaeth lleol. Dylai'r CDLlA sicrhau hefyd bod datblygiadau newydd yn cael eu hintegreiddio'n dda â chymunedau presennol er mwyn creu ymdeimlad cryf o le.	effeithiau gweledol. Dylai'r AAS asesu effeithiau strategaethau gofodol, cynigion, polisïau a chanllawiau sy'n dod i'r amlwg ar yr agweddau hyn, er mwyn sicrhau bod Adolygiad y CDLl yn diogelu, a lle bo hynny'n briodol, yn gwella lefel yr amddiffyniad a roddir i'r tirlun.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
(10).Tirlun	**Gwead, cymeriad a chapasiti'r tirlun:** Mae CCNPT yn cwmpasu ardal o ryw 442 cilometr sgwâr. Mae tirlun Castell-nedd Port Talbot yn amrywiol, o dwyni tywod a morfa heli arfordirol hyd at ardaloedd ucheldir o laswellt y bwla a choetir hynafol. Mae sawl planhigfa conifferau a nodweddion daearegol pwysig, gan gynnwys dyffrynnoedd rhewlifedig a ffurfiannau creigiau.	Mae angen darparu amddiffyniad priodol ar gyfer tirluniau dynodedig, nodweddion tirlun pwysig ac ardaloedd lle mae cymeriad sensitif i'r tirlun. Mae angen hefyd am ddiogelu golygfeydd allweddol ac amwynder gweledol.	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl gyflwyno strategaeth ofodol, polisïau a chynigion sy'n gwarchod ac yn gwella nodweddion allweddol y tirlun, yn gwella safon cymeriad y tirlun lleol, yn sensitif i dderbynyddion gweledol perthnasol, ac yn annog unigrywiaeth lleol. Dylai'r CDLlA sicrhau hefyd bod datblygiadau newydd yn cael eu hintegreiddio'n dda â chymunedau presennol er	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â nodweddion tirlun, cymeriad y tirlun ac effeithiau gweledol. Dylai'r AAS asesu effeithiau strategaethau gofodol, cynigion, polisïau a chanllawiau sy'n dod i'r amlwg ar yr agweddau hyn, er mwyn sicrhau bod Adolygiad y CDLl yn diogelu, a lle bo

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Mae'r Cymoedd yn cynnwys dyffrynnoedd afonydd a wahanir gan lwyfandir uchel a mynyddoedd. Mae patrwm yr aneddiadau a'r defnydd o dir yn adlewyrchu'r patrwm hirgul nodweddiadol a gysylltir â'r ardal hon. Gwelir bod traffordd yr M4, cefnffordd yr A465, a'r lein reilffordd o Abertawe i Paddington, i gyd yn croesi CCNPT, ac mae pob un ohonynt yn dylanwadu ar y tirlun o'u cwmpas.		mwyn creu ymdeimlad cryf o le.	hynny'n briodol, yn gwella lefel yr amddiffyniad a roddir i'r tirlun.

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
(10).Tirlun	**Amwynder gweledol:** Ceir effaith niweidiol ar amwynder gweledol mewn mannau oherwydd lefelau uchel o amddifadedd, sy’n golygu nad yw adeiladau a seilwaith yn cael eu cadw mewn cyflwr da. Mae sawl fferm wynt yn weithredol yn CNPT, ac mae gan hynny botensial i greu effeithiau gweledol.	Mae angen darparu amddiffyniad priodol ar gyfer tirluniau dynodedig, nodweddion tirlun pwysig ac ardaloedd lle mae cymeriad sensitif i’r tirlun. Mae angen hefyd am warchod golygfeydd allweddol a diogelu amwynder gweledol.	Dylai unrhyw CDLlA sy’n deillio o’r Adolygiad hwn o’r CDLl gyflwyno strategaeth ofodol, polisïau a chynigion sy’n gwarchod ac yn gwella nodweddion allweddol y tirlun, yn gwella safon cymeriad y tirlun lleol, yn sensitif i dderbynyddion gweledol perthnasol, ac yn annog unigrywiaeth lleol. Dylai’r CDLlA sicrhau hefyd bod datblygiadau newydd yn cael eu hintegreiddio’n dda â chymunedau presennol er	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud â nodweddion tirlun, cymeriad y tirlun ac effeithiau gweledol. Dylai’r AAS asesu effeithiau strategaethau gofodol, cynigion, polisïau a chanllawiau sy’n dod i’r amlwg ar yr agweddau hyn, er mwyn sicrhau bod Adolygiad y CDLl yn diogelu, a lle bo

Pwnc yr AAS	Nodweddion Gwaelodlin Allweddol	Amcanion, Materion a Phroblemau Presennol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
			mwyn creu ymdeimlad cryf o le.	hynny'n briodol, yn gwella lefel yr amddiffyniad a roddir i'r tirlun.

A.4. Esblygiad Amodau Gwaelodlin yn Absenoldeb Adolygiad y CDLl

A.4.1. Mae'r adran hon yn ymateb i'r gofyniad yn Rheoliadau'r AAS i ystyried esblygiad tebygol cyflwr presennol yr amgylchedd yn absenoldeb y cynllun neu'r rhaglen sydd dan sylw, sef Adolygiad y CDLl.

Yr Angen am Adolygiad y CDLl

A.4.2. Mae CCNPT wedi penderfynu bod angen adolygiad o'r CDLl presennol (2011-2026, a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2016) i ganiatáu i CCNPT baratoi a mabwysiadu CDLlA cyn i'r CDLl cyfredol ddod i ben. Mae Adroddiad Adolygu CDLl CNPT (CCNPT, 2020) yn dod i'r casgliad bod angen gweithdrefn 'Adolygiad Llawn' i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r CDLl presennol a pharatoi CDLlA, yn hytrach na'r weithdrefn 'Ffurf Fer', na fyddai yn creu ond mân ddiwygiadau (e.e. newidiadau i eiriad polisïau unigol neu ychwanegu safleoedd unigol a ddyrannwyd) i'r CDLl presennol. Bernir bod angen CDLlA i gymryd i ystyriaeth ystod o Ddeddfau, fframweithiau polisi, mentrau, tystiolaeth a materion gofodol newydd ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol ers i'r CDLl cyfredol gael ei fabwysiadu.

A.4.3. Pe na bai unrhyw Adolygiad o'r CDLl yn cael ei gynnal, ni fyddai CCNPT yn gallu paratoi CDLlA (fel y cynigiwyd) na chynnig mân ddiwygiadau i'r CDLl presennol cyn iddo ddod i ben ym mis Rhagfyr 2026. Mae amserlen y CC drafft (Hydref 2023) yn nodi y byddai'r CDLlA yn cael ei fabwysiadu ym mis Ebrill 2027, a fyddai'n gadael cyfnod o rai misoedd lle na fyddai CDLl a fabwysiadwyd yn ei le. Mae Adroddiad Adolygu CDLl Castell-nedd Port Talbot (CCNPT, 2020) yn dangos yn eglur y gallai'r diwydiant datblygu, yn absenoldeb Cynllun Datblygu wedi'i ddiweddaru ar gyfer ardal CCNPT, geisio pwyso am gynnwys safleoedd nad ydynt yn cydweddu â strategaeth y CDLl presennol, a arweinir gan adfywiad economaidd. Ar hyn o bryd mae galw cyfyngedig am adeiladu tai yn CNPT, ac nid yw targedau tai'n cael eu cyrraedd, felly ni ragwelir y byddai pwysau sylweddol am ddatblygu yn ystod y cyfnod byr pan fyddai'r Cyngor heb Gynllun Datblygu a fabwysiadwyd. Fodd bynnag, gallai fod risg o roi pwysau i ryddhau safleoedd maes glas

mewn lleoliadau anghynaliadwy. Er y gallai'r galw hwn fod yn gyfyngedig, petai'n digwydd o gwbl, gallai arwain at ystod o effeithiau niweidiol sylweddol annerbyniol ar y pynciau amgylcheddol a ragnodwyd yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau AAS, gan gynnwys:

- Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna: Gallai pwysau datblygu cynyddol mewn lleoliadau anghynaliadwy neu'n groes i strategaeth y CDLl roi pwysau ar fioamrywiaeth, gan gynnwys colli a darnio cynefinoedd, tra gallai cynnydd mewn traffig a sŵn aflonyddu ar rywogaethau sensitif;
- Poblogaeth: Gallai pwysau datblygu cynyddol mewn lleoliadau anghynaliadwy neu'n groes i strategaeth y CDLl arwain at ddiffyg cyfatebiaeth gofodol rhwng y cyflenwad tai a'r galw am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a seilwaith trafnidiaeth. Gallai hefyd arwain at anallu gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith cymunedol i ddiwallu anghenion a nodwyd gan y boblogaeth, gan gynnwys mewn perthynas â gofynion poblogaeth sy'n heneiddio;
- Iechyd: Byddai absenoldeb CDLl cymwys ac wedi'i ddiweddaru yn cyfyngu ar allu CCNPT i wella iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth trwy bolisïau ac ymyriadau cynllunio gofodol. Os na chyflawnir cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch corfforol a theithio llesol, bydd problemau iechyd megis gordewdra, segurdod ac ansawdd aer gwael yn parhau i effeithio ar boblogaeth CNPT, gan achosi cynnydd mewn afiechyd, gwaethygu anghydraddoldeb iechyd a chyfyngu ar hyd oes ddisgwyliedig. Byddai absenoldeb Adolygiad y CDLl hefyd yn atal CCNPT rhag gweithredu Deddf LlCD 2015 yn llawn, ac yn benodol rhag cyflawni dyletswydd y sector cyhoeddus o dan Adran 3 o'r Ddeddf, gan na fyddai mecanwaith ar gael i alinio fframwaith polisi cynllunio CCNPT â'r amcanion a bennwyd yn Y CNPT a Garem (Cynllun Llesiant 2018-2023). Ar ben hynny, gallai pwysau datblygu cynyddol mewn lleoliadau anghynaliadwy neu'n groes i strategaeth y CDLl arwain at golli ardaloedd sy'n fannau agored, gan leihau'r cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol, gyda chanlyniadau niweidiol i iechyd yn gysylltiedig â hynny;

- Pridd: Gallai pwysau datblygu cynyddol mewn lleoliadau anghynaliadwy neu'n groes i strategaeth y CDLl atal tir halogedig rhag cael ei adfer ac arwain at golli adnoddau pridd pwysig am byth (e.e. mawndir o ansawdd da). Yn absenoldeb strategaeth ofodol CDLl wedi'i diweddaru, gallai pwysau cynyddol i ddatblygu cyfleusterau newydd, tai a defnyddiau cynhyrchu cyflogaeth arwain hefyd at golli'r tir amaethyddol gorau a phwysig yn lleol;
- Dŵr: Gallai pwysau datblygu cynyddol mewn lleoliadau anghynaliadwy neu'n groes i strategaeth y CDLl roi pwysau ar adnoddau dŵr a chael effaith niweidiol ar ansawdd yr amgylchedd dŵr;
- Ffactorau Ansawdd Aer a Hinsoddol: Gallai dibyniaeth ar geir preifat i gael mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau gynyddu os bydd datblygu'n digwydd mewn lleoliadau anghynaliadwy neu'n groes i strategaeth y CDLl. Ar ben hynny, byddai cyfleoedd i fynd ati'n rhagweithiol i annog newid modd teithio i gerdded, beicio a chludiant cyhoeddus yn cael eu colli. Yn absenoldeb newid tymor byr sylweddol at ddefnyddio cerbydau trydan, byddai'r cynnydd mewn traffig o ganlyniad yn llosgi mwy o danwydd ffosil, ac yn creu mwy o allyriadau carbon a llygredd atmosfferig lleol, yn arbennig rhyddhau mwy o ronynnau. Byddai hynny'n gweithredu yn erbyn ymdrechion polisi ehangach i ddadgarboneiddio sectorau economaidd allweddol, gan gynnwys trafnidiaeth, er mwyn lliniaru'r newid yn yr hinsawdd. Gallai arwain hefyd at waethygu ansawdd aer a golygu bod rhaid i CCNPT ddynodi Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ychwanegol (ARhAAoedd) i roi sylw i ardaloedd lle mae ansawdd yr aer yn wael;
- Asedau Pwysig: Byddai pwysau datblygu cynyddol mewn lleoliadau anghynaliadwy neu'n groes i strategaeth y CDLl yn debygol o gynyddu'r cyfyngiadau capasiti a'r pwysau ar ystod o seilwaith hanfodol. Gallai hynny ynddo'i hyn arwain at ystod o effeithiau amgylcheddol, yn ogystal â chyfyngu ar dwf tai, yr economi a chyflogaeth yn y tymor hir ar draws CNPT. I grynhoi, heb Adolygiad y CDLl mae'n debygol na fyddai ystod o

seilwaith sy'n ofynnol i gyflawni anghenion a nodwyd ar draws CNPT yn cael ei darparu;

- Treftadaeth Ddiwylliannol: Gallai pwysau datblygu cynyddol mewn lleoliadau anghynaliadwy neu yn groes i strategaeth y CDLl ychwanegu at y pwysau sydd ar ardaloedd sensitif o ddiddordeb hanesyddol a/neu archaeolegol, yn ogystal â thanseilio cymeriad ardaloedd cadwraeth; a hefyd
- Tirlun: Gallai pwysau datblygu cynyddol mewn lleoliadau anghynaliadwy neu yn groes i strategaeth y CDLl gael effaith negyddol sylweddol ar gymeriad tirlun CNPT, yn enwedig petai datblygiad newydd ychwanegol yn cael ei grynhoi mewn ardaloedd lle mae gwerth mawr i'r tirlun (e.e. yn y 6 Ardal Tirlun Arbennig presennol ar draws CNPT).

A.4.4. Ar ben hynny, yn absenoldeb Cynllun Datblygu statudol cymwys ac wedi'i ddiweddaru, gallai fod angen dargyfeirio anoddau cynllunio CCNPT i ffwrdd oddi wrth weithgareddau cynllunio datblygu sy'n ceisio paratoi CDLl newydd tuag at wrthsefyll achosion annymunol o 'gynllunio trwy apêl'. O ganlyniad, mae'n ddoeth bod CCNPT yn cynnal Adolygiad o'r CDLl.

Defnyddio Gweithdrefn Ffurf Lawn neu Ffurf Fer Adolygiad y CDLl

A.4.5. Petai'r weithdrefn Ffurf Fer yn cael ei defnyddio yn lle'r weithdrefn Adolygiad Llawn ar gyfer Adolygiad y CDLl hwn, byddai unrhyw newidiadau i'r CDLl presennol oedd yn deillio o hynny yn gyfyngedig eu cwmpas. Byddai hynny'n atal y CDLl rhag cymryd i ystyriaeth lawn yr ystod o Ddeddfau, fframweithiau polisi, mentrau, tystiolaeth a materion gofodol newydd ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi dod i'r amlwg ers mis Ionawr 2016. Mae'r effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd o ganlyniad yn debygol o fod yn debyg i'r rhai a restrir uchod, er nad mor ddifrifol, mewn perthynas ag absenoldeb posibl Cynllun Datblygu statudol cymwys ar gyfer CNPT

A.4.6. O ganlyniad, mae Adolygiad y CDLl yn digwydd yn unol â'r weithdrefn 'Adolygiad Llawn', fel bod modd i CCNPT baratoi CDLlA cynhwysfawr, wedi'i ddiweddaru.

Atodiad B: Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni

B.1. Cyflwyniad

B.1.1. Mae'r Atodiad hwn yn cefnogi Adran 3 o Adroddiad Rhychwantu ACI Adolygiad CDLl CNPT trwy ddarparu adolygiad o'r cynlluniau, y rhaglenni a'r strategaethau perthnasol cymwys sydd o bwys ar gyfer Adolygiad y CDLl. Prif ddiben yr adolygiad hwn yw nodi amcanion perthnasol o ran gwarchod yr amgylchedd, a gofynion polisi ehangach oddi mewn i ddogfennau polisi perthnasol y dylid eu cymryd i ystyriaeth fel rhan o Adolygiad y CDLl (neu eu defnyddio i'w lywio mewn modd arall) a phroses gysylltiedig yr ACI.

B.2. Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni Perthnasol

B.2.1. Mae **Tabl B.1** isod yn cyflwyno adolygiad o gynlluniau a rhaglenni eraill sy'n berthnasol i Adolygiad y CDLl a phroses gysylltiedig yr ACI. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei ddiweddaru yn ôl y galw ar hyd proses Adolygiad y CDLl i gymryd datblygiadau polisi sy'n dod i'r amlwg i ystyriaeth, a bydd yn cael ei atodi i bob iteriad o Adroddiad ACI Adolygiad CDLl CNPT. Mae'n werth nodi nad yw **Tabl B.1** yn ystyried goblygiadau dogfennau polisi cynllunio cenedlaethol Cymru ar gyfer Adolygiad y CDLl; yn hytrach mae'r rheiny'n derbyn sylw ar wahân yn **Nhabl B.2**, o ystyried eu pwysigrwydd canolog wrth bennu cadernid y CDLlA a fydd yn deillio o Adolygiad y CDLl.

B.2.2. O ran **effeithiau posibl ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Rhagfyr 2020**, mae **Tabl B.1** yn cynnwys yr holl gynlluniau a rhaglenni rhyngwladol perthnasol sydd o bwys ar gyfer Adolygiad y CDLl. Ar yr adeg hon mae holl ddeddfwriaeth Ewrop sy'n anuniongyrchol berthnasol i Adolygiad CDLl CNPT wedi cael ei chadw yn **Nhabl B.1**. Er y gallai hynny newid yn ystod cyfnod paratoi'r CDLlA, ceir rhyw syniad o gyfeiriad y newid yn y dyfodol o'r ffaith bod Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyflwyno egwyddorion a llywodraethiant Amgylcheddol ar ôl Brexit (Hydref 2019). Roedd hwn, ail adroddiad y Pwyllgor i ystyried effaith ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ar egwyddorion amgylcheddol a strwythurau llywodraethiant yng

Nghymru, yn cyflwyno cyfres o argymhellion ar gyfer Bil LlC yn y dyfodol, i roi sylw i egwyddorion amgylcheddol a bylchau llywodraethiant. I grynhoi, mae'r Pwyllgor wedi argymell 'peidio â llithro'n ôl' neu 'symud ymlaen' fel egwyddor ar gyfer Bil yn y dyfodol, a hefyd wedi argymell cynnwys pedair egwyddor amgylcheddol graidd yr UE: Rhagofalus; Ataliol; Unioni yn y ffynhonnell; ac egwyddor y Llygrwr sy'n talu, ochr yn ochr ag asesu manteision cynnwys egwyddorion eraill o eiddo'r UE a rhai rhyngwladol.

B.2.3. Ar 1 Ionawr 2021, ymrwymodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynnal safonau amgylcheddol a rhwymedigaethau rhyngwladol, gan ddatgan y bydd y canlynol yn parhau ar waith:

- Fframwaith cyfreithiol y Deyrnas Unedig ar gyfer gorfodi deddfwriaeth amgylcheddol ddomestig gan gyrff rheoleiddio neu systemau llysoedd y Deyrnas Unedig; a'r
- Targedau amgylcheddol sydd ar hyn o bryd yn cael eu cwmpasu gan ddeddfwriaeth yr UE – maent eisoes wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth y Deyrnas Unedig.

B.2.4 Ar ben hynny, cadarnhawyd bod gan Ardaloedd Amddiffyniad Arbennig (AAA) Cymru a'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (safleoedd Natura 2000) yr un amddiffyniad ag a oedd ganddynt pan oedd y Deyrnas Unedig yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd.

Tabl B. 1: Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Eraill Perthnasol

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o Ddiben a Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
Poblogaeth (gan gynnwys materion sosio-economaidd perthnasol)	Y Cenhedloedd Unedig (2016) Cynefin III (Quinto), Comisiwn Economaidd Ewrop y CU (1998) Confensiwn Aarhus.	Mae'r dogfennau hyn yn darparu fframwaith rhyngwladol ar gyfer hybu datblygu cynaliadwy yn yr holl benderfyniadau a wneir. Dylai datblygiadau cenedlaethol a lleol gymryd cynaliadwyedd i ystyriaeth a rhannu gwybodaeth berthnasol yn agored gyda'r cyhoedd.	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac yn diogelu tryloywder wrth wneud penderfyniadau. Rhaid i broses Adolygiad y CDLl ei hun hefyd fod yn wrthrychol, yn dryloyw, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei chynnal yn deg.	O'i gymhwyso yn ei grynswth, dylai Fframwaith yr ACI ddarparu cyfres gyfannol o feini prawf asesu ar gyfer pennu cyfraniad unrhyw CDLlA i gyflawni datblygu cynaliadwy.
Iechyd Dynol	Y Cenhedloedd Unedig (1989) Confensiwn y CU ar	Mae'r dogfennau hyn yn darparu fframwaith	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o Ddiben a Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Hawliau'r Plentyn 1989, Y Cenhedloedd Unedig (2016) Adroddiad Argymhellion y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) (1999) Canllawiau ar gyfer Sŵn Cymunedol 1999, Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) (2004) Cynllun Gweithredu Amgylchedd a Iechyd Plant i Ewrop.	rhyngwladol sy'n cydnabod pwysigrwydd diogelu ac amddiffyn iechyd dynol wrth ymgymryd â gweithgareddau datblygu.	o'r CDLl ddarparu polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau ar gyfer atal effeithiau negyddol ar iechyd dynol yn sgîl datblygiadau lleol, yn unol â deddfwriaeth ryngwladol.	amcanion sy'n ymwneud ag amddiffyn iechyd dynol.
Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna	Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd (1971), Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE – Ein Hyswiriant Bywyd, Ein Cyfalaf Natur:	Mae'r dogfennau hyn yn darparu fframwaith rhyngwladol i warchod safleoedd a ddynodwyd ar lefel ryngwladol am	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn osgoi	Rhaid i Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chadw, gwarchod a gwella

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o Ddiben a Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Strategaeth Bioamrywiaeth i'r UE (2011), AEWA (1995) Confensiwn ar y Cytundeb ar Gadwraeth adar Dŵr Mudol o Affrica – Ewrasia (Confensiwn Bonn), UNESCO (1973) Confensiwn ar Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau a Beryglir o Ffawna a Fflora Gwyllt, y Cenhedloedd Unedig (1992) Confensiwn Rio ar Fioamrywiaeth.	resymau cadwraeth bioamrywiaeth a rhywogaethau pwysig rhag niwed.	effeithiau ar fioamrywiaeth wrth ddyrannu safleoedd ar gyfer gweithgareddau ailddatblygu.	safleoedd dynodedig yn briodol.
Pridd a Thir	Y Cenhedloedd Unedig (2001) Confensiwn	Nod y confensiwn hwn yw lleihau faint o lygryddion organig	Dylai unrhyw CDLIA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu polisïau,	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o Ddiben a Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Stockholm ar Lygryddion Organig Parhaol.	parhaol sy'n cael eu cynhyrchu a'u defnyddio.	cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn sicrhau bod yr holl weithgareddau datblygu yn cyfyngu ar y defnydd o'r llygryddion hyn.	ymwneud â chyfyngu ar Lygryddion Organig Parhaol.
Dŵr	Y Cenhedloedd Unedig (1982) Confensiwn ar Gyfraith y Môr.	Mae'r confensiwn hwn yn arddangos hawliau a chyfrifoldebau gwledydd o ran defnydd teg o gefnforoedd y byd.	Dylai unrhyw CDLIA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn sicrhau bod yr holl weithgareddau datblygu yn cadw at ganllawiau'r confensiwn.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â gwarchod ardaloedd arfordirol ac osgoi effeithiau negyddol ar y môr yn sgîl datblygu.

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o Ddiben a Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
Aer	Canllawiau Ansawdd Aer WHO, y Cenhedloedd Unedig (1979) Confensiwn Genefa ar Lygredd Aer Trawsffiniol Pellgyrhaeddol.	Mae'r canllawiau hyn yn darparu asesiad gwyddonol o effeithiau iechyd Llygredd Aer ac yn darparu canllawiau sy'n berthnasol ar draws y byd ar gyfer amrywiol lygryddion.	Dylai unrhyw CDLIA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau ar gyfer lefelau derbyniol o Ansawdd Aer ac agosrwydd cymunedau at ddatblygiadau a allai achosi lefelau annerbyniol o ansawdd aer.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag ansawdd aer yn lleol a'r effeithiau cysylltiedig ar iechyd.
Ffactorau Hinsoddol	Protocol Kyoto i Gonfensiwn y CU ar y Newid yn yr Hinsawdd, Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd, Y	Mae'r dogfennau hyn yn darparu fframwaith rhyngwladol sy'n nodi'r angen am gamau i liniaru	Dylai unrhyw CDLIA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn lliniaru effeithiau'r newid yn	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â defnydd o ynni, effeithlonrwydd adnoddau, trafnidiaeth

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o Ddiben a Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Cenhedloedd Unedig (2009) Cytuniad Copenhagen, Y Cenhedloedd Unedig (2010) Fframwaith Addasu Cancun, Y Cenhedloedd Unedig (2016) Cytundeb Paris.	ac addasu'r newid yn yr hinsawdd.	yr hinsawdd a achosir gan ddatblygu a chyflawni'r gofynion allweddol a amlinellwyd gan y polisïau.	gynaliadwy, allyriadau nwyon tŷ gwydr a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd yn ardal CCNPT.
Asedau Pwysig	Y Cenhedloedd Unedig (1989) Confensiwn Basel.	Mae'r confensiwn hwn yn ceisio lleihau symudiadau gwastraff peryglus rhwng gwledydd a swm/natur wenwynig y gwastraff a gynhyrchir.	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn lleihau'r gwastraff gwenwynig a gynhyrchir.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion yn ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau, defnydd tir, ynni, cysylltedd a hygyrchedd.

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o Ddiben a Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
Treftadaeth Ddiwylliannol	Adroddiad Diwylliant Dinasoedd y Byd 2015 – mesurau ac asedau diwylliannol, UNESCO (1972) Confensiwn ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd, UNESCO (2001) Confensiwn ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol o dan y Dŵr.	Mae'r dogfennau hyn yn darparu fframwaith rhyngwladol ar gyfer nodi a gwarchod asedau hanesyddol. Eu nod yw sicrhau bod gan yr asedau hanesyddol swyddogaeth yn y gymuned a'u bod yn cael eu hintegreiddio i amrywiol raglenni cynllunio.	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn gwarchod, cadw a chyflwyno asedau hanesyddol fel y nodir mewn polisi rhyngwladol.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â diogelu, cadw, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol.
Tirlun	Amherthanasol			
Effeithiau Rhyng-gysylltiedig	Datganiad Johannesburg ar Ddatblygu Cynaliadwy, Cyfathrebiad COM (2005)	Mae'n ymrwymo i ddefnydd cynaliadwy o	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu polisïau,	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys canllawiau ar gyfer

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o Ddiben a Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	666: Symud ymlaen gyda defnydd cynaliadwy o adnoddau, y Cenhedloedd Unedig (1992), Datganiad Rio ar yr Amgylchedd a Datblygu, y Cenhedloedd Unedig (2002) Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy.	adnoddau ac yn hybu datblygu cynaliadwy.	cynigion, cyngor a chanllawiau ar gyfer hybu datblygu cynaliadwy.	cyflawni nodau datblygu cynaliadwy.

Ewropeaidd : O ganlyniad i Brexit ar 31/12/20, mae'r holl gyfreithiau Ewropeaidd perthnasol bellach wedi eu hymgorffori yng nghyfraith ddomestig y Deyrnas Unedig. Amlinellir isod y ddeddfwriaeth Ewropeaidd gyfyngedig sy'n dal i fod yn anuniongyrchol berthnasol.

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o Ddiben a Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna	Cyngor Ewrop (1981) Confensiwn ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop – Confensiwn Bern, Cyfarwyddeb Adar yr UE (Cyfarwyddeb 2009/147/EC/ ar gadwraeth adar gwyllt), Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE (Cyfarwyddeb UE 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt (Fel y'i newidiwyd gan 97/62/EC	Mae'r dogfennau hyn yn darparu fframwaith Ewropeaidd i warchod safleoedd a ddynodwyd ar y lefel Ewropeaidd am resymau cadwraeth bioamrywiaeth a diogelu rhywogaethau pwysig rhag niwed.	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth, yn unol â deddfwriaeth a pholisi Ewrop.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion priodol i asesu colli cynefinoedd posibl, effeithiau hamdden, echdynnu dŵr, effeithiau o ran llygredd ac aflonyddu yn sgîl polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau a geir mewn unrhyw CDLlA sy'n deillio o Adolygiad y CDLl.

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o Ddiben a Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
Dŵr	Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE (Cyfarwyddeb 2000/60/EC), Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE (Cyfarwyddeb 2007/60/EC), Y Comisiwn Ewropeaidd (2006) Cyfarwyddeb Dŵr Daear 2006/118/EC, Y Comisiwn Ewropeaidd (1991) Cyfarwyddeb Dŵr Gwastraff Trefol 91/271/EEC, Y Comisiwn Ewropeaidd (1998) Cyfarwyddeb Dŵr Yfed 98/83/EC, Y Comisiwn Ewropeaidd (2006) Cyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi	Mae’r dogfennau hyn yn darparu fframwaith Ewropeaidd sy’n ceisio diogelu ansawdd yr amgylchedd dŵr, gan gynnwys trwy sicrhau lefelau diogel ar gyfer dŵr yfed ac ymdrochi, a thrwy hybu draenio trefol cynaliadwy.	Dylai unrhyw CDLlA sy’n deillio o’r Adolygiad hwn o’r CDLl ddarparu polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau ar gyfer lliniaru perygl llifogydd, diogelu’r cyflenwad dŵr yfed ac amddiffyn y gymuned rhag lefelau dŵr anniogel.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy’n ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd dŵr ac adnoddau dŵr, yn ogystal â rheoli perygl llifogydd.

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o Ddiben a Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	2006/7/EC, Y Comisiwn Ewropeaidd (2008) Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol 2008/56/EC.			
Ffactorau Hinsoddol	Yr UE (2009) Cyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy (2009/28/EC), Ewrop sy'n Effeithlon o ran Adnoddau, y Cenhedloedd Unedig (1994), Y Comisiwn Ewropeaidd (2001) Cyfarwyddeb Terfyn Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2001/81/EC, Y Comisiwn Ewropeaidd (2007) Y Pecyn Integredig Hinsawdd ac Ynni, Y	Mae'r dogfennau hyn yn darparu fframwaith Ewropeaidd ar gyfer ymateb i her fyd-eang y newid yn yr hinsawdd. Yn bennaf, lleiafu'r newid yn yr hinsawdd i'r dyfodol trwy liniaru a rhoi mesurau addasu ar waith yw'r themâu allweddol.	Dylai unrhyw CDLIA sy'n deillio o'r Adolygiad hwn o'r CDLl ddarparu polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau er mwyn osgoi'r ffactorau sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion ar gyfer lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol datblygu lleol.

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o Ddiben a Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Comisiwn Ewropeaidd (2012) Cyfarwyddeb Effeithlonrwydd Ynni (2012/27/EU), Y Comisiwn Ewropeaidd (2014) Fframwaith Polisi 2030 ar gyfer yr Hinsawdd ac Ynni.			

Cenedlaethol (y Deyrnas Unedig) – mae'r holl fframweithiau deddfwriaeth a pholisi yn cael eu llywio gan fframweithiau Ewropeaidd a rhyngwladol perthnasol lefel uwch

		trafnidiaeth heblaw ffyrdd; ▪ Nodi, a lle bo hynny'n briodol, gwarchod llwybrau sy'n ofynnol er mwyn symud nwyddau'n gynaliadwy; ▪ Gwarchod seilwaith trafnidiaeth nad yw'n cael ei ddefnyddio, gan gynnwys rheilffyrdd, seidinau rheilffordd, porthladdoedd, harbyrau a dyfrffyrdd mewndirol rhag datblygiadau a		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		fyddai'n peryglu eu defnydd ar gyfer trafnidiaeth yn y dyfodol, os yw ailddefnyddio'n bosibilrwydd; ▪ Lleiafu effeithiau niweidiol prosiectau seilwaith trafnidiaeth ar yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig, ac ar gymunedau lleol; ▪ Dylai CDLliau fwyafu'r defnydd o seilwaith sydd eisoes yn bodoli ac ystyried sut mae modd		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		cydlynu darparu gwahanol fathau o seilwaith; a ▪ Dylai CDLliau nodi lleoliadau addas ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy, yn ogystal â meini prawf ar gyfer sut bydd ceisiadau ar gyfer datblygiadau rheoli gwastraff yn cael eu penderfynu, gan gydnabod mai'r lleoliadau mwyaf priodol fydd y rhai sydd â'r		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		potensial mwyaf i gyfrannu at fframwaith seilwaith eang, a'r rhai sy'n cael yr effaith niweidiol leiaf ar y boblogaeth leol. Dylai CDLliau gyflwyno polisïau a chynigion ar gyfer lleoli cyfarpar telegyfathrebu, gan ddyrannu safleoedd ar gyfer datblygiadau mawr a chynnwys polisïau seiliedig ar feini prawf i dywys datblygiadau		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		telegyfathrebu lle gellid cynnig safleoedd heblaw'r rhai a nodwyd yn y cynllun.		
Treftadaeth Ddiwylliannol	PCC Argraffiad 11 (2021), Cymru'r Dyfodol 2040: y Cynllun Cenedlaethol (2021), LlC (2016) TAN 12: Dylunio, LlC (1997) TAN 20: Cynllunio a'r	Mae'r dogfennau hyn yn gofyn bod paratoi CDLliau yn: ▪ Glynu at Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) (2011) er mwyn cynnal ymdrechion i gadw'r iaith Gymraeg; ▪ Darparu datganiad ynghylch sut mae	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r CDLl hwn ddarparu polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau sy'n ymwneud â gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol a hybu'r iaith Gymraeg.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol a hybu'r iaith Gymraeg.

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	Iaith Gymraeg, LlC (2017) TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.	anghenion a buddiannau'r Gymraeg wedi cael eu cymryd i ystyriaeth; ▪ Os bydd angen, gellir cynnal asesiadau effaith ar yr iaith yng nghyswllt datblygiadau mawr nad ydynt wedi'u dyrannu yn y CDLl, sy'n cael eu cynnig mewn ardaloedd arbennig o sensitif neu bwysig i'r iaith. Dylid diffinio unrhyw ardaloedd		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		o'r fath yn glir yn y cynllun datblygu; ▪ Pwyslais ar warchod a chynnal yr iaith Gymraeg wrth lunio polisi, a hefyd o ran cyfraniad at gyflawni nod llesiant iaith Gymraeg Lewyrchus a tharged ehangach LlC, sef miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; ▪ Darparu polisïau sy'n ymwneud â gwarchod a chadw safleoedd treftadaeth byd,		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		gweddillion archaeolegol, adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, asedau hanesyddol lleol a pharciau a gerddi hanesyddol; ▪ Nodi polisïau lleol penodol mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol a rhoi sylw i'r asedau hanesyddol hynny y bernir eu bod yn ystyriaethau pwysig o bersbectif cynllunio lleol;		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		▪ Ystyried y perygl i safleoedd archaeolegol a hanesyddol yn sgîl datblygiadau tai; a ▪ Hefyd rhaid peidio â chyflwyno polisïau sy'n annog camwahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol, na cheisio rheoli preswyliaeth tai ar sail ieithyddol.		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
Tirlun	PCC Argraffiad 11 (2021), TAN 7 Rheoli Hysbysebu yn yr Awyr Agored, Cymru'r Dyfodol 2040: y Cynllun Cenedlaethol (2021).	Mae'r dogfennau hyn yn gofyn bod paratoi CDLliau yn: ▪ Cymryd i ystyriaeth dirluniau hanesyddol dynodedig yng Nghymru ac yn datblygu polisïau lleol penodol, lle bo hynny'n briodol, a fydd yn cyfrannu at eu cadwraeth; ▪ Ystyried y risgiau ffisegol i'r tirlun o ganlyniad i ddatblygiadau tai;	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r CDLl hwn ddarparu polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau sy'n ymwneud â gwarchod a gwella tirluniau dynodedig, cymeriad y tirlun, nodweddion y tirlun ac amwynder gweledol.	Dylai Fframwaith yr ACI gynnwys amcanion sy'n ymwneud â gwarchod a gwella tirluniau dynodedig, cymeriad y tirlun, nodweddion y tirlun ac amwynder gweledol.

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		▪ Cefnogi fframwaith strategol LlC ar gyfer gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau; ▪ Cynnwys ardaloedd y gellid eu gwarchod fel rhwydweithiau ecolegol oherwydd eu pwysigrwydd posibl ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd, adfer neu greu cynefin, neu oherwydd eu bod yn darparu gwasanaethau ecosystemau allweddol		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		mewn polisi cynllunio datbygu; ▪ Cefnogi cyfleoedd i fwyafu seilwaith gwyrdd strategol fel rhan o gynigion datblygu, gofyn bod atebion seiliedig ar fyd natur yn cael eu defnyddio'n fecanwaith allweddol ar gyfer sicrhau twf cynaliadwy, cysylltedd ecolegol, cydraddoldeb cymdeithasol a llesiant y cyhoedd; a		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		▪ Dylid arddangos camau cronnol tuag at wella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau fel rhan o gynigion datblygu trwy ddulliau arloesol, seiliedig ar fyd natur o gynllunio safleoedd.		
Effeithiau Rhyng-gysylltiedig	PCC Argraffiad 11 (2021), Cymru'r Dyfodol 2040: y Cynllun Cenedlaethol	Mae'r dogfennau hyn yn gofyn bod paratoi CDLliau yn: ▪ Hybu patrymau datblygu cynaliadwy, gan nodi tir ac adeiladau a	Dylai unrhyw CDLlA sy'n deillio o'r CDLl hwn ddarparu polisïau, cynigion, cyngor a chanllawiau i gefnogi cyflawni datblygu cynaliadwy.	Dylai Fframwaith yr ACI ddarparu cyfres o amcanion cysylltiedig i gefnogi cyflawni datblygu cynaliadwy.

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o’r Diben a’r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
	(2021), TAN 3: Symleiddio Parthau Cynllunio (LlC, 1996),	ddatblygwyd yn flaenorol, a nodi lleoliadau ar gyfer datblygiad dwysedd uchel mewn canolbwyntiau a chyfnewidfeydd, ac yn agos at goridorau llwybrau lle mae hygyrchedd da i gerddwyr, beicwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus; ▪ Cynnal a gwella bywiogrwydd, atyniad a dichonolrwydd canol trefi,		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		ardaloedd, clystyrau lleol a phentrefi (Pennod 10); ▪ Dylid lleoli datblygu ar gyfer defnyddiau twristiaeth, chwaraeon a hamdden, lle bo hynny'n briodol, ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol; ▪ Annog datblygu dwysedd uwch a defnydd cymysg yn agos at nodau trafnidiaeth gyhoeddus, neu ger coridorau lle mae gwasanaeth		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o’r Diben a’r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		trafnidiaeth gyhoeddus da; ▪ Meithrin dulliau datblygu sy’n cydnabod cyd-ddibyniaeth tref a chefn gwlad, a thrwy hynny wella’r cysylltiadau rhwng ardaloedd trefol a’r ardaloedd gwledig o’u hamgylch; ▪ Lleoli datblygiad fel bod modd i’r seilwaith presennol ei wasanaethu’n dda (gan gynnwys o ran cyflenwad		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		ynni, rheoli gwastraff a dŵr); ▪ Sicrhau bod datblygu'n hybu cyfleoedd i ddefnyddiau masnachol a phreswyl sicrhau manteision amgylcheddol trwy gydleoli; ▪ Lleoli datblygiad mewn aneddiadau sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, trwy osgoi ardaloedd lle nad oes modd rheoli canlyniadau ac effeithiau		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		amgylcheddol yn gynaliadwy. Lle mae datblygu'n digwydd mewn ardaloedd lle mae risgiau hysbys, sicrhau bod y datblygiad wedi'i ddylunio i fod yn gadarn ar hyd ei oes; ▪ Cyfrannu at ymdrechion ehangach y system gynllunio i ymateb i newidiadau ymddygiad o ganlyniad i bandemig Covid-19 a chyfrannu at adferiad cynaliadwy, gan		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		greu lleoedd o amgylch gweledigaeth mannau iach a chydnerth; a ■ Chynnwys polisïau strategol ynghylch lleoliad datblygiadau a allai lygru, a ddylai gyflwyno meini prawf i benderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiadau o'r fath, ond ni ddylid eithrio darparu ar gyfer prosiectau o'r fath na gwahardd pob cais i'w sefydlu.		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		O ran gwarchod Lleiniau Glas a Lletemau Glas; dylai CDLliau wneud y canlynol: ▪ Darparu cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad agored; ▪ Darparu cyfleoedd ar gyfer chwaraeon awyr agored a hamdden awyr agored; ▪ Cynnal diddordeb yn y tirlun/mewn bywyd gwyllt; ▪ Cadw tir ar gyfer amaethyddiaeth,		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		coedwigaeth a dibenion cysylltiedig' ▪ Gwella tir adfeiliedig; a ▪ Darparu sinciau carbon a helpu i liniaru effeithiau ynysoedd gwres trefol. Mae PCC (2021) hefyd yn hyrwyddo diogelu tir amaethyddol ac ailddefnyddio tir llwyd ochr yn ochr â chanllawiau cynaliadwyedd pellach. Dylai CDLliau nodi cyfleoedd i sicrhau bod safonau adeiladu		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o’r Diben a’r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		cynaliadwy uwch yn cael eu mabwysiadu, bod datblygiadau arfaethedig wedi’u seilio ar dystiolaeth ac yn ddichonadwy, ac annog ceisiadau sy’n adlewyrchu egwyddorion allweddol datblygiadau sy’n ymateb i’r hinsawdd. Rhaid sicrhau’r canlynol wrth baratoi CDLliau: ▪ Defnyddio’r taflwybr tai yn sail ar gyfer monitro cyflawni’r gofynion tai, a bydd hynny’n rhan o’r		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		sylfaen ar gyfer monitro cyflawni gofynion tai'r CDLl fel rhan o AMBau y CDLl ac adolygiad dilynol y cynllun. Rhaid i awdurdodau cynllunio fonitro'r tai a gyflawnir ar gyfer AMBau yn unol â'r canllawiau a nodwyd yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Gall tangyflawni yn erbyn y taflwybr ei hun fod yn rheswm dros adolygu cynllun datblygu;		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		▪ Argaeledd safleoedd a ddatblygwyd yn flaenorol ac adeiladau gwag neu rai nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol a'u haddasrwydd ar gyfer defnydd tai; ▪ Lleoliad safleoedd datblygu posibl a'u hygyrchedd o ran swyddi, siopau a gwasanaethau trwy foddau heblaw'r car, a'r cyfleoedd i wella hygyrchedd o'r fath;		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		▪ Capasiti seilwaith posibl ac sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, dŵr a charthffosiaeth, cyfleustodau eraill a seilwaith cymdeithasol (megis ysgolion ac ysbytai), i ddarparu ar gyfer datblygu pellach, a chost ychwanegu rhagor o seilwaith; ▪ Cyfle i adeiladu cymunedau cynaliadwy fydd yn cynnal seilwaith		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		ffisegol a chymdeithasol newydd, gan gynnwys ystyried yr effaith ar yr iaith Gymraeg, a darparu galw digonol i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau lleol priodol; ▪ Cydnawsedd tai â defnyddiau tir sefydledig cymdogol y gallai datblygiad preswyl rhy agos gael effaith niweidiol arnynt;		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		▪ Dylai cynigion ar gyfer aneddiadau newydd gael eu hyrwyddo trwy'r CDLl a'u cyfiawnhau'n llawn ynddo; ▪ Rhaid i CDLliau gynnwys targed awdurdod cyfan ar gyfer tai fforddiadwy yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), a nodi'r cyfraniadau disgwyliedig y bydd dulliau polisi a nodwyd yn y CDLl yn eu		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		gwneud i gyrraedd y targed hwn; ■ Dylai CDLliau hefyd gynnwys trothwyon safle neu gyfuniad o drothwyon a thargedau safle-benodol, gan gynnwys y gyfran gywir o dai fforddiadwy; ■ Rhaid i CDLliau gael eu cefnogi gan asesiad o'r anghenion llety ar safleoedd sipsiwn/teithwyr;		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		▪ Mesur y gofyn am dai (yn dai marchnad a thai fforddiadwy); ▪ Pennu targed tai fforddiadwy; ▪ Cyflwyno strategaeth aneddiadau; ▪ Mabwysiadu'r fethodoleg chwilio ddilyniannol newydd ar gyfer nodi safleoedd tai; ▪ Cynnwys meini prawf polisi clir y bydd ceisiadau ar gyfer		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		datblygu safleoedd heb eu dyrannu yn cael eu hystyried yn eu herbyn; ▪ Nodi o dan ba amgylchiadau y bernid bod safleoedd a ddatblygwyd yn flaenorol yn perfformio mor wael fel na fyddai defnydd ohonynt yn cael ei ffafrio dros ben safle tir glas (penodol); ▪ Gosod targedau ar gyfer darparu tir at ddefnyddiau cyflogaeth		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		(Dosbarthiadau B1-B8), gan ddangos y newid net yn yr arwynebedd llawr/tir ar gyfer swyddfeydd a diwydiant/warysau ar wahân, ac amddiffyn y safleoedd hyn rhag datblygu amhriodol; ■ Cynnwys polisïau rheoli datblygu clir i dywys penderfyniadau ar geisiadau, gan gynnwys canllawiau ar ddylunio, mynediad, dwysedd,		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		parcio oddi ar y stryd a darparu mannau agored ar gyfer ardaloedd penodol fel sy'n briodol; ▪ Pennu'r mecanweithiau sydd i'w defnyddio i fonitro'r rhai sy'n manteisio ar dir ar gyfer tai; ▪ Cynnwys polisïau ar gyfer tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle nodwyd bod angen, gan gynnwys unrhyw ardaloedd lle bydd		

Pwnc AAS	Cynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol	Trosolwg o'r Diben a'r Gofynion Allweddol	Goblygiadau ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT	Goblygiadau ar gyfer yr ACI
		safleoedd sy'n eithriadau yn cael eu hystyried; a ▪ Chynnwys polisïau sy'n dangos ble bydd disgwyl i ddatblygwyr wneud cyfraniadau at seilwaith, cyfleusterau cymunedol a thai fforddiadwy.		

Atodiad C Meini Prawf Sgorio ar gyferAsesu Safleoedd Ymgeisiol

Tabl C. 1: Allwedd Sgorio Cyffredinol wrth Asesu Safleoedd yr AC

Diffiniad o'r Effaith	Symbol
Cadarnhaol Mawr (Budd Sylweddol)	++
Cadarnhaol Bach	+
Niwtral	0
Negyddol Bach	-
Negyddol Mawr (Niwed sylweddol)	--

Tabl C. 2: Allwedd Sgorio wrth Asesu Risg Llifogydd – Cydymffurfio â TAN 15

Diffiniad o'r Effaith	Symbol
O fewn Parth 1/ Yn cydymffurfio â TAN15	++
O fewn Parth a Amddiffynnir (Datblygiad Bregus iawn/llai Bregus)	?
O fewn Parth 2 (Datblygiad Bregus iawn/llai Bregus)	??
O fewn Parth 3 (Datblygiad llai Bregus yn unig)	-
O fewn Parth 3 (Datblygiad Bregus iawn yn unig)	--

Datblygiad Bregus iawn	Symbol
O fewn Parth 1	++
O fewn Parth a Amddiffynnir	?
O fewn Parth 2	??
O fewn Parth 3	--

Datblygiad llai Bregus	Symbol
O fewn Parth 1	++
O fewn Parth a Amddiffynnir	?
O fewn Parth 2	??
O fewn Parth 3	-

Cydnaws â Dŵr	Symbol
O fewn Parth 1	++
O fewn Parth a Amddiffynnir	++
O fewn Parth 2	++
O fewn Parth 3	++

Tabl 2: Meini Prawf Sgorio Llawn ar gyfer Asesu Safleoedd yr AC[1]

Amcan yr AC: Amherthanasol

Maen Prawf: Tir Comin

Goblygiadau ynaliadwyedd:

Mae Deddf Tir Comin 2006 yn cyfyngu ar y defnydd o Dir Comin ac yn gofyn bod ceisiadau am ryddhau mwy na 200m o Dir Comin yn cynnwys cynigion ar gyfer tir yn ei le (h.y. ni ellir rhyddhau tir i'w ddatblygu heb fodloni'r gofyniad hwn). Gallai colli Tir Comin arwain at effeithiau amgylcheddol ac o ran amwynder lleol, a gallai'r cynigion a ddiffiniwyd ar gyfer Tir Comin amnewid gydbwyso hynny'n ddigonol neu beidio. Rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny, addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Ni fydd unrhyw achosion o safleoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ACLl sy'n cynnwys tir comin yn cael eu heithrio ar y sail hon yn unig. Byddai unrhyw effeithiau ar gynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar faint o Dir Comin a gollir a graddfa'r datblygiad arfaethedig.

Tabl C. 3: Amcan yr AC: Amherthanasol

Disgrifiad	Symbol
Safle ar dir comin	--
Safle heb fod ar dir comin	**0**

1 Amlygir meini prawf 'na ellir eu goresgyn' mewn print bras.

Amcan 1 yr AC: Iechyd a Llesiant

Maen Prawf 1(a): Agosrwydd at Lwybrau Teithio Llesol Presennol

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Er nad yw peidio â bod yn agos at lwybrau teithio llesol yn gyfyngiad sylfaenol, rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol, ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 4: Amcan yr AC: Amherthanasol

Disgrifiad	Symbol
O fewn 400m i lwybr presennol	++-
O fewn 800m i lwybr presennol	+
800-1200m o lwybr presennol	-
Mwy na 1200m o lwybr presennol	--

Maen Prawf 1(b): Agosrwydd at Gyfleusterau Iechyd

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Er nad yw diffyg agosrwydd at gyfleusterau gofal iechyd yn gyfyngiad sylfaenol, rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol, ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 5: Agosrwydd at Gyfleusterau Iechyd

Disgrifiad	Symbol
O fewn 400m i gyfleuster gofal iechyd	++-
O fewn 800m i gyfleuster gofal iechyd	+
800-1200m o gyfleuster gofal iechyd	-
Mwy na 1200m o gyfleuster gofal iechyd	--

Maen Prawf 1(c): Agosrwydd Cyfleusterau Iechyd Newydd a/neu Lwybrau Teithio Llesol

Goblygiadau Cynaliadwyedd:

Yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad, dylid diwallu anghenion iechyd trwy ddarpariaeth ar y safle a/neu gyfraniadau fel sy'n briodol gan gynnwys darparu cyfleoedd teithio llesol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at ganlyniadau iechyd cadarnhaol. Byddai absenoldeb hyn yn golygu na fyddai anghenion corff a meddwl trigolion/defnyddwyr o reidrwydd yn cael eu diwallu'n llawn.

Tabl C. 6: Agosrwydd Cyfleusterau Iechyd Newydd a/neu Lwybrau Teithio Llesol

Disgrifiad	Symbol
Cynnig i ddarparu cyfleuster gofal iechyd ar y safle neu ddatblygu adran o lwybr teithio llesol a nodwyd o fewn y safle.	++-
Cynnig i gyfrannu at gyfleuster iechyd oddi ar y safle neu welliannau teithio llesol.	+
Dim cyfleusterau iechyd newydd na llwybrau/cyfraniad teithio llesol yn cael eu cynnig ar hyn o bryd.	0-

Tabl 2(b): AC

Amcan 2: Cydraddoldeb a Chynhwysiad Cymdeithasol

Maen Prawf 2(a): Agosrwydd at Gyfleusterau Cymunedol/Wasanaethau Cyhoeddus

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Er nad yw diffyg agosrwydd at gyfleusterau cymunedol yn gyfyngiad sylfaenol, rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 7: Agosrwydd at Gyfleusterau Cymunedol/Wasanaethau Cyhoeddus

Disgrifiad	Symbol
O fewn 400m i gyfleuster cymunedol (neuadd gymuned, llyfrgell, cyfleuster hamdden y cyngor neu ganolfan wasanaeth y cyngor)	++-
O fewn 800m i gyfleuster cymunedol	+
800 - 1200m o gyfleuster cymunedol	-
Mwy na 1200m o gyfleuster cymunedol	--

Maen Prawf 2(c): Darparu Cyfleusterau/Gwasanaethau Cymunedol Newydd

Goblygiadau Cynaliadwyedd:

Yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad, dylid diwallu anghenion cymdeithasol trwy ddarpariaeth ar y safle a/neu gyfraniadau fel sy'n briodol. Byddai absenoldeb hyn yn golygu na fyddai anghenion cymdeithasol a llesiant trigolion/defnyddwyr o reidrwydd yn cael eu diwallu'n llawn, gan arwain o bosibl at ddiffyg cydlyniant cymunedol ac ynysu cymdeithasol (yn arbennig yn achos grwpiau bregus).

Tabl C. 8: Darparu Cyfleusterau/Gwasanaethau Cymunedol Newydd

Disgrifiad	Symbol
Cynnig i ddarparu cyfleuster cymunedol ar y safle	++-
Cynnig i gyfrannu at welliannau i gyfleusterau cymunedol oddi ar y safle	+
Dim cynnig i greu cyfleusterau cymunedol newydd ar yr adeg hon	0-

Tabl 2(c): Amcan 3 yr AC: Trafnidiaeth a Chyfathrebu

Maen Prawf 3(a): Agosrwydd at y Rhwydwaith Trafnidiaeth Gyhoeddus (arosfannau bysiau a gorsafoedd trenau)

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Byddai diffyg agosrwydd at drafnidiaeth gyhoeddus yn golygu bod preswylwyr/defnyddwyr (e.e. cyflogeion) yn gaeth i'w ceir, gan arwain at effeithiau o ran traffig a Nwyon Tŷ Gwydr (GHG), a gwneud y rhai nad ydynt yn berchen ar gar yn fwy ynysig. Mae hon yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 9: Agosrwydd at y Rhwydwaith Trafnidiaeth Gyhoeddus (arosfannau bysiau a gorsafoedd trenau)

Disgrifiad	Symbol
O fewn 400m i arhosfan bysiau neu orsaf drenau	++-
O fewn 800m i arhosfan bysiau neu orsaf drenau	+
800 - 1200m o arhosfan bysiau neu orsaf drenau	-
Mwy na 1200m o arhosfan bysiau neu orsaf drenau	--

Maen Prawf 3(b): Agosrwydd at y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (traffyrdd a chefnffyrdd)

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Er nad yw diffyg agosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd strategol yn gyfyngiad sylfaenol, rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth benderfynu ar hygyrchedd safleoedd (pob modd). Rhaid cymryd hyn i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 10: Agosrwydd at y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (traffyrdd a chefnffyrdd)

Disgrifiad	Symbol
O fewn 500m i'r rhwydwaith ffyrdd strategol	++-
O fewn 500m - 1km i'r rhwydwaith ffyrdd strategol	+
1km - 2km o'r rhwydwaith ffyrdd strategol	-
Mwy na 2km o'r rhwydwaith ffyrdd strategol	--

Maen Prawf 3(c): Agosrwydd at y Rhwydwaith Teithio Llesol Presennol

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Er nad yw diffyg agosrwydd at lwybrau teithio llesol yn gyfyngiad sylfaenol, rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa’r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i’r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 11: Agosrwydd at y Rhwydwaith Teithio Llesol Presennol

Disgrifiad	Symbol
O fewn 400m i lwybr sydd eisoes yn bodoli	++-
O fewn 800m i lwybr sydd eisoes yn bodoli	+
800 - 1200m o lwybr sydd eisoes yn bodoli	-
Mwy na 1200m o lwybr sydd eisoes yn bodoli	--

Maen Prawf 3(d): Agosrwydd at Fannau Trafferthus o ran Tagfeydd

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai agosrwydd at fannau trafferthus o ran tagfeydd olygu oedi pellach i draffig, gan greu ansawdd aer gwael, diffyg amwynder, ac effeithiau o ran yr hinsawdd. Rhaid cymryd hyn i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 12: Agosrwydd at Fannau Trafferthus o ran Tagfeydd

Disgrifiad	Symbol
Mwy na 2km o'r man trafferthus	++-
1km - 2km o'r man trafferthus	+
O fewn 500m - 1km i'r man trafferthus	-
O fewn 500m i'r man trafferthus	--

Maen Prawf 3(e): Argaeledd a Chapasiti'r Seilwaith Trafnidiaeth a Chyfleustodau (Dŵr a Charthffosiaeth)

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai bodolaeth neu absenoldeb seilwaith trafnidiaeth digonol ar gyfer datblygiad effeithio ar gapasiti a gweithrediad y rhwydwaith trafnidiaeth o amgylch (pob modd), gan arwain at dagfeydd/oedi, effeithiau niweidiol o ran ansawdd aer a/neu amharu ar shifft modd cynaliadwy. Rhaid cymryd hyn i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 13: Argaeledd a Chapasiti'r Seilwaith Trafnidiaeth a Chyfleustodau (Dŵr a Charthffosiaeth)

Disgrifiad	Symbol
Cysylltiad neu Seilwaith Presennol wedi'i sefydlu	++-
Seilwaith newydd/wedi'i uwchraddio yn ofynnol ar gyfer y datblygiad	-
Dim gwybodaeth ar gael	0

Maen Prawf 3(f): Rheoli Draenio a Chapasiti'r Safle

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai fod angen seilwaith strategol i ymdrin ag effeithiau seilwaith nad ydynt yn lleol (e.e. rhai cronnol). O ganlyniad, gallai darparu/ariannu seilwaith strategol, neu ei absenoldeb, ddylanwadu ar gyflawni a chyflwyno'n raddol safleoedd datblygu i ddiwallu anghenion a nodwyd a'r effeithiau o ganlyniad ar yr amgylchedd/amwynderau. Rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 14: Rheoli Draenio a Chapasiti'r Safle

Disgrifiad	Symbol
Dŵr Cymru yn cadarnhau nad oes problem o ran capasiti'r safle	++-
Hyrwyddwr y safle yn amlinellu mesurau i ymdrin â'r draenio ar y safle	+
Dŵr Cymru yn cadarnhau capasiti cyfyngedig	-
Dŵr Cymru yn cadarnhau nad oes Capasiti	--
Dim gwybodaeth ar gael	0

Maen Prawf 3(g): Darparu Seilwaith Cyfathrebu neu Drafnidiaeth Newydd/Wedi'i Uwchraddio

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai fod angen seilwaith strategol i ymdrin ag effeithiau seilwaith nad ydynt yn lleol (e.e. rhai cronnol). O ganlyniad, gallai darparu/ariannu seilwaith strategol, neu ei absenoldeb, ddylanwadu ar gyflawni a chyflwyno'n raddol safleoedd datblygu i ddiwallu anghenion a nodwyd a'r effeithiau o ganlyniad ar yr amgylchedd/amwynderau. Rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 15: Darparu Seilwaith Cyfathrebu neu Drafnidiaeth Newydd/Wedi'i Uwchraddio

Disgrifiad	Symbol
Cynnig i ddarparu seilwaith cyfleustodau neu drafnidiaeth nad yw'n lleol o fewn y safle	++-
Cynnig i gyfrannu at welliannau i seilwaith cyfleustodau neu drafnidiaeth oddi ar y safle	+
Dim cynnig i ddarparu seilwaith cyfleustodau na thrafnidiaeth nad yw'n lleol ar hyn o bryd	0

Tabl 2(d): Amcan 4 yr AC: Capasiti Cyflogaeth

<u>Maen Prawf 4(a): Capasiti Cyflogaeth</u>

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai colli tir cyflogaeth[2] (lle mae fersiwn sydd i ddod o Adolygiad Tir Cyflogaeth CNPT yn argymell ei gadw) danseilio strategaeth tir cyflogaeth y CDLlA.

Tabl C. 16: Capasiti Cyflogaeth

Disgrifiad	Symbol
5ha neu fwy o dir at ddefnydd cyflogaeth	++-
Hyd at 5ha o dir at ddefnydd cyflogaeth	+
Dim defnydd cyflogaeth wedi'i gynnig/dim tir cyflogaeth	0
Dileu tir cyflogaeth sy'n bodoli i greu defnyddiau eraill	-
Dileu tir cyflogaeth sy'n bodoli i greu defnyddiau eraill lle mae Adolygiad Tir Cyflogaeth CNPT yn argymell ei gadw.	--

2 Mae'r diffiniad o dir cyflogaeth i gael ei bennu yn Adolygiad Tir Cyflogaeth CNPT, sydd i ddod.

Maen Prawf 4(b): Addasrwydd at Ddefnydd Cymysg

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae datblygiad defnydd cymysg yn gallu cyflwyno dwysedd uchel a deilliannau mwy cynaliadwy. Nid yw absenoldeb datblygiad defnydd cymysg yn gyfyngiad sylfaenol, ond rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa’r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i’r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 17: Addasrwydd at Ddefnydd Cymysg

Disgrifiad	Symbol
Cynigiwyd ar gyfer datblygiad defnydd cymysg	++-
Mae potensial i ddarparu ar gyfer datblygiad defnydd cymysg ar y safle	+
Nid yw’r safle’n debygol o ddarparu ar gyfer datblygiad defnydd cymysg	-

Maen Prawf 4(c): Agosrwydd at Leoliadau Cyflogaeth Allweddol

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Er nad yw diffyg agosrwydd at gyfleoedd cyflogaeth (prif ardaloedd cyflogaeth presennol) yn gyfyngiad sylfaenol, rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 18: Agosrwydd at Leoliadau Cyflogaeth Allweddol

Disgrifiad	Symbol
O fewn 500m i leoliad cyflogaeth allweddol	++-
O fewn 500m - 1km i leoliad cyflogaeth allweddol	+
1km - 2km o leoliad cyflogaeth allweddol	-
Mwy na 2km o leoliad cyflogaeth allweddol	--

Maen Prawf 4(d): Agosrwydd at Seilwaith Addysg Gynradd

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Er nad yw diffyg agosrwydd at seilwaith addysg gynradd yn gyfyngiad sylfaenol, rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 19: Agosrwydd at Seilwaith Addysg Gynradd

Disgrifiad	Symbol
O fewn 400m i ysgol gynradd	++-
O fewn 800m i ysgol gynradd	+
800 - 1200m o ysgol gynradd	-
Mwy na 1200m o ysgol gynradd	--

Maen Prawf 4(e): Agosrwydd at Seilwaith Addysg Uwchradd

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Er nad yw diffyg agosrwydd at seilwaith addysg uwchradd yn gyfyngiad sylfaenol, rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 20: Agosrwydd at Seilwaith Addysg Uwchradd

Disgrifiad	Symbol
O fewn 400m i ysgol uwchradd	++-
O fewn 800m i ysgol uwchradd	+
800 - 1200m o ysgol uwchradd	-
Mwy na 1200m o ysgol uwchradd	--

Maen Prawf 4(f): Capasiti Seilwaith Addysg

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai capasiti annigonol i ddarparu ar gyfer datblygu o ran seilwaith addysg olygu bod CCNPT yn methu â chyflawni dyletswyddau addysg statudol, ac ni fyddai'n gydnaws â datblygu cynaliadwy. Byddai angen mesurau lliniaru digonol.

Tabl C. 21: Capasiti Seilwaith Addysg

Disgrifiad	Symbol
Mae Adran Addysg CCNPT yn cadarnhau nad oes problem capasiti yn effeithio ar ddarparu safleoedd	++-
Mae'r cynnig yn cynnwys mesurau/cyfleusterau i ymdrin â chyfyngiadau ar gapasiti addysg	+
Nid oes gwybodaeth ar gael ynghylch cyfyngiadau capasiti addysg sy'n effeithio ar ddarparu safleoedd	-
Mwy na 1200m o ysgol uwchradd	--

Maen Prawf 4(g): Darparu Seilwaith Addysg Newydd

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad, dylid diwallu anghenion addysg ychwanegol net trwy ddarpariaeth ar y safle a/neu gyfraniadau fel sy'n briodol. Byddai absenoldeb hyn yn arwydd na fyddai anghenion addysg y trigolion o reidrwydd yn cael eu diwallu'n llawn, a gallai olygu bod CCNPT yn methu â chyflawni dyletswyddau addysg statudol. Ni fyddai hyn yn gydnaws â datblygu cynaliadwy, a byddai angen mesurau lliniaru digonol.

Tabl C. 22: Darparu Seilwaith Addysg Newydd

Disgrifiad	Symbol
Cynnig i ddarparu seilwaith addysg o fewn y safle	++-
Cynnig i gyfrannu at welliannau seilwaith addysg oddi ar y safle	+
Dim seilwaith addysg newydd yn cael ei gynnig ar hyn o bryd	0

Maen Prawf 4(h): Addasrwydd at Ddefnydd Diwydiannol/Economaidd

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai darparu gormod o dir cyflogaeth wanhau effeithiolrwydd tir cyflogaeth y CDLlA a'r strategaethau gofodol ehangach (h.y. cyfeirio cyflogaeth sy'n cynhyrchu datblygu i'r lleoliadau mwyaf priodol a chynaliadwy, a sicrhau bod sectorau economaidd allweddol yn tyfu). Ar y llaw arall, gallai darpariaeth annigonol yn lleol neu fethiant i ddiwallu angen lleoliadol penodol gyfyngu ar dwf economaidd, cyfyngu ar dwf sectorau a llesteirio cyfleoedd cyflogaeth. Rhaid cymryd hyn i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 23: Addasrwydd at Ddefnydd Diwydiannol/Economaidd

Disgrifiad	Symbol
Mae Adolygiad Tir Cyflogaeth CNPT yn nodi bod y safle'n cael ei ffafrio at ddefnydd diwydiannol/economaidd	++-
Mae Adolygiad Tir Cyflogaeth CNPT yn nodi bod y safle'n addas at ddefnydd diwydiannol/economaidd, ond gyda chyfyngiadau ar farchnadwyedd	+
Mae Adolygiad Tir Cyflogaeth CNPT yn nodi bod rhai cyfyngiadau ffisegol ar y safle sy'n effeithio ar ddefnydd diwydiannol/economaidd NEU nad yw'n cael ei ffafrio	-

oherwydd bod cyflenwad digonol (mwy addas) o dir cyflogaeth eisoes wedi'i nodi	
Mae Adolygiad Tir Cyflogaeth CNPT yn nodi nad yw'r safle'n addas at ddefnydd diwydiannol/economaidd	--

Maen Prawf 4(i): Defnyddiau Cymdogol ac Effeithiau Crynhoi Posibl

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai integreiddio neu wrthdaro â defnyddiau tir cymdogol (ac yn yr ardal ehangach o gwmpas) arwain at effeithiau cymdeithasol, economaidd neu o ran amwynder. Gallai cydleoli defnyddiau cyflogaeth/diwydiannol hefyd gynhyrchu effeithiau crynhoi a gweithredu fel catalydd ar gyfer twf economaidd. Rhaid cymryd hyn i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 24: Defnyddiau Cymdogol ac Effeithiau Crynhoi Posibl

Disgrifiad	Symbol
Byddai'r defnydd arfaethedig yn integreiddio â defnyddiau cymdogol	++-
Dim integreiddio na gwrthdaro yn debygol o ran defnydd tir	0
Defnydd arfaethedig yn debygol o wrthdaro â defnyddiau cymdogol	--

Maen Prawf 4(i): Agosrwydd at y Rhwydwaith Ffyrdd a Rheilffyrdd Strategol

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai agosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd strategol effeithio ar effeithlonrwydd ac effeithiau amgylchedd symudiadau nwyddau (darparu deunyddiau a dosbarthu cynnyrch) a gweithlu iach. Er nad yw diffyg agosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd strategol yn gyfyngiad sylfaenol, rhaid ei ystyried wrth bennu hygyrchedd safleoedd (pob modd). Rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 25: Agosrwydd at y Rhwydwaith Ffyrdd a Rheilffyrdd Strategol

Disgrifiad	Symbol
O fewn 500m i'r rhwydwaith ffyrdd neu reilffyrdd strategol (gan gynnwys gwasanaethau rheilffordd i deithwyr)	++-
O fewn 500m - 1km i'r rhwydwaith ffyrdd neu reilffyrdd strategol (gan gynnwys gwasanaethau rheilffordd i deithwyr)	+
1km - 2km o'r rhwydwaith ffyrdd neu reilffyrdd strategol (gan gynnwys gwasanaethau rheilffordd i deithwyr)	-

Mwy na 2km o'r rhwydwaith ffyrdd neu reilffyrdd strategol (gan gynnwys gwasanaethau rheilffordd i deithwyr)	--

Tabl 2(d): Amcan 5 yr AC: Tai

Maen Prawf 5(a): Capasiti Tai y Safle

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Byddai darparu tai ychwanegol net yn cyfrannu at ddiwallu anghenion tai lleol ac ar draws yr awdurdod, yn ogystal â chynnal twf y boblogaeth a chyflawni strategaeth ofodol y CDLlA. Ar y llaw arall, gallai colli tir tai presennol danseilio strategaeth ofodol y CDLlA a gwaethygu'r pwysau o ran tai (argaeledd, fforddiadwyedd, etc.). Rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 26: Capasiti Tai y Safle

Disgrifiad	Symbol
5ha neu fwy o dir ar gyfer tai	++-
Hyd at 5ha o dir ar gyfer tai	+
Dim defnydd preswyl yn cael ei gynnig / Dim tir preswyl	0
Dileu hyd at 10ha o dir tai presennol at ddefnyddiau eraill	-

Maen Prawf 5(b): Cyflawnadwyedd Tai Fforddiadwy

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Byddai darparu tai fforddiadwy (i gyfateb i ddisgwyliadau polisi neu ar lefel uwch) yn cyfrannu at ddiwallu anghenion tai lleol ac ar draws yr awdurdod, yn darparu datblygiadau deiliadaeth gymysg gyda chymunedau amrywiol, yn galluogi twf ac yn cefnogi cyflawni strategaeth ofodol y CDLlA. Ar y llaw arall, byddai darpariaeth annigonol o dai fforddiadwy yn gwaethygu’r pwysau o ran fforddiadwyedd tai, yn cyfyngu ar dwf aelwydydd ac yn tanseilio cyflawni strategaeth ofodol y CDLlA. Rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa’r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i’r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 27: Cyflawnadwyedd Tai Fforddiadwy

Disgrifiad	Symbol
Cynnig uniongyrchol o ran tai fforddiadwy (100% TFf)	++-
Cyflwyno tai fforddiadwy yn anuniongyrchol trwy gynnig tai marchnad	+
Hyrwyddwr y safle yn dadlau ynghylch annichonoldeb tai fforddiadwy o fewn tai marchnad	0

Maen Prawf 5(c): Addasrwydd at Ddefnydd Cymysg

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae datblygiadau defnydd cymysg yn gallu darparu dwysedd uchel a deilliannau mwy cynaliadwy. Nid yw absenoldeb datblygiadau defnydd cymysg yn gyfyngiad sylfaenol, ond rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 28: Addasrwydd at Ddefnydd Cymysg

Disgrifiad	Symbol
Cynigiwyd ar gyfer datblygiad defnydd cymysg	++-
Mae potensial i'r safle ddarparu datblygiad defnydd cymysg	+
Nid yw'r safle'n debygol o ddarparu datblygiad defnydd cymysg	-

Maen Prawf 5(d): Defnyddiau Cymdogol

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai integreiddio neu wrthdaro â defnyddiau tir cymdogol (ac yn yr ardal ehangach o gwmpas) arwain at effeithiau cymdeithasol, economaidd neu o ran amwynder. Rhaid cymryd hyn i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 29: Defnyddiau Cymdogol

Disgrifiad	Symbol
Byddai'r defnydd arfaethedig yn integreiddio â defnyddiau cymdogol	++-
Mae potensial i'r safle ddarparu ar gyfer datblygiad defnydd cymysg	0
Mae'r defnydd arfaethedig yn debygol o wrthdaro â defnyddiau cymdogol	-

Maen Prawf 5(e): Agosrwydd at Safleoedd Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Byddai datblygu'n agos at osodiadau COMAH (h.y. o fewn parthau hysbysu Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn cyflwyno risgiau ychwanegol o ran HSE. Mae'n ofynnol ystyried pa mor dderbyniol yw risgiau o'r fath wrth bennu dichonoldeb datblygiad, gan roi sylw i nodweddion y safle a'r math o ddatblygiad/ddefnydd tir a gynigir. Rhaid cymryd hyn i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 30: Agosrwydd at Safleoedd Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)

Disgrifiad	Symbol
Y tu allan i Barth Hysbysu COMAH / HSE	0
O fewn 500m i Barth Hysbysu COMAH / HSE	-
Oddi mewn i Barth Hysbysu COMAH / HSE	--

Maen Prawf 5(f): Agosrwydd at Safleoedd a Ddynodwyd yn y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol3 (bregus yn wyneb pwysau adloniadol)

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai twf poblogaeth yn sgîl datblygu tai arwain at fwy o bwysau adloniadol (a mathau eraill o effeithiau), gan greu Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar fuddiannau cymwys safleoedd Dynodedig yn y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (RhSC). Gallai hynny gael effeithiau niweidiol ar gyflawni Amcanion Cadwraeth a/neu integriti Safleoedd RhSC. I gydymffurfio â'r Rheoliadau ARhC, rhaid asesu unrhyw Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (yn absenoldeb mesurau lliniaru) a rhaid i ddatblygu'r safle beidio â chael effaith niweidiol ar ei integriti nac ar amcanion cadwraeth (gan gymryd mesurau lliniaru i ystyriaeth) a ddynodwyd yn y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol. Mae hon yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 31: Agosrwydd at Safleoedd a Ddynodwyd yn y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol3 (bregus yn wyneb pwysau adloniadol)

Disgrifiad	Symbol
Mwy na 2km o Safle RhSC Dynodedig	++-
O fewn 1km - 2km i Safle RhSC Dynodedig	+
O fewn 500m - 1km i Safle RhSC Dynodedig	-

O fewn 500m i Safle RhSC Dynodedig	--

[3] Gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAoedd) ac Ardaloedd Amddiffyn Arbennig (AAAoedd)

Tabl 2(d): Amcan 6 yr AC: Ansawdd Aer

Maen Prawf 6(a): Agosrwydd at Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA)

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai agosrwydd at ARhAAoedd waethygu ansawdd aer gwael mewn ardaloedd lleol, gyda chanlyniadau niweidiol o ran iechyd, amwynder a'r amgylchedd. Rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 32: Agosrwydd at Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA)

Disgrifiad	Symbol
Mwy na 2km o ARhAA	++-
O fewn 1km - 2km i ARhAA	+
O fewn 1km i ARhAA	-
O fewn ARhAA	--

Maen Prawf 6(b): Agosrwydd at Fan Trafferthus o ran Tagfeydd

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai agosrwydd at fannau trafferthus o ran tagfeydd ychwanegu ymhellach at oedi i draffig, gydag effeithiau niweidiol ar ansawdd aer. Rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 33: Agosrwydd at Fan Trafferthus o ran Tagfeydd

Disgrifiad	Symbol
Mwy na 2km o fan trafferthus	++-
1km - 2km o fan trafferthus	+
O fewn 500m - 1km i fan trafferthus	-
O fewn 500m i fan trafferthus	--

Maen Prawf 6(c): Allyriadau Gweithredu Posibl

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae potensial i bob gweithgaredd defnydd tir gynhyrchu allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) yn y cyfnod gweithredol, p'un a yw hynny'n uniongyrchol o brosesau diwydiannol (safleoedd cyflogaeth) neu'n anuniongyrchol o dreuliant ynni (domestig, annomestig neu gysylltiedig â thrafnidiaeth). Rhaid i CDLIA CNPT sy'n dod i'r amlwg ymateb i argyfwng yr hinsawdd, gan gynnwys cynllunio i gefnogi economi carbon isel a lleiafu allyriadau datblygu (gan geisio cyflawni targedau sero net). O ganlyniad, rhaid cymryd allyriadau GHG gweithredol i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 34: Allyriadau Gweithredu Posibl

Disgrifiad	Symbol
Defnydd gweithredol arfaethedig yn debygol o gynhyrchu allyriadau GHG annomestig	-
Dim gwybodaeth ar gael ynghylch allyriadau gweithredu posibl	0

Tabl 2(d): Amcan 7 yr AC: Newid yn yr Hinsawdd

Maen Prawf 7(a): Cynhyrchu Ynni Carbon Isel/Sero ar y Safle

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae polisi cenedlaethol (PCC11 a Cymru'r Dyfodol 2040) yn dangos yn eglur bod angen capasiti ychwanegol o ran ynni adnewyddadwy a chynhyrchu ynni carbon isel/sero er mwyn cefnogi'r pontio i economi carbon isel a chyflawni targedau hinsawdd sero net. Rhaid i CDLIA CNPT sy'n dod i'r amlwg ymateb i argyfwng yr hinsawdd, gan gynnwys cynllunio i gefnogi economi carbon isel a darparu fframwaith polisi priodol i osod datblygiadau cynhyrchu ynni carbon isel/sero ac ynni adnewyddadwy. O ganlyniad, rhaid cymryd unrhyw opsiynau ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel/sero i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 35: Cynhyrchu Ynni Carbon Isel/Sero ar y Safle

Disgrifiad	Symbol
Ffurflen/ymateb y safle ymgeisiol yn dangos bod Cynhyrchu Ynni Carbon Isel/Sero yn debygol	++-
Dim gwybodaeth wedi'i darparu gan hyrwyddwr y safle	0
O fewn 1km i ARhAA	-

O fewn ARhAA	--

Maen Prawf 7(b): Agosrwydd at y Rhwydwaith Trafnidiaeth Gyhoeddus

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Byddai diffyg agosrwydd at drafnidiaeth gyhoeddus yn golygu bod preswylwyr/defnyddwyr (e.e. cyflogeion) yn gaeth i'w ceir, gan arwain at effeithiau o ran traffig a nwyon tŷ gwydr. Mae hon yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 36: Agosrwydd at y Rhwydwaith Trafnidiaeth Gyhoeddus

Disgrifiad	Symbol
O fewn 400m i arhosfan bysiau neu orsaf drenau	++-
O fewn 800m i arhosfan bysiau neu orsaf drenau	+
800-1200m o arhosfan bysiau neu orsaf drenau	-
Mwy na 1200m o arhosfan bysiau neu orsaf drenau	--

Maen Prawf 7(c): Ymgorffori Mesurau Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae angen lleoli a dylunio datblygiadau i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd neu ymdopi â nhw. Mae angen hefyd am fwy o wydnwch yn yr amgylchedd naturiol, i ymateb i newidiadau hinsoddol a rhai amgylcheddol cysylltiedig. O ganlyniad, byddai darparu mesurau addasu fel rhan o ddyraniadau safle yn ychwanegu at allu amgylcheddau adeiledig a naturiol i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Ar y llaw arall, gallai absenoldeb mesurau o'r fath ar safleoedd datblygu gynyddu'r risgiau i fywyd, eiddo a bywoliaethau, yn ogystal â lleihau gwydnwch ecosystemau. Rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 37: Ymgorffori Mesurau Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd

Disgrifiad	Symbol
Mae'r cynnig yn cynnwys Mesurau Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd	++-
Nid yw'r cynnig yn cynnwys gwybodaeth ynghylch Mesurau Addasu posibl i'r Newid yn yr Hinsawdd	?-

Tabl 2(d): Amcan 8 yr AC: Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd

Maen Prawf 8(a): Agosrwydd at Safleoedd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (ACA/AAA)

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai datblygiadau gynhyrchu amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol a ffactorau sy’n creu pwysau, gan arwain at lwybrau effaith a’r posibilrwydd o Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar fuddiannau cymwys Safleoedd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (RhSC). Gallai hyn gael effeithiau niweidiol ar gyflawni Amcanion Cadwraeth a/neu integriti Safleoedd (RhSC). Er mwyn cydymffurfio â’r Rheoliadau ARhC, rhaid asesu unrhyw Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (yn absenoldeb mesurau lliniaru) a rhaid i ddatblygu’r safle beidio â chael effaith niweidiol ar integriti Safle sy’n rhan o’r RhSC, na’r amcanion cadwraeth (gan gymryd mesurau lliniaru i ystyriaeth). Mae’r potensial i gael effeithiau arwyddocaol tebygol ar Safle a Ddynodwyd yn y RhSC yn ystyriaeth bwysig iawn wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa’r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i’r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 38: Agosrwydd at Safleoedd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (ACA/AAA)

Disgrifiad	Symbol
Mwy na 2km o Safle RhSC Dynodedig	++-
O fewn 1km - 2km i Safle RhSC Dynodedig	
O fewn 500m - 1km i Safle RhSC Dynodedig	-
O fewn 500m i Safle RhSC Dynodedig	--

Maen Prawf 8(b): Agosrwydd at SoDdGA

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai datblygiadau gynhyrchu amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol a ffactorau sy'n creu pwysau, gan arwain at lwybrau effaith a'r posibilrwydd o Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar fuddiannau cymwys Safleoedd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (RhSC). Gallai hyn gael effeithiau niweidiol ar gyflawni Amcanion Cadwraeth a/neu integriti Safleoedd (RhSC). Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau ARhC, rhaid asesu unrhyw Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (yn absenoldeb mesurau lliniaru) a rhaid i ddatblygu'r safle beidio â chael effaith niweidiol ar integriti Safle sy'n rhan o'r RhSC, na'r amcanion cadwraeth (gan gymryd mesurau lliniaru i ystyriaeth). Mae'r potensial i gael effeithiau arwyddocaol tebygol ar Safle a Ddynodwyd yn y RhSC yn ystyriaeth bwysig iawn wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 39: Agosrwydd at SoDdGA

Disgrifiad	Symbol
Mwy na 2km o SoDdGA	++-
O fewn 1km - 2km i SoDdGA	
O fewn 1km i SoDdGA	-
Oddi mewn i SoDdGA	--

Maen Prawf 8(c): Agosrwydd at Goetir Hynafol

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Yn absenoldeb mesurau lliniaru (lleoliad, dylunio, adeiladu a thechnegau gweithredol), gallai datblygu yn agos at Goetir Hynafol (neu lle mae Coetir Hynafol ar y safle) arwain at golli cynefinoedd neu ddirywiad annerbyniol ynddynt. Gallai datblygiadau hefyd gynhyrchu amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol a ffactorau sy'n creu pwysau, gan arwain at lwybrau effaith anuniongyrchol a'r posibilrwydd o effeithiau niweidiol ar Goetir Hynafol. Yn unol â PCC11, rhaid osgoi colli cynefinoedd na ellir darparu eraill yn eu lle, neu ddirywiad ynddynt, oni bai bod y dystiolaeth, o dan amgylchiadau cwbl eithriadol, yn dangos bod manteision cyhoeddus sylweddol a ddiffiniwyd yn glir yn gorbwyso'r effeithiau niweidiol. Rhaid osgoi niwed sylweddol i fioamrywiaeth hefyd, gan gynnwys trwy fabwysiadu hierarchaeth o gamau lliniaru yn ôl y gofyn. Mae'r potensial i gael effaith niweidiol ar Goetir Hynafol yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 40: Agosrwydd at Goetir Hynafol

Disgrifiad	Symbol
Mwy nag 1km o Goetir Hynafol	++-
O fewn 500m - 1km i Goetir Hynafol	
O fewn 500m i Goetir Hynafol	-
Mae’r Safle’n cynnwys Coetir Hynafol	--

Maen Prawf 8(d): Agosrwydd at Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG)

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai datblygiadau gynhyrchu amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol a ffactorau sy’n creu pwysau, gan arwain at lwybrau effaith a’r posibilrwydd o effeithiau niweidiol ar nodweddion ac integriti GNG. Mae PCC11 yn cyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy’n cael effeithiau niweidiol ar y nodweddion a arweiniodd at ddynodi’r safle. Yn unol â hyn, rhaid osgoi effeithiau niweidiol oni bai bod y dystiolaeth, o dan amgylchiadau eithriadol, yn dangos bod manteision datblygu yn gorbwyso’r effeithiau negyddol. Mae’r potensial i gael effeithiau niweidiol ar GNG yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa’r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i’r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 41: Agosrwydd at Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG)

Disgrifiad	Symbol
Mwy na 2km o Warchodfa Natur Genedlaethol	++-
O fewn 1km - 2km i Warchodfa Natur Genedlaethol	
O fewn 1km o Warchodfa Natur Genedlaethol	-
Oddi mewn i Warchodfa Natur Genedlaethol	--

Maen Prawf 8(e): Agosrwydd at RIGS[4]

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae PCC11 yn gofyn bod awdurdodau cynllunio yn amddiffyn y nodweddion a'r rhinweddau a arweiniodd at ddynodi Geoparciau a RIGS, yn ogystal ag annog ymgorffori nodweddion daearegol yn nyluniad y datblygiad, yn arbennig lle darperir tystiolaeth berthnasol gan Asesiadau Seilwaith Gwyrdd. Gallai datblygiadau gynhyrchu amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol uniongyrchol ac anuniongyrchol, a ffactorau sy'n creu pwysau, gan arwain at lwybrau effaith a'r posibilrwydd o effeithiau niweidiol ar nodweddion a rhinweddau RIGS. Mae'r potensial i gael effeithiau niweidiol ar RIGS yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 42: Agosrwydd at RIGS

Disgrifiad	Symbol
Mwy nag 1km o RIGS	++-
O fewn 500m - 1km i RIGS	
O fewn 500m i RIGS	-
Oddi mewn i RIGS	--

4 Safle Geoamrywiaeth sy'n Bwysig yn Rhanbarthol (RIGS)

Maen prawf 8(f): Agosrwydd at LWS/SINC/GNL[5]

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai datblygiadau gynhyrchu amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol a ffactorau sy'n creu pwysau, gan arwain at lwybrau effaith a'r posibilrwydd o effeithiau niweidiol ar nodweddion ac integriti LWS. Mae PCC11 yn cyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n cael effeithiau niweidiol ar y nodweddion a arweiniodd at ddynodi safle. Yn unol â hyn, rhaid osgoi effeithiau niweidiol oni bai bod y dystiolaeth yn dangos bod manteision datblygu yn gorbwyso'r effeithiau negyddol. Mae'r potensial i gael effeithiau niweidiol ar LWS yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 43: Agosrwydd at LWS/SINC/GNL

Disgrifiad	Symbol
Mwy nag 1km o LWS / SINC/ LNR	++-
O fewn 500m - 1km i LWS / SINC/ LNR	
O fewn 500m i LWS / SINC/ LNR	-
Oddi mewn i LWS / SINC/ LNR	--

5 Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol/Safleoedd Pwysig o ran Cadwraeth Natur/Gwarchodfa Natur Leol

Maen Prawf 8(g): Effeithiau Posibl ar Safleoedd Dynodedig[6]

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai datblygiadau gynhyrchu amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol a ffactorau sy’n creu pwysau, gan arwain at lwybrau effaith a’r posibilrwydd o effeithiau niweidiol ar nodweddion ac integriti safle dynodedig. Mae PCC11 yn cyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy’n cael effeithiau niweidiol ar nodweddion ac integriti safle dynodedig. Yn unol â hyn, rhaid osgoi effeithiau niweidiol oni bai bod y dystiolaeth yn dangos bod manteision datblygu yn gorbwyso’r effeithiau negyddol. Mae’r potensial i gael effeithiau niweidiol ar safle dynodedig yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa’r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i’r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 44: Effeithiau Posibl ar Safleoedd Dynodedig

Disgrifiad	Symbol
Effeithiau ecolegol niweidiol bach ar safle dynodedig	-
Effeithiau ecolegol niweidiol sy’n debygol o fod yn arwyddocaol – angen lliniaru	--
Dim gwybodaeth ar gael ynghylch yr effeithiau ecolegol posibl	0

6 Fel y nodwyd yn yr Hierarchaeth Safleoedd Dynodedig yn Ffigur 12, PCC (Argraffiad 11); Ardal Gadwraeth Arbennig, Ardal Amddiffyn Arbennig, Safleoedd Ramsar Gwarchodfa Biosffer UNESCO, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig,

Gwarchodfa Natur Genedlaethol, Safleoedd sy'n Bwysig o ran Cadwraeth Natur, Gwarchodfa Natur Leol a Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol.

Maen Prawf 8(h): Presenoldeb Coed Pwysig, Perthi neu Orchmynion Gwarchod Coed (TPOs)

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae PCC11 yn gofyn bod awdurdodau cynllunio yn gwarchod coed, perthi, clystyrau o goed ac ardaloed coetir lle mae ganddynt werth ecolegol, lle maent yn cyfrannu at gymeriad neu amwynder lleoliad penodol, neu lle maent yn cyflawni swyddogaeth fuddiol a nodwyd o ran seilwaith gwyrdd. Yn absenoldeb mesurau lliniaru (lleoliad, dylunio, adeiladu a thechnegau gweithredol), gallai datblygu'n agos at goed/goetir neu berthi (neu lle maent yn bresennol ar y safle) arwain at effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth, gan gynnwys colli cynefin neu ddirywiad ynddo. Gallai datblygiadau hefyd gynhyrchu amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol a ffactorau sy'n creu pwysau, gan arwain at lwybrau effaith anuniongyrchol a'r posibilrwydd o effeithiau niweidiol ar goetir. Mae'r potensial i gael effeithiau niweidiol ar goed/goetir a pherthi yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 45: Presenoldeb Coed Pwysig, Perthi neu Orchmynion Gwarchod Coed (TPOs)

Disgrifiad	Symbol
Nid yw'r safle'n cynnwys TPO, Coed Pwysig na Pherthi	0
Mae'r safle'n cynnwys TPO, Coed Pwysig neu Berthi	--

Maen Prawf 8(i): Presenoldeb Cynefinoedd a Rhywogaethau Gwerthfawr

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Yn unol â gofynion statudol, mae PCC11 yn mynnu nad yw datblygu'n aflonyddu ar Rywogaethau Gwarchodedig na'u cynefinoedd, nac yn eu niweidio, a'i fod yn sicrhau y cynhelir cwmpas a phoblogaeth y rhywogaeth. Rhaid osgoi niwed arwyddocaol i fioamrywiaeth hefyd, gan gynnwys trwy fabwysiadu'r hierarchaeth liniaru lle bo gofyn. Yn absenoldeb mesurau lliniaru (lleoliad, dylunio, adeiladu a thechnegau gweithredol), gallai datblygu yn agos at gynefinoedd Rhywogaethau Gwarchodedig arwain at effeithiau aflonyddu annerbyniol neu niwed. Gallai datblygiadau hefyd gynhyrchu amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol a ffactorau sy'n creu pwysau, gan arwain at lwybrau effaith anuniongyrchol a'r posibilrwydd o effeithiau niweidiol ar Rywogaethau Gwarchodedig. Mae'r potensial i gael effeithiau niweidiol ar Rywogaethau Gwarchodedig a chynefinoedd cysylltiedig yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 46: Presenoldeb Cynefinoedd a Rhywogaethau Gwerthfawr

Disgrifiad	Symbol
Mae’r cynnig yn cynnwys cynigion i wella cynefin ar y safle	++-
Effeithiau niweidiol bach posibl ar gynefinoedd a rhywogaethau gwerthfawr	-
Effeithiau ecolegol niweidiol sy’n debygol o fod yn arwyddocaol ar gynefinoedd a rhywogaethau gwerthfawr	--
Dim gwybodaeth ar gael ynghylch yr effeithiau ecolegol posibl	?

Maen Prawf 8(j): Crynodeb Ecolegol Safonedig (yn ymgorffori Sgoriau CNC a gwybodaeth arall)

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai datblygiadau gynhyrchu amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol a ffactorau sy'n creu pwysau, gan arwain at lwybrau effaith a'r posibilrwydd o effeithiau negyddol ar nodweddion ac integriti safle dynodedig. Mae PCC11 yn cyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n cael effeithiau niweidiol ar y nodweddion a arweiniodd at ddynodi'r safle. Yn unol â hyn, rhaid osgoi effeithiau niweidiol oni bai bod y dystiolaeth yn dangos bod manteision datblygu yn gorbwyso'r effeithiau negyddol. Mae'r potensial i gael effeithiau niweidiol ar safle dynodedig yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 47: Crynodeb Ecolegol Safonedig (yn ymgorffori Sgoriau CNC a gwybodaeth arall)

Disgrifiad	Symbol
Agosrwydd at ddynodiadau ecolegol: dim cyfyngiadau eraill wedi'u canfod	++-
Dim cyfyngiadau ecolegol hysbys	
Agosrwydd at ddynodiadau ecolegol: rhagdybir bod rhywogaethau'n bresennol	-
Dim dynodiadau ecolegol hysbys: rhagdybir bod rhywogaethau'n bresennol	--

Maen Prawf 8(k): Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC)

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae PCC11 yn gofyn bod y tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg yn cael ei gadw yn adnodd pendant i'r dyfodol. Gallai colli tir o'r fath (gan gynnwys diraddio pridd o safon uchel ar gyfer amaeth) arwain at lai o gapasiti amaethyddol a diraddio gwasanaethau ecosystem. Mae PCC11 yn gofyn bod detholiadau safle CDLlA yn rhoi cryn bwyslais ar ddiogelu tir o'r fath rhag datblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. Mae hynny'n golygu bod angen i safleoedd ymgeisiol lle collir tir ALC 1-3 ddangos angen gor-redol am ddatblygu, gan gynnwys cymryd i ystyriaeth safleoedd ymgeisiol eraill a'u sensitifrwydd amgylcheddol.

Defnyddir set ddata ALC V2 (Rhagfyr 2019), gan ddisgwyl am unrhyw ddiweddariadau i'r set ddata yn y dyfodol.

Tabl C. 48: Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC)

Disgrifiad	Symbol
ALC Dosbarth 5	++-
ALC Dosbarth 4	
ALC Dosbarth 2 neu 3	-
ALC Dosbarth 1	--
Dim Dosbarthiad ALC	

Tabl 2(d): Amcan 9 yr AC: Dŵr a Pherygl Llifogydd

Maen Prawf 9(a): Agosrwydd at Barthau Perygl Llifogydd

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae PCC11 a TAN15 yn gofyn bod datblygu yn lleihau, a rhaid iddo beidio â chynyddu, perygl llifogydd sy’n deillio o afon a/neu lifogydd arfordirol. Nid yw datblygiad bregus iawn (HVD) mewn ardaloedd risg uchel yn cydymffurfio â gofynion TAN15. Ni fernir bod unrhyw ganlyniadau llifogydd sy’n gysylltiedig â datblygiad bregus iawn yn dderbyniol. Rhaid peidio â gwneud dyraniadau yn y cynllun ar gyfer datblygiadau o’r fath, ac ni ddylid cynnig ceisiadau cynllunio ar eu cyfer. Mae’n ofynnol bod profion polisi pellach TAN15 yn cael eu bodloni ar gyfer HVD yn y Parth a Amddiffynnir a Pharth 2, tra bod gofyn i gynigion Datblygu Llai Bregus fodloni profion polisi pellach TAN 15 ar gyfer y Parth a Amddiffynnir, Parth 2 a Pharth 3. Mae Datblygiad Cydnaws â Dŵr yn cydymffurfio â TAN15 o dan bob amgylchiadau.

Mae’r rhain yn ystyriaethau pwysig iawn y mae’n rhaid eu cymryd i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol, dichonoldeb, ac yn sgîl hynny, addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau o ran cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa’r datblygiad a gynigir. Ceir diffiniadau llawn o ddatblygiadau Bregus Iawn, Llai Bregus a Chydnaws â Dŵr yn TAN15.

Tabl C. 49: Agosrwydd at Barthau Perygl Llifogydd

Datblygiad Bregus Iawn	Symbol
Ym Mharth 1	++
Yn y Parth a Amddiffynnir	?
Ym Mharth 2	??
Ym Mharth 3	--

Datblygiad Llai Bregus	Symbol
Ym Mharth 1	++
Yn y Parth a Amddiffynnir	?
Ym Mharth 2	??
Ym Mharth 3	-

Cydnaws â Dŵr	Symbol
Ym Mharth 1	++
Yn y Parth a Amddiffynnir	++
Ym Mharth 2	++
Ym Mharth 3	++

Maen Prawf 9(b): Agosrwydd at Brif Afonydd a Llynnoedd

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Gallai agosrwydd at amgylchedd dŵr arwain at effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol (yn ystod adeiladu neu weithrediad) ar ansawdd dŵr a nodweddion yr amgylchedd dŵr. Gan roi sylw i ofynion statudol, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, rhaid cymryd hyn i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol, ac yn sgîl hynny, addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 50: Agosrwydd at Brif Afonydd a Llynnoedd

Disgrifiad	Symbol
Mwy na 2km o Brif Afon neu Brif Lyn	++-
O fewn 1 - 2km i Brif Afon neu Brif Lyn	
O fewn 500m - 1km i Brif Afon neu Brif Lyn	-
O fewn 500m i Brif Afon neu Brif Lyn	--

Maen Prawf 9(c): Capasiti Cyfleustodau (Pŵer, Cyflenwad Dŵr a Draenio)

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae PCC11 yn gofyn bod awdurdodau cynllunio yn diogelu nodweddion dŵr, yn annog rheolaeth gynaliadwy ar ddŵr ac yn ystyried digonolrwydd seilwaith cyfleustodau wrth ddyrannu safleoedd datblygu a gwneud penderfyniadau cynllunio. Gallai datblygu ychwanegu at gyfyngiadau sydd eisoes yn bodoli o ran seilwaith lleol (gan arwain o bosibl at effeithiau amgylcheddol niweidiol, gan gynnwys llifogydd), neu alw am osod seilwaith newydd/wedi'i uwchraddio lle nad yw rhwydweithiau cyfleustodau eisoes yn bresennol, neu lle maen nhw'n annigonol ar gyfer datblygiad ychwanegol ar y raddfa a gynigir. Yn unol â PCC11, rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 51: Capasiti Cyfleustodau (Pŵer, Cyflenwad Dŵr a Draenio)

Disgrifiad	Symbol
Capasiti dros ben ar gael yn y cyfleustodau dŵr i wasanaethu'r datblygiad, a dim angen mesurau lliniaru	++-
Datblygu'n debygol o alw am fesurau lliniaru bach yn unig – e.e. dargyfeirio/cysylltu pibellau yn lleol	
Byddai datblygu'n creu diffyg yn y capasiti – angen mesurau lliniaru sylweddol (e.e. gwaith trin)	-
Diffyg yn y capasiti eisoes, a byddai datblygu yn gwneud hynny'n waeth	--

Tabl 2(d): Amcan 10 yr AC: Deunyddiau a Gwastraff

Maen Prawf 10(a): Agosrwydd at Ganolfannau Ailgylchu Cymunedol

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Er nad yw diffyg agosrwydd at gyfleusterau rheoli gwastraff yn gyfyngiad sylfaenol, rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 52: Agosrwydd at Ganolfannau Ailgylchu Cymunedol

Disgrifiad	Symbol
O fewn 1km i ganolfan ailgylchu cymunedol CCNPT	++-
O fewn 1 - 2km i ganolfan ailgylchu cymunedol CCNPT	
O fewn 2 - 5km i ganolfan ailgylchu cymunedol CCNPT	-
Mwy na 5km o ganolfan ailgylchu cymunedol CCNPT	--

Maen Prawf 10(b): Angen Lleoliadol am Echdynnu Mwynau

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae angen echdynnu digon o fwynau i gynnal gweithgarwch adeiladu, ac mae echdynnu yn nes at y defnyddiau terfynol yn creu llai o effeithiau amgylcheddol cysylltiedig â thrafnidiaeth. Fodd bynnag, gallai gweithio adnoddau mwynau, fel adnodd terfynadwy, heb dystiolaeth glir bod angen echdynnu ychwanegol, ddisbyddu'r adnoddau sydd ar gael yn ddiangen ac arwain at effeithiau amgylcheddol niweidiol yn lleol (sŵn, dirgryniadau, llwch, traffig, etc). Rhaid cymryd hyn i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 53: Angen Lleoliadol am Echdynnu Mwynau

Disgrifiad	Symbol
Angen lleoliadol cadarn am echdynnu mwynau wedi'i nodi	++-
Dim angen lleoliadol wedi'i nodi	?
Dim bwriad i echdynnu mwynau	0

Tabl 2(d): Amcan 11 yr AC: Creu Lleoedd Cynaliadwy

Maen Prawf 11(a): Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol neu Dir Glas

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae PCC11 yn gofyn bod awdurdodau cynllunio yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir addas a chynaliadwy, a ddatblygwyd yn flaenorol a/neu safleoedd na wneir defnydd digonol ohonynt, ar gyfer pob math o ddatblygiad. Mae hyn yn cynnwys ystyried tir a ddatblygwyd yn flaenorol a/neu safleoedd na wneir defnydd digonol ohonynt mewn aneddiadau sydd eisoes yn bodoli gyntaf, yna safleoedd ar ymylon aneddiadau, ac yna tir glas (fel sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion datblygu a nodwyd). Mae'r dull gweithredu hwn yn cydnabod manteision cynaliadwyedd adfywio tir llwyd (llai o niwed i'r amgylchedd, gwell trafnidiaeth gynaliadwy, etc) a'r ystod o effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd sy'n debygol o ddeillio o ymledu i dir Glas.

Tabl C. 54: Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol neu Dir Glas

Disgrifiad	Symbol
Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol	++-
Tir Glas	--

Maen prawf 11(b): Agosrwydd at y Rhwydwaith Teithio Llesol Presennol

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Er nad yw diffyg agosrwydd at lwybrau teithio llesol yn gyfyngiad sylfaenol, rhaid cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 55: Agosrwydd at y Rhwydwaith Teithio Llesol Presennol

Disgrifiad	Symbol
O fewn 400m i lwybr sydd eisoes yn bodoli	++-
O fewn 800m i lwybr sydd eisoes yn bodoli	
800-1200m o lwybr sydd eisoes yn bodoli	-
Mwy na 1200m o lwybr sydd eisoes yn bodoli	--

Tabl 2(d): Amcan 12 yr AC: Treftadaeth Ddiwylliannol (gan gynnwys yr iaith Gymraeg)

Maen Prawf 12(a): Agosrwydd at Henebion Cofrestredig

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Yn unol â gofynion statudol, mae PCC11 yn mynnu nad yw datblygu yn creu effeithiau niweidiol uniongyrchol ar Henebion Cofrestredig, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Rhaid cydbwyso unrhyw effeithiau anuniongyrchol neu gyd-destunol a ragwelir hefyd yn erbyn yr angen am ddatblygu, gan gymhwyso unrhyw fesurau lliniaru addas. Yn absenoldeb mesurau lliniaru (lleoliad, dyluniad, technegau adeiladu), gallai datblygu yn agos at Heneb Gofrestredig greu effeithiau annerbyniol o ran dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ohoni, neu ei gwerth diwylliannol. Mae’r potensial ar gyfer effeithiau niweidiol ar Henebion Cofrestredig yn ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa’r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i’r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 56: Agosrwydd at Henebion Cofrestredig

Disgrifiad	Symbol
Mwy na 2km o Heneb Gofrestredig	++-
O fewn 1km - 2km i Heneb Gofrestredig	
O fewn 1km i Heneb Gofrestredig	-
Mae'r safle'n cynnwys Heneb Gofrestredig	--

Maen prawf 12(b): Agosrwydd at Adeiladau Rhestredig

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Yn unol â gofynion statudol, cyflwynodd PCC11 ragdybiaeth gyffredinol o blaid cadw neu wella adeilad rhestredig a'i gyd-destun, a allai ymestyn y tu hwnt i'w gwrtil. Yn absenoldeb mesurau lliniaru (lleoliad, dyluniad, technegau adeiladu), gallai datblygu Adeilad Rhestredig neu'n agos ato gael effeithiau annerbyniol ar y ddealltwriaeth a'r gwerthfawrogiad ohono, neu ei werth pensaernïol, yn ogystal â chael effaith weledol ac ar y tirlun ehangach. Mae'r potensial ar gyfer effeithiau niweidiol ar Adeiladau Rhestredig yn ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 57: Agosrwydd at Adeiladau Rhestredig

Disgrifiad	Symbol
Mwy na 2km o Adeilad Rhestredig	++-
O fewn 1km - 2km i Adeilad Rhestredig	
O fewn 1km i Adeilad Rhestredig	-
Mae'r safle'n cynnwys Adeilad Rhestredig	--

Maen Prawf 12(c): Effeithiau ar Safleoedd Archaeolegol Pwysig

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae PCC11 yn cyflwyno rhagdybiaeth o blaid amddiffyniad ffisegol in situ gweddillion archaeolegol â phwysigrwydd cenedlaethol, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Rhaid cydbwyso unrhyw effaith uniongyrchol, anuniongyrchol neu gyd-destunol ar ardaloedd archaeolegol hefyd yn erbyn yr angen am ddatblygu, gan gymhwyso unrhyw fesurau lliniaru addas. Yn absenoldeb lliniaru (lleoliad, dyluniad, technegau adeiladu), gallai datblygu yn agos at Ardal Archaeolegol Bwysig achosi effeithiau annerbyniol o ran dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ohoni, neu ei gwerth o ran treftadaeth. Mae'r potensial o ran effeithiau niweidiol ar Ardal Archaeolegol Bwysig yn ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 58: Effeithiau ar Safleoedd Archaeolegol Pwysig

Disgrifiad	Symbol
Dim effaith yn debygol ar Safle Archaeolegol Pwysig	0
Effaith fach niweidiol yn debygol ar Safle Archaeolegol Pwysig	-
Effaith fawr niweidiol yn debygol ar Safle Archaeolegol Pwysig	--

Maen Prawf 12(d): Effaith ar Safleoedd Dynodedig

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Yn unol â'r gofynion statudol, mae PCC11 yn cyflwyno gofynion lluosog ar gyfer datblygu er mwyn osgoi effeithiau niweidiol uniongyrchol ar asedau hanesyddol sydd o bwys cenedlaethol[7] ac er mwyn cyfiawnhau'n gadarn yr angen am unrhyw ddatblygiad sy'n cael effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol. Yn absenoldeb mesurau lliniaru (lleoliad, dylunio, technegau adeiladu), gallai datblygu'n agos at ased treftadaeth dynodedig arwain at effeithiau annerbyniol o ran dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ohono neu ei werth treftadaeth. Mae'r potensial ar gyfer effeithiau niweidiol ar asedau treftadaeth dynodedig yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 59: Effaith ar Safleoedd Dynodedig

Disgrifiad	Symbol
Mân effeithiau niweidiol posibl ar y safle dynodedig	-
Effeithiau niweidiol sylweddol yn debygol ar safleoedd dynodedig – angen lliniaru	--
Dim gwybodaeth ar gael ynghylch yr effeithiau posibl	?

[7] I weld yr adroddiadau cychwynnol ar asedau hanesyddol dynodedig, dylech groesgyfeirio at Adroddiad Rhychwantu ACI CDLlA CNPT.

Maen Prawf 12(e): Ailddefnyddio Adeiladau sydd â Phwysigrwydd Hanesyddol neu Ddiwylliannol

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae ailddefnyddio adeiladau sydd â phwysigrwydd hanesyddol neu ddiwylliannol yn cydnabod cyfraniad asedau hanesyddol i amgylchedd adeiledig o safon uchel a manteision cynaliadwyedd mwyafu defnydd o asedau materol sydd eisoes yn bodoli. Gallai datblygu sy'n golygu bod adeiladau sy'n bwysig yn hanesyddol neu'n ddiwylliannol yn cael eu colli (lle byddai modd cadw ac adfer o bosibl) olygu bod effeithiau annerbyniol ar ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol, neu werthfawrogiad ohono. Mae'r potensial i ailddefnyddio adeiladau sy'n bwysig yn hanesyddol neu'n ddiwylliannol, neu effeithiau niweidiol ar eu cyd-destun neu eu ffabrig, yn ystyriaethau pwysig wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 60: Ailddefnyddio Adeiladau sydd â Phwysigrwydd Hanesyddol neu Ddiwylliannol

Disgrifiad	Symbol
Bwriad i ailddefnyddio Adeiladau sy'n Bwysig yn Hanesyddol neu'n Ddiwylliannol	++-
Mae'r cynnig yn cynnwys dymchwel Adeiladau sy'n Bwysig yn Hanesyddol neu'n Ddiwylliannol	--
Dim gwybodaeth ar gael ynghylch defnyddio neu ddymchwel Adeiladau sydd â Phwysigrwydd Hanesyddol neu Ddiwylliannol	?

Maen Prawf 12(f): Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae gwarchod y Gymraeg a gwneud mwy o ddefnydd o’r iaith yn cynnal llesiant cymdeithasol a diwylliannol. Mae’r angen am ddiogelu a chynyddu defnydd o’r Gymraeg wedi’i chrisialu mewn deddfwriaeth, ac mae Cymru’r Dyfodol 2040 a PCC11 yn gofyn bod cynllunio datblygu yn cymryd i ystyriaeth yr amodau sy’n angenrheidiol er mwyn i’r Gymraeg ffynnu (ac i atal defnydd ohoni rhag lleihau). Gallai datblygiadau sy’n creu newidiadau demograffig, datblygu economaidd neu newidiadau addysgol i gyd effeithio ar y defnydd o’r Gymraeg, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, mewn cymunedau hen a newydd. Mae cyfle hefyd i ddatblygiadau gael eu lleoli a’u dylunio mewn ffyrdd sy’n hybu defnydd o’r Gymraeg, gan gynnwys trwy ymgorffori ystyriaethau ieithyddol wrth fynd ati i greu lleoedd. Mae hon yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn sgîl hynny addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa’r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i’r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 61: Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Disgrifiad	Symbol
Byddai'r cynnig yn ychwanegu 100 neu fwy o unedau preswyl / Cynnig ar gyfer defnyddiau cyflogaeth dros 1000 msg mewn Ardal Sensitif o ran y Gymraeg[8]	--
Cynnig ar gyfer llai na 100 o unedau preswyl/Cynnig ar gyfer defnyddiau cyflogaeth o dan 1000 msg mewn Ardal Sensitif o ran y Gymraeg.	0

8 Mae CDLl CNPT yn cynnwys yr ardaloedd canlynol sy'n Sensitif o ran y Gymraeg 1) Dyffryn Aman 2) Cwm Tawe, 3) Pontardawe a 4) Chymuned y Creuant yng Nghwm Dulais. Gall y rhain gael eu haddasu yn ôl diffiniad y Cyngor ar unrhyw adeg.

Tabl 2(d): Amcan 13 yr AC: Agosrwydd at ATA9 neu Arfordir Treftadaeth

Maen prawf 13(a): Agosrwydd at ATA10 neu Arfordir Treftadaeth

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae PCC11 yn diffinio ATAoedd fel ardaloedd lleol lle mae'r tirlun yn bwysig iawn. Gallant fod yn unigryw, yn eithriadol neu'n un o nodweddion trawiadol yr ardal, ac mae'n cynghori y dylid cydnabod tirluniau penodol ar yr arfordir, a'u diogelu lle maent yn cynrychioli nodweddion pwysig lle. O ganlyniad, er mwyn diogelu a gwella tirluniau o safon uchel ac unigrywiaeth lleol, dylid diogelu nodweddion a phriodweddau ATA ac Arfordir Treftadaeth rhag effeithiau niweidiol sylweddol sy'n tanseilio'u hintegriti. Mae hon yn ystyriaeth bwysig wrth bennu cynaliadwyedd cyffredinol, ac yn sgîl hynny, addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 62: Agosrwydd at ATA10 neu Arfordir Treftadaeth

Disgrifiad	Symbol
Mwy na 2km o ATA neu Arfordir Treftadaeth	++-
O fewn 1km - 2km i ATA neu Arfordir Treftadaeth	
O fewn 1km i ATA neu Arfordir Treftadaeth	-
Safle o fewn ATA neu Arfordir Treftadaeth	--

9 Ardaloedd Tirlun Arbennig

Maen Prawf 13(b): Agosrwydd at Ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog/Ardal Wybren Dywyll

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae PCC11 yn diffinio ATAoedd fel ardaloedd lleol lle mae'r tirlun yn bwysig iawn. Gallant fod yn unigryw, yn eithriadol neu'n un o nodweddion trawiadol yr ardal, ac mae'n cynghori y dylid cydnabod tirluniau penodol ar yr arfordir, a'u diogelu lle maent yn cynrychioli nodweddion pwysig lle. O ganlyniad, er mwyn diogelu a gwella tirluniau o safon uchel ac unigrywiaeth lleol, dylid diogelu nodweddion a phriodweddau ATA ac Arfordir Treftadaeth rhag effeithiau niweidiol sylweddol sy'n tanseilio'u hintegriti. Mae hon yn ystyriaeth bwysig wrth bennu cynaliadwyedd cyffredinol, ac yn sgîl hynny, addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 63: Agosrwydd at Ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog/Ardal Wybren Dywyll

Disgrifiad	Symbol
Mwy na 2km o Ffin y Parc Cenedlaethol/ardal Wybren Dywyll	++-
O fewn 1km-2km o Ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog/ardal Wybren Dywyll	
O fewn 1km i Ffin y Parc Cenedlaethol/ardal Wybren Dywyll	--

Maen Prawf 13(c): Effeithiau Amwynder Gweledol

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae PCC11 yn diffinio ATAoedd fel ardaloedd lleol lle mae'r tirlun yn bwysig iawn. Gallant fod yn unigryw, yn eithriadol neu'n un o nodweddion trawiadol yr ardal, ac mae'n cynghori y dylid cydnabod tirluniau penodol ar yr arfordir, a'u diogelu lle maent yn cynrychioli nodweddion pwysig lle. O ganlyniad, er mwyn diogelu a gwella tirluniau o safon uchel ac unigrywiaeth lleol, dylid diogelu nodweddion a phriodweddau ATA ac Arfordir Treftadaeth rhag effeithiau niweidiol sylweddol sy'n tanseilio'u hintegriti. Mae hon yn ystyriaeth bwysig wrth bennu cynaliadwyedd cyffredinol, ac yn sgîl hynny, addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 64: Effeithiau Amwynder Gweledol

Disgrifiad	Symbol
Dim tystiolaeth o effaith bosibl niweidiol ar amwynder gweledol	0
Tystiolaeth o effaith niweidiol bosibl fach ar amwynder gweledol	
Tystiolaeth o effaith niweidiol bosibl fawr ar amwynder gweledol	--

Maen Prawf 13(d): Effaith Integreiddio/Cyfuno/Gwahanu Safleoedd Unigol

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae PCC11 yn diffinio ATAoedd fel ardaloedd lleol lle mae'r tirlun yn bwysig iawn. Gallant fod yn unigryw, yn eithriadol neu'n un o nodweddion trawiadol yr ardal, ac mae'n cynghori y dylid cydnabod tirluniau penodol ar yr arfordir, a'u diogelu lle maent yn cynrychioli nodweddion pwysig lle. O ganlyniad, er mwyn diogelu a gwella tirluniau o safon uchel ac unigrywiaeth lleol, dylid diogelu nodweddion a phriodweddau ATA ac Arfordir Treftadaeth rhag effeithiau niweidiol sylweddol sy'n tanseilio'u hintegriti. Mae hon yn ystyriaeth bwysig wrth bennu cynaliadwyedd cyffredinol, ac yn sgîl hynny, addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 65: Effaith Integreiddio/Cyfuno/Gwahanu Safleoedd Unigol

Disgrifiad	Symbol
Byddai'r cynnig yn integreiddio'n gadarn â strwythur anheddiad presennol	++-
Byddai'r cynnig yn debygol o integreiddio â strwythur anheddiad presennol	
Cynnig ar wahân i aneddiadau presennol, neu'n debygol o arwain at gyfuno (effaith fach)	-
Cynnig ar wahân i aneddiadau presennol, neu'n debygol o arwain at gyfuno (effaith fawr)	--

Maen Prawf 13(e): Effaith Datblygiad Gofodol (gan gynnwys effaith gronnol)

Goblygiadau cynaliadwyedd:

Mae PCC11 yn diffinio ATAoedd fel ardaloedd lleol lle mae'r tirlun yn bwysig iawn. Gallant fod yn unigryw, yn eithriadol neu'n un o nodweddion trawiadol yr ardal, ac mae'n cynghori y dylid cydnabod tirluniau penodol ar yr arfordir, a'u diogelu lle maent yn cynrychioli nodweddion pwysig lle. O ganlyniad, er mwyn diogelu a gwella tirluniau o safon uchel ac unigrywiaeth lleol, dylid diogelu nodweddion a phriodweddau ATA ac Arfordir Treftadaeth rhag effeithiau niweidiol sylweddol sy'n tanseilio'u hintegriti. Mae hon yn ystyriaeth bwysig wrth bennu cynaliadwyedd cyffredinol, ac yn sgîl hynny, addasrwydd dyraniadau safleoedd ymgeisiol. Byddai unrhyw effeithiau cynaliadwyedd hefyd yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhoddir ystyriaeth i'r rhain yng nghyfnodau diweddarach y broses.

Tabl C. 66: Effaith Datblygiad Gofodol (gan gynnwys effaith gronnol)

Disgrifiad	Symbol
Dim Newid o sgôr integreiddio'r safle unigol	Yr un sgorio ag ar gyfer Effaith Integreiddio/Cyfuno/Gwahanu safleoedd unigol -
Bydd dyrannu'r safle yn cael effaith gronnol	Sylw Perthnasol/sgorio